Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales

Cofnod y Trafodion
The Record of Proceedings

Dydd Mercher, 18 Gorffennaf 2012
Wednesday, 18 July 2012

Cynnwys
Contents

4 Cwestiynau i Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy
Questions to the Minister for Environment and Sustainable Development

24 Cwestiynau i'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth
Questions to the Minister for Housing, Regeneration and Heritage

44 Pwynt o Drefn
Point of Order

45 Cynnig i Atal y Rheolau Sefydlog
Motion to Suspend Standing Orders

45 Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012
The Natural Resources Body for Wales (Establishment) Order 2012

52 Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus (Diddymu Arolygiaeth Gweinyddiaeth Llysoedd Ei Mawrhydi a Bwrdd y Gwarcheidwad Cyhoeddus) 2012
The Public Bodies (Abolition of Her Majesty's Inspectorate of Courts of Administration and the Public Guardian Board) Order 2012

54 Rheoliadau Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco (Arddangos Prisiau) (Cymru) 2012
The Tobacco Advertising and Promotion (Display of Prices) Regulations 2012

56 Adroddiad Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar y Rhagolygon ar Gyfer Dyfodol y Cyfryngau yng Nghymru
The Communities, Equality and Local Government Committee's Report by the Task and Finish Group on the Future Outlook for the Media in Wales

83 Adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes: Dylanwadu ar y Broses o Foderneiddio Polisi Caffael Ewrop
The Enterprise and Business Committee's Report: Influencing the Modernisation of EU Procurement Policy

106 Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Cynnig o Ddiffyg Hyder
Welsh Liberal Democrats Debate: Motion of No Confidence

134 Cyfnod Pleidleisio
Voting Time

135 Dadl Fer: Dyslecsia ac Ysgolion: Cydweithio i Wneud Gwahaniaeth
Short Debate: Dyslexia and Schools: Working Together to Make a Difference

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynddi. Yn y golofn dde, cynhwysir trawsgrifiad o'r cyfieithu ar y pryd.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken. The right-hand column contains a transcription of the simultaneous interpretation.

Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m.gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.
The Assembly met at 1.30 p.m.with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.

The Presiding Officer: The National Assembly for Wales is now in session.

Y Llywydd: Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cwestiynau i Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy
Questions to the Minister for Environment and Sustainable Development

Rheolaeth Rhostiroedd yr Ucheldir

1. Aled Roberts: *A fydd y Gweinidog yn cynnal adolygiad o reolaeth rhostiroedd yr ucheldir wrth symud ymlaen â chreu un corff amgylcheddol yng Nghymru. OAQ(4)0154(ESD)*

Y Gweinidog Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy (John Griffiths): Rwy'n cydnabod bod ucheldir Cymru yn darparu amrywiaeth o wasanaethau ecosystem i ni, gan gynnwys rheoli llif dŵr, storio carbon a diogelu tir pori amaethyddol, ac mae'n cynnal bioamrywiaeth gyfoethog hefyd. Bydd bwrdd yr un corff amgylcheddol, unwaith y bydd yn weithredol, yn ystyried y modd y rheolir y gwasanaethau hyn.

Aled Roberts: Diolch am yr ateb. Tra bo'r corff yn cael ei ffurfio, a ydych yn fodlon â'r sefyllfa bresennol? Bûm ar Fynydd y Rhos ger Rhiwabon rhyw wythnos yn ôl, ac yr oedd y sefyllfa yno yn siomedig iawn. Mae polisïau tirfeddiannwyr ystâd Wynnstay wedi creu sefyllfa lle mae cyflwr y mynydd wedi dirywio yn sylweddol dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae angen gwneud rhywbeth cyn i'r sefyllfa waethygu.

John Griffiths: We have been very clear as a Government that important though the creation of a single body undoubtedly is—and I believe that there is a great deal of agreement on that—that is not to say that the effort to deal with all the current responsibilities of the three bodies waits for the creation of that single body. We have made it clear as a Government to the existing three bodies that we expect them to be clear about their priorities, the essential services that they have to deliver, and the work that they have to do. I expect that to continue to

Upland/Moorland Management

1. Aled Roberts: *Will the Minister hold a review of upland/moorland management as he moves forward and creates one single environmental body in Wales. OAQ(4)0154(ESD)*

The Minister for Environment and Sustainable Development (John Griffiths): I recognise that the uplands of Wales provide a range of ecosystem services, including water regulation, carbon storage and safeguarding agricultural grazing land, while also supporting rich biodiversity. The board of the single body, once it is in operation, will consider how these services are managed.

Aled Roberts: Thank you for that response. While the body is being created, are you content with the current situation? I was on Mynydd Rhos near Ruabon about a week ago and the situation there was very disappointing. The policies of the Wynnstay estate landholders have created a situation whereby the condition of the mountain has deteriorated significantly over the past two years. We have to do something before the situation deteriorates further.

John Griffiths: Rydym wedi dweud yn glir iawn fel Llywodraeth, er mor bwysig yn ddi-os yw creu un corff amgylcheddol—a chredaf fod llawer iawn o gytundeb ynghylch hynny—nid yw hynny'n golygu bod yr ymdrech i ymdrin â holl gyfrifoldebau cyfredol y tri chorff yn gorfod aros nes i'r un corff amgylcheddol hwnnw gael ei greu. Fel Llywodraeth rydym wedi egluro wrth y tri chorff presennol ein bod yn disgwyl iddynt fod yn glir ynghylch eu blaenoriaethau, y gwasanaethau hanfodol y mae'n rhaid iddynt eu darparu, a'r gwaith y mae'n rhaid iddynt

be the case up until the vesting date for the new single body.

ei wneud. Rwyf yn disgwyl i hynny barhau i fod yn wir hyd at ddyddiad breinio'r un corff amgylcheddol newydd.

Kenneth Skates: Last November, you confirmed the extension of the Clwydian range Area of Outstanding Natural Beauty to include Llangollen and the Dee valley. This move was universally welcomed by people in my constituency. What work are you doing with Denbighshire, Wrexham and Flintshire councils, as well as other bodies, to review the first few months of the extension, and look at the possibility of including the Ceiriog valley in the AONB?

Kenneth Skates: Fis Tachwedd diwethaf, bu ichi gadarnhau y byddai Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol bryniau Clwyd yn cael ei hymestyn i gynnwys Llangollen a Dyffryn Dyfrdwy. Cafodd y cam hwn ei groesawu'n gyffredinol gan bobl yn fy etholaeth. Pa waith yr ydych yn ei wneud gyda chynghorau Sir Ddinbych, Wrecsam a Sir y Fflint, yn ogystal â chyrff eraill, i adolygu misoedd cyntaf yr estyniad, ac edrych ar y posibilrwydd o gynnwys Dyffryn Ceiriog yn yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol?

John Griffiths: I thank Kenneth Skates for that question. I fully understand his commitment to this area. It is probably a little too early to say much about the developments since the extension. However, the Countryside Council for Wales is working with the local authorities, and is working on an action plan that I think will be very significant. There have already been some important initiatives, including the appointment of a project co-ordinator for the Dee valley. A draft interim statement is also being prepared by the local authorities. Therefore, there has been some really important work done since the extension. I know that the CCW is also taking forward work with regard to the Ceiriog valley.

John Griffiths: Diolch i Kenneth Skates am y cwestiwn. Rwyf yn deall yn iawn ei ymrwymiad i'r ardal hon. Mae'n debyg ei bod braidd yn gynnar i ddweud llawer am y datblygiadau ers i'r ardal gael ei hymestyn. Fodd bynnag, mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn gweithio gyda'r awdurdodau lleol, ac mae'n gweithio ar gynllun gweithredu y credaf y bydd yn bwysig iawn. Mae rhai camau pwysig eisoes wedi'u cymryd, gan gynnwys penodi cydgysylltydd prosiect ar gyfer Dyffryn Dyfrdwy. Mae datganiad drafft dros dro hefyd yn cael ei baratoi gan yr awdurdodau lleol. Felly, mae gwaith pwysig iawn wedi'i wneud ers i'r ardal gael ei hymestyn. Gwn fod Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn bwrw ymlaen â gwaith o ran Dyffryn Ceiriog hefyd.

Antoinette Sandbach: Many of the farmers who manage the landscape and habitats of upland Wales will be concerned that your Government is removing upland support. Their counterparts in England now benefit from a dedicated upland farming support package, guaranteed access to environmental stewardship schemes, and a specific upland allocation from rural development funding. Given that upland Wales contains some of our richest natural resources, including millions of tonnes of stored carbon, can you confirm whether your Government recognises that farmers will be best placed to deliver natural resource management on the ground, as outlined in the 'Sustaining a Living Wales' consultation document? Do you accept that the higher costs of managing this landscape, and its importance, deserve

Antoinette Sandbach: Bydd llawer o'r ffermwyr sy'n rheoli tirwedd a chynefinoedd yr ucheldir yng Nghymru yn pryderu bod eich Llywodraeth yn cael gwared ar gymorth ar gyfer yr ucheldir. Mae eu cymheiriaid yn Lloegr bellach yn elwa o becyn cymorth arbennig ar gyfer ffermio'r ucheldir, mynediad sicr i gynlluniau stiwardiaeth amgylcheddol, a dyraniad penodol ar gyfer yr ucheldir o arian datblygu gwledig. O ystyried bod ucheldir Cymru yn cynnwys rhai o'n hadnoddau naturiol mwyaf cyfoethog, gan gynnwys miliynau o dunelli o garbon wedi'i storio, a allwch gadarnhau a yw eich Llywodraeth yn cydnabod mai ffermwyr fydd yn y sefyllfa orau i gyflawni gwaith rheoli adnoddau naturiol ar lawr gwlad, fel yr amlinellir yn y ddogfen ymgynghori 'Cynnal Cymru Fyw'? A ydych yn derbyn bod y

better recognition and Government support?

costau uwch sydd ynghlwm wrth reoli'r dirwedd hon, a'i phwysigrwydd, yn haeddu gwell cydnabyddiaeth a chymorth gan y Llywodraeth?

John Griffiths: I assure the Member and Members in general that, of course, the Welsh Government is mindful of the importance of upland Wales and the role of farmers across Wales with regard to those uplands. We will publish a summary of the responses to the 'Sustaining a Living Wales' consultation in the autumn. In taking forward 'Sustaining a Living Wales' and, indeed, the single body, we will have a mind to ecosystem services and what the uplands of Wales can deliver.

John Griffiths: Gallaf sicrhau'r Aelod a'r Aelodau yn gyffredinol, bod Llywodraeth Cymru, wrth reswm, yn ymwybodol o bwysigrwydd ucheldir Cymru a rôl ffermwyr ledled Cymru o safbwynt yr ucheldiroedd hynny. Byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i ymgynghoriad 'Cynnal Cymru Fyw' yn yr hydref. Wrth fwrw ymlaen â 'Cynnal Cymru Fyw' ac, yn wir, â'r un corff amgylcheddol, byddwn yn ystyried gwasanaethau ecosystemau a'r hyn y gall ucheldiroedd Cymru ei gyflawni.

Rhodri Glyn Thomas: Gyda dyfodiad y corff sengl, beth yw eich bwriadau ar gyfer coedwigaeth? A ydych am weld coedwigaeth yn aros o fewn perchnogaeth gyhoeddus a beth yw eich cynlluniau a'ch gweledigaeth ar gyfer gwneud y gorau o'r cyfleoedd ar gyfer twristiaeth?

Rhodri Glyn Thomas: Minister, with the introduction of the single body, what are your intentions as regards forestry? Do you want to see forestry remaining in public ownership and what is your vision for making the best of the opportunities for tourism?

John Griffiths: Forestry in Wales has delivered a great deal since devolution. In rounded terms, it is about timber production and commercial aspects, but it is also about much else besides, including linking with Communities First, health aspects, leisure and energy. Forestry will continue to be very important as we move forward. We are very committed to the public ownership model. The single body will want to give very careful consideration to how we build on the progress already made.

John Griffiths: Mae coedwigaeth yng Nghymru wedi cyflawni llawer iawn ers datganoli. Yn gyffredinol, mae a wnelo â chynhyrchu pren ac agweddau masnachol, ond mae a wnelo â llawer mwy na hynny hefyd, gan gynnwys cysylltu â Chymunedau yn Gyntaf, agweddau iechyd, hamdden ac ynni. Bydd coedwigaeth yn parhau i fod yn bwysig iawn wrth inni symud ymlaen. Rydym wedi ymrwymo'n helaeth i'r model perchnogaeth gyhoeddus. Bydd yr un corff amgylcheddol am ystyried yn ofalus iawn sut y byddwn yn adeiladu ar y cynnydd a wnaed eisoes.

The Presiding Officer: I ask Members to be a bit briefer in their questions, because we have spent six minutes on the first question.

Y Llywydd: Rwyf yn gofyn i'r Aelodau fod ychydig yn fwy cryno â'u cwestiynau, oherwydd rydym wedi treulio chwe munud ar y cwestiwn cyntaf.

Blaenoriaethau ar gyfer Llanelli

Priorities for Llanelli

2. Keith Davies: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer Llanelli. OAQ(4)0158(ESD)*

2. Keith Davies: *Will the Minister make a statement on his priorities for Llanelli. OAQ(4)0158(ESD)*

John Griffiths: Rwyf wedi ymrwymo i gyflawni, ar draws Cymru, yr ymrwymiadau sydd wedi'u hamlinellu ar gyfer fy

John Griffiths: I am committed to fulfilling, across Wales, the commitments that are set out for my portfolio in the programme for

mhortffolio yn y rhaglen lywodraethu.

Keith Davies: Mae pori anrheoledig yn broblem enfawr yn fy etholaeth, ac mae consýrn penodol am iechyd y cyhoedd a lles yr anifeiliaid. Beth mae'r Llywodraeth yn ei wneud i fynd i'r afael â'r broblem hon?

John Griffiths: I know that these matters rightly concern Members, the Welsh Government and partner organisations. I have been working closely with my colleague, Carl Sargeant, and with Alun Davies, because there is crossover in terms of these issues, and they involve local government and the police as well as equine identification issues. We will continue with that joined-up approach. I know that the cross-party group on the horse has done some work on this and I look forward to receiving that work, which I think is now with my department, but I have not yet had sight of it.

There will be a meeting between the National Equine Welfare Council and the RSPCA with local authorities in the autumn to consider how we can move forward on these issues. That will be an important event.

Simon Thomas: Mae tlodi tanwydd yn effeithio ar nifer o gartrefi yn Llanelli, ac mae'n bosibl y bydd tlodi tanwydd yn cynyddu gyda chynigion Ofgem i godi prisoedd ynni dros y pum mlynedd nesaf. Pa drafodaethau a gawsoch â Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol ynghylch ei chynlluniau, megis y rhwymedigaeth cwmnïau ynni a'r fargen werdd, er mwyn sicrhau bod pobl Llanelli a gweddill gorllewin a chanolbarth Cymru yn cael cynnig addasiadau i'w tai er mwyn cadw gwres?

John Griffiths: Fuel poverty is a major concern for all of us. We have important programmes in place, such as Arbed and Nest, to help to address fuel poverty. We work closely with the UK Government, energy companies and the regulator and we make the points in line with our strategies regarding our concerns around fuel poverty. We have said to the UK Government that we want the new energy company obligation and government.

Keith Davies: Fly-grazing is a huge problem in my constituency, and there is particular concern about public health and animal welfare. What is the Government doing to get to grips with this problem?

John Griffiths: Gwn fod y materion hyn, yn gywir ddigon, yn achosi pryder i'r Aelodau, i Lywodraeth Cymru ac i sefydliadau sy'n bartneriaid. Rwyf wedi bod yn gweithio'n agos gyda'm cydweithiwr, Carl Sargeant, a chydag Alun Davies, oherwydd ceir gorgyffwrdd o ran y materion hyn, ac maent yn cynnwys llywodraeth leol a'r heddlu yn ogystal â materion yn ymwneud ag adnabod ceffylau. Byddwn yn parhau â'r dull cydgysylltiedig hwnnw o weithredu. Gwn fod y grŵp trawsbleidiol ar geffylau wedi gwneud rhywfaint o waith ar hyn ac edrychaf ymlaen at gael y gwaith hwnnw. Rwyf yn credu ei fod gyda fy adran erbyn hyn, ond nid wyf wedi cael golwg arno eto.

Bydd y Cyngor Cenedlaethol Lles Ceffylau a'r Gymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid yn cyfarfod ag awdurdodau lleol yn yr hydref i ystyried sut y gallwn symud ymlaen ar y materion hyn. Bydd hwnnw'n ddigwyddiad pwysig.

Simon Thomas: Minister, fuel poverty affects many homes in Llanelli, and it is possible that fuel poverty will increase with Ofgem's proposals to increase fuel prices over the next five years. What discussions have you had with the UK Government on its schemes, such as the energy company obligation and the green deal, to ensure that the people of Llanelli and the rest of Mid and West Wales are offered adaptions to their homes to retain heat?

John Griffiths: Mae tlodi tanwydd yn bryder mawr i bob un ohonom. Mae gennym raglenni pwysig ar waith, megis Arbed a Nest, i helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd. Rydym yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU, cwmnïau ynni, a'r rheoleiddiwr ac rydym yn codi'r pwyntiau yn unol â'n strategaethau am ein pryderon ynghylch tlodi tanwydd. Rydym wedi dweud wrth Lywodraeth y DU ein bod am i'r

the green deal to be shaped in a way that very much works with our Nest and Arbed programmes. The detail has yet to emerge, but I hope very much that we will see that partnership and co-operation.

rhwymedigaeth cwmnïau ynni newydd a'r fargen werdd gael eu llunio mewn modd sy'n gweithio i raddau helaeth iawn gyda'n rhaglenni Nest ac Arbed. Nid yw'r manylion wedi dod i'r amlwg hyd yma, ond rwyf yn gobeithio'n fawr iawn y byddwn yn gweld y bartneriaeth a'r cydweithredu hwnnw.

Joyce Watson: Have you had a chance yet to read the Petitions Committee's report on pollution of the Burry inlet? I appreciate that you will respond to the recommendations that we have made in due course, but, as we are about to break for recess, you will appreciate that everyone connected with the cockle industry in Carmarthenshire will want reassurances that the Welsh Government is on top of this, particularly in light of the new single body for environmental management, and that it will treat the sewage system in the Llanelli area as a priority.

Joyce Watson: A ydych wedi cael cyfle eto i ddarllen adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar lygredd yng Nghilfach Porth Tywyn? Rwyf yn sylweddoli y byddwch yn ymateb i'r argymhellion yr ydym wedi'u gwneud maes o law, ond, gan ein bod ar fin cael toriad, byddwch yn sylweddoli bod pawb sy'n gysylltiedig â'r diwydiant cocos yn Sir Gaerfyrddin am gael sicrwydd bod Llywodraeth Cymru yn ymdrin â hyn, yn enwedig yng ngoleuni'r un corff newydd a fydd yn gyfrifol am reoli'r amgylchedd, ac y bydd yn rhoi blaenoriaeth i'r system garthffosiaeth yn ardal Llanelli.

John Griffiths: I welcome the final report from the committee and I will be formally responding in due course. We had a recent report on cockle mortality and it did not show a relationship with the sewage issues in that area. However, Dŵr Cymru has announced a considerable programme of work that will deal with many of the issues, building on what it has already done, and I think that will address some of those sewage problems. I visited the area recently and I am encouraged by the amount of work that will go ahead.

John Griffiths: Croesawaf yr adroddiad terfynol gan y pwyllgor a byddaf yn ymateb yn ffurfiol maes o law. Cawsom adroddiad yn ddiweddar ar farwolaethau cocos ac nid oedd yn dangos cysylltiad â'r problemau carthffosiaeth yn yr ardal honno. Fodd bynnag, mae Dŵr Cymru wedi cyhoeddi rhaglen sylweddol o waith a fydd yn ymdrin â llawer o'r materion, gan adeiladu ar yr hyn y mae wedi'i wneud eisoes, a chredaf y bydd hynny'n mynd i'r afael â rhai o'r problemau carthffosiaeth hynny. Bûm yn ymweld â'r ardal yn ddiweddar ac rwyf wedi fy nghalonogi gan swm y gwaith a fydd yn digwydd yno.

Parthau Cadwraeth Morol

3. Elin Jones: *A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynlluniau i greu Parthau Cadwraeth Morol. OAQ(4)0149(EDS)*

John Griffiths: Rydym yng nghamau cynnar y broses hon; nid ydym wedi gwneud unrhyw benderfyniadau ar leoliad y safleoedd hyn, nac ychwaith eu maint a'u ffiniau. Byddaf yn ystyried yn ofalus yr holl ymatebion a ddaw i law yn sgîl cam cyntaf yr ymgynghoriad cyn penderfynu ar y camau nesaf.

Elin Jones: Diolchaf i'r Gweinidog am yr

Marine Conservation Zones

3. Elin Jones: *Will the Minister give an update on the plans to create Marine Conservation Zones. OAQ(4)0149(EDS)*

John Griffiths: We are at an early stage in this process; no decisions have been made on the location of the sites, or their size and boundaries. I will consider carefully all the responses received from the first phase of the consultation process before deciding on the next steps.

Elin Jones: I thank the Minister for the

ateb ac am gwrdd â chynrychiolwyr Cymdeithas Pysgotwyr Cymru amser cinio i glywed eu barn uniongyrchol fel pysgotwyr am y parthau cadwraeth morol, yr ymgynghorir arnynt ar hyn o bryd. A gytunwch bod y pysgotwyr i'w llongyfarch am gynnig cynllun amgen i daro'r balans cywir rhwng cynnal eu bywoliaeth a chynnal bioamrywiaeth ein moroedd?

response and for meeting representatives of the Welsh Fishermen's Association this lunchtime to hear their opinions directly as fishermen about these marine conservation zones, which are out to consultation at present. Would you agree that the fishermen should be congratulated on proposing an alternative scheme to strike the right balance between maintaining their livelihoods and maintaining the biodiversity of our seas?

John Griffiths: I was very pleased to attend the Welsh fishermen's event earlier. It was very interesting, and the presentation was very interesting. We are at the first stage of a three-stage consultation process. When this first stage concludes at the end of this month, we will carefully consider all the responses, including those from the Welsh Fishermen's Association. I think that it is very positive that responses are talking about the balance between ecosystem and marine environment protection and the socioeconomic impacts. To put proposals on the table is very constructive and a welcome contribution to this process.

John Griffiths: Roeddwn yn falch iawn o fynychu digwyddiad pysgotwyr Cymru yn gynharach. Roedd yn ddiddorol iawn, ac roedd y cyflwyniad yn ddiddorol iawn. Rydym yng ngham cyntaf proses ymgynghori tri cham. Pan fydd y cam cyntaf hwn yn dod i ben ddiwedd y mis, byddwn yn ystyried yr holl ymatebion yn ofalus, gan gynnwys y rhai gan Gymdeithas Pysgotwyr Cymru. Credaf ei bod yn gadarnhaol iawn bod ymatebion yn sôn am y cydbwysedd rhwng diogelu ecosystemau a'r amgylchedd morol a'r effeithiau economaidd-gymdeithasol. Mae cyflwyno cynigion i'w hystyried yn adeiladol iawn ac mae'n gyfraniad a groesewir i'r broses hon.

Joyce Watson: We did, as Elin has mentioned, receive information from the fishermen of the Llŷn peninsula today, who are as concerned as anyone else about the protection of the marine environment. They have given us information that we will consider and they want assurances that that information will be considered as part of this consultation process. Are you prepared to give that assurance?

Joyce Watson: Fel y mae Elin wedi sôn, cawsom wybodaeth gan bysgotwyr Pen Llŷn heddiw, sydd mor bryderus ag unrhyw un arall am ddiogelu'r amgylchedd morol. Maent wedi rhoi gwybodaeth inni y byddwn yn ei hystyried ac maent am gael sicrwydd y bydd y wybodaeth honno'n cael ei hystyried yn rhan o'r broses ymgynghori hon. A ydych yn barod i roi'r sicrwydd hwnnw?

John Griffiths: Yes. All contributions to this first-stage consultation exercise will be very carefully considered before any next steps are announced.

John Griffiths: Ydw. Bydd pob cyfraniad i'r ymarfer ymgynghori hwn yng ngham cyntaf y broses yn cael ei ystyried yn ofalus iawn cyn i unrhyw gamau pellach gael eu cyhoeddi.

Antoinette Sandbach: After reflecting on the impact of your proposals for highly protected marine conservation zones in terms of the way in which they have been received, do you regret that, by not choosing to issue the consultation in Welsh, and also by making it a highly technical, 350-page document with no summary, your Government has made it incredibly difficult for the ordinary people who work and live in

Antoinette Sandbach: Ar ôl myfyrio ynghylch effaith eich cynigion ar gyfer parthau cadwraeth morol gwarchodedig iawn o ran yr ymateb a gafwyd iddynt, a yw'n edifar gennych bod y ffaith ichi ddewis peidio â chyhoeddi'r ymgynghoriad yn Gymraeg, a'r ffaith ichi ei gwneud yn ddogfen dechnegol iawn, 350 tudalen, heb unrhyw grynodeb, yn golygu bod eich Llywodraeth wedi ei gwneud yn hynod o

these coastal communities to respond to the consultation in any detailed way, and that, as a result, your consultation risks being quite an elitist exercise, which means that organisations need to have some sort of in-house or specialist support in order to be able to reply to it in full?

anodd i'r bobl gyffredin sy'n gweithio ac yn byw yn y cymunedau arfordirol hyn i ymateb yn fanwl i'r ymgynghoriad, ac o ganlyniad, bod perygl i'ch ymgynghoriad fod yn ymarfer eithaf elitaidd, sy'n golygu bod angen i sefydliadau fod â rhyw fath o gymorth mewnol neu arbenigol er mwyn gallu ymateb iddo yn llawn?

1.45 p.m.

John Griffiths: We have had a number of important events around Wales, including an important event here today, which have shown that local communities have understood the proposals and have responded in the way that we would have wanted, in addressing the ecological and socioeconomic impacts.

John Griffiths: Rydym wedi cael nifer o ddigwyddiadau pwysig ledled Cymru, gan gynnwys digwyddiad pwysig yma heddiw, sydd wedi dangos bod cymunedau lleol wedi deall y cynigion ac wedi ymateb yn y modd y byddem wedi dymuno, trwy fynd i'r afael â'r effeithiau ecolegol ac economaidd-gymdeithasol.

Antoinette Sandbach: I know that my office has been contacted, and so I have been asked for help in formulating responses, as have members of my staff, because of these complications. I know that similar contact has been made with the Member for Aberconwy. Would you make a commitment that, for any further steps that you may take, following on in phase 2, the documentation will be issued in Welsh and will contain a summary, so that people can easily and quickly understand what the proposals are? Will you also make this as accessible as possible? Some of the consultation documents have been published on the internet only and have not been posted in local public libraries for people to see.

Antoinette Sandbach: Gwn fod y cymhlethdodau hyn wedi peri i rywrai gysylltu â'm swyddfa, i ofyn am gymorth i lunio ymatebion, a chysylltwyd hefyd ag aelodau o'm staff. Gwn fod cyswllt tebyg wedi'i wneud â'r Aelod dros Aberconwy. A wnewch chi ymrwymo, yn achos unrhyw gamau pellach y gallech eu cymryd, yn dilyn ymlaen yng ngham 2, y bydd y dogfennau'n cael eu cyhoeddi yn Gymraeg ac y byddant yn cynnwys crynodeb, fel y gall pobl ddeall y cynigion yn hawdd ac yn gyflym? A wnewch chi hefyd wneud hyn mor hygyrch ag sy'n bosibl? Mae rhai o'r dogfennau ymgynghori wedi eu cyhoeddi ar y rhyngrwyd yn unig ac nid ydynt wedi'u rhoi mewn llyfrgelloedd cyhoeddus lleol i bobl eu gweld.

John Griffiths: As a Government, we are always open to ideas on how we can improve processes, including those surrounding consultation exercises. We want to make sure that we exhibit best practice as far as Welsh language issues are concerned.

John Griffiths: Fel Llywodraeth, rydym bob amser yn agored i syniadau ynghylch sut y gallwn wella prosesau, gan gynnwys prosesau sy'n gysylltiedig ag ymarferion ymgynghori. Rydym am wneud yn siŵr ein bod yn dangos arfer gorau o ran materion yn ymwneud â'r Gymraeg.

William Powell: Minister, it was also my privilege this lunchtime to attend the launch event for 'Striking a Balance: Protecting our Seas and Fishermen's Livelihoods', hosted by our colleague, Elin Jones, at which you were also present. Just after you had to leave the launch to come to this place, a number of fishermen issued an invitation to spend some time with them and to become familiar with

William Powell: Weinidog, roedd yn fraint cael mynychu'r digwyddiad a gynhaliwyd amser cinio heddiw i lansio 'Striking a Balance: Protecting our Seas and Fishermen's Livelihoods', a gynhaliwyd gan ein cydweithiwr, Elin Jones, yr oeddech yn bresennol ynddo hefyd. Yn syth ar ôl ichi orfod gadael y lansiad i ddod i'r lle hwn, estynnodd nifer o bysgotwyr wahoddiad i

their situation, particular up off the Llŷn peninsula. Given the importance that you attributed in an earlier answer to seeing things for yourself on the ground, would you consider—diary commitments allowing—taking some time, without prejudice, to accept an invitation from Jim Evans and his colleagues to hear their concerns at first hand and in their comfort zone on one of their boats?

dreulio rhywfaint o amser gyda hwy a dod yn gyfarwydd â'u sefyllfa, yn enwedig i fyny oddi ar Ben Llŷn. O ystyried y pwysigrwydd yr ydych wedi'i briodoli mewn ateb cynharach i weld pethau drosoch eich hun ar lawr gwlad, a fyddech yn ystyried—os bydd ymrwymiadau yn eich dyddiadur yn caniatáu—cymryd amser, heb ragfarnu dim, i dderbyn gwahoddiad gan Jim Evans a'i gydweithwyr i glywed eu pryderon o lygad y ffynnon, ac yn rhywle y maent yn teimlo'n gyfforddus, ar un o'u cychod?

John Griffiths: I can assure the Member that I am much committed to getting around Wales, meeting local communities and understanding issues. We would have to think carefully about how any invitations would fit in with due process and the consultation exercise.

John Griffiths: Gallaf sicrhau'r Aelod fy mod wedi ymrwymo'n bendant iawn i deithio o gwmpas Cymru, gan gyfarfod â chymunedau lleol a deall problemau. Byddai'n rhaid inni feddwl yn ofalus ynghylch sut y byddai unrhyw wahoddiadau yn cyd-fynd â'r drefn briodol a'r ymarfer ymgynghori.

William Powell: Thank you very much for that answer, Minister. One particular zone that has been a focus for opposition is that proposed around Bardsey island. As you are aware, Bardsey island has been a centre for pilgrimage for many centuries, with a Celtic monastery that reaches back to the fifth century. In respect of a place that the bards called the road to heaven and the gate to paradise, what specific steps would you be willing to take to ensure that any proposed marine conservation zone does not impact adversely on its potential for the growing area of faith-based tourism?

William Powell: Diolch yn fawr iawn am yr ateb hwnnw, Weinidog. Un parth penodol sydd wedi bod yn destun gwrthwynebiad yw'r un a gynigir o gwmpas Ynys Enlli. Fel y gwyddoch, mae Ynys Enlli wedi bod yn ganolfan ar gyfer pererindod ers canrifoedd lawer, gyda mynachlog Geltaidd sy'n dyddio'n ôl i'r bumed ganrif. O ran lle y cyfeiriai'r beirdd ato fel y ffordd i'r nefoedd a'r gât i baradwys, pa gamau penodol y byddech yn fodlon eu cymryd i sicrhau nad yw unrhyw barth cadwraeth morol arfaethedig yn cael effaith andwyol ar ei botensial ar gyfer twristiaeth sy'n seiliedig ar ffydd, sy'n faes sy'n tyfu?

John Griffiths: It would not be appropriate for me to comment on any particular site that may become a marine conservation zone. However, we want to understand the socioeconomic impacts, which very much include recreation and the tourism aspects, as well as fishing.

John Griffiths: Ni fyddai'n briodol imi wneud sylwadau ar unrhyw safle penodol a allai ddod yn barth cadwraeth morol. Fodd bynnag, rydym am ddeall yr effeithiau economaidd-gymdeithasol, sydd yn sicr yn cynnwys hamdden a'r agweddau ar dwristiaeth, yn ogystal â physgota.

Hybu Effeithlonrwydd Ynni

4. Christine Chapman: *Beth yw blaenoriaethau'r Gweinidog ar gyfer hybu effeithlonrwydd ynni dros y deuddeg mis nesaf. OAQ(4)0150(ESD)*

Promoting Energy Efficiency

4. Christine Chapman: *What are the Minister's priorities for promoting energy efficiency over the next twelve months. OAQ(4)0150(ESD)*

John Griffiths: During the next 12 months, my priorities include promoting energy

John Griffiths: Yn ystod y 12 mis nesaf, mae fy mlaenoriaethau'n cynnwys hyrwyddo

efficiency in the domestic and non-domestic sectors, reducing energy bills and consumption, and continuing work to tackle fuel poverty. Our Nest and Arbed programmes will contribute to this, and the Welsh Government has recently announced additional funding to both programmes.

effeithlonrwydd ynni yn y sector domestig a'r sector annomestig, lleihau biliau ynni a'r defnydd o ynni, a pharhau â gwaith i fynd i'r afael â thlodi tanwydd. Bydd ein rhaglenni Nest ac Arbed yn cyfrannu at hyn, ac yn ddiweddar mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cyllid ychwanegol i'r ddwy raglen.

Christine Chapman: I very much welcome that, Minister. In fact, I was delighted to visit recently the new Cynon Taf housing development in Ger y Mynydd in my constituency, where all the homes have been built to ensure that they meet Welsh Government objectives regarding sustainability and energy efficiency. However, the technology is still relatively new and unfamiliar. Minister, what support could the Welsh Government give to housing associations, their residents and the wider public to ensure that there is a greater understanding of how energy can be used efficiently and effectively?

Christine Chapman: Rwyf yn croesawu hynny'n fawr iawn, Weinidog. Yn wir, roeddwn wrth fy modd o ymweld yn ddiweddar â datblygiad tai newydd Cynon Taf yn Ger y Mynydd yn fy etholaeth i, lle y mae'r cartrefi i gyd wedi'u hadeiladu gan sicrhau eu bod yn bodloni amcanion Llywodraeth Cymru o ran cynaliadwyedd ac effeithlonrwydd ynni. Fodd bynnag, mae'r dechnoleg yn dal i fod yn gymharol newydd ac anghyfarwydd. Weinidog, pa gymorth y gallai Llywodraeth Cymru ei roi i gymdeithasau tai, eu preswylwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol er mwyn sicrhau bod gwell dealltwriaeth o sut y gellir defnyddio ynni yn effeithlon ac yn effeithiol?

John Griffiths: I very much thank Christine Chapman for that supplementary question, which I think is important and significant. When I have visited Arbed schemes, I have heard at first hand from residents that there are difficulties with pre-setting heating systems and so on. It can sometimes be quite complicated, and you hear about windows being opened when houses are too warm rather than the heating being turned down, and that is not exactly the effect that we want.

John Griffiths: Rwyf yn diolch yn fawr iawn i Christine Chapman am y cwestiwn atodol hwnnw, sy'n bwysig ac yn arwyddocaol yn fy marn i. Wrth ymweld â chynlluniau Arbed, rwyf wedi clywed yn uniongyrchol gan breswylwyr bod anawsterau â gosod amseryddion ar systemau gwresogi ymlaen llaw ac yn y blaen. Weithiau gall fod yn eithaf cymhleth, a byddwch yn clywed am ffenestri yn cael eu hagor pan fydd tai yn rhy gynnes yn hytrach na bod y gwres yn cael ei droi i lawr, ac nid dyna'r effaith yr ydym am ei chael mewn gwirionedd.

Some housing associations have told me that it is their clear view that it is their residents who are best able to advise other residents, and they have in fact 'trained', if that is the right word, or informed their residents so that they can provide that assistance to others. I think that it would be useful for us to look at what practice is taking place and perhaps to spread best practice throughout Wales.

Mae rhai cymdeithasau tai wedi dweud wrthyf eu bod o'r farn bendant mai eu preswylwyr sydd yn y sefyllfa orau i gynghori preswylwyr eraill, a'u bod mewn gwirionedd wedi 'hyfforddi', os dyna'r gair cywir, neu roi gwybodaeth i'w preswylwyr fel y gallant ddarparu'r cymorth hwnnw i eraill. Credaf y byddai'n ddefnyddiol inni edrych ar yr arferion sy'n bodoli a lledaenu arfer gorau ledled Cymru, efallai.

Llyr Huws Gruffydd: Mae nifer o gyrff, o Gomisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd i Gyfeillion y Ddaear, wedi galw am gynnydd sylweddol yn y rhaglen Arbed o

Llyr Huws Gruffydd: Several organisations, from the Climate Change Commission for Wales to Friends of the Earth, have called for a substantial increase to the scale of the

ran ei maint, ond mae'r targed o 7,500 o dai yn y cam cyntaf bellach yn 4,800 o dai yn yr ail gam. Oni ddylai'r Llywodraeth felly roi mwy o flaenoriaeth i ariannu'r rhaglen oherwydd nifer fawr y manteision sy'n dod yn ei sgîl, ac nid arbed ynni yn unig?

Arbed programme, but the target of 7,500 houses in the first phase is now 4,800 houses in the second. Should the Government not therefore give more priority to funding the scheme given the many benefits that come in its wake, and not just energy conservation?

John Griffiths: Arbed is a real priority for the Welsh Government, which is why we recently announced additional funding. With the first phase of Arbed, we were quite successful in levering in money from outwith the Welsh Government, and we hope to do that with Arbed 2 also. Whenever I have met with the energy companies, for example, I have made it clear that we expect to see that happening, and we will continue working to that end.

John Griffiths: Mae Arbed yn flaenoriaeth go iawn i Lywodraeth Cymru, a dyna pam yr ydym wedi cyhoeddi cyllid ychwanegol yn ddiweddar. Gyda cham cyntaf Arbed, roeddem yn eithaf llwyddiannus wrth ddenu arian o'r tu allan i Lywodraeth Cymru, ac rydym yn gobeithio gwneud hynny gydag Arbed 2 hefyd. Pryd bynnag yr wyf wedi cyfarfod â'r cwmnïau ynni, er enghraifft, rwyf wedi egluro ein bod yn disgwyl gweld hynny'n digwydd, a byddwn yn parhau i weithio i'r perwyl hwnnw.

Llyr Huws Gruffydd: Diolch am yr ateb, ond rwy'n siomedig yn y diffyg uchelgais. Rydym yn gwybod am y cyllid a neilltuwyd yng Nghymru, wrth gwrs, ac rydym newydd glywed bod Llywodraeth yr Alban yn sôn am wario £2 biliwn ar wella effeithlonrwydd ynni tai yno. Felly, os yw arbed ynni a thlodi tanwydd yn gymaint o flaenoriaeth ag y dywedwch eu bod, pam mae rhaglen Arbed yn crebachu?

Llyr Huws Gruffydd: Thank you for that answer, but I am disappointed by the lack of ambition. We know of the budget allocated in Wales, of course, and we have just heard that the Scottish Government is talking of spending £2 billion on home energy efficiency there, Therefore, if conserving energy and fuel poverty are as much of a priority as you say they are, why is the Arbed programme shrinking?

John Griffiths: I do not accept that the programme is shrinking. There are issues about the work that has already been done and the work yet to be embarked upon. We realise that we need to scale up substantially, and we are making a lot of effort in that direction. I think that comparisons with Scotland are difficult for all sorts of reasons, including population and the respective funding arrangements.

John Griffiths: Nid wyf yn derbyn bod y rhaglen yn crebachu. Ceir materion sy'n ymwneud â'r gwaith sydd eisoes wedi'i wneud a'r gwaith sydd eto i'w wneud. Rydym yn sylweddoli bod angen inni gynyddu'r gwaith yn sylweddol, ac rydym yn gwneud llawer o ymdrech i'r cyfeiriad hwnnw. Credaf fod cymariaethau â'r Alban yn anodd am bob math o resymau, gan gynnwys poblogaeth a'r trefniadau ariannu yn y ddwy wlad.

Ynni Adnewyddadwy

Renewable Energy

5. Jenny Rathbone: *Sut y mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo Cymru fel canolfan ragoriaeth ar gyfer ynni adnewyddadwy. OAQ(4)0153(ESD)*

5. Jenny Rathbone: *How is the Welsh Government promoting Wales as a centre of excellence for renewable energy. OAQ(4)0153(ESD)*

John Griffiths: 'Energy Wales: A Low Carbon Transition' sets out the Government's approach to harnessing our energy potential to create a sustainable, low-carbon economy for Wales.

John Griffiths: Mae 'Ynni Cymru: Newid Carbon Isel' yn egluro dull y Llywodraeth o fanteisio ar ein potensial o ran ynni i greu economi gynaliadwy, carbon isel i Gymru.

Jenny Rathbone: Well, that is very reassuring. I am concerned, however, that the experts are predicting that the electricity supply will be insufficient to meet demand in less than six years, and the UK Government has a really muddled policy on promoting renewable energy. If you were to ask somebody on the No. 57 bus, they would definitely not be able to tell you. Having talked to one of the largest manufacturing companies based in Wales, I am concerned that it is reporting that the planning regime in Scotland is more attractive than that in Wales. How can we change that so that we do indeed make Wales a centre of excellence for renewable energy?

Jenny Rathbone: Wel, mae hynny'n galonogol iawn. Rwyf yn pryderu, fodd bynnag, bod yr arbenigwyr yn rhagweld na fydd y cyflenwad trydan yn ddigon i ateb y galw mewn llai na chwe mlynedd, ac mae gan Lywodraeth y DU bolisi dryslyd iawn ynghylch hyrwyddo ynni adnewyddadwy. Pe baech yn gofyn i rywun ar fws rhif 57, mae'n siŵr gennyf na fyddent yn gallu dweud wrthych beth yw'r polisi. Ar ôl siarad ag un o'r cwmnïau gweithgynhyrchu mwyaf yng Nghymru, rwyf yn pryderu am ei fod yn adrodd bod y gyfundrefn gynllunio yn yr Alban yn fwy deniadol na'r gyfundrefn yng Nghymru. Sut y gallwn newid hynny i sicrhau bod Cymru yn wir yn dod yn ganolfan ragoriaeth ar gyfer ynni adnewyddadwy?

John Griffiths: I thank Jenny Rathbone for the supplementary question. It is important that we create the environment in Wales that will allow us to maximise our renewable energy potential, and 'Energy Wales' is very much about that and the strategic approach.

John Griffiths: Diolch i Jenny Rathbone am y cwestiwn atodol. Mae'n bwysig inni greu'r amgylchedd yng Nghymru a fydd yn ein galluogi i fanteisio i'r eithaf ar ein potensial o ran ynni adnewyddadwy, ac mae a wnelo 'Ynni Cymru' â hynny ac â sicrhau'r dull gweithredu strategol i raddau helaeth iawn.

When it comes to planning and consent issues, we are taking forward a lot of work to understand the issues, and in due course, we will have a planning Bill. There is also much that we can do outwith legislation to take forward further improvement. Therefore, we are very much in the process of working through these issues and taking forward improvements.

Rydym yn gwneud llawer o waith i ddeall y problemau o ran cynllunio a chaniatâd, a maes o law bydd gennym Fil cynllunio. Mae llawer y gallwn ei wneud hefyd y tu hwnt i ddeddfwriaeth i fwrw ymlaen â gwelliannau pellach. Felly, rydym yn sicr wrthi'n gweithio trwy'r materion hyn ac yn bwrw ymlaen â gwelliannau.

One thing that is very relevant to this debate is the further consenting powers that we need the UK Government to devolve to Wales so that we can make a better offer to the industry and communities in Wales.

Un peth sy'n berthnasol iawn i'r ddadl hon yw'r pwerau cydsynio pellach y mae angen i Lywodraeth y DU eu datganoli i Gymru fel y gallwn gyflwyno cynnig gwell i'r diwydiant ac i gymunedau yng Nghymru.

Angela Burns: Minister, it is not just the planning issues that we need to look at. A key Welsh Government pledge for its fourth term was that it would gear up training providers to ensure that capacity exists to deliver a future workforce with the skills that are needed to support marine energy investments. While those are still in their infancy, what seems to be happening at the moment, especially on renewables, is that we are bringing in people from elsewhere to help to

Angela Burns: Weinidog, nid dim ond ar y materion cynllunio y mae angen inni edrych. Un addewid allweddol a wnaed gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ei phedwerydd tymor oedd y byddai'n paratoi darparwyr hyfforddiant i sicrhau bod capasiti'n bodoli i ddarparu gweithlu yn y dyfodol sydd â'r sgiliau y mae eu hangen i gefnogi buddsoddiadau mewn ynni morol. Gan mai newydd ddechrau y mae'r gwaith hwnnw, ymddengys mai'r hyn sy'n digwydd ar hyn o

set up the companies that we have. What plans do you have and what discussions have you had with the Minister for education to ensure that we are skilled up appropriately in this sector?

bryd, yn enwedig mewn perthynas ag ynni adnewyddadwy, yw ein bod yn dod â phobl o fannau eraill i helpu i sefydlu'r cwmnïau sydd gennym. Pa gynlluniau sydd gennych a pha drafodaethau yr ydych wedi'u cael â'r Gweinidog addysg i sicrhau bod gennym y sgiliau priodol yn y sector hwn?

John Griffiths: I thank Angela Burns for the question. We work across Government to address the issues surrounding renewable energy, including those relating to having the necessary skills. ConstructionSkills Wales does some important work in this regard. Marine energy offers great potential for Wales because of the resource that we have. We have done a lot of work with business and academia to take forward our understanding of what is necessary to realise that potential properly, and we will continue with that collaborative effort.

John Griffiths: Diolch i Angela Burns am y cwestiwn. Rydym yn gweithio ar draws y Llywodraeth i fynd i'r afael â'r materion sy'n gysylltiedig ag ynni adnewyddadwy, gan gynnwys materion yn ymwneud â chael y sgiliau angenrheidiol. Mae Sgiliau Adeiladu Cymru yn gwneud gwaith pwysig yn y cyswllt hwn. Ceir potensial mawr ar gyfer ynni morol yng Nghymru oherwydd yr adnoddau sydd gennym. Rydym wedi gwneud llawer o waith gyda busnesau a'r byd academaidd i ddatblygu ein dealltwriaeth o'r hyn sy'n angenrheidiol er mwyn gwireddu'r potensial hwnnw'n iawn, a byddwn yn parhau â'r ymdrech gydweithredol honno.

Bethan Jenkins: Weinidog, pan gyhoeddodd eich rhagflaenydd gynllun i drawsnewid yr M4 yn briffordd hydrogen rai blynyddoedd yn ôl, roeddwn yn meddwl ei fod yn briodol iawn o ystyried y ganed dyfeisiwr y gell hydrogen, William Robert Grove, yn Abertawe. A allwch roi diweddariad inni ynghylch sut y mae'r datblygiadau hynny yn mynd yn eu blaen?

Bethan Jenkins: Minister, when your predecessor announced the scheme to transform the M4 into a hydrogen highway some years ago, I thought that it was appropriate bearing in mind that the inventor of the hydrogen cell, William Robert Grove, was born in Swansea. Can you give us an update on how those developments are progressing?

John Griffiths: We remain committed to placing Wales at the forefront of technological, scientific and energy development. We have a science policy and a scientific adviser to the Government, which are important steps forward. As regards technologies such as hydrogen cells, there is much development yet to take place, and we want to understand how that potential can be realised in commercial and other ways in Wales. Perhaps I could write to the Member with further details.

John Griffiths: Rydym wedi ymrwymo o hyd i sicrhau bod Cymru ar flaen y gad o safbwynt datblygiadau technolegol a gwyddonol a datblygiadau'n ymwneud ag ynni. Mae gan y Llywodraeth bolisi gwyddoniaeth a chynghorydd gwyddonol, ac mae'r rhain yn gamau pwysig ymlaen. O ran technolegau megis celloedd hydrogen, mae llawer o waith datblygu i'w wneud eto, ac rydym am ddeall sut y gellir gwireddu'r potensial hwnnw mewn ffyrdd masnachol a ffyrdd eraill yng Nghymru. Efallai y gallwn ysgrifennu at yr Aelod gyda manylion pellach.

Ynni Dŵr

Hydro Energy

6. Alun Ffred Jones: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau i ddatblygu ynni dwr a'i gyswllt â'r grid yng Nghymru. OAQ(4)0160(ESD)*

6. Alun Ffred Jones: *Will the Minister make a statement on plans to develop hydro energy and its link to the grid in Wales. OAQ(4)0160(ESD)*

John Griffiths: Mae ynni dŵr yn bwysig i gynhyrchu ynni adnewyddadwy. Mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio ag Asiantaeth yr Amgylchedd i wella'r broses gydsynio ar gyfer cynlluniau ynni dŵr yn y dyfodol ac mae'n gwneud hyn drwy ddiweddaru 'Canllaw Arfer Da Ynni Dŵr'. Ar hyn o bryd, mae gweithredwyr y rhwydwaith dosbarthu'n gweithio gydag Ofgem a'r rhanddeiliaid er mwyn gwella'r broses o gysylltu â'r grid.

John Griffiths: Hydro power is important to renewable energy generation. The Welsh Government is working with the Environment Agency to improve the planning consent process for future hydro applications, and it is doing so by updating the 'Hydropower Good Practice Guidelines'. Distribution network operators are currently working with Ofgem and stakeholders to improve the grid connection process.

Alun Ffred Jones: Diolch am yr ateb. Mae'n dda gennyf glywed hynny. Mae potensial mawr i ddatblygu cynlluniau ynni dŵr ar hyd a lled ucheldir Cymru, ond mae problem ddifrifol o ran diffyg llinellau addas a chostau uchel cysylltu rhai o'r cynlluniau hynny â'r rhwydwaith yn lleol. Os ydych o ddifrif am ddatblygu'r adnodd gwerthfawr hwn, beth rydych wedi'i wneud i ddwyn pwysau ar y cwmnïau sy'n rheoli'r grid yn lleol i ddatrys y broblem ddifrifol hon?

Alun Ffred Jones: Thank you for that response. It is good to hear. There is huge potential to develop hydropower schemes throughout the Welsh uplands, but there is a significant problem in the lack of appropriate lines and the high cost of connecting some of those schemes with the local network. If you are serious about developing this valuable resource, what have you done to bring pressure to bear on the companies that manage the grid locally to solve this serious problem?

2.00 p.m.

John Griffiths: We make appropriate points to the grid, distribution companies and the UK Government, because many of these issues are within their province rather than that of the Welsh Government. However, we have some really important recent developments like the establishment of the organisation Community Energy Wales, and Ynni'r Fro is significant in terms of the advice and support it can give. There are also grants of up to £30,000 in terms of preparatory work, and capital grants of up to £300,000. There are many issues around these matters that need to be addressed, and we need to see improvement. We will continue to make the relevant points to those with the ability to address these issues, as well as doing what we can as a Welsh Government.

John Griffiths: Rydym yn cyflwyno pwyntiau priodol i'r grid, y cwmnïau dosbarthu a Llywodraeth y DU, gan fod llawer o'r materion hyn yn rhan o'u meysydd gwaith hwy yn hytrach na meysydd gwaith Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, rydym wedi gweld rhai datblygiadau pwysig iawn yn ddiweddar, megis sefydlu Ynni Cymunedol Cymru, ac mae Ynni'r Fro yn bwysig o ran y cyngor a'r cymorth y gall eu rhoi. Ceir grantiau hefyd o hyd at £30,000 i wneud gwaith paratoi, a grantiau cyfalaf o hyd at £300,000. Mae angen mynd i'r afael â llawer o broblemau'n gysylltiedig â'r materion hyn, ac mae angen inni weld gwelliant. Byddwn yn parhau i gyflwyno'r pwyntiau perthnasol i'r sawl sydd â'r gallu i fynd i'r afael â'r materion hyn, yn ogystal â gwneud popeth yn ein gallu fel Llywodraeth Cymru.

Russell George: Minister, the Penarth hydro scheme near Newtown is a great example of a community-led renewable energy generation project, and funding for such projects is always important. I am pleased that Powys County Council has offered loan support to

Russell George: Weinidog, mae cynllun ynni dŵr Penarth ger y Drenewydd yn enghraifft wych o brosiect cynhyrchu ynni adnewyddadwy a arweinir gan y gymuned, ac mae cyllid ar gyfer prosiectau o'r fath bob amser yn bwysig. Rwyf yn falch bod Cyngor

get this project off the ground. The other component that is needed is sector expertise. In 'Energy Wales: A Low Carbon Transition' the Government has made a clear commitment to ensure that Wales's communities have access to advice, expertise and funding, to co-operatively harness appropriate and proven renewable technologies such as hydro. How do you envisage the Government delivering this commitment over the next four years?

Sir Powys wedi cynnig cymorth ar ffurf benthyciad i sefydlu'r prosiect hwn. Yr elfen arall y mae ei hangen yw arbenigedd yn y sector. Yn 'Ynni Cymru: Newid Carbon Isel', mae'r Llywodraeth wedi gwneud ymrwymiad clir i sicrhau bod gan gymunedau Cymru fynediad i gyngor, arbenigedd a chyllid, i fanteisio ar y cyd ar dechnolegau adnewyddadwy priodol sydd wedi'u profi megis ynni dŵr. Sut yr ydych yn rhagweld y bydd y Llywodraeth yn gwireddu'r ymrwymiad hwn yn ystod y pedair blynedd nesaf?

John Griffiths: As I said, Ynni'r Fro is a very important organisation and provides just that technical advice and assistance, including grants for preparatory work and capital costs. Community Energy Wales, as a new organisation on the scene, can also contribute a great deal.

John Griffiths: Fel y dywedais, mae Ynni'r Fro yn gorff pwysig iawn ac mae'n darparu'r union gyngor a chymorth technegol hwnnw, gan gynnwys grantiau ar gyfer gwaith paratoi a chostau cyfalaf. Gall Ynni Cymunedol Cymru, fel corff newydd yn y maes, gyfrannu cryn dipyn hefyd.

Lles Anifeiliaid

7. Rebecca Evans: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn gwella lles anifeiliaid yng Nghymru. OAQ(4)0155(ESD)*

John Griffiths: I am committed to raising the standards of animal welfare for all animals kept in Wales through the animal health and welfare strategy.

Rebecca Evans: Although most animal sanctuaries in Wales are invaluable resources in terms of animal welfare, resources in these places can be overwhelmed and capability can be surpassed. There is certainly no framework to protect vulnerable animals, and their carers might find that they are in over their heads. Will you consider investigating this issue with a view to introducing a framework, including registration and minimum standards for sanctuaries?

John Griffiths: I know that the Animal Welfare Network Wales report will be very significant in this respect. The Welsh Government did, in fact, send an observer to each working group meeting, so we will continue to work closely with the animal welfare network once that report has been

Animal Welfare

7. Rebecca Evans: *Will the Minister make a statement on how the Welsh Government is improving animal welfare in Wales. OAQ(4)0155(ESD)*

John Griffiths: Rwyf wedi ymrwymo i godi safonau lles anifeiliaid ar gyfer yr holl anifeiliaid a gaiff eu cadw yng Nghymru trwy'r strategaeth iechyd a lles anifeiliaid.

Rebecca Evans: Er bod y rhan fwyaf o lochesi anifeiliaid yng Nghymru yn adnoddau amhrisiadwy o ran sicrhau lles anifeiliaid, gall y mannau hyn gael eu llethu gan waith a gall y galw fod yn fwy na'r gallu i'w fodloni. Yn sicr nid oes fframwaith i warchod anifeiliaid sy'n agored i niwed, a gall y sawl sy'n gofalu amdanynt weld eu bod yn wynebu problemau na allant ymdopi â hwy. A wnewch chi ystyried ymchwilio i'r mater hwn gyda'r bwriad o gyflwyno fframwaith, gan gynnwys proses gofrestru a safonau gofynnol ar gyfer llochesi?

John Griffiths: Gwn y bydd adroddiad Rhwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru yn bwysig iawn yn y cyswllt hwn. Yn wir, anfonodd Llywodraeth Cymru sylwedydd i bob un o gyfarfodydd y gweithgor, felly byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r rhwydwaith lles anifeiliaid pan fydd yr

published.

Janet Finch-Saunders: Minister, fly-grazing in Wales has now been described as being at crisis point, with many horses being left at sites ranging from private and public agricultural land to places such as Cardiff Airport. Last year, the Royal Society for the Prevention of Cruelty to Animals received 2,000 animal welfare complaints in relation to stray horses. There is a theory that many of the perpetrators of this illegal activity feel themselves to be above the law. I note the comments that you made to the Member for Llanelli about the three departments here being joined up, but how are you getting that message across to local authorities? Are you providing additional resources to help them to deal effectively with this action in the immediate term, and are you looking at providing resources to deal with this and ensure that this horrendous illegal activity comes to a halt immediately?

John Griffiths: What we have to do is understand the reality of the situation in terms of the need to join up on this. That is why I said earlier that, along with my colleagues Carl Sargeant and Alun Davies, I am looking at all of the issues involved. I know that Carl Sargeant has written to all local authorities in Wales and liaised with the police, so we do have that joined-up response. The RSPCA and the National Equine Welfare Council will be part of the meeting that I mentioned earlier, which will take place in the autumn. So, there is a concentration of minds and a focus on these issues, and I am sure that we will see further progress.

Jocelyn Davies: Minister, are you aware that, in its report last year, the RSPCA found that young people who were prosecuted for animal cruelty cases were mainly boys between the ages of 15 and 17. Sadly, very few expressed any remorse, and half already have a history of serious crime. What action is your Government taking to identify

adroddiad hwnnw wedi'i gyhoeddi.

Janet Finch-Saunders: Weinidog, mae'r sefyllfa o ran pori anghyfreithlon yng Nghymru bellach wedi'i disgrifio fel sefyllfa argyfyngus, gyda llawer o geffylau'n cael eu gadael ar safleoedd yn amrywio o dir amaethyddol preifat a chyhoeddus i leoedd megis Maes Awyr Caerdydd. Y llynedd, daeth 2,000 o gwynion yn ymwneud â lles anifeiliaid i law'r Gymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid mewn perthynas â cheffylau strae. Un theori yw bod llawer o'r troseddwyr sy'n cyflawni'r gweithgarwch anghyfreithlon hwn yn teimlo eu bod uwchlaw'r gyfraith. Nodaf y sylwadau a wnaed gennych i'r Aelod dros Lanelli am gydgysylltu'r tair adran yn y fan hon, ond sut yr ydych yn cyfleu'r neges honno i awdurdodau lleol? A ydych yn darparu adnoddau ychwanegol i'w helpu i ymdrin yn effeithiol â'r gwaith hwn yn y tymor byr, ac a ydych yn ceisio darparu adnoddau i ymdrin â hyn a sicrhau bod y gweithgarwch anghyfreithlon erchyll hwn yn dod i ben ar unwaith?

John Griffiths: Yr hyn y mae'n rhaid inni ei wneud yw deall realiti'r sefyllfa o ran yr angen i weithio mewn modd cydgysylltiedig ar y mater hwn. Dyna pam y dywedais yn gynharach fy mod i, ynghyd â'm cydweithwyr Carl Sargeant ac Alun Davies, yn edrych ar bob un o'r materion dan sylw. Gwn fod Carl Sargeant wedi ysgrifennu at bob awdurdod lleol yng Nghymru ac wedi trafod â'r heddlu, felly rydym wedi sicrhau'r ymateb cydgysylltiedig hwnnw. Bydd y Gymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid a'r Cyngor Cenedlaethol Lles Ceffylau yn rhan o'r cyfarfod y soniais amdano'n gynharach, a gynhelir yn yr hydref. Felly, mae llawer o bobl yn dod at ei gilydd ac yn canolbwyntio ar y materion hyn, ac rwyf yn siŵr y byddwn yn gweld cynnydd pellach.

Jocelyn Davies: Weinidog, a ydych yn gwybod i'r Gymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid, yn ei hadroddiad y llynedd, ddarganfod mai bechgyn rhwng 15 a 17 oed yn bennaf oedd y bobl ifanc a oedd yn cael eu herlyn am achosion o greulondeb yn erbyn anifeiliaid. Yn anffodus, ychydig iawn ohonynt oedd yn mynegi unrhyw edifeirwch,

animals at risk and how do you intend to raise awareness of animal welfare issues among young people?

ac roedd gan hanner ohonynt hanes o gyflawni troseddau difrifol eisoes. Pa gamau y mae eich Llywodraeth yn eu cymryd i adnabod anifeiliaid sydd mewn perygl, a sut yr ydych yn bwriadu codi ymwybyddiaeth am faterion yn ymwneud â lles anifeiliaid ymhlith pobl ifanc?

John Griffiths: We work closely with a range of key partner organisations, including those that I have mentioned, such as the RSPCA and our animal welfare networks in Wales. Therefore, we want to continue to work closely with them, and if they prioritise that particular aspect of animal welfare, then we will be pleased to see what further progress might be made.

John Griffiths: Rydym yn gweithio'n agos gydag ystod o sefydliadau partner allweddol, gan gynnwys y rhai yr wyf wedi sôn amdanynt, megis y Gymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid a'n rhwydweithiau lles anifeiliaid yng Nghymru. Felly, rydym am barhau i weithio'n agos gyda hwy, ac os byddant yn blaenoriaethu'r agwedd benodol honno ar les anifeiliaid, byddwn yn falch o weld pa gynnydd pellach y gellid ei wneud.

Statws Baner Las

8. David Rees: *Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i gefnogi ein traethau lleol i ennill a chadw'r statws baner las. OAQ(4)0159(ESD)*

John Griffiths: I am committed to achieving a good-quality water environment in Wales. Keep Wales Tidy, which administers the blue flag scheme, has received £320,000 core funding from the Welsh Government for 2012-13. We work closely with a wide range of stakeholders to deliver water quality improvements for Wales.

David Rees: Thank you for that answer, Minister. The introduction of the new EU bathing water directive will make it difficult for many of our beaches to gain blue flag status, as the criteria used becomes more stringent. The recent poor weather conditions will have a major impact upon that process and upon the ability of our fabulous beaches, including Aberafan, to be declared as having blue flag status. In fact, Aberafan lost its flag last year, given that it failed the last test, which followed heavy rain and increased river flows. Will you make representations to the EU to consider making concessions on this process and to take into consideration the impact of the heavy rain that we have seen this summer and the consequent flow of surplus water and all that that brings with it?

Blue Flag Status

8. David Rees: *What action has the Welsh Government taken to support our local beaches to gain and maintain blue flag status. OAQ(4)0159(ESD)*

John Griffiths: Rwyf wedi ymrwymo i sicrhau amgylchedd dŵr o ansawdd da yng Nghymru. Mae Cadwch Gymru'n Daclus, sy'n gweinyddu'r cynllun baner las, wedi cael £320,000 o gyllid craidd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2012-13. Rydym yn gweithio'n agos gydag ystod eang o randdeiliaid i sicrhau gwelliannau i ansawdd dŵr yng Nghymru.

David Rees: Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Bydd cyflwyno cyfarwyddeb dŵr ymdrochi newydd yr UE yn ei gwneud yn anodd i lawer o'n traethau ennill statws baner las, wrth i'r meini prawf a ddefnyddir fynd yn fwy llym. Bydd y tywydd gwael a gafwyd yn ddiweddar yn cael effaith sylweddol ar y broses honno ac ar allu ein traethau gwych, gan gynnwys Aberafan, i ennill statws baner las. Yn wir, bu i draeth Aberafan golli ei faner y llynedd, gan ei fod wedi methu'r prawf diwethaf a gynhaliwyd ar ôl glaw trwm a chynnydd yn y llif o afonydd. A wnewch chi gyflwyno sylwadau i'r UE gan ofyn iddo ystyried gwneud rhai consesiynau mewn perthynas â'r broses hon ac ystyried effaith y glaw trwm a welwyd yn ystod yr haf eleni a'r cynnydd dilynol yn llif y dŵr a phopeth arall

a ddaw yn sgîl hynny?

John Griffiths: We are pleased with the quality of bathing water in Wales. In 2011, 98% of designated waters satisfied the requirements of the directive and 93% satisfied the more stringent guideline standards, which was the best ever performance. Therefore, we are very pleased with that. However, I understand what David Rees says about the recent heavy rainfall. We want to work with the Environment Agency and Keep Wales Tidy to understand fully the implications of these weather events. The higher requirements of the directive come at the end of the 2015 season, therefore we want to ensure that we have the highest possible standards and the best picture to present to the world for those new requirements.

John Griffiths: Rydym yn fodlon ag ansawdd y dŵr ymdrochi yng Nghymru. Yn 2011, bu i 98% o'r dyfroedd a ddynodwyd fodloni gofynion y gyfarwyddeb, a bu i 93% ohonynt fodloni safonau'r canllawiau mwy llym, sef y perfformiad gorau a gafwyd erioed. Felly, rydym yn hapus iawn â hynny. Fodd bynnag, rwyf yn deall yr hyn y mae David Rees yn ei ddweud am y glaw trwm a gafwyd yn ddiweddar. Rydym am weithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd a Cadw Cymru'n Daclus i ddeall yn llawn goblygiadau'r digwyddiadau hyn o ran y tywydd. Cyflwynir gofynion uwch y gyfarwyddeb ddiwedd tymor 2015, felly rydym am sicrhau bod gennym y safonau uchaf posibl a'r darlun gorau i'w gyflwyno i'r byd yng nghyswllt y gofynion newydd hynny.

Darren Millar: There are some fantastic blue flag beaches in my constituency, such as Abergele, Pensarn and Colwyn Bay, and there are other beaches that have been working towards blue flag status. However, we have had some very heavy rainfall this summer, which can cause problems for people in being able to maintain that status. We also had an incident with raw sewage being flushed into the River Clwyd, which caused some problems on Rhyl beach. What assessment have you made of the weather-related issues and the impact of heavy rainfall on blue flag status across Wales?

Darren Millar: Ceir rhai traethau baner las gwych yn fy etholaeth i, megis Abergele, Pensarn a Bae Colwyn, a cheir traethau eraill sydd wedi bod yn gweithio tuag at ennill statws baner las. Fodd bynnag, rydym wedi cael glaw trwm iawn yn ystod yr haf eleni, a gall hynny achosi problemau i bobl o ran gallu cynnal y statws hwnnw. Cafwyd digwyddiad hefyd wrth i garthion heb eu trin gael eu gollwng i Afon Clwyd, a achosodd rai problemau ar draeth y Rhyl. Pa asesiad yr ydych wedi'i wneud o'r problemau sy'n gysylltiedig â'r tywydd a'r effaith y mae glaw trwm wedi'i chael ar y statws baner las ar draws Cymru?

John Griffiths: We will work with the Environment Agency and Keep Wales Tidy to understand the impact of recent weather events and how they impact on blue flag status and to determine what measures we can take to address those issues.

John Griffiths: Byddwn yn gweithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd a Cadw Cymru'n Daclus er mwyn deall yr effaith y mae'r tywydd diweddar wedi'i chael a'r modd y mae'n effeithio ar y statws baner las, er mwyn penderfynu pa gamau y gallwn eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion hynny.

Amddifynfeydd Llifogydd

Flood Defences

9. Mohammad Asghar: *Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i wella amddiffynfeydd llifogydd yng Nghymru. OAQ(4)0148(ESD)*

9. Mohammad Asghar: *What is the Minister doing to improve flood defences in Wales. OAQ(4)0148(ESD)*

John Griffiths: The Welsh Government is investing over £140 million in flood and

John Griffiths: Bydd Llywodraeth Cymru yn buddsoddi dros £140 miliwn mewn rheoli

coastal erosion risk management over the life of this Assembly, which includes over £100 million in directly improving protection for at-risk communities across Wales.

perygl llifogydd ac erydu arfordirol yn ystod cyfnod y Cynulliad hwn, sy'n cynnwys dros £100 miliwn ar waith uniongyrchol i wella diogelwch cymunedau sydd mewn perygl ledled Cymru.

Mohammad Asghar: Thank you very much for that reply. The 2012 'A Climate Change Risk Assessment for Wales' states that one of the greatest risks to Wales from climate change come from the increases in coastal and inland flooding, increases in wave heights and storm surges, which present a threat to many low-lying areas of Wales, including the Severn estuary. What is the Welsh Government doing to ensure that our sea defences are adequately maintained and strengthened to meet the challenge presented by climate change and to protect these areas from the threat of unexpected flooding?

Mohammad Asghar: Diolch yn fawr iawn ichi am yr ymateb hwnnw. Mae asesiad risg Cymru ar y newid yn yr hinsawdd a gyhoeddwyd yn 2012 yn nodi mai rhai o'r pethau sy'n peri'r risg fwyaf i Gymru o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd yw'r cynnydd mewn llifogydd arfordirol a llifogydd mewndirol, a'r cynnydd yn uchder y tonnau ac ymchwyddiadau storm, sy'n fygythiad i lawer o ardaloedd isel yng Nghymru, gan gynnwys aber afon Hafren. Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau bod ein hamddiffynfeydd môr yn cael eu cynnal a'u cadw a'u cryfhau'n ddigonol i ymateb i'r her a gyflwynir gan y newid yn yr hinsawdd a gwarchod yr ardaloedd hyn rhag bygythiad llifogydd annisgwyl?

John Griffiths: The projections in relation to climate change are very much built into our strategies, including our national strategy on flood risk management, and that also applies to our partner organisations, such as the Environment Agency and local authorities. I launched the completion of a stage of the important sea defence project at Borth in north Wales a few months ago, for example. A lot of work is taking place around Wales and we will continue to invest in our flood defences and continue to implement our national strategy.

John Griffiths: Rydym yn sicr yn cynnwys y rhagamcanion mewn perthynas â'r newid yn yr hinsawdd yn ein strategaethau, gan gynnwys ein strategaeth genedlaethol ar reoli perygl llifogydd, ac mae hynny hefyd yn berthnasol i'n sefydliadau partner, megis Asiantaeth yr Amgylchedd ac awdurdodau lleol. Bûm mewn digwyddiad i ddathlu cwblhau rhan o'r prosiect amddiffynfeydd môr pwysig yn y Borth yn y gogledd ychydig fisoedd yn ôl, er enghraifft. Mae llawer o waith yn cael ei wneud o amgylch Cymru, a byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein hamddiffynfeydd llifogydd ac yn parhau i weithredu ein strategaeth genedlaethol.

Elin Jones: For the record, Minister, Borth is not in north Wales.

Elin Jones: Er gwybodaeth, Weinidog, nid yw Borth yn y gogledd.

Mae nifer o agweddau o'r llifogydd yn ardal Aberystwyth wedi cael sylw dros yr wythnosau diwethaf, ac fe wnaethoch chi ymweld â rhai o'r cartrefi yn yr ardal honno a gafodd eu heffeithio. A wnewch chi gymryd y cyfle i ymuno â fi i longyfarch Meddygfa Ystwyth? Ar y dydd Sadwrn, bu llifogydd trwy holl adeilad y feddygfa. Erbyn y dydd Llun, roedd y feddygfa wedi adleoli ac wedi ailgychwyn y gwasanaeth i gleifion yn ddi-dor. Gweithiodd y staff yn ddiflino i sicrhau nad oedd eu cleifion yn cael eu heffeithio gan

There are a number of aspects of the recent flooding in the Aberystwyth area that have been covered over the past few weeks, and you visited some of the homes in the area that were affected. Will you take this opportunity to join me in congratulating the Ystwyth surgery? On the Saturday, the surgery saw flood waters come through the entire building. By the Monday, the surgery had relocated and seamlessly restarted its services to patients. The staff worked tirelessly to ensure that their patients were not affected by

y llifogydd. A wnewch chi ymuno â mi yn eu llongyfarch ar y gwaith hwnnw?

John Griffiths: I would very much like to join Elin Jones in congratulating the surgery. We talk about the consequences of flooding, which can be severe. We hope that—to the extent that flooding is not totally preventable—when it does occur, the response is everything that communities would expect and want from service providers. That is a clear example of the sort of reaction that we would all like to see.

the floods. Will you join me in congratulating them on that work?

John Griffiths: Rwyf yn awyddus iawn i ymuno ag Elin Jones wrth longyfarch y feddygfa. Rydym yn sôn am ganlyniadau llifogydd, sy'n gallu bod yn ddifrifol. Rydym yn gobeithio—i'r graddau nad oes modd atal llifogydd yn gyfan gwbl—pan fydd llifogydd yn digwydd y bydd yr ymateb gan ddarparwyr gwasanaeth gystal ag y byddai cymunedau'n ei ddisgwyl ac yn ei ddymuno. Mae hon yn enghraifft amlwg o'r math o ymateb y byddem i gyd yn hoffi ei weld.

Lles Anifeiliaid

10. Arweinydd yr Wrthblaid (Andrew R.T. Davies): *Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd er mis Mai 2011 i roi sylw i faterion lles anifeiliaid yng Nghanol De Cymru. OAQ(4)0156(ESD)*

John Griffiths: I am committed to raising the standards of animal welfare for all animals kept in Wales through the animal health and welfare strategy.

Andrew R.T. Davies: Minister, thank you for that answer. One of the key things that improves animal welfare in South Wales Central is the livestock market in the town of Cowbridge. The future of that market is under consideration at the moment. You have the field of planning within your portfolio as well as animal health. What view does your department, and you as Minister in particular, take on the facilities created by livestock markets, especially modern livestock markets, and supporting their retention for rural communities?

John Griffiths: As a Government, we understand the issues around livestock markets and their importance to the industry in Wales and local communities. However, with regard to any planning matter, given my responsibilities, it would not be proper for me to make a statement on those issues, here or elsewhere.

Julie Morgan: I welcome yesterday's announcement on the new control of dogs

Animal Welfare

10. The Leader of the Opposition (Andrew R.T. Davies): *What steps has the Welsh Government taken since May 2011 to address issues of animal welfare in South Wales Central. OAQ(4)0156(ESD)*

John Griffiths: Rwyf wedi ymrwymo i wella safonau lles anifeiliaid ar gyfer yr holl anifeiliaid a gaiff eu cadw yng Nghymru trwy'r strategaeth iechyd a lles anifeiliaid.

Andrew R.T. Davies: Weinidog, diolch ichi am yr ateb hwnnw. Un o'r prif bethau sy'n gwella lles anifeiliaid yng Nghanol De Cymru yw'r farchnad da byw yn nhref y Bont-faen. Mae dyfodol y farchnad honno'n cael ei ystyried ar hyn o bryd. Mae maes cynllunio yn rhan o'ch portffolio yn ogystal ag iechyd anifeiliaid. Beth yw barn eich adran, a'ch barn chi fel Gweinidog yn arbennig, am y cyfleusterau a grëwyd gan farchnadoedd da byw, yn enwedig marchnadoedd da byw modern, a beth yw eich barn am gefnogi eu cadw ar agor er lles cymunedau gwledig?

John Griffiths: Fel Llywodraeth, rydym yn deall y materion sy'n ymwneud â marchnadoedd da byw a'u pwysigrwydd i'r diwydiant yng Nghymru ac i gymunedau lleol. Fodd bynnag, o ran unrhyw fater ynghylch cynllunio, o gofio fy nghyfrifoldebau, ni fyddai'n briodol imi wneud datganiad ynghylch y materion hynny, yn y fan hon neu yn rhywle arall.

Julie Morgan: Rwyf yn croesawu'r cyhoeddiad a gafwyd ddoe ar y Bil newydd

Bill, which is important for the South Wales Central area. I congratulate the Minister on having it included in the legislative programme. Is the Minister aware that Royal Mail and the Communications Workers Union are launching today, at the start of the summer holiday—which is always a difficult time when there is less regularity in what people are doing in their homes—an appeal for dog owners to help keep dogs under control when postmen or women call in the school holidays. There were 217 attacks in the last 12 months in Wales and a considerable number of those were in the South Wales Central area.

ynghylch rheoli cŵn, sy'n bwysig i ardal Canol De Cymru. Rwyf yn llongyfarch y Gweinidog ar y ffaith i'r Bil gael ei gynnwys yn y rhaglen ddeddfwriaethol. A yw'r Gweinidog yn ymwybodol bod y Post Brenhinol ac Undeb y Gweithwyr Cyfathrebu heddiw, ar ddechrau gwyliau'r haf—sydd bob amser yn gyfnod anodd pan fydd llai o gysondeb o ran yr hyn y mae pobl yn ei wneud yn eu cartrefi—yn lansio apêl i berchnogion cŵn helpu i gadw cŵn dan reolaeth pan fydd y sawl sy'n dosbarthu'r post yn galw yn ystod gwyliau'r ysgol. Cafwyd 217 o ymosodiadau yn ystod y 12 mis diwethaf yng Nghymru, ac roedd nifer sylweddol o'r rheini yn ardal Canol De Cymru.

John Griffiths: I thank Julie Morgan for that important supplementary question. I am pleased that we are taking forward dog control legislation, as announced by the First Minister yesterday. It will be important and beneficial to Wales. I am aware of the Communications Workers Union's campaign. I met with the Communications Workers Union on this issue and I hope that householders will take account of that campaign and behave accordingly. Far too many postmen and women have been attacked, along with other visitors to private property. It must stop.

John Griffiths: Diolch i Julie Morgan am y cwestiwn atodol pwysig hwnnw. Rwyf yn falch ein bod yn cyflwyno deddfwriaeth ynghylch rheoli cŵn, fel y cyhoeddwyd gan y Prif Weinidog ddoe. Bydd yn bwysig ac yn fuddiol i Gymru. Rwyf yn ymwybodol o ymgyrch Undeb y Gweithwyr Cyfathrebu. Cyfarfûm ag Undeb y Gweithwyr Cyfathrebu ynghylch y mater hwn, a gobeithiaf y bydd deiliaid tai yn ystyried yr ymgyrch honno ac yn ymddwyn yn unol â hynny. Mae llawer gormod o bobl sy'n dosbarthu'r post, ynghyd ag ymwelwyr eraill ag eiddo preifat, wedi dioddef ymosodiadau. Rhaid rhoi stop ar hynny.

Un Corff Amgylcheddol

11. William Powell: *A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am greu'r Un Corff Amgylcheddol newydd. OAQ(4)0157(ESD)*

John Griffiths: The first Order to establish the new body will be debated later today in this Plenary session.

William Powell: Thank you, Minister, for that answer. In my role as Chair of the Petitions Committee, I recently received a letter from the chief executive of the Countryside Council for Wales, stating that the organisation was at this time unable to consider any further the proposal to extend the Gower area of outstanding natural beauty because of the focus placed currently on transitional arrangements to move to the new

Single Environment Body

11. William Powell: *Will the Minister provide an update on the creation of the new Single Environment Body. OAQ(4)0157(ESD)*

John Griffiths: Caiff y Gorchymyn cyntaf i sefydlu'r corff newydd ei drafod yn ddiweddarach heddiw yn y Cyfarfod Llawn.

William Powell: Diolch, Weinidog, am yr ateb hwnnw. Yn fy rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau, cefais lythyr yn ddiweddar gan brif weithredwr Cyngor Cefn Gwlad Cymru, yn dweud nad oedd y sefydliad ar hyn o bryd yn gallu ystyried ymhellach y cynnig i ymestyn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Gŵyr oherwydd y pwyslais a roddir ar hyn o bryd ar drefniadau pontio i symud i'r corff

body.

newydd.

2.15 p.m.

I was, as were other members of the committee, somewhat alarmed by the underlying message that that conveyed. Will you please reassure us that the work of CCW and, indeed, the other bodies, will not be in some form of paralysis during the coming months in the lead-up to the creation of a single body?

Roeddwn i, fel aelodau eraill y pwyllgor, wedi dychryn braidd gan y neges sylfaenol yr oedd hynny'n ei chyfleu. A wnewch chi ein sicrhau na fydd y Cyngor Cefn Gwlad ac, yn wir, y cyrff eraill, yn anweithredol yn ystod y misoedd nesaf yn y cyfnod sy'n arwain at greu'r un corff amgylcheddol?

John Griffiths: I am very pleased to give Members that assurance. I have been very clear with the current three bodies that it must be business as usual, as much as possible, as we make the transition to the new single body. However, we all have to understand that a great deal of time and effort of the staff of the current organisations is involved in moving towards the single body. Therefore, what I, as the Minister, have said clearly to them is that they must prioritise and make sure that, in terms of essential work, there is absolutely no slippage, and that remains the case.

John Griffiths: Rwyf yn falch iawn o roi'r sicrwydd hwnnw i'r Aelodau. Rwyf wedi dweud yn glir iawn wrth y tri chorff presennol bod yn rhaid iddynt barhau i weithio fel arfer, cymaint ag sy'n bosibl, wrth inni bontio i'r un corff amgylcheddol newydd. Fodd bynnag, rhaid i bob un ohonom ddeall bod llawer iawn o amser ac ymdrech staff y sefydliadau presennol yn ymwneud â symud tuag at yr un corff amgylcheddol. Felly, yr hyn yr wyf i, fel y Gweinidog, wedi'i ddweud yn glir wrthynt yw bod yn rhaid iddynt flaenoriaethu a sicrhau, o ran gwaith hanfodol, nad yw eu perfformiad yn gostwng dim, ac mae hynny'n dal yn wir.

Cwestiynau i'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth
Questions to the Minister for Housing, Regeneration and Heritage

Sain Ffagan

1. Mark Drakeford: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol yr Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan. OAQ(4)0147(HRH)*

The Minister for Housing, Regeneration and Heritage (Huw Lewis): I thank the Member for Cardiff West for his question. The St Fagans: National History Museum redevelopment will boost the Welsh economy and ensure that the museum maintains its place at the heart of Wales's cultural life. It will offer much-improved visitor facilities and tell many more stories about Wales. A decision on the redevelopment's heritage lottery funding application is expected imminently.

Mark Drakeford: Thank you, Minister, for that answer. Last year was an excellent year for National Museum Wales, with 1.69

St Fagans

1. Mark Drakeford: *Will the Minister make a statement on the future of the Museum of Welsh Life at St Fagans. OAQ(4)0147(HRH)*

Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth (Huw Lewis): Diolch i'r Aelod dros Orllewin Caerdydd am ei gwestiwn. Bydd y gwaith o ailddatblygu Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru yn hwb i economi Cymru ac yn sicrhau bod yr amgueddfa yn parhau'n ganolog i fywyd diwylliannol Cymru. Bydd yn cynnig cyfleusterau llawer gwell i ymwelwyr ac yn adrodd llawer mwy o straeon am Gymru. Disgwylir penderfyniad yn fuan ynghylch cais y prosiect ailddatblygu am gyllid gan gronfa dreftadaeth y loteri.

Mark Drakeford: Diolch, Weinidog, am yr ateb hwnnw. Roedd y llynedd yn flwyddyn ardderchog i Amgueddfa Cymru, wrth iddi

million visitors—a record-breaking number. However, we can do even more than that, as you have said. If the Making History project goes ahead in the way that we want it to, as you have said, it will bring enormous economic as well as cultural benefits. Do you agree that we need to work hard to make sure that the local community benefits from that economic impetus, and that the development in St Fagans needs to be managed in a way that brings those benefits while managing the impact that those extra visitors, who we want to see, will have on local facilities?

groesawu 1.69 miliwn o ymwelwyr—y nifer fwyaf erioed. Fodd bynnag, gallwn wneud hyd yn oed mwy na hynny, fel yr oeddech yn dweud. Os bydd y prosiect Creu Hanes yn mynd rhagddo fel yr ydym am iddo wneud, fel yr oeddech yn sôn, bydd yn sicrhau manteision sylweddol o safbwynt yr economi yn ogystal â diwylliant. A ydych yn cytuno bod angen inni weithio'n galed i wneud yn siŵr bod y gymuned leol yn elwa o'r hwb economaidd hwnnw, ac yn cytuno bod angen rheoli'r datblygiad yn Sain Ffagan mewn modd sy'n sicrhau'r manteision hynny, gan reoli hefyd yr effaith y bydd yr ymwelwyr ychwanegol, y byddwn am eu gweld, yn ei chael ar gyfleusterau lleol?

Huw Lewis: Quite so. The Member for Cardiff West is quite right to point out that last year was indeed a bumper year for National Museum Wales. There were over 1.69 million visits. It was the best-ever year, which I believe is a result of both the museum's professionalism and a ringing endorsement of the Welsh Government's free admissions policy. The changes to St Fagans: National History Museum are planned to be considerable, in terms of scale and scope. I take on board your points. It is very important that the local community—the community of St Fagans—is consulted properly and that we investigate every possible way in which local people as well as the institution itself can benefit from this considerable step change in terms of the provision at St Fagans.

Huw Lewis: Yn sicr. Mae'r Aelod dros Orllewin Caerdydd yn iawn i nodi bod y llynedd wedi bod yn flwyddyn ragorol yn wir i Amgueddfa Cymru. Cafwyd dros 1.69 miliwn o ymweliadau. Y llynedd oedd y flwyddyn orau erioed, a chredaf fod hynny wedi digwydd o ganlyniad i broffesiynoldeb yr amgueddfa a chymeradwyaeth bendant iawn o bolisi mynediad am ddim Llywodraeth Cymru. Mae disgwyl i'r newidiadau a wneir i Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru fod yn sylweddol, o ran eu maint a'u cwmpas. Rwyf yn derbyn eich pwyntiau. Mae'n bwysig iawn ymgynghori'n briodol â'r gymuned leol—cymuned Sain Ffagan—ac mae'n bwysig iawn ein bod yn ymchwilio i bob ffordd bosibl o sicrhau y gall pobl leol yn ogystal â'r sefydliad ei hun elwa o'r newid sylweddol hwn o ran y ddarpariaeth yn Sain Ffagan.

Suzy Davies: Minister, I know that you support the idea of maximum access to cultural experiences, and David Anderson's comments in the *Western Mail* today remind us of the role of culture in social justice. How can you ensure that there is greater collaboration between the well-supported national museums and the more vulnerable local museums across Wales, to ensure that that maximum access is not the preserve of our seven flagship institutions?

Suzy Davies: Weinidog, gwn eich bod yn cefnogi'r syniad o sicrhau'r lefel uchaf posibl o fynediad i brofiadau diwylliannol, ac mae sylwadau David Anderson yn y *Western Mail* heddiw yn ein hatgoffa o'r rôl y mae diwylliant yn ei chwarae yng nghyswllt cyfiawnder cymdeithasol. Sut y gallwch sicrhau mwy o gydweithredu rhwng yr amgueddfeydd cenedlaethol sy'n cael cefnogaeth dda a'r amgueddfeydd lleol mwy bregus a geir ar draws Cymru, er mwyn sicrhau na chaiff y lefel uchaf honno o fynediad ei chyfyngu i'n saith sefydliad mwyaf blaenllaw?

Huw Lewis: I endorse David Anderson's comments wholeheartedly. There is a

Huw Lewis: Hoffwn ategu sylwadau David Anderson yn llwyr. Mae gan Lywodraeth

leadership role here, in terms of the Welsh Government's activity within the broader community of Wales, and the museums and galleries nationally, and the way in which we all interact with local museums, which may be local-authority supported or may be entirely voluntary in their nature—some of which hold extremely interesting and valuable collections up and down Wales. That level of dialogue is one that I am encouraging. I would like to think that that interaction between the national and the local is better than it has ever been. We must have a mind, of course, to support through tough times some very dedicated bands, quite often, of volunteers as they struggle to keep facilities open and look after their collections. I am alive to this agenda, and I know that there is expectation upon my officials and National Museum Wales to open out in terms of spreading expertise, sharing leadership, sharing collections and sharing advice.

Cymru rôl arweiniol i'w chwarae yn y fan hon o safbwynt ei gweithgarwch yn y gymuned ehangach yng Nghymru, o safbwynt amgueddfeydd ac orielau yn genedlaethol, ac o safbwynt y modd yr ydym i gyd yn rhyngweithio ag amgueddfeydd lleol, a allai fod yn cael cefnogaeth gan awdurdodau lleol neu a allai fod yn gwbl wirfoddol eu natur—mae gan rai ohonynt gasgliadau hynod o ddiddorol a gwerthfawr ar hyd a lled Cymru. Rwyf yn annog trafodaethau ar y lefel honno. Hoffwn feddwl bod y rhyngweithio hwnnw rhwng sefydliadau cenedlaethol a sefydliadau lleol yn well nag a fu erioed. Rhaid inni fod yn awyddus, wrth gwrs, i gefnogi rhai grwpiau ymroddedig iawn o wirfoddolwyr, yn eithaf aml, wrth iddynt ymdrechu i gadw cyfleusterau ar agor a gofalu am eu casgliadau mewn cyfnod anodd. Rwyf yn effro i'r agenda honno, a gwn fod disgwyl i'm swyddogion ac i Amgueddfa Cymru fod yn fwy agored o ran lledaenu arbenigedd a rhannu arweinyddiaeth, casgliadau a chyngor.

The Leader of Plaid Cymru (Leanne Wood): Minister, St Fagans: National History Museum is the second most popular visitor attraction in Wales, behind the Wales Millennium Centre, and deservedly so. With the Olympics due to start next week with the first women's football match, what steps has your Government taken to ensure that London and the surrounding area are not the only winners in the anticipated tourist boost? Furthermore, what help is being provided to Welsh tourist attractions to ensure that they can benefit from the thousands of foreign visitors expected to be in the United Kingdom over the next month and a half?

Arweinydd Plaid Cymru (Leanne Wood): Weinidog, Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru yw'r atyniad mwyaf poblogaidd ond un i ymwelwyr yng Nghymru, ar ôl Canolfan Mileniwm Cymru, a hynny'n haeddiannol. Gan y bydd y Gemau Olympaidd yn dechrau yr wythnos nesaf â'r gêm gyntaf yn y gystadleuaeth pêl-droed i ferched, pa gamau y mae eich Llywodraeth wedi'u cymryd i sicrhau nad Llundain a'r cyffiniau yw'r unig ardaloedd a fydd yn elwa o'r cynnydd a ragwelir yn nifer y twristiaid? At hynny, pa gymorth a ddarperir i atyniadau i dwristiaid yng Nghymru er mwyn sicrhau y gallant elwa o'r miloedd o ymwelwyr o dramor y disgwylir iddynt fod yn y Deyrnas Unedig yn ystod y mis a hanner nesaf?

Huw Lewis: I thank the Member for that question. The answer to the question is partly contained within the question itself. The opening salvoes of the Olympics—the men's and women's football, the opening athletic events of the games—will not be taking place in London; they will be taking place here in Cardiff. Just this week, I saw a small cross-section of the nigh on 1,000 athletes and support staff who are being hosted up and down Wales as a result of the activities of the Welsh Government and its partners in

Huw Lewis: Diolch i'r Aelod am y cwestiwn hwnnw. Mae rhan o'r ateb i'r cwestiwn yn y cwestiwn ei hun. Ni fydd digwyddiadau agoriadol y Gemau Olympaidd—y cystadlaethau pêl-droed i ddynion a merched a digwyddiadau athletau agoriadol y gemau—yn cael eu cynnal yn Llundain; byddant yn cael eu cynnal yma yng Nghaerdydd. Yr wythnos hon, gwelais drawstoriad bach o'r bron i 1,000 o athletwyr a staff cynorthwyol sy'n cael eu lletya ar hyd a lled Cymru o ganlyniad i weithgarwch

supporting teams of athletes, particularly from across the Commonwealth, to make their pre-Olympic preparations in Wales. I was also exposed to the extraordinarily enthusiastic reception that some of those Olympic stars were treated to from schoolchildren from Cardiff and the Vale of Glamorgan. We expect Wales to benefit from the London Olympics.

Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid i gynorthwyo timau o athletwyr, o bob rhan o'r Gymanwlad yn enwedig, i baratoi ar gyfer y Gemau Olympaidd yng Nghymru. Gwelais hefyd y croeso hynod o frwdfrydig a gafodd rhai o'r sêr Olympaidd hynny gan blant ysgol o Gaerdydd a Bro Morgannwg. Rydym yn disgwyl i Gymru elwa o Gemau Olympaidd Llundain.

Eluned Parrott: Minister, I am sure that you welcomed the announcement in the spring that the Vulcan Hotel will soon move to a new and permanent home at St Fagans: National History Museum. However, the process may take considerable time, due, in part, to the high costs of those kinds of developments. What support can the Welsh Government give to the museum to ensure that this quintessential piece of Cardiff's history is ready to welcome visitors and—dare I say it?—drinkers as soon as possible?

Eluned Parrott: Weinidog, rwyf yn siŵr ichi groesawu'r cyhoeddiad yn y gwanwyn y bydd Gwesty'r Vulcan yn symud yn fuan i gartref newydd a pharhaol yn Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru. Fodd bynnag, gallai'r broses gymryd cryn dipyn o amser, a hynny'n rhannol o ganlyniad i'r costau uchel sy'n gysylltiedig â'r mathau hynny o ddatblygiadau. Pa gymorth y gall Llywodraeth Cymru ei roi i'r amgueddfa i sicrhau bod y darn hanfodol hwn o hanes Caerdydd yn barod i groesawu ymwelwyr ac—os meiddiaf ddweud—yn barod i groesawu yfwyr cyn gynted ag sy'n bosibl?

Huw Lewis: I think that we all welcome a resolution to the very sticky situation that was developing around the future of the much-loved Vulcan. It seems now as if we have a resolution that will satisfy almost everyone. This kind of development takes time—it is labour intensive and capital intensive. People who understand what St Fagans does will also understand that this kind of thing is done extraordinarily carefully. I look forward, in the not too distant future, to a time when we can all enjoy a pint once again in the Vulcan, if at a different location.

Huw Lewis: Credaf ein bod i gyd yn croesawu ateb i'r sefyllfa anodd iawn a oedd yn datblygu ynghylch dyfodol Gwesty'r Vulcan a oedd yn boblogaidd iawn. Ymddengys fod gennym ateb erbyn hyn a fydd yn bodloni bron pawb. Mae'r math hwn o ddatblygiad yn cymryd amser—mae'n ddwys o ran llafur ac yn ddwys o ran cyfalaf. Bydd y sawl sy'n deall yr hyn y mae Sain Ffagan yn ei wneud hefyd yn deall y caiff y math hwn o waith ei wneud mewn modd hynod o ofalus. Edrychaf ymlaen, yn y dyfodol agos, at adeg pan fydd pob un ohonom yn gallu mwynhau peint unwaith yn rhagor yn y Vulcan, hyd yn oed os bydd mewn lleoliad gwahanol.

Papur Gwyn ar Fywyd Gwell a Chymunedau Gwell

2. Jocelyn Davies: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y Papur Gwyn ar Fywyd Gwell a Chymunedau Gwell. OAQ(4)0158(HRH)*

Huw Lewis: I published my housing White Paper on 21 May and the consultation closes on 17 August. It sets out a bold and ambitious programme of legislative and non-legislative actions that will do even more to

White Paper for Better Lives and Communities

2. Jocelyn Davies: *Will the Minister make a statement on the White Paper for Better Lives and Communities. OAQ(4)0158(HRH)*

Huw Lewis: Cyhoeddais fy Mhapur Gwyn ar dai ar 21 Mai, a daw'r ymgynghoriad i ben ar 17 Awst. Mae'n nodi rhaglen feiddgar ac uchelgeisiol o gamau deddfwriaethol ac anneddfwriaethol a fydd yn gwneud mwy

help people meet their housing needs, and it responds to the considerable challenges that we face.

fyth i helpu pobl i ddiwallu eu hanghenion o ran tai, ac mae'n ymateb i'r heriau sylweddol yr ydym yn eu hwynebu.

Jocelyn Davies: Will you give an assurance that your legislation on homelessness will, on the face of the Bill, have a clear, concise obligation that all services will be user focused?

Jocelyn Davies: A wnewch chi roi sicrwydd y bydd eich deddfwriaeth ynghylch digartrefedd, ar wyneb y Bil, yn cynnwys rhwymedigaeth glir a chryno y bydd pob gwasanaeth yn canolbwyntio ar y defnyddiwr?

Huw Lewis: Yes, I can see that that would be part of the ethos with which this Welsh Government and its predecessors would approach this. I hope that that would be taken as read.

Huw Lewis: Gwnaf, a gallaf weld y byddai hynny'n rhan o ethos Llywodraeth Cymru a'i rhagflaenwyr wrth ymdrin â'r mater. Gobeithiaf y bydd hynny'n cael ei dderbyn yn ganiataol.

Mike Hedges: May I talk to you again, Minister, about co-operative housing? I would be grateful if you could outline the role that you hope co-operative housing will play in addressing our housing needs. What consideration have you given to creating a new legal tenancy status for co-operative housing under any future tenancy Bill?

Mike Hedges: A gaf siarad â chi eto, Weinidog, ynghylch tai cydweithredol? Byddwn yn ddiolchgar pe gallech amlinellu'r rôl yr ydych yn gobeithio y bydd tai cydweithredol yn ei chwarae wrth fynd i'r afael â'n hanghenion o ran tai. Pa ystyriaeth yr ydych wedi'i rhoi i greu statws newydd o ran tenantiaeth gyfreithiol ar gyfer tai cydweithredol dan unrhyw Fil yn y dyfodol ynghylch tenantiaeth?

Huw Lewis: I thank the Member for that point. As far as I am concerned, the issue of co-operative housing cannot be mentioned enough with regard to ensuring that everyone understands that this is a priority for me and the Welsh Government. The Member is quite right to point out that barriers between where we are now and where we would like to be in terms of developing co-operative housing are not just about bricks, mortar, capital and land; they are also about legal issues. My officials are working closely with the co-operative housing sector to identify any legal barriers preventing the development of co-operative housing as a distinct form of tenure. I believe that those barriers exist, and we will seek to resolve them through the first housing Bill.

Huw Lewis: Diolch i'r Aelod am y pwynt hwnnw. O'm rhan i, ni ellir sôn ddigon am dai cydweithredol o safbwynt sicrhau bod pawb yn deall bod y mater hwn yn flaenoriaeth i mi ac i Lywodraeth Cymru. Mae'r Aelod yn hollol iawn wrth dynnu sylw at y ffaith nad yw'r hyn sy'n ein rhwystro rhag symud o'r sefyllfa yr ydym ynddi'n awr i'r sefyllfa yr hoffem fod ynddi o ran datblygu tai cydweithredol yn ymwneud â brics, morter, cyfalaf a thir yn unig; mae'n ymwneud hefyd â materion cyfreithiol. Mae fy swyddogion yn gweithio'n agos gyda'r sector tai cydweithredol i adnabod unrhyw rwystrau cyfreithiol sy'n atal datblygu tai cydweithredol fel math penodol o ddaliadaeth. Credaf fod y rhwystrau hynny'n bodoli, a byddwn yn ceisio eu datrys drwy'r Bil tai cyntaf.

Mark Isherwood: Yesterday's statement by the First Minister on the Welsh Government's legislative programme referred to a number of proposed Welsh Government Bills and White Papers. Given that the European Commission has identified the UK, and therefore Wales, as one of the member

Mark Isherwood: Roedd y datganiad a wnaed ddoe gan y Prif Weinidog ynghylch rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at nifer o Filiau a Phapurau Gwyn arfaethedig Llywodraeth Cymru. O gofio bod y Comisiwn Ewropeaidd wedi nodi bod y DU, a Chymru, felly, yn un o'r aelod-

states required to amend their housing policies within the period 2012-13, recommending that we address the destabilising impact of high and volatile house prices and high household debt by implementing a comprehensive housing reform programme to increase housing supply, why was there no reference to either the White Paper that you referred to or the proposed Bill in yesterday's legislative programme statement by the First Minister?

wladwriaethau y mae'n ofynnol iddynt ddiwygio eu polisïau tai yn ystod 2012-13, gan argymell y dylem ymdrin â'r modd y mae prisiau tai uchel ac anwadal yn ansefydlogi'r sefyllfa ac ymdrin â dyledion uchel aelwydydd, trwy weithredu rhaglen gynhwysfawr o ddiwygio ym maes tai er mwyn cynyddu'r cyflenwad o dai, pam na chyfeiriwyd at y Papur Gwyn, y bu i chi gyfeirio ato, neu'r Bil arfaethedig yn y datganiad a wnaed ddoe gan y Prif Weinidog ynghylch y rhaglen ddeddfwriaethol?

Huw Lewis: I can reassure the Member that the outline timetable that I have repeatedly described to Members in the Chamber and in committee with regard to the development of the housing White Paper and the coming housing Bill remains as first publicised.

Huw Lewis: Gallaf sicrhau'r Aelod bod yr amserlen fras yr wyf wedi'i disgrifio dro ar ôl tro i Aelodau yn y Siambr ac yn y pwyllgor ynghylch datblygu'r Papur Gwyn ar dai, a'r Bil tai sydd ar ddod, yn parhau yr un fath â'r amserlen a gyhoeddwyd gennyf yn wreiddiol.

Peter Black: Minister, in your White Paper, you express the ambition to remove Welsh local councils from the housing revenue account subsidy system. Negotiations on that have been going on for some years. Can you give us an update on where we are with that, please?

Peter Black: Weinidog, yn eich Papur Gwyn, bu ichi fynegi'r uchelgais i dynnu cynghorau lleol yng Nghymru allan o system cymhorthdal y cyfrif refeniw tai. Mae trafodaethau ynghylch hynny wedi bod yn mynd rhagddynt ers rhai blynyddoedd. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am y sefyllfa ynghylch hynny, os gwelwch yn dda?

Huw Lewis: On my watch, negotiations have been going on for just a short while. My officials have met with Treasury officials, and the results of those initial conversations are interesting and really quite encouraging. I hope that we can reach a fairly rapid resolution of this problem. The ball is now in the Treasury's court. If it is willing to move with a sense of urgency to understand Wales's need and desire to get out from under the system as soon as humanly possible, we could see rapid progress, I hope within this financial year.

Huw Lewis: Yn ystod fy nghyfnod i yn y swydd, mae trafodaethau wedi bod yn mynd rhagddynt am gyfnod byr yn unig. Mae fy swyddogion wedi cyfarfod â swyddogion y Trysorlys, ac mae canlyniadau'r sgyrsiau cychwynnol hynny'n ddiddorol ac yn eithaf calonogol, a dweud y gwir. Rwyf yn gobeithio y gallwn ddod o hyd i ateb i'r broblem hon yn weddol fuan. Y Trysorlys sydd biau'r symudiad nesaf. Os yw'n barod i fynd ati ar rywfaint o frys i ddeall angen Cymru a'r awydd i adael y system cyn gynted ag sy'n bosibl, gallem weld cynnydd buan, cyn diwedd y flwyddyn ariannol hon, gobeithio.

Peter Black: Thank you for that answer, Minister. I calculated that it is just over a year that you have been talking to the Treasury about this. If the ball is in the Treasury's court, can you confirm that you have made it a firm offer for buying out that subsidy? Are you expecting an answer within a fairly short time?

Peter Black: Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Cyfrifais eich bod yn siarad â'r Trysorlys am y mater hwn ers ychydig dros flwyddyn. Os y Trysorlys sydd biau'r symudiad nesaf, a allwch gadarnhau eich bod wedi cyflwyno cynnig cadarn iddo ynghylch prynu cyfran o'r cymhorthdal hwnnw? A ydych yn disgwyl ateb yn weddol fuan?

Huw Lewis: Yes, and I hope so.

Huw Lewis: Gallaf, ac ydw, rwyf yn gobeithio cael ateb yn weddol fuan.

Blaenoriaethau'r Gweinidog

3. Elin Jones: *Beth yw blaenoriaethau'r Gweinidog ar gyfer y chwe mis nesaf. OAQ(4)0145(HRH)*

The Minister's Priorities

3. Elin Jones: *What are the Minister's priorities for the next six months. OAQ(4)0145(HRH)*

Huw Lewis: I am committed to fulfilling, across Wales, the commitments that are set out for my portfolio in the programme for government.

Huw Lewis: Rwyf wedi ymrwymo i gyflawni, ar draws Cymru, yr ymrwymiadau sydd wedi'u nodi ar gyfer fy mhortffolio yn y rhaglen lywodraethu.

Elin Jones: Weinidog, mae bwriad i ddymchwel eglwys Gatholig Gwenfrewi yn Aberystwyth—eglwys ag iddi bwysigrwydd i hanes crefyddol a diwylliannol Cymru, yn enwedig hanes Catholigiaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Catholigion a haneswyr o fri yn awyddus iawn i weld Cadw yn rhestru'r eglwys hon. A wnewch gadarnhau i mi bod hanes crefyddol Cymru yn bwysig iawn i'ch Llywodraeth chi?

Elin Jones: Minister, there is an intention to demolish the Gwenfrewi Catholic church in Aberystwyth—a church of historic importance with regard to the history of Catholicism through the medium of Welsh. Catholics and eminent historians are very keen for Cadw to list this church. Will you confirm to me that the religious history of Wales is very important to your Government?

Huw Lewis: Of course it is. However, I have to say that I am unaware of the particular issue with the church that you mention in Aberystwyth. I am more than happy to investigate and to ask officials to assist with advice on the circumstances of this particular building.

Huw Lewis: Wrth gwrs ei fod yn bwysig. Fodd bynnag, rhaid imi ddweud nad wyf yn ymwybodol o'r broblem benodol ynghylch yr eglwys yr ydych yn sôn amdani yn Aberystwyth. Rwyf yn fwy na bodlon ymchwilio, a gofyn i'm swyddogion gynorthwyo trwy roi cyngor ynghylch amgylchiadau'r adeilad penodol hwn.

Lynne Neagle: Minister, friends and supporters of Pontypool Rugby Football Club and many from the wider rugby community were shocked and dismayed to read in the *South Wales Argus* that the Welsh Rugby Union is seeking to impose massive legal costs on the club following its recent High Court challenge. Leaving aside the obvious questions of fairness, memories of the Pontypool front row and the fact that Pontypool was one of the founding members of the union, the survival and success of clubs such as Pontypool are critical to the very future of Welsh rugby. Will you do everything in your power to make the Welsh Rugby Union think again, see sense, and recognise that this move will not only hurt Pontypool, but will do tremendous damage to Welsh rugby more widely?

Lynne Neagle: Weinidog, cafodd ffrindiau a chefnogwyr Clwb Rygbi Pont-y-pŵl, a llawer o bobl o'r gymuned rygbi ehangach, sioc a siom o ddarllen yn y *South Wales Argus* bod Undeb Rygbi Cymru yn ceisio gorfodi costau cyfreithiol enfawr ar y clwb yn dilyn ei her gyfreithiol yn yr Uchel Lys yn ddiweddar. Gan anwybyddu'r cwestiynau amlwg ynghylch tegwch, yr atgofion am reng flaen Pont-y-pŵl a'r ffaith bod Pont-y-pŵl yn un o sylfaenwyr yr Undeb, mae sicrhau bod clybiau megis Pont-y-pŵl yn goroesi ac yn llwyddo yn hanfodol i ddyfodol rygbi Cymru. A wnewch chi bopeth o fewn eich gallu i wneud i Undeb Rygbi Cymru ailfeddwl, ymbwyllo a chydnabod nad Pont-y-pŵl yn unig fydd yn dioddef oherwydd hyn, ond y bydd yn gwneud niwed enfawr i rygbi Cymru yn fwy cyffredinol?

2.30 p.m.

Huw Lewis: I thank the Member for Torfaen. This is a matter for the Welsh Rugby Union, as the governing body of Welsh rugby, to take on board. However, given the court judgment, I would expect there to be due consideration of the enormously proud history of that fantastic rugby club—Pontypool. Respect must be given to that. I would also expect the interests of the players and supporters of Pontypool RFC to be taken into consideration during any further discussions between partners about the future outcomes that might impinge on the club's health and future.

Huw Lewis: Diolch i'r Aelod dros Dorfaen. Mae hwn yn fater i'w ystyried gan Undeb Rygbi Cymru, fel y corff sy'n llywodraethu rygbi yng Nghymru. Fodd bynnag, o gofio dyfarniad y llys, byddwn yn disgwyl i ystyriaeth briodol gael ei rhoi i hanes hynod o falch y clwb rygbi gwych hwnnw—Pont-y-pŵl. Rhaid parchu'r hanes hwnnw. Byddwn hefyd yn disgwyl i fuddiannau chwaraewyr a chefnogwyr Clwb Rygbi Pont-y-pŵl gael eu hystyried yn ystod unrhyw drafodaethau pellach rhwng partneriaid am y canlyniadau a ddaw a allai amharu ar les a dyfodol y clwb.

Suzy Davies: I accept that housing is a crucial part of your portfolio, Minister. However, can you explain why the Government's supplementary budget transfers £1 million from the foster usage and lifelong learning through museum services budget to the increase the supply and choice of housing budget, especially coming in the same week as the excellent new advertising campaign for National Museum Wales, as well as David Anderson's comments today? In making that decision, did you consider that it might give the impression that you might be pre-empting the consultation on the merger of Cadw, CyMAL—Museums, Archives and Libraries Wales, and the Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales?

Suzy Davies: Rwyf yn derbyn bod tai yn rhan hollbwysig o'ch portffolio, Weinidog. Fodd bynnag, a allwch esbonio pam y mae cyllideb atodol y Llywodraeth yn trosglwyddo £1 filiwn o'r gyllideb ar gyfer meithrin defnydd o wasanaethau amgueddfeydd a dysgu gydol oes drwy wasanaethau amgueddfeydd, i'r gyllideb ar gyfer cynyddu'r cyflenwad a'r dewis o dai, yn enwedig yn ystod yr wythnos pan welwyd yr ymgyrch hysbysebu newydd wych ar gyfer Amgueddfa Cymru, yn ogystal â'r sylwadau a wnaed gan David Anderson heddiw? Wrth wneud y penderfyniad hwnnw, a fu ichi ystyried y gallai roi'r argraff eich bod efallai'n achub y blaen ar yr ymgynghoriad ynghylch uno Cadw, CyMAL—Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru, a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru?

Huw Lewis: There was no policy-driven decision connected with what I hope will be seen as good accounting. I can write to the Member with details of exactly what was behind the decision. In essence, this was about ensuring that a projected underspend in the museums budget, because of timings around the St Fagan's development, was not left hanging in mid-air, and that that parcel of public money was utilised. That money will, in due course, be returned to the museums budget, probably in the next financial year, so that we ensure a smooth delivery of the St Fagan's development.

Huw Lewis: Nid oedd unrhyw benderfyniad a yrrwyd gan bolisi'n gysylltiedig â'r cam a fydd, gobeithio, yn cael ei ystyried yn arfer cyfrifyddu da. Gallaf ysgrifennu at yr Aelod i nodi manylion yr hyn a oedd y tu ôl i'r penderfyniad. Yn ei hanfod, roedd yn ymwneud â sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i ymdrin â thanwariant a ragwelid yn y gyllideb ar gyfer amgueddfeydd, oherwydd amseru datblygiad Sain Ffagan, a sicrhau bod y swm hwnnw o arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio. Bydd yr arian hwnnw'n cael ei ddychwelyd maes o law i'r gyllideb ar gyfer amgueddfeydd, yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf yn ôl pob tebyg, er mwyn inni sicrhau bod datblygiad Sain Ffagan yn cael ei gyflawni'n ddidrafferth.

Suzy Davies: Thank you for that answer; that is helpful. When you talk about bringing the money back into the museums pot, are you planning to add to that? In view of the endorsement that you gave to our big boys helping out our little boys a few moments ago, how can you expect money that is moving out of the museums pot to contribute to privileged providers helping the smaller museums?

Suzy Davies: Diolch am yr ateb hwnnw; mae o gymorth. Pan fyddwch yn sôn am roi'r arian yn ôl yn y gyllideb ar gyfer amgueddfeydd, a ydych yn bwriadu ychwanegu ato? O gofio ichi gymeradwyo'r ffaith bod ein sefydliadau mawr yn helpu ein sefydliadau bach, rai eiliadau'n ôl, sut y gallwch ddisgwyl i arian sy'n mynd allan o'r gyllideb ar gyfer amgueddfeydd gyfrannu at sicrhau bod darparwyr breintiedig yn helpu'r amgueddfeydd llai?

Huw Lewis: The sum total of the investment in the museums services, from the perspective of the Welsh Government, will remain as we have said it would be through the budgeting process. As we wait just a few more days for the Heritage Lottery Fund's final decision on its commitment to the National History Museum at St Fagans, it is difficult to say precisely what the future holds for museums funding. The HLF has not made its final decision public yet; we all hope that it will be positive, in which case investment in museums services in Wales will be in a different and better place next week as compared with today.

Huw Lewis: Bydd cyfanswm y buddsoddiad mewn gwasanaethau amgueddfeydd, o safbwynt Llywodraeth Cymru, yn aros fel y nodwyd gennym trwy'r broses gyllidebu. Wrth inni aros ychydig yn rhagor o ddiwrnodau am benderfyniad terfynol Cronfa Dreftadaeth y Loteri ynghylch ei hymrwymiad i Amgueddfa Werin Cymru yn Sain Ffagan, mae'n anodd dweud yn union beth fydd yn digwydd yn y dyfodol o ran cyllid i amgueddfeydd. Nid yw Cronfa Dreftadaeth y Loteri wedi cyhoeddi ei phenderfyniad terfynol eto; rydym i gyd yn gobeithio y bydd yn benderfyniad cadarnhaol, ac os felly, bydd gwaith buddsoddi mewn gwasanaethau amgueddfeydd yng Nghymru mewn sefyllfa wahanol a gwell yr wythnos nesaf o'i chymharu â heddiw.

Jocelyn Davies: Are you aware of the growing concern that some local authorities are routinely ignoring the Suffolk judgment, and how will you ensure that the 16 and 17-year-olds affected are adequately protected?

Jocelyn Davies: A ydych yn ymwybodol o'r pryder cynyddol ynghylch y ffaith bod rhai awdurdodau lleol yn anwybyddu dyfarniad Suffolk yn rheolaidd, a sut y byddwch yn sicrhau bod y bobl ifanc 16 a 17 oed yr effeithir arnynt yn cael eu hamddiffyn yn ddigonol?

Huw Lewis: I am afraid that the Member will have to enlighten me on the Suffolk judgment.

Huw Lewis: Rwyf yn ofni y bydd yn rhaid i'r Aelod fy ngoleuo ynghylch dyfarniad Suffolk.

The Presiding Officer: Order. You cannot ask the Member to do that.

Y Llywydd: Trefn. Ni allwch ofyn i'r Aelod wneud hynny.

Huw Lewis: I am sorry. I will have to write to the Member with a fuller answer.

Huw Lewis: Mae'n ddrwg gennyf. Bydd yn rhaid imi ysgrifennu at yr Aelod gydag ateb llawnach.

William Powell: Minister, as you may be aware from the 2012 joint housing land availability study, the current land supply that is available to the Brecon Beacons National

William Powell: Weinidog, fel yr ydych efallai'n ymwybodol o ganlyniad i gyd-astudiaeth argaeledd tir ar gyfer tai 2012, mae'r cyflenwad presennol o dir sydd ar gael

Park Authority is limited to just 2.8 years. This appears to be deeply disappointing, considering that the minimum requirement is routinely five years, and is in stark contrast to Snowdonia National Park, which currently has 7.6 years of supply available to it. In a written response to my colleague Kirsty Williams on 10 July, the Minister for environment highlighted that the Brecon Beacons National Park Authority will need to address this matter in its local development plan. What assurances can you give that you are liaising with the Minister for environment on this matter, to ensure that all local authorities in Wales pay due regard to this important housing supply issue?

i Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi'i gyfyngu i 2.8 o flynyddoedd yn unig. Ymddengys fod hynny'n hynod o siomedig, o ystyried mai'r gofyniad sylfaenol fel rheol yw pum mlynedd, ac mae'n dra gwahanol i Barc Cenedlaethol Eryri, y mae 7.6 mlynedd o gyflenwad ar gael iddo ar hyn o bryd. Mewn ymateb ysgrifenedig i'm cydweithiwr, Kirsty Williams, ar 10 Gorffennaf, tynnodd y Gweinidog amgylchedd sylw at y ffaith y bydd angen i Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog fynd i'r afael â'r mater hwn yn ei gynllun datblygu lleol. Pa sicrwydd y gallwch ei roi eich bod yn trafod y mater hwn â'r Gweinidog amgylchedd er mwyn gwneud yn siŵr bod pob awdurdod lleol yng Nghymru yn rhoi sylw dyledus i'r broblem bwysig hon ynghylch cyflenwad tai?

Huw Lewis: I am aware of the issue that seems specific to the Brecon Beacons National Park Authority. It is a matter of concern for me and for my colleague John Griffiths. I know that our rural housing enablers, working within the park area, are exercised and concerned about this. I have asked my officials to contact the national park authority in an attempt to seek a resolution to it. It appears to be anomalous. The authority does have a duty to current and future residents who want to make a home and make a living within the park area.

Huw Lewis: Rwyf yn ymwybodol o'r broblem sy'n ymddangos yn broblem benodol i Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae'n peri pryder i mi ac i'm cydweithiwr, John Griffiths. Gwn fod ein swyddogion galluogi tai gwledig sy'n gweithio yn ardal y parc yn poeni ac yn pryderu am hyn. Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion gysylltu â'r awdurdod parc cenedlaethol i geisio datrys y broblem. Ymddengys ei bod yn anarferol. Mae gan yr awdurdod ddyletswydd tuag at drigolion presennol a thrigolion y dyfodol sydd am sefydlu cartref a gwneud bywoliaeth yn ardal y parc.

Tai yn Nhor-faen

Housing in Torfaen

4. Lynne Neagle: *A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer tai yn Nhor-faen. OAQ(4)0159(HRH)*

4. Lynne Neagle: *Will the Minister outline his priorities for housing in Torfaen. OAQ(4)0159(HRH)*

Huw Lewis: My priorities for legislation and policy at a national level are set out in my housing White Paper. Torfaen County Borough Council, working with its partner housing organisations, will determine how to deliver on those priorities in a way that reflects local needs.

Huw Lewis: Mae fy mlaenoriaethau ar gyfer deddfwriaeth a pholisi ar lefel genedlaethol wedi'u nodi yn fy Mhapur Gwyn ar dai. Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen, gan weithio gyda'i sefydliadau partner ym maes tai, fydd yn penderfynu sut i gyflawni'r blaenoriaethau hynny mewn modd sy'n adlewyrchu anghenion lleol.

Lynne Neagle: As you are aware, I have written to you on a number of occasions to raise specific concerns on behalf of constituents about mistakes and handling by a

Lynne Neagle: Fel y gwyddoch, rwyf wedi ysgrifennu atoch droeon i fynegi pryderon penodol ar ran etholwyr am gamgymeriadau ac ymdriniaeth darparwr tai cymdeithasol yn

social housing provider in Torfaen. While stock transfer has delivered some benefits, I have serious concerns about transparency, accountability and the system of self-assessment. Minister, while I recognise that the current regulatory scheme is still bedding in, will you commit to looking closely at these issues with a view to ensuring that tenants and elected representatives are able to hold housing associations properly to account when things go wrong?

Nhor-faen. Er bod trosglwyddo stoc wedi esgor ar rai manteision, rwyf yn pryderu'n ddifrifol am dryloywder, atebolrwydd a'r system hunanasesu. Weinidog, er fy mod yn cydnabod mai megis dechrau y mae'r cynllun rheoleiddio presennol, a wnewch chi ymrwymo i edrych yn fanwl ar y materion hyn gyda'r bwriad o sicrhau bod tenantiaid a chynrychiolwyr etholedig yn gallu dwyn cymdeithasau tai i gyfrif yn iawn pan fydd pethau'n mynd o chwith?

Huw Lewis: I can reassure the Member that these things are always under review in my mind. She is quite right to say that the regulatory regime, which I inherited from my predecessor, is just bedding in and that, as far as I am aware, no housing association within the Torfaen area has yet been subject to a review. That will resolve itself over the next 12 months, if I am correct, and I would be content to wait at least until we have seen the local housing providers in the Torfaen area go through round one of the regulatory regime, before I take a look at whether that is regarded as an adequate process. Everyone has to take part in it and then, of course, we will step back and examine whether that is delivering the best for tenants and for the wider community.

Huw Lewis: Gallaf sicrhau'r Aelod bod y pethau hyn bob amser yn cael eu hadolygu o'm rhan i. Mae'n hollol gywir wrth ddweud mai megis dechrau y mae'r drefn reoleiddio a etifeddais gan fy rhagflaenydd, ac nad oes yr un gymdeithas dai yn ardal Tor-faen, hyd y gwn i, wedi bod yn destun adolygiad hyd yn hyn. Bydd y sefyllfa yn ei datrys ei hun yn ystod y 12 mis nesaf, os wyf yn iawn, a byddwn yn fodlon aros o leiaf nes bydd y darparwyr tai lleol yn ardal Tor-faen wedi mynd trwy rownd gyntaf y drefn reoleiddio, cyn imi edrych a gaiff y broses ei hystyried yn broses ddigonol. Rhaid i bawb gymryd rhan ynddi, ac yna, wrth gwrs, byddwn yn camu'n ôl ac yn archwilio a yw'n cyflawni'r canlyniadau gorau i denantiaid a'r gymuned ehangach.

William Graham: You will know that, at the beginning of this year, there were over 3,500 applicants on the homeseekers register in Torfaen. Sadly, in the period between January 2010 and March 2012, only 361 houses were built in Torfaen, 120 of which were provided by registered social landlords. Will the Minister give an idea of how he intends to increase the number of houses provided, particularly by RSLs, in Torfaen?

William Graham: Gwyddoch fod dros 3,500 o ymgeiswyr ar gofrestr tai Tor-faen ddechrau'r flwyddyn. Yn anffodus, yn ystod y cyfnod rhwng mis Ionawr 2010 a mis Mawrth 2012, dim ond 361 o dai a adeiladwyd yn Nhor-faen, a chafodd 120 ohonynt eu darparu gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. A wnaiff y Gweinidog roi syniad o sut y mae'n bwriadu cynyddu nifer y tai a ddarperir yn Nhor-faen, yn enwedig gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig?

Huw Lewis: Increasing the supply of houses is not done through any kind of mysterious means and essentially relies on two critical ingredients: first, land, which must be made available, and, secondly, the capital that we need to proceed and to build those homes. My officials are proactively seeking out parcels of land, particularly publicly owned land, throughout Wales. We are approaching the point where we will have a national register of publicly owned land across Wales

Huw Lewis: Nid oes unrhyw ffordd ddirgel o gynyddu'r cyflenwad o dai, ac yn ei hanfod mae'n dibynnu ar ddau gynhwysyn allweddol: yn gyntaf, rhaid sicrhau bod tir ar gael, ac yn ail, rhaid cael y cyfalaf y mae arnom ei angen i symud ymlaen ac adeiladu'r cartrefi hynny. Mae fy swyddogion yn cymryd camau rhagweithiol i chwilio am barseli o dir, yn enwedig tir cyhoeddus, ledled Cymru. Rydym yn nesu at sefyllfa lle y bydd gennym gofrestr genedlaethol o dir

and, as you are no doubt aware, we are engaged in proactive partnerships with housing providers, registered social landlords and potential funders in terms of seeking innovative funding mechanisms to get us through this very difficult period in public funding.

cyhoeddus ar draws Cymru, ac fel y gwyddoch, mae'n siŵr, rydym yn rhan o bartneriaethau rhagweithiol â darparwyr tai, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a chyllidwyr posibl er mwyn ceisio dod o hyd i ddulliau ariannu arloesol i'n galluogi i fynd drwy'r cyfnod anodd iawn hwn o ran cyllid cyhoeddus.

Lindsay Whittle: Minister, 11,400 households in Torfaen are in receipt of council tax benefit. What assurance can you give to those households, often containing the most vulnerable in our communities, that the Welsh Government will step up and protect them fully from the hardships that will result from the London Government's actions?

Lindsay Whittle: Weinidog, mae 11,400 o aelwydydd yn Nhor-faen yn cael budd-dal y dreth gyngor. Pa sicrwydd y gallwch ei roi i'r aelwydydd hynny, sy'n aml yn gartrefi i'r unigolion mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau, y bydd Llywodraeth Cymru yn camu ymlaen ac yn eu hamddiffyn yn llwyr rhag y caledi a fydd yn deillio o gamau gweithredu'r Llywodraeth yn Llundain?

Huw Lewis: Changes to council tax benefit and, alongside those, potential changes to the social fund and changes to—the big one—housing benefit itself, fill me with trepidation, when it comes to the effect that they may have on households that are only just managing to get by, but which may be very close to the edge when it comes to being able to afford day-to-day bills. We are currently urgently trying to assess exactly what the scale of these changes will be here in Wales; we know it will not be good, but what we need to establish is exactly how bad it will be. The Member will be aware of initiatives that we are involved in, such as the funding boost to some of our advisory partners, such as Shelter and Citizens Advice, in preparation for having advisory services available on the doorstep within communities for people who may find it increasingly difficult to pay their normal everyday household bills as these benefit changes start to bite.

Huw Lewis: Rwyf yn anniddig iawn ynghylch y newidiadau i fudd-dal y dreth gyngor ac, ochr yn ochr â'r rheini, y newidiadau posibl i'r gronfa gymdeithasol a newidiadau i'r budd-dal tai ei hun—sef y prif fudd-dal—o ystyried yr effaith y gallent ei chael ar aelwydydd sy'n llwyddo o drwch blewyn i gael deupen llinyn ynghyd ond a allai fod yn agos iawn at y dibyn o safbwynt eu gallu i dalu eu biliau o ddydd i ddydd. Ar hyn o bryd, rydym yn cymryd camau brys i geisio asesu union faint y newidiadau hyn yma yng Nghymru; gwyddom na fydd y sefyllfa'n un dda, ond mae angen inni gadarnhau'n union pa mor wael y bydd hi. Bydd yr Aelod yn ymwybodol o fentrau yr ydym yn rhan ohonynt, megis yr hwb ariannol a roddwyd i rai o'n partneriaid cynghori, megis Shelter a Chyngor ar Bopeth, er mwyn paratoi i ddarparu gwasanaethau cynghori ar garreg y drws mewn cymunedau ar gyfer pobl a allai fod yn ei chael yn fwyfwy anodd talu biliau pob dydd arferol eu haelwydydd wrth i'r newidiadau i fudd-daliadau ddechrau cael effaith.

Sector Tai Rhent Preifat

Private Rented Housing Sector

***5. David Rees**: A wnaiff y Gweinidog amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector tai rhent preifat yng Nghymru. OAQ(4)0155(HRH)*

***5. David Rees:** Will the Minister outline the Welsh Government's priorities for the private rented housing sector in Wales. OAQ(4)0155(HRH)*

Huw Lewis: I thank the Member for Aberavon. The Welsh Government recognises that it is vital to have a good-

Huw Lewis: Diolch i'r Aelod dros Aberafan. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod cael sector rhentu preifat o ansawdd da yn

quality private rented sector to meet the expectations of people in housing need. That is why we propose to license landlords and letting agents to ensure that standards of property condition and management are improved.

hanfodol i fodloni disgwyliadau pobl y mae angen tai arnynt. Dyna pam yr ydym yn bwriadu trwyddedu landlordiaid ac asiantaethau gosod tai er mwyn sicrhau bod safonau o ran cyflwr eiddo a dulliau o reoli eiddo yn cael eu gwella.

David Rees: Thank you for that answer, Minister. Since my submission of the question, you have published a consultation paper on proposals for a better private rented sector. I, like many other Members in the Chamber, will welcome the opportunity when that consultation ends to look at the proposals that come forward. I am sure that you agree that the role, obligations, responsibilities and accountabilities of private landlords and letting agents need clarity in this situation, and, in particular, that landlords need to look at what they do with the managing agents. Can you update Members on the progress of that consultation and, in particular, the responses from the private sector?

David Rees: Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Ers imi gyflwyno fy nghwestiwn, rydych wedi cyhoeddi papur ymgynghori ynghylch cynigion ar gyfer gwell sector rhentu preifat. Byddaf fi, fel llawer o Aelodau eraill yn y Siambr, yn croesawu'r cyfle i edrych ar y cynigion a gyflwynir pan ddaw'r ymgynghoriad hwnnw i ben. Rwyf yn siŵr eich bod yn cytuno bod angen eglurder ynghylch rôl, rhwymedigaethau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd landlordiaid preifat ac asiantaethau gosod tai yn y sefyllfa hon, ac yn benodol, bod angen i landlordiaid edrych ar yr hyn y maent yn ei wneud gyda'r asiantaethau rheoli tai. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am gynnydd yr ymgynghoriad hwnnw, ac yn benodol, am yr ymatebion a gafwyd gan y sector preifat?

Huw Lewis: Yes. The consultation is ongoing. So far, we have had, from within Wales at least, very positive feedback from the private rented sector. I can tell the Member that representative organisations of Welsh landlords, for example, have been very co-operative and positive in terms of the potential benefits that they can see of driving poor landlords out of the market through our licensing and accreditation regime. Some letting and management agents—some bad apples—have been ripping off landlords as well as tenants up and down the UK, and they can at least see that, here in Wales, we will be tackling these issues alongside them.

Huw Lewis: Gallaf. Mae'r ymgynghoriad yn mynd rhagddo. Hyd yn hyn, rydym wedi cael adborth cadarnhaol iawn gan y sector rhentu preifat, yng Nghymru o leiaf. Gallaf ddweud wrth yr Aelod bod sefydliadau sy'n cynrychioli landlordiaid yng Nghymru, er enghraifft, wedi bod yn fodlon iawn i gydweithredu ac wedi ymateb yn gadarnhaol ynghylch y manteision posibl y gallant eu gweld o yrru landlordiaid gwael allan o'r farchnad trwy ein trefn drwyddedu ac achredu. Mae rhai asiantaethau gosod a rheoli tai—rhai asiantaethau gwael—wedi bod yn twyllo landlordiaid yn ogystal â thenantiaid ar hyd a lled y DU, a gallant o leiaf weld y byddwn, yma yng Nghymru, yn mynd i'r afael â'r materion hyn ochr yn ochr â hwy.

Angela Burns: I am aware of the consultation that you have out at present. However, one of the concerns that I have is the severe shortage of housing for disabled people, whether it is in the private sector or social housing. Will you please tell us what influence or consultations you have had with the Minister with responsibility for planning to ensure that planning barriers for disabled homes are lifted in the future?

Angela Burns: Rwyf yn ymwybodol o'r ymgynghoriad yr ydych yn ei gynnal ar hyn o bryd. Fodd bynnag, un o'r pryderon sydd gennyf yw'r prinder difrifol o dai ar gyfer pobl anabl, boed yn y sector preifat neu'r sector tai cymdeithasol. A wnewch chi ddweud wrthym pa ddylanwad yr ydych wedi'i gael ar y Gweinidog sy'n gyfrifol am gynllunio, neu ba waith ymgynghori yr ydych wedi'i wneud gydag ef, i sicrhau y ceir

gwared ar rwystrau cynllunio o safbwynt cartrefi i bobl anabl yn y dyfodol?

Huw Lewis: All these issues are hot topics at the moment, in terms of the development of our new housing Bill, as well as the planning Bill, and my colleague the Minister for Health and Social Services works very closely with me on these issues. We prioritise as much as we possibly can our delivery of new housing units. We build into our existing housing design the 'Designed for Life' ethos, to ensure that people can remain active within their homes as long as is humanly possible. We do all this, of course, within the context of the UK Government having removed £1.7 billion from the Welsh Government's budget, and with the consequences of that being very significant in terms of what is deliverable within the next few years.

Huw Lewis: Mae'r holl faterion hyn yn bynciau sy'n cael llawer o sylw ar hyn o bryd, o ran datblygu ein Bil tai newydd yn ogystal â'r Bil cynllunio, ac mae fy nghydweithiwr, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn cydweithio'n agos iawn â mi yng nghyswllt y materion hyn. Rydym yn rhoi cymaint o flaenoriaeth ag sy'n bosibl i'r gwaith o ddarparu unedau tai newydd. Rydym yn ymgorffori ethos 'Cynllun Oes' yn y modd yr ydym yn dylunio tai yn awr, er mwyn sicrhau y gall pobl barhau'n weithgar yn eu cartrefi gyhyd ag sy'n bosibl. Rydym yn gwneud y cyfan, wrth gwrs, yng nghyd-destun y ffaith bod Llywodraeth y DU wedi tynnu £1.7 biliwn allan o gyllideb Llywodraeth Cymru, a'r ffaith y bydd canlyniadau hynny'n sylweddol iawn o ran yr hyn y gellir ei gyflawni yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Llyr Huws Gruffydd: We know about the fit-and-proper-person test that is proposed in relation to landlords and letting agents. Although we are a few years away from seeing this being introduced, I am sure we all know of examples of certain landlords who probably would not pass a test at the moment, and who do not fulfil their existing responsibilities towards tenants. What steps will you take to ensure that both landlords and tenants are aware of their existing rights and responsibilities and how these will change as we move closer to a registration or licensing system?

Llyr Huws Gruffydd: Gwyddom am y prawf person addas a phriodol sy'n cael ei gynnig yng nghyswllt landlordiaid ac asiantaethau gosod tai. Er bod ychydig o flynyddoedd eto cyn y byddwn yn gweld hynny'n cael ei gyflwyno, rwyf yn siŵr bod pob un ohonom yn gwybod am enghreifftiau o rai landlordiaid na fyddent, fwy na thebyg, yn pasio prawf ar hyn o bryd, ac nad ydynt yn cyflawni eu cyfrifoldebau presennol o safbwynt tenantiaid. Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i sicrhau bod landlordiaid a thenantiaid yn ymwybodol o'u hawliau a'u cyfrifoldebau presennol a'r modd y bydd y rhain yn newid wrth inni nesu at system gofrestru neu drwyddedu?

2.45 p.m.

Huw Lewis: These will change considerably and there has already been a considerable amount of consultation work up and down Wales as well as the usual methods of advertising and promoting the message of the White Paper and encouraging responses to it. You are quite right to say that a fit-and-proper-person test would be connected with an accreditation regime, not just for landlords but also for letting and management agencies. This sort of test is reasonably established

Huw Lewis: Bydd yr hawliau a'r cyfrifoldebau hynny'n newid yn sylweddol, ac mae cryn dipyn o waith ymgynghori wedi mynd rhagddo eisoes ar hyd a lled Cymru, yn ogystal â'r dulliau arferol o hysbysebu a hyrwyddo neges y Papur Gwyn ac annog ymatebion iddo. Rydych yn llygad eich lle wrth ddweud y byddai prawf person addas a phriodol yn gysylltiedig â threfn achredu, nid yn unig ar gyfer landlordiaid ond hefyd ar gyfer asiantaethau gosod a rheoli tai. Mae'r

within law, but there is a job of work to do in raising awareness. As part of that, I would continually stress that good landlords and good letting and management agents have nothing to fear and everything to welcome when it comes to the establishment of this new licensing regime.

math hwn o brawf wedi'i sefydlu'n rhesymol yn y gyfraith, ond mae gwaith i'w wneud o ran codi ymwybyddiaeth ohono. Yn rhan o hynny, byddwn yn parhau i bwysleisio nad oes gan landlordiaid da ac asiantaethau da ym maes gosod a rheoli tai ddim i'w ofni pan sefydlir y drefn drwyddedu newydd hon, ac y dylent ei chroesawu.

The Presiding Officer: Question 6, OAQ(4)0153(HRH), has been withdrawn.

Y Llywydd: Tynnwyd cwestiwn 6, OAQ(4)0153(HRH), yn ôl.

Sianeli Teledu yn y Gogledd-ddwyrain

Television Channels in North-east Wales

7. Aled Roberts: *Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael yn ddiweddar ynghylch unrhyw gynnydd tuag at alluogi trigolion gogledd ddwyrain Cymru i wylio rhaglenni S4C a rhaglenni Saesneg rhanbarthol o Gymru ar y BBC ac ITV. OAQ(4)0150(HRH)*

7. Aled Roberts: *What recent discussions has the Minister had regarding any progress towards enabling residents of north-east Wales to watch S4C programmes and regional English language programmes from Wales on the BBC and ITV. OAQ(4)0150(HRH)*

Huw Lewis: The Welsh Government will stand up for maintaining full services in both Welsh and English on television and radio throughout Wales, including for viewers and listeners in north-east Wales, and that will remain a part of our ongoing conversation with broadcasters and regulators.

Huw Lewis: Bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi camau i sicrhau gwasanaethau llawn yn Gymraeg a Saesneg ar deledu a radio ledled Cymru, gan gynnwys ar gyfer gwylwyr a gwrandawyr yn y gogledd-ddwyrain, a bydd hynny'n parhau yn rhan o'n trafodaethau parhaus â darlledwyr a rheoleiddwyr.

Aled Roberts: Weinidog, rwyf wedi bod yn cyfathrebu gydag Ofcom am rai misoedd ynghylch problemau yn y gogledd-ddwyrain. Mae'r sefyllfa wedi gwaethygu ers i ogledd-orllewin a chanolbarth Lloegr symud i gyfundrefn ddigidol. Mae Ofcom wedi dweud yn ystod y pythefnos diwethaf mai problem y BBC yw hon yn y lle cyntaf. A wnewch chi ddatgan heddiw eich bod yn barod i fynd yn ôl at y BBC i ddweud bod problemau yn y gogledd-ddwyrain?

Aled Roberts: Minister, I have been in communication with Ofcom for some months regarding problems in the north-east. The situation has deteriorated since the north-west and midlands of England switched to a digital system. Ofcom has said in the past fortnight that this is a problem for the BBC in the first place. Will you state today that you are willing to go back to the BBC to say that there are problems in the north-east?

Huw Lewis: If the Member is willing to write to me with details of this deterioration, as he termed it—I was aware that there were problems in north-east Wales, and he has brought that to my attention previously, but I was not aware that the situation had deteriorated, as such—I would be more than willing to represent the interests of Welsh viewers and listeners. I will do so, if he will write to me with further details of exactly what they are facing at the moment.

Huw Lewis: Os yw'r Aelod yn barod i ysgrifennu ataf gan nodi manylion y sefyllfa hon sydd wedi gwaethygu, fel y'i galwodd—roeddwn yn ymwybodol bod problemau yn y gogledd-ddwyrain, ac mae wedi tynnu fy sylw at hynny o'r blaen, ond nid oeddwn yn ymwybodol bod y sefyllfa wedi gwaethygu, fel y cyfryw—byddwn yn fwy na pharod i gynrychioli buddiannau gwylwyr a gwrandawyr yng Nghymru. Gwnaf hynny os yw'n fodlon ysgrifennu ataf gan nodi manylion pellach am yr union sefyllfa y

mae'r bobl hynny'n ei hwynebu ar hyn o bryd.

Suzy Davies: Weinidog, mae mynediad i S4C a rhaglenni rhanbarthol yn dibynnu ar lle mae eich erial yn pwyntio. Er bod darparwyr lloeren a Freesat yn darlledu S4C a rhaglenni rhanbarthol i aelwydydd ar draws y DU, nid yw Freeview yn gwneud hynny. A ydych wedi gofyn i Ofcom hysbysu gwylwyr Freeview yng Nghymru am sut i diwnio i mewn i ddarllediadau Cymreig?

Suzy Davies: Minister, access to S4C and regional programmes depends upon the direction in which your aerial points. Although satellite and Freesat providers broadcast S4C and regional programmes to homes across the UK, Freeview does not. Have you asked Ofcom to notify Freeview viewers in Wales about how to tune in to Welsh broadcasts?

Huw Lewis: These are matters for Ofcom. I take your point, however. You are quite right that both Freesat and Freesat from Sky are subscription-free satellite services that solve the problem for some viewers and listeners, for a one-off payment of between £130 and £175. In terms of requesting that that particular piece of advice should go out from Ofcom, I am unfamiliar with whether it has made that piece of advice available or not. I am more than happy to make those enquiries and to chase that particular query.

Huw Lewis: Materion i Ofcom yw'r rhain. Derbyniaf eich pwynt, fodd bynnag. Rydych yn llygad eich lle wrth ddweud bod Freesat a Freesat gan Sky yn wasanaethau lloeren nad oes angen tanysgrifio iddynt, sy'n datrys y broblem i rai gwylwyr a gwrandawyr, am dâl unwaith yn unig sydd rhwng £130 a £175. O ran gofyn i Ofcom roi'r cyngor penodol hwnnw, ni wn a yw wedi sicrhau bod y cyngor hwnnw ar gael ai peidio. Rwyf yn fwy na pharod i wneud ymholiadau a mynd ar drywydd yr ymholiad penodol hwnnw.

Bethan Jenkins: Hoffwn ategu'r hyn a ddywedodd Aled Roberts yn gynharach. Efallai fod twf teledu lloeren yn gallu helpu i ddatrys rhai o'r problemau hyn. A yw eich Llywodraeth wedi cynnal unrhyw ymchwiliadau i ba mor dda mae hyn yn gweithio neu a ydych wedi siarad gydag unrhyw ddarlledwr penodol sydd yn gallu helpu'r bobl yn yr ardal hon sydd yn wynebu problemau o ran gwylio rhaglenni rhanbarthol y BBC ac ITV Cymru?

Bethan Jenkins: I would like to endorse what Aled Roberts said earlier. Perhaps the growth of satellite television can help to solve some of these problems. Has your Government held any inquiries into how well this is working or have you spoken with any specific broadcaster that can help the people in this area who face problems in watching regional BBC and ITV programmes?

Huw Lewis: To me, these sound like functions that should have been carried out by Digital UK and Ofcom under their responsibilities to viewers and listeners. However, as I said, I am more than willing to write to them to prompt them in that direction, should that be something that would assist viewers and listeners in the parts of Wales that are affected.

Huw Lewis: Ymddengys i mi fod y swyddogaethau hyn yn rhai y dylai Digital UK ac Ofcom fod wedi eu cyflawni yn rhan o'u cyfrifoldebau o safbwynt gwylwyr a gwrandawyr. Fodd bynnag, fel y soniais, rwyf yn fwy na pharod i ysgrifennu atynt i'w hannog i fynd i'r cyfeiriad hwnnw, pe bai hynny'n rhywbeth a fyddai'n cynorthwyo gwylwyr a gwrandawyr yn y rhannau o Gymru yr effeithir arnynt.

Bethan Jenkins: Diolch am yr ateb hwnnw. I symud ymlaen o'r cwestiwn cyntaf, yn ddiweddar, mae llawer o newidiadau wedi digwydd i S4C o ran y gweithwyr yno, gyda nifer o newidiadau ynglŷn â sut y bydd y gweithwyr hynny'n mynd i'r afael â'r hyn a

Bethan Jenkins: Thank you for that response. To move on from the initial question, recently there have been many changes to S4C in terms of its workforce, with many changes regarding how that workforce will get to grips with what will

fydd yn digwydd o fewn y sianel yn y dyfodol. A fyddai modd i chi amlinellu pa drafodaethau rydych wedi'u cael fel Gweinidog yn ddiweddar gydag S4C ac am y posibilrwydd o ddatganoli darlledu i Gymru?

Huw Lewis: I have regular conversations with broadcasters—BBC, S4C and ITV in Wales. Those are ongoing and regularised. We also have a regularised relationship between the BBC and S4C. That is still working itself out in terms of the detail, but at least we seem to have a period of stability and certainty before us in terms of funding. Even though it is daunting, it is certain, spreading out before us. The Welsh Government will engage every step of the way in the development of those conversations to ensure that Welsh media services, whether news services or non-news services, are protected and enhanced across Wales.

happen in the channel in the future. Could you outline what discussions you have had recently as Minister with S4C and about the possibility of devolving broadcasting to Wales?

Huw Lewis: Rwyf yn cael trafodaethau'n rheolaidd â darlledwyr—y BBC, S4C ac ITV yng Nghymru. Mae'r trafodaethau hynny'n rhai parhaus ac yn rhai yr ydym wedi sicrhau eu bod yn digwydd yn rheolaidd. Rydym wedi ffurfioli perthynas rhwng y BBC ac S4C hefyd. Mae manylion y berthynas i'w cadarnhau o hyd, ond ymddengys o leiaf fod gennym gyfnod o sefydlogrwydd a sicrwydd o'n blaen o ran cyllid. Er bod y sefyllfa yn codi braw, mae'n sefyllfa sicr sy'n ymestyn o'n blaen. Bydd Llywodraeth Cymru yn ymwneud bob cam o'r ffordd â datblygu'r trafodaethau hynny er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'r cyfryngau yng Nghymru, boed yn wasanaethau newyddion neu fel arall, yn cael eu diogelu a'u gwella ledled Cymru.

Tai Cymdeithasol

8. Rhodri Glyn Thomas: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyraniad tai cymdeithasol yng Nghymru. OAQ(4)0154(HRH)*

Huw Lewis: I thank the Member for Carmarthen East and Dinefwr for the question. The allocation of social housing is influenced by a number of factors. These include legislation, a statutory code of guidance, provided by Welsh Government to local authorities, our delivery outcomes for registered social landlords, and policies developed and agreed at local level to meet the needs of communities.

Rhodri Glyn Thomas: Yn ogystal â'r rhestr honno, rwyf yn siŵr y byddai'r Gweinidog yn barod i dderbyn bod cysylltiad cymhleth rhwng darpariaeth tai cymdeithasol a digartrefedd. A yw'r Gweinidog o'r farn y byddai gosod cyfrifoldeb statudol ar lywodraeth leol i geisio atal digartrefedd yn effeithio ar y sefyllfa hon, a pha gynlluniau sydd ganddo i fynd i'r afael â hynny?

Huw Lewis: This is a discussion that is

Social Housing

8. Rhodri Glyn Thomas: *Will the Minister make a statement on the allocation of social housing in Wales. OAQ(4)0154(HRH)*

Huw Lewis: Diolch i'r Aelod dros Ddwyrain Caerfyrddin a Dinefwr am y cwestiwn. Mae nifer o ffactorau yn dylanwadu ar y broses o ddyrannu tai cymdeithasol. Mae'r ffactorau hynny'n cynnwys deddfwriaeth, cod canllawiau statudol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol, ein canlyniadau cyflawni ar gyfer landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, a pholisïau a ddatblygwyd ac y cytunwyd arnynt ar lefel leol i ddiwallu anghenion cymunedau.

Rhodri Glyn Thomas: In addition to that list, I am sure that the Minister would be willing to accept that there is a complex link between the provision of social housing and homelessness. Does the Minister believe that placing a statutory responsibility on local government to try to prevent homelessness would affect this situation, and what plans does he have to get to grips with that?

Huw Lewis: Mae'r drafodaeth hon yn parhau

ongoing as a result of the publication of my White Paper prior to the housing Bill. Proposed in the White Paper is the idea that we should have a statutory duty to prevent homelessness imposed on local government and, conceivably, on other partners too. Agencies would therefore be expected to co-operate prevent homelessness, rather than just react to it once it has occurred. I do not claim a monopoly of wisdom on what that duty might mean. I think that the logic behind the basic principle is correct and sound. I am very interested in the progress that our colleagues in Scotland have made by changing the regime around their homelessness provision, although their emphasis on prevention is not quite what it could have been. I believe that we could improve on the Scottish experience in Wales. In the middle of a consultation period, it is not for me to dictate exactly how that duty of prevention should look and feel, and upon whom that duty should fall, although the strategic role of local government makes it well-nigh certain that it would be at the centre of that duty. However, that duty could be articulated more widely.

o ganlyniad i gyhoeddi fy Mhapur Gwyn cyn y Bil tai. Yr hyn a gynigir yn y Papur Gwyn yw'r syniad y dylem osod dyletswydd statudol ar lywodraeth leol, ac ar bartneriaid eraill hefyd efallai, i atal digartrefedd. Felly, byddai disgwyl i asiantaethau gydweithredu i atal digartrefedd yn hytrach nag ymateb iddo pan fydd wedi digwydd. Nid wyf yn honni mai fi yw'r unig un sy'n gwybod beth y gallai'r ddyletswydd honno ei olygu. Credaf fod y rhesymeg y tu ôl i'r egwyddor sylfaenol yn gywir ac yn gadarn. Mae gennyf ddiddordeb mawr yn y cynnydd y mae ein cydweithwyr yn yr Alban wedi'i wneud trwy newid y drefn ynghylch eu darpariaeth o ran digartrefedd, er y gallent fod wedi rhoi mwy o bwyslais ar ei atal. Credaf y gallem wella ar brofiad yr Alban yng Nghymru. Gan ein bod yng nghanol cyfnod ymgynghori, nid fy lle i yw dweud sut yn union y dylai'r ddyletswydd honno i atal digartrefedd ymddangos, nac ar bwy y dylid ei gosod, er bod rôl strategol llywodraeth leol yn golygu y byddai llywodraeth leol, bron yn sicr, yn ganolog i'r ddyletswydd. Fodd bynnag, gallai'r ddyletswydd gael ei mynegi'n fwy cyffredinol.

Sandy Mewies: Minister, would you agree that the recent statistics from the National House-Building Council, which show a 71% increase in registrations for new houses in Wales compared with last year, indicate that the approach that this Welsh Labour Government is taking to stimulate economic growth through investment in housing is working?

Sandy Mewies: Weinidog, a fyddech yn cytuno bod yr ystadegau diweddar gan y Cyngor Cenedlaethol Adeiladu Tai, sy'n dangos cynnydd o 71% yn nifer y tai newydd a gofrestrwyd yng Nghymru o gymharu â'r llynedd, yn dangos bod dull y Llywodraeth Lafur hon yng Nghymru o ysgogi twf economaidd trwy fuddsoddi mewn tai yn gweithio?

Huw Lewis: I thank the Member for Delyn for pointing out those quite remarkable statistics from the National House-Building Council. They cover a very recent period—from March to May of this year—and show registrations to build new homes in Wales increasing by more than two thirds, at 71%, compared with the same period in 2011. The number of registrations has risen from 750 to over 1,200. Within the United Kingdom, only Wales and, to a lesser extent, Northern Ireland, can point to this level of improvement. In fact, in England and Scotland, the figures went in the opposite direction.

Huw Lewis: Diolch i'r Aelod dros Ddelyn am dynnu sylw at yr ystadegau rhyfeddol hynny gan y Cyngor Cenedlaethol Adeiladu Tai. Maent yn ymdrin â chyfnod diweddar iawn—rhwng mis Mawrth a mis Mai eleni—ac maent yn dangos bod cofrestriadau i adeiladu cartrefi newydd yng Nghymru wedi cynyddu dros ddwy ran o dair, sef 71%, o gymharu â'r un cyfnod yn 2011. Mae nifer y cofrestriadau wedi cynyddu o 750 i dros 1,200. Yn y Deyrnas Unedig, dim ond Cymru, a Gogledd Iwerddon i raddau llai, a all gyfeirio at y lefel hon o welliant. Yn wir, gwaethygodd y ffigurau yn Lloegr a'r Alban.

Janet Finch-Saunders: In 2011-12, under

Janet Finch-Saunders: Yn ystod 2011-12,

the Homeless Persons (Priority Need) (Wales) Order 2001, we saw the highest number of housing allocations, 955, with Conwy, in my constituency, seeing 70, compared to a Wales average of 43 per authority. Minister, this is a real concern for many in my constituency. The Homeless Persons (Priority Need) (Wales) Order too often easily allows ex-offenders from over the border, from outside Wales, to scale right to the top of the housing allocation list, often at the expense of local families and those with the relevant points needed to be allocated a home and, as has been touched on by my colleagues, those who have needs in terms of local and disability issues.

dan Orchymyn Personau Digartref (Angen Blaenoriaethol) (Cymru) 2001, gwelsom y nifer fwyaf o ddyraniadau tai, sef 955, gyda 70 ohonynt yn fy etholaeth i yng Nghonwy o gymharu â chyfartaledd o 43 ar gyfer pob awdurdod yng Nghymru. Weinidog, mae'r mater hwn yn peri pryder gwirioneddol i lawer yn fy etholaeth. Yn rhy aml, mae Gorchymyn Personau Digartref (Angen Blaenoriaethol) (Cymru) yn caniatáu i gyn-droseddwyr o dros y ffin, o'r tu allan i Gymru, ddringo'n hawdd i frig y rhestr dyrannu tai, a hynny'n aml ar draul teuluoedd lleol a'r sawl sydd â'r pwyntiau perthnasol y mae eu hangen i gael cartref ac, fel y soniodd fy nghydweithwyr, y sawl sydd ag anghenion o ran materion lleol a materion yn ymwneud ag anabledd.

Minister, in your forthcoming housing Bill, what representations are you making to look at this issue and to address the concerns that are being raised all over Wales, and nowhere more so than in my constituency of Aberconwy?

Weinidog, yn eich Bil tai sydd ar ddod, pa fwriad sydd gennych i edrych ar y mater hwn ac i fynd i'r afael â'r pryderon sy'n cael eu mynegi ar hyd a lled Cymru, yn enwedig yn fy etholaeth i yn Aberconwy?

Huw Lewis: I have met the Member to discuss these issues previously and, while I am well aware of the press coverage of these issues in the part of Wales to which she refers, I would say that I expect more of elected representatives when it comes to their presentation of issues surrounding housing allocation such as this. To suggest that because someone is an ex-offender, and simply because of that, they could wash up in any part of Wales and expect to be prioritised for social housing is patently untrue, and to peddle that as some kind of received truth in the local press and so on, thereby causing local controversy for those people—[*Interruption*.] Housing is under pressure, and we have waiting lists that are far too long, but it is clear, and I have made it clear to the Member over and again, that the local authority can deliberate as to whether people have a local connection with the area before any of this prioritisation kicks in. So, it is not true to suggest that simply because someone is an ex-offender they leap over families and other deserving cases on the housing list.

Huw Lewis: Rwyf wedi cyfarfod â'r Aelod i drafod y materion hyn o'r blaen, ac er fy mod yn ymwybodol iawn o'r sylw y mae'r wasg yn ei roi i'r materion hyn yn y rhan honno o Gymru y mae'n cyfeirio ati, hoffwn ddweud fy mod yn disgwyl gwell gan gynrychiolwyr etholedig pan fyddant yn cyflwyno materion sy'n ymwneud â dyrannu tai, megis y mater hwn. Mae awgrymu bod unigolyn, am ei fod yn gyn-droseddwr, ac am y rheswm hwnnw'n unig, yn gallu ymddangos yn unrhyw ran o Gymru a disgwyl cael blaenoriaeth o ran tai cymdeithasol yn gyfan gwbl anghywir, ac mae hyrwyddo hynny fel rhyw fath o wirionedd yn y wasg leol ac yn y blaen, gan beri i'r unigolion hynny fod yn destun dadlau—[*Torri ar draws*.] Mae'r sector tai dan bwysau, ac mae gennym restrau aros sy'n rhy hir o lawer, ond mae'n glir, ac rwyf wedi egluro hynny wrth yr Aelod dro ar ôl tro, y gall yr awdurdod lleol drafod a oes gan unigolion gysylltiad lleol â'r ardal cyn i unrhyw waith blaenoriaethu ddechrau. Felly, nid yw'n wir awgrymu bod rhywun, am ei fod yn gyn-droseddwr, yn gallu goddiweddyd teuluoedd ac achosion teilwng eraill ar y rhestr dyrannu tai.

The interpretation of 'local connection' is

Yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am ddehongli

there for the local authority to make, and, if there is a problem with that definition within your constituency, I suggest that you take it up with your local authority. I would also caution very strongly against the peddling this kind of misinformation in the public arena by you and your colleagues as it is destabilising for our communities and it turns people who are in dire need of housing against each other—but was that not always the tactic of the Conservative Party?

beth yw 'cysylltiad lleol', ac os oes problem â'r diffiniad hwnnw yn eich etholaeth, rwyf yn awgrymu y dylech sôn wrth eich awdurdod lleol amdano. Byddwn hefyd yn eich rhybuddio chi ac yn rhybuddio eich cydweithwyr yn gryf rhag hyrwyddo'r math hwn o wybodaeth anghywir i'r cyhoedd, gan ei bod yn ansefydlogi ein cymunedau ac yn troi pobl y mae gwir angen tai arnynt yn erbyn ei gilydd—ond onid dyna fu tacteg y Blaid Geidwadol erioed?

Cyngor Celfyddydau Cymru

9. Alun Ffred Jones: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ail-strwythuro Cyngor Celfyddydau Cymru. OAQ(4)0160(HRH)*

Huw Lewis: I thank the Member for—I have momentarily forgotten your constituency

Alun Ffred Jones: Arfon.

Huw Lewis: Quite so; I was back in Meirionnydd for a moment. I beg your pardon.

Alun Ffred Jones: Alun Ffred Jones ydw i. [*Chwerthin.*]

Huw Lewis: All right, then, there have been no boundary changes. The Arts Council of Wales has recently completed a comprehensive review of its internal staffing structure in order to achieve a reduction in its running cost budget of 12% in the three years to 2013-14. That equates to a saving of almost £300,000 over that period.

Alun Ffred Jones: Mae'r ailstrwythuro'n dilyn strategaeth gelfyddydau newydd, sydd wedi dod â newidiadau mawr i'r celfyddydau yng Nghymru. Un o'r cwmnïau sy'n wynebu'r her yn llwyddiannus yw Cwmni'r Frân Wen, sy'n gwasanaethu'r gogledd-orllewin yn bennaf, ond nid y fan honno yn unig. A wnewch ymuno â mi wrth longyfarch y cwmni hwn ar ei raglen waith heriol ac amrywiol sydd wedi ennyn clod mawr yn y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys sioe ieuenctid lwyddiannus iawn yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd?

Huw Lewis: Yes, of course I will, and I

Arts Council of Wales

9. Alun Ffred Jones: *Will the Minister make a statement on the restructuring of the Arts Council of Wales. OAQ(4)0160(HRH)*

Huw Lewis: Diolch i'r Aelod dros—rwyf wedi anghofio enw eich etholaeth am eiliad.

Alun Ffred Jones: Arfon.

Huw Lewis: Yn wir; roeddwn yn ôl ym Meirionnydd am eiliad. Mae'n ddrwg gennyf.

Alun Ffred Jones: I am Alun Ffred Jones. [*Laughter.*]

Huw Lewis: Iawn, felly, nid oes unrhyw newidiadau wedi eu gwneud i'r ffiniau. Yn ddiweddar, cwblhaodd Cyngor Celfyddydau Cymru adolygiad cynhwysfawr o'i strwythur staffio mewnol er mwyn sicrhau gostyngiad o 12% yn ei gyllideb ar gyfer costau rhedeg yn ystod y tair blynedd hyd 2013-14. Mae hynny'n cyfateb i arbediad o bron i £300,000 dros y cyfnod hwnnw.

Alun Ffred Jones: The restructuring follows the new arts strategy, which has brought major changes to the arts in Wales. One company that has faced the challenge successfully is the Cwmni'r Frân Wen theatre company, which serves north-west Wales primarily, but not exclusively. Will you join me in congratulating this company on its challenging and diverse work programme that has won great praise over the past year, including a very successful youth show in the Urdd National Eisteddfod?

Huw Lewis: Wrth gwrs y gwnaf, a hoffwn

would extend that level of congratulation to all those talented and committed partners throughout Wales that continue to produce work of the very highest standard, even in these difficult times. In these times, incidentally, despite all the pressures of finance, initial indications appear to show an increase in audience numbers almost across the board and right across the country, because of the dedication and professionalism of groups such as Cwmni'r Frân Wen.

estyn y llongyfarchiadau hynny i'r holl bartneriaid talentog ac ymroddedig ledled Cymru sy'n parhau i gynhyrchu gwaith o'r safon uchaf, hyd yn oed yn y cyfnod anodd sydd ohoni. Yn y cyfnod sydd ohoni, gyda llaw, er gwaethaf yr holl bwysau ariannol, ymddengys fod yr arwyddion cychwynnol yn dangos cynnydd mewn niferoedd cynulleidfaoedd bron yn gyffredinol ac ar hyd a lled y wlad, oherwydd ymroddiad a phroffesiynoldeb grwpiau megis Cwmni'r Frân Wen.

3.00 p.m.

Suzy Davies: Weinidog, un o brosiectau mwyaf Cyngor Celfyddydau Cymru eleni yw'r Olympiad diwylliannol. Sut y byddwch yn asesu llwyddiant yr Olympiad diwylliannol yng Nghymru, a beth y byddwch yn ei ddweud wrth y cyngor celfyddydau os na fyddwch yn gweld gwerth am arian?

Suzy Davies: Minister, one of the Arts Council of Wales's major projects this year is the cultural Olympiad. How are you going to assess the success of the cultural Olympiad in Wales, and what will you say to the arts council if you do not see value for money?

Huw Lewis: The cultural Olympiad, as with any activity with which the Arts Council of Wales engages, will be subject to the usual scrutiny, through annual reports, assessments of audience numbers, value for money and so on. Therefore, it will not be disconnected in any way from the normal run of events. However, subjectively speaking, it seems to have been an enormous success as regards the numbers of participants, performers and audiences.

Huw Lewis: Bydd yr Olympiad diwylliannol, yn yr un modd ag unrhyw weithgaredd y mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ymwneud ag ef, yn destun y prosesau craffu arferol, ar ffurf adroddiadau blynyddol, asesiadau o niferoedd cynulleidfaoedd, gwerth am arian ac yn y blaen. Felly, ni fydd ar wahân o gwbl i'r gyfres arferol o ddigwyddiadau. Fodd bynnag, a siarad yn bersonol, ymddengys iddo fod yn llwyddiant aruthrol o ran niferoedd y cyfranogwyr, y perfformwyr a'r cynulleidfaoedd.

Pwynt o Drefn
Point of Order

Kenneth Skates: I raise a point of order under Standing Order No. 17.21 and 17.22. This morning, the Enterprise and Business Committee met. Unfortunately, we met without the Chair. After some time, we elected a temporary Chair. However, it was after some time and it was embarrassing and somewhat confusing, not least because we had two Ministers in attendance. I would like clarification if possible of how long a committee should wait before electing a temporary Chair, in the event that the Chair does not attend and does not give notice of

Kenneth Skates: Hoffwn godi pwynt o drefn dan Reolau Sefydlog Rhif 17.21 a 17.22. Cyfarfu'r Pwyllgor Menter a Busnes y bore yma. Yn anffodus, bu inni gyfarfod heb y Cadeirydd. Ar ôl tipyn o amser, bu inni ethol Cadeirydd dros dro. Digwyddodd hynny ar ôl tipyn o amser fodd bynnag, ac roedd yn sefyllfa annifyr ac eithaf dryslyd, nid yn lleiaf oherwydd bod dau Weinidog yn bresennol. Os yn bosibl, hoffwn eglurhad ynghylch pa mor hir y dylai pwyllgor aros cyn ethol Cadeirydd dros dro, pan na fydd y Cadeirydd yn bresennol a phan na fydd wedi hysbysu'r

their absence.

pwyllgor o hynny.

The Presiding Officer: That is not a point of order for me. Committees are responsible for their own procedures, including appointing a temporary Chair in the absence of the Chair under Standing Order No. 17.22. However, I would assume that any Member would have the courtesy to inform the clerk of their non-attendance, particularly if they are the Chair.

Y Llywydd: I mi, nid pwynt o drefn yw hynny. Mae'r Pwyllgorau yn gyfrifol am eu gweithdrefnau eu hunain, gan gynnwys y weithdrefn ar gyfer penodi Cadeirydd dros dro yn absenoldeb y Cadeirydd, dan Reol Sefydlog Rhif 17.22. Fodd bynnag, byddwn yn tybio y byddai pob Aelod yn ddigon cwrtais i hysbysu'r clerc o'r ffaith na fydd yn bresennol, yn enwedig os yr Aelod dan sylw yw'r Cadeirydd.

Cynnig i Atal y Rheolau Sefydlog
Motion to Suspend Standing Orders

Cynnig NNDM5045 Rosemary Butler

Motion NNDM5045 Rosemary Butler

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Orders 33.6 and 33.8:

Yn atal Rheol Sefydlog 11.16 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog 11.11 yn darparu'r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu i'r cynigion o dan eitem 3, 4 and 5 gael eu hystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher, 18 Gorffennaf 2012.

Suspends Standing Order 11.16, which requires the weekly announcement under Standing Order 11.11 to constitute the timetable for business in Plenary for the following week, to allow the motions under item 3, 4 and 5 to be considered in Plenary on Wednesday 18 July 2012.

The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt): I move the motion.

Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt): Cynigiaf y cynnig.

The Presiding Officer: The proposal is to suspend Standing Orders. Does any Member object? I see that they do not. The motion is therefore agreed, in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y Llywydd: Y cynnig yw atal Rheolau Sefydlog. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes. Felly, derbynnir y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

Derbyniwyd y cynnig.
Motion agreed.

Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012
The Natural Resources Body for Wales (Establishment) Order 2012

Cynnig NDM5038 Jane Hutt

Motion NDM5038 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

To propose that the National Assembly for Wales in accordance with Standing Order 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru

Approves that the draft The Natural Resources Body for Wales (Establishment)

(Sefydlu) 2012 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 30 Mai 2012.

Order 2012 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 30 May 2012.

The Minister for Environment and Sustainable Development (John Griffiths): I move the motion.

Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy (John Griffiths): Cynigiaf y cynnig.

There has been much discussion and consultation leading up to the decision to create a single body that will combine the functions of the Countryside Council for Wales and the Welsh devolved functions of the Environment Agency and the Forestry Commission. The purpose of this Order is to establish that single body and provide it with the powers to undertake preparatory work in advance of having the substantive functions of the legacy bodies transferred to it by a second Order. The Order has been scrutinised by the Environment and Sustainability Committee and the Constitutional and Legislative Affairs Committee, and it has been the subject of a Plenary debate with regard to the form of affirmative procedure that applies as a result of the Public Bodies Act 2011, under which the Order is being made. The Order is purely intended to establish the single body. It does not enable the body to deliver substantive regulatory functions in relation to the environment or natural resources of Wales. A second Order will need to accomplish that.

Bu llawer o drafod ac ymgynghori cyn y penderfyniad i greu un corff a fydd yn cyfuno swyddogaethau Cyngor Cefn Gwlad Cymru a swyddogaethau datganoledig Cymru o ran Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Comisiwn Coedwigaeth. Pwrpas y Gorchymyn hwn yw sefydlu'r un corff hwnnw a rhoi iddo'r pwerau i ymgymryd â gwaith paratoi cyn cael swyddogaethau creiddiol y cyrff etifeddol, a drosglwyddir iddo gan ail Orchymyn. Mae'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol wedi craffu ar y Gorchymyn, a bu'n destun dadl Cyfarfod Llawn ynghylch y math o weithdrefn gadarnhaol sy'n berthnasol o ganlyniad i Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011, y caiff y Gorchymyn ei wneud dani. Unig fwriad y Gorchymyn yw sefydlu'r un corff amgylcheddol. Nid yw'n galluogi'r corff i gyflawni swyddogaethau rheoleiddio creiddiol yng nghyswllt amgylchedd neu adnoddau naturiol Cymru. Bydd angen ail Orchymyn i sicrhau hynny.

The powers that this Order confers on the Welsh Ministers are not new powers, in the sense that they all mirror powers that the Welsh Ministers already have in relation to one or more of the legacy bodies. The slight caveat to that relates to the power, in article 5 of the draft Order, to give guidance to the new body as to how it should exercise its functions so as to give effect to its purpose. The power itself is closely based on the power in section 4 of the Environment Act 1995 to give guidance to the Environment Agency, but the new body's purpose is a new purpose, which is worded differently from the wording of the objectives of any of the three legacy bodies, as it must inevitably be, because the new body brings together three different bodies. Therefore the guidance power is subtly different also.

Nid yw'r pwerau y mae'r Gorchymyn hwn yn eu rhoi i Weinidogion Cymru yn bwerau newydd, yn yr ystyr eu bod i gyd yn adlewyrchu pwerau sydd gan Weinidogion Cymru eisoes yng nghyswllt un neu ragor o'r cyrff etifeddol. Mae'r cafeat bach i hynny'n ymwneud â'r pŵer, yn erthygl 5 y Gorchymyn drafft, i roi canllawiau i'r corff newydd o ran y modd y dylai arfer ei swyddogaethau er mwyn rhoi effaith i'w ddiben. Mae'r pŵer ei hun wedi'i seilio'n agos ar y pŵer yn adran 4 Deddf yr Amgylchedd 1995 i roi canllawiau i Asiantaeth yr Amgylchedd, ond mae diben y corff newydd yn ddiben newydd, y mae ei eiriad yn wahanol i eiriad amcanion unrhyw un o'r tri chorff etifeddol, ac mae'n anochel bod yn rhaid iddo fod felly am fod y corff newydd yn dwyn tri chorff gwahanol ynghyd. Felly, mae'r pŵer ynghylch rhoi canllawiau ychydig bach yn wahanol hefyd.

This Order can be amended as necessary by the second Order. I have already set out proposals to maximise the opportunity to debate the second Order and provide opportunities to propose changes to it. These go well beyond the legal requirements, which I think is clear evidence of this Government's commitment to transparency, accountability and an inclusive approach.

Gellir diwygio'r Gorchymyn hwn yn ôl yr angen gan ail Orchymyn. Rwyf eisoes wedi nodi cynigion i sicrhau cymaint o gyfle ag sy'n bosibl i drafod yr ail Orchymyn, a rhoi cyfleoedd i gynnig newidiadau iddo. Mae'r rheini yn mynd ymhell y tu hwnt i'r gofynion cyfreithiol, a chredaf fod hynny'n dystiolaeth glir o ymrwymiad y Llywodraeth hon i dryloywder, atebolrwydd a dull gweithredu cynhwysol.

Russell George: I am not going to go into detail again, as the points were raised during the procedural debate that my colleague, Antoinette Sandbach, and I tabled two weeks ago. However, I will highlight again the unsatisfactory way in which this piece of legislation has been handled by the Welsh Government, and the very difficult position it has put us in as legislative scrutinisers, not being able to properly examine the detail of the Order before any formal vote in the Chamber.

Russell George: Nid wyf yn bwriadu manylu ar hyn unwaith eto, oherwydd cafodd y pwyntiau eu codi yn ystod y ddadl weithdrefnol a gyflwynwyd gan fy nghydweithiwr, Antoinette Sandbach, a minnau bythefnos yn ôl. Fodd bynnag, hoffwn dynnu sylw unwaith eto at y ffaith bod y darn hwn o ddeddfwriaeth wedi ei drin yn anfoddhaol gan Lywodraeth Cymru, a hoffwn dynnu sylw at y sefyllfa anodd iawn y mae wedi ein rhoi ni fel craffwyr deddfwriaethol ynddi, am nad ydym wedi gallu archwilio manylion y Gorchymyn yn iawn cyn i unrhyw bleidlais ffurfiol gael ei chynnal yn y Siambr.

There are significant powers contained in this Order, and Assembly Members and outside stakeholders involved in the proposed merger would have liked the opportunity to ask legitimate questions to you, Minister, regarding the scope and rationale of these powers, as well as having the opportunity to table amendments under the superaffirmative procedure. This comes on top of the external concerns from stakeholders about how the process of establishing the new single body has been conducted thus far, given that we still have not had the full policy context of why this environment body is being established. In our view, this process would have had more legitimacy if it were passed in a consolidated Bill, which would have allowed everyone in the process to be crystal clear about the role, remit and function of the new environmental body. We feel that an organisation of this importance to Wales has to be prescriptive from the start, so that there is no possibility of uncertainty or confusion.

Mae'r Gorchymyn hwn yn cynnwys pwerau sylweddol, a byddai Aelodau'r Cynulliad a rhanddeiliaid allanol sy'n ymwneud â'r uno arfaethedig wedi hoffi cael cyfle i ofyn cwestiynau dilys ichi, Weinidog, ynghylch cwmpas a sail resymegol y pwerau hynny, yn ogystal â chyfle i gyflwyno gwelliannau dan y weithdrefn uwchgadarnhaol. Mae hynny'n ychwanegol at bryderon allanol rhanddeiliaid ynghylch sut y mae'r broses o sefydlu'r un corff newydd wedi ei chyflawni hyd yma, o gofio nad ydym o hyd wedi cael y cyd-destun polisi llawn ynghylch pam y mae'r corff amgylcheddol hwn yn cael ei sefydlu. Yn ein barn ni, byddai'r broses wedi bod yn fwy dilys pe bai'n cael ei phasio mewn Bil cyfunol, a fyddai wedi caniatáu i bawb sy'n rhan o'r broses ddeall yn hollol glir beth yw rôl, cylch gwaith a swyddogaeth y corff amgylcheddol newydd. Rydym yn teimlo bod yn rhaid i sefydliad mor bwysig â hwn i Gymru roi cyfarwyddiadau o'r dechrau, fel na cheir unrhyw bosibilrwydd o ansicrwydd neu ddryswch.

Finally, let me be absolutely clear about our group's position. We agree with the principle

Yn olaf, gadewch imi fod yn gwbl glir ynghylch safbwynt ein grŵp. Rydym yn

of ensuring that, strategically, Wales is in a position to put our environmental resources to best and most sustainable use, and that we have a functioning organisation to achieve that. However, the way in which the process has been handled to date has not provided us with confidence that the Government knows what it wants to achieve or the intended outcome for the new body. We are not voting against this Order to be deliberately obstructive. A dangerous precedent could be set here about relations between this place and the Government. I strongly urge my opposition colleagues to vote against this Order today.

cytuno â'r egwyddor o sicrhau bod Cymru, yn strategol, mewn sefyllfa i wneud y defnydd gorau a mwyaf cynaliadwy o'n hadnoddau amgylcheddol, a sicrhau bod gennym sefydliad gweithredol i gyflawni hynny. Fodd bynnag, nid yw'r modd yr ymdriniwyd â'r broses hyd yma wedi meithrin hyder ynom fod y Llywodraeth yn gwybod beth y mae am ei gyflawni neu beth yw'r canlyniad a fwriedir ar gyfer y corff newydd. Nid ydym yn pleidleisio yn erbyn y Gorchymyn hwn i'w rwystro'n fwriadol. Gallai cynsail peryglus gael ei osod yma ynghylch cysylltiadau rhwng y lle hwn a'r Llywodraeth. Rwyf yn annog fy nghydweithwyr yn y gwrthbleidiau i bleidleisio yn erbyn y Gorchymyn hwn heddiw.

Llyr Huws Gruffydd: Mae'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd a'r gwrthbleidiau yn gyson wedi ceryddu'r Llywodraeth am roi'r cart o flaen y ceffyl—hynny yw, am symud ymlaen i greu corff amgylcheddol newydd cyn penderfynu yn union beth fydd swyddogaethau'r corff hwnnw. Byddwn i wedi tybio bod unrhyw un â gronyn o synnwyr cyffredin yn gwybod bod angen penderfynu beth sydd angen ei gyflawni cyn penderfynu sut i fynd ati i gyflawni hynny. Yr amgylchedd naturiol yw un o asedau pwysicaf Cymru, ac felly mae'n gwbl hanfodol ein bod yn cael hyn yn iawn.

Llyr Huws Gruffydd: The Environment and Sustainability Committee and the opposition parties have consistently rebuked the Government for putting the cart before the horse—that is, for going ahead and creating a new environment body before deciding exactly what the functions of that body would be. I would have thought that anyone with an ounce of common sense would know that you need to decide what needs to be achieved before deciding how exactly to go about achieving it. The natural environment is one of Wales's most important assets, and so it is crucial that we get this right.

Mae gan unrhyw newid sefydliadol o'r raddfa hon nifer o risgiau ynghlwm, ac mae unrhyw newid polisïol o'r raddfa yr ydym yn ei gweld ar hyn o bryd hefyd yn dod â nifer o risgiau. Mae ymgymryd â'r ddau newid ar yr un pryd mewn dwy broses gyfochrog â'i gilydd, a dweud y gwir, yn gofyn am drafferth. Dyna'r hyn yr ydym yn ei weld yma gyda'r angen am ddau Orchymyn gwahanol—un i sefydlu'r corff newydd ac un i amlinellu a throsglwyddo cyfrifoldebau a swyddogaethau. Yr eironi yw bod y Gweinidog wedi'i gwneud yn glir eto heddiw y bydd modd diwygio unrhyw beth sydd yn y Gorchymyn cyntaf wrth drafod yr ail Orchymyn, sy'n profi i unrhyw un bod y cart o flaen y ceffyl.

Any institutional change of this scale brings with it a number of risks, and any policy change of the scale we are seeing at the moment also brings a number of risks with it. Undertaking two such changes at the same time in two parallel processes is just asking for trouble, to tell the truth. That is what we are seeing here with the need for two different Orders—one to establish the new body and one to outline and transfer the responsibilities and functions. The irony is that the Minister has made it clear once again today that there will be an opportunity to amend anything in the first Order during the discussions on the second Order, which just goes to prove that the cart has been put before the horse.

3.10 p.m.

Weinidog, mae eich llythyr dyddiedig 26

Minister, your letter dated 26 June to the

Mehefin i Gadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, sy'n rhestru nifer o gonsesiynau—a dyna ydynt, fe dybiaf—sy'n ymwneud â phroses drafftio'r ail Orchymyn yn gydnabyddiaeth, neu'n gyfaddefiad, mewn gwirionedd, nad yw'r Llywodraeth wedi delio â'r mater hwn fel y dylai.

Chair of the Environment and Sustainability Committee, which lists a number of concessions—and that is what they are, I suppose—relating to the process of drafting the second Order is a recognition, or an admission, in fact, that the Government has not dealt with this issue as it should have done.

Rydym yn cefnogi creu un corff adnoddau naturiol i Gymru, ac felly ni fyddwn yn llesteirio'r broses honno oherwydd yr oblygiadau pellgyrhaeddol o wneud hynny. Fodd bynnag, mae cwestiynau sylfaenol i'w hateb am y modd y mae'r Llywodraeth wedi mynd ati i gyflwyno'r newid sylweddol hwn. Mae gwersi i'r Gweinidog a'r Llywodraeth i'w dysgu yn hynny o beth, ac mae lle hefyd i ni, fel aelodau'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, edrych ymlaen at ailadrodd y broses mwy cynhwysol hon o ddrafftio'r ail Orchymyn pan ddaw'r amser i'r Gweinidog gyflwyno Gorchmynion eraill yn y dyfodol.

We support the creation of a single natural resources body for Wales, and so we will not obstruct that process given the far-reaching implications of doing so. However, there are fundamental questions to be answered about the way in which the Government has gone about introducing this significant change. There are lessons for the Minister and the Government to learn and there is room for us, as members of the Environment and Sustainability Committee, to look forward to repeating this more inclusive process of drafting the second Order when the time comes for the Minister to introduce further Orders in the future.

William Powell: Without wishing to unduly extend proceedings today, I want to reiterate a number of the concerns that have already been raised, particularly by my colleague, Llyr Huws Gruffydd. We shall not be voting against this Order today, but it is fair to say that we still have some significant concerns about how we have reached this point. However, we were reassured by the Minister in the Chamber—and I believe that my colleague was not able to be present on that occasion—that these matters will be addressed in the second Order.

William Powell: Nid wyf am ymestyn y trafodion yn ddiangen heddiw, ond hoffwn ailadrodd nifer o'r pryderon a godwyd eisoes, yn enwedig gan fy nghydweithiwr, Llyr Huws Gruffydd. Ni fyddwn yn pleidleisio yn erbyn y Gorchymyn hwn heddiw, ond mae'n deg dweud bod gennym rai pryderon sylweddol o hyd ynghylch sut yr ydym wedi cyrraedd y pwynt hwn. Fodd bynnag, cawsom sicrwydd gan y Gweinidog yn y Siambr—ac rwyf yn credu nad oedd fy nghydweithiwr yn gallu bod yn bresennol ar yr achlysur hwnnw—y bydd y materion hyn yn cael sylw yn yr ail Orchymyn.

I still have a particular concern regarding the financial powers of this body and the potential that exists for its resources to be raided at some point by the Government for particular purposes. That threatens the long-term investment pattern that is needed particularly in the forestry industry, with forestry an important component of the body. Therefore, I would appreciate some reassurances from the Minister on that matter. In tomorrow's meeting of the Environment and Sustainability Committee, for which I have been elected temporary Chair, we shall be discussing the committee's forward work programme, and I anticipate

Rwyf yn dal i bryderu'n benodol ynghylch pwerau ariannol y corff hwn a'r potensial sy'n bodoli i'r Llywodraeth gymryd ei adnoddau oddi arno rywbryd at ddibenion penodol. Mae hynny'n bygwth y patrwm buddsoddi hirdymor y mae ei angen, yn enwedig yn y diwydiant coedwigaeth, gan fod coedwigaeth yn elfen bwysig o'r corff. Felly, byddwn yn gwerthfawrogi cael rhywfaint o sicrwydd gan y Gweinidog ynghylch y mater hwnnw. Yng nghyfarfod y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yfory, yr wyf wedi cael fy ethol yn Gadeirydd dros dro ar ei gyfer, byddwn yn trafod blaenraglen waith y pwyllgor, ac rwyf

that colleagues will wish to build in significant time to scrutinise issues in relation to that matter at the next stage.

yn rhagweld y bydd fy nghydweithwyr am gynnwys tipyn o amser i graffu ar faterion sy'n ymwneud â'r mater hwnnw yn ystod y cam nesaf.

Antoinette Sandbach: It is abundantly clear in the Record of the Environment and Sustainability Committee meeting on 21 June that the committee had substantial concerns about this Order. Just because the Minister has the power to bring forward an Order does not mean that it is the right thing to do, and this Order is not the right thing to do. It has not been brought forward in the right way. What would have been the right thing to do would have been for this Minister to bring forward the creation of this body in a Bill. We have been sitting in the Assembly since May 2011, and so there has been plenty of time to draft that legislation.

Antoinette Sandbach: Mae'n gwbl amlwg yng Nghofnod cyfarfod y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar 21 Mehefin bod gan y pwyllgor bryderon sylweddol ynghylch y Gorchymyn hwn. Nid yw'r ffaith bod gan y Gweinidog y pŵer i gyflwyno Gorchymyn yn golygu mai dyna'r peth iawn i'w wneud, ac nid cyflwyno'r Gorchymyn hwn yw'r peth iawn i'w wneud. Nid yw wedi ei gyflwyno yn y ffordd iawn. Y peth iawn i'w wneud fyddai i'r Gweinidog hwn fod wedi cyflwyno'r broses o greu'r corff mewn Bil. Rydym wedi bod yn eistedd yn y Cynulliad er mis Mai 2011, ac felly cafwyd digon o amser i ddrafftio'r ddeddfwriaeth honno.

Secondly, given that this Order was laid late, it was not possible for the Environment and Sustainability Committee to request that the Order follow the superaffirmative procedure during this term. That is to be much regretted, particularly given the substantial concerns that are noted in the Record of Proceedings for that meeting on 21 June in relation to the drafting, the powers and the way in which this Order has come about. I echo what Russell George said: we are not saying this to be difficult or obstructive. We support the idea of a single environment body, particularly one that encompasses the Environment Agency and the Countryside Council for Wales, although we had our reservations about the Forestry Commission. However, the way in which this process has been followed is not of much credit to the Assembly, which is a matter of regret, and may lead to representations being made to the UK Government in future to ask that when it considers powers such as under the Public Bodies Act 2011—which is what gave the Welsh Minister the power to create this by Order—whether there should be a limitation to say that it should only be done by Bill.

Yn ail, o gofio bod y Gorchymyn hwn wedi ei osod yn hwyr, nid oedd yn bosibl i'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ofyn i'r Gorchymyn ddilyn y weithdrefn uwchgadarnhaol yn ystod y tymor hwn. Mae hynny'n destun gofid mawr, yn enwedig o ystyried y pryderon sylweddol a nodwyd yng Nghofnod y Trafodion ar gyfer y cyfarfod hwnnw ar 21 Mehefin ynghylch y gwaith drafftio, y pwerau a'r modd y mae'r Gorchymyn hwn wedi dod i fodolaeth. Adleisiaf yr hyn a ddywedodd Russell George: nid ydym yn dweud hyn er mwyn bod yn lletchwith neu er mwyn rhwystro'r broses. Rydym yn cefnogi'r syniad o gael un corff amgylcheddol, yn enwedig un sy'n cynnwys Asiantaeth yr Amgylchedd a Chyngor Cefn Gwlad Cymru, er bod gennym ein hamheuon ynghylch y Comisiwn Coedwigaeth. Fodd bynnag, nid yw'r modd y mae'r broses hon wedi ei dilyn yn llawer o glod i'r Cynulliad, sy'n destun gofid, a gallai arwain at gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU yn y dyfodol i ofyn, pan fydd yn ystyried pwerau megis pwerau dan Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011—a sicrhaodd fod gan Weinidog Cymru y pŵer i greu'r corff hwn drwy Orchymyn—a ddylai fod cyfyngiad sy'n nodi y dylai hynny gael ei gyflawni drwy Fil.

3.15 p.m.

The Minister for Environment and Sustainability (John Griffiths): I thank Members for their contributions. This is very important in terms of the far-reaching implications of the single body. It has been clear for some time that there is a strong consensus from Members across the parties of the need for a single body. I am grateful to the Members who have indicated that they will not be opposing this Order today. We should be clear that the nature of this Order is about enabling the preparatory work. The second Order will be about the transfer of functions. The second Order is the substantive Order. There will be ample opportunity to consider and debate that. On the first Order, I mentioned earlier the committee's involvement and the involvement of Plenary. Regarding the policy context, the single body stands on its own in terms of the rationale and logic for it, outwith the work going on around 'A Living Wales' and the policy integration; it stands on its own and we have always been clear about that. We see it as aligned; we will integrate policy, natural resource management and regulation, and the three current bodies as well.

Gweinidog yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd (John Griffiths): Hoffwn ddiolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau. Mae'r mater hwn yn bwysig iawn o safbwynt goblygiadau pellgyrhaeddol yr un corff amgylcheddol. Mae wedi bod yn amlwg ers cryn amser bod consensws cryf ymhlith Aelodau o bob plaid ynghylch yr angen am un corff. Rwyf yn ddiolchgar i'r Aelodau sydd wedi nodi na fyddant yn gwrthwynebu'r Gorchymyn hwn heddiw. Dylem fod yn glir ynghylch y ffaith bod natur y Gorchymyn hwn yn ymwneud â galluogi'r gwaith paratoi. Bydd yr ail Orchymyn yn ymwneud â throsglwyddo swyddogaethau. Yr ail Orchymyn yw'r Gorchymyn creiddiol. Bydd digon o gyfle i ystyried a thrafod hwnnw. O ran y Gorchymyn cyntaf, soniais yn gynharach am gynnwys y pwyllgor a chynnwys y Cyfarfod Llawn. O safbwynt y cyd-destun polisi, mae'r un corff amgylcheddol yn sefyll ar ei ben ei hun o safbwynt y sail resymegol ar ei gyfer, y tu allan i'r gwaith sy'n digwydd yng nghyswllt 'Cymru Fyw' ac integreiddio polisi; mae'n sefyll ar ei ben ei hun, ac rydym bob amser wedi bod yn glir ynghylch hynny. Rydym yn ei ystyried fel corff cyfunion; byddwn yn integreiddio polisi, y modd y caiff adnoddau naturiol eu rheoli a'u rheoleiddio, a'r tri chorff cyfredol hefyd.

In response to William Powell on the financial matters, the Welsh Government will fund the single body. If the Welsh Government wanted to do anything untoward in terms of financing, there are obvious avenues open to it that do not involve the matters that the Member is thinking of, perhaps. However, I can offer some reassurance in that the wording envisaged is similar to the current wording that applies to the current three bodies. When it comes to the UK Government in the future, I have no idea what Antoinette Sandbach has in mind. If she has some means of influencing future UK Government policy, then we will all be very interested to hear what avenues are available to her in due course.

I ymateb i bwynt William Powell ynghylch y materion ariannol, bydd Llywodraeth Cymru yn ariannu'r un corff amgylcheddol. Pe bai Llywodraeth Cymru am wneud unrhyw beth annerbyniol o ran ariannu, gallai wneud hynny mewn ffyrdd amlwg nad ydynt yn cynnwys y materion y mae'r Aelod yn meddwl amdanynt, efallai. Fodd bynnag, gallaf gynnig rhywfaint o sicrwydd ynghylch y ffaith bod y geiriad a ragwelir yn debyg i'r geiriad cyfredol sy'n berthnasol i'r tri chorff presennol. O ran Llywodraeth y DU yn y dyfodol, nid wyf yn deall o gwbl beth sydd gan Antoinette Sandbach mewn golwg. Os oes ganddi ryw fodd i ddylanwadu ar bolisi Llywodraeth y DU yn y dyfodol, byddai gan bob un ohonom ddiddordeb mawr mewn clywed sut y gallai wneud hynny maes o law.

The Presiding Officer: The proposal is that the motion be agreed. Is there any objection? I see that there is. Therefore, voting on this item will be deferred until voting time.

Y Llywydd: Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly, caiff y bleidlais ar yr eitem hon ei gohirio tan y cyfnod pleidleisio.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.
Voting deferred until voting time.

Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus (Diddymu Arolygiaeth Gweinyddiaeth Llysoedd Ei Mawrhydi a Bwrdd y Gwarcheidwad Cyhoeddus) 2012
The Public Bodies (Abolition of Her Majesty's Inspectorate of Courts of Administration and the Public Guardian Board) Order 2012

Cynnig NDM4988 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cytuno, yn unol ag adran 9(6) o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011, bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus (Diddymu Arolygiaeth Gweinyddiaeth Llysoedd Ei Mawrhydi a Bwrdd y Gwarcheidwad Cyhoeddus) 2012 yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mai 2012.

The Minister for Health and Social Services (Lesley Griffiths): I move the motion.

This consent motion regarding the Public Bodies (Abolition of Her Majesty's Inspectorate of Courts Administration and the Public Guardian Board) Order 2012 was laid before the Assembly on 14 May and is for your consideration today. This is a composite Order, but only the public guardian board is within the National Assembly's competence and your consent is required to enable the board's abolition.

I would like to thank the members of the Constitutional and Legislative Affairs Committee who considered this consent motion and have reported that they are content for the consent motion to be made. In 2010, the UK Government reviewed all arm's-length public bodies. Consequently, the function of the public guardian board was identified as no longer being required. The Ministry of Justice consulted publicly on its abolition in 2011.

The board was initially set up under the Mental Capacity Act 2005 to scrutinise and review the discharge of the public guardian's

Motion NDM4988 Lesley Griffiths

To propose that the National Assembly for Wales agrees, in accordance with section 9(6) of the Public Bodies Act 2011, that the Secretary of State make the Public Bodies (Abolition of Her Majesty's Inspectorate of Courts Administration and the Public Guardian Board) Order 2012, in accordance with the draft laid in Table Office on 14 May 2012.

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Lesley Griffiths): Cynigiaf y cynnig.

Cafodd y cynnig cydsyniad hwn ynghylch Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus (Diddymu Arolygiaeth Gweinyddiaeth Llysoedd Ei Mawrhydi a Bwrdd y Gwarcheidwad Cyhoeddus) 2012 ei osod gerbron y Cynulliad ar 14 Mai, ac mae i'w ystyried gennych heddiw. Mae hwn yn Orchymyn cyfansawdd, ond dim ond bwrdd y gwarcheidwad cyhoeddus sydd o fewn cymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol, ac mae angen eich cydsyniad i'w gwneud yn bosibl diddymu'r bwrdd.

Hoffwn ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a ystyriodd y cynnig cydsyniad hwn ac a nododd eu bod yn fodlon i'r cynnig cydsyniad gael ei wneud. Yn 2010, adolygodd Llywodraeth y DU bob corff cyhoeddus hyd braich. O ganlyniad, nodwyd nad oedd angen swyddogaeth bwrdd y gwarcheidwad cyhoeddus mwyach. Cynhaliodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder ymgynghoriad cyhoeddus yn 2011 ynghylch diddymu'r bwrdd.

Yn wreiddiol, cafodd y bwrdd ei sefydlu dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 i graffu ar swyddogaethau'r gwarcheidwad cyhoeddus

functions, by monitoring and reporting on his work. The public guardian protects people who lack mental capacity by maintaining registers of lasting and enduring powers of attorney, as well as court orders appointing deputies. The role ensures that those people who have appointed such attorneys are not exploited when they lose the capacity to manage their affairs. The role of the public guardian will not change with the board's abolition. In its last annual report, the board agreed its role and function could reasonably be carried out by the office of the public guardian.

ac adolygu'r modd y caent eu cyflawni, drwy fonitro ei waith ac adrodd yn ei gylch. Mae'r gwarcheidwad cyhoeddus yn amddiffyn pobl nad oes ganddynt alluedd meddyliol, drwy gynnal cofrestrau o atwrneiaethau arhosol a pharhaus yn ogystal â gorchmynion llys i benodi dirprwyon. Mae'r rôl yn sicrhau nad yw'r bobl hynny sydd wedi penodi atwrneiod o'r fath yn cael eu hecsbloetio pan fyddant yn colli'r galluedd meddyliol i reoli eu materion eu hunain. Ni fydd rôl y gwarcheidwad cyhoeddus yn newid wrth i'r bwrdd gael ei ddiddymu. Yn ei adroddiad blynyddol diwethaf, roedd y bwrdd yn cytuno y gallai ei rôl a'i swyddogaeth gael eu cyflawni'n rhesymol gan swyddfa'r gwarcheidwad cyhoeddus.

It has been agreed that to oversee the public guardian, following the board's abolition, there will be a management board with executive membership from the office of the public guardian, the Ministry of Justice and three non-executive directors. The presence of the non-executive directors will provide independent scrutiny, challenge and ensure the effective discharge of the guardian's functions. Non-executive directors will have relevant experience such as business, performance and financial management and experience of dealing with those who lack capacity. They will also be represented on the public guardian's two existing stakeholder groups.

Er mwyn goruchwylio'r gwarcheidwad cyhoeddus, yn dilyn diddymu'r bwrdd, cytunwyd y bydd bwrdd rheoli'n cael ei greu a fydd yn cynnwys aelodau gweithredol o swyddfa'r gwarcheidwad cyhoeddus, y Weinyddiaeth Gyfiawnder a thri chyfarwyddwr anweithredol. Bydd presenoldeb y cyfarwyddwyr anweithredol yn fodd i graffu'n annibynnol, herio a sicrhau bod swyddogaethau'r gwarcheidwad yn cael eu cyflawni'n effeithiol. Bydd gan y cyfarwyddwyr anweithredol brofiad perthnasol, megis profiad ym maes busnes, rheoli perfformiad a rheolaeth ariannol a phrofiad o ymdrin â'r sawl nad oes ganddynt alluedd meddyliol. Byddant hefyd yn cael eu cynrychioli ar ddau grŵp rhanddeiliaid presennol y gwarcheidwad cyhoeddus.

I believe that these proposed new arrangements and the board's abolition will not disadvantage service users in Wales and that their rights will continue to be safeguarded.

Credaf na fydd y trefniadau newydd arfaethedig hyn na'r broses o ddiddymu'r bwrdd yn rhoi defnyddwyr gwasanaeth yng Nghymru dan anfantais, a chredaf y bydd eu hawliau'n parhau i gael eu diogelu.

The Presiding Officer: I have no other speakers. Do you wish to add anything, Minister? I see not. The proposal is to agree the motion. Does any Member object? I see that there is no objection. Therefore, the motion is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y Llywydd: Nid oes gennyf siaradwyr eraill. A ydych am ychwanegu unrhyw beth, Weinidog? Gwelaf nad ydych. Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Felly, derbynnir y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

Derbyniwyd y cynnig.
Motion agreed.

Rheoliadau Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco (Arddangos Prisiau) (Cymru) 2012
The Tobacco Advertising and Promotion (Display of Prices) Regulations 2012

Cynnig NDM5037 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco (Arddangos Prisiau) (Cymru) 2012 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Mai 2012.

The Minister for Health and Social Services (Lesley Griffiths): I move the motion.

Evidence shows that the display of tobacco products in shops can promote smoking by young people and undermine the resolve of adult smokers who are trying to quit. These regulations aim to prevent price lists being used as advertising tools, while still allowing shops and businesses to display the prices of tobacco products on sale for customer information. Two further sets of regulations have also recently been made, subject to the negative resolution procedure. Together, they form a wider package of measures aimed at removing the display and promotion of tobacco products at the point of sale.

Legal challenges from the tobacco industry to the equivalent regulations in England have impacted on the timing of our regulations. With the judicial review action now withdrawn, I am very pleased to be able to bring forward the display of prices regulations for the approval of the National Assembly for Wales. It is proposed that these regulations will come into force on 3 December 2012 for large shops and 6 April 2015 for small shops and other businesses. This will give businesses sufficient opportunity to prepare and put in place the necessary arrangements for the regulations to be met. Additional time for compliance has been given to small shops to ensure that they are not disproportionately affected. I believe

Motion NDM5037 Jane Hutt

To propose that the National Assembly for Wales in accordance with Standing Order 27.5:

Approves that the draft The Tobacco Advertising and Promotion (Display of Prices) (Wales) Regulations 2012 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 15 May 2012.

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Lesley Griffiths): Cynigiaf y cynnig.

Mae tystiolaeth yn dangos bod arddangos cynnyrch tybaco mewn siopau'n gallu hyrwyddo ysmygu ymhlith pobl ifanc a thanseilio agwedd benderfynol oedolion sy'n ysmygu ac sy'n ceisio rhoi'r gorau iddi. Nod y rheoliadau hyn yw atal rhestrau prisiau rhag cael eu defnyddio fel adnoddau hysbysebu, gan ganiatáu ar yr un pryd i siopau a busnesau arddangos prisiau cynnyrch tybaco sydd ar werth, er gwybodaeth i gwsmeriaid. Mae dwy set arall o reoliadau wedi eu llunio'n ddiweddar hefyd, yn amodol ar y weithdrefn penderfyniad negyddol. Gyda'i gilydd, maent yn ffurfio pecyn ehangach o fesurau sy'n ceisio atal cynnyrch tybaco rhag cael ei arddangos a'i hyrwyddo yn y mannau lle y caiff ei werthu.

Mae heriau cyfreithiol gan y diwydiant tybaco i reoliadau cyfatebol yn Lloegr wedi effeithio ar amseriad ein rheoliadau ni. Gan fod y cam i gynnal adolygiad barnwrol wedi ei dynnu'n ôl yn awr, rwyf yn falch iawn o allu cyflwyno'r rheoliadau arddangos prisiau, i'w cymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Bwriedir i'r rheoliadau hyn ddod i rym ar 3 Rhagfyr 2012 ar gyfer siopau mawr, ac ar 6 Ebrill 2015 ar gyfer siopau bach a busnesau eraill. Bydd hynny'n rhoi digon o gyfle i fusnesau baratoi a gwneud y trefniadau angenrheidiol ar gyfer cydymffurfio â'r rheoliadau. Mae amser ychwanegol wedi ei roi i siopau bach gydymffurfio er mwyn sicrhau nad effeithir yn anghymesur arnynt. Credaf fod y

that these regulations provide robust measures to help to protect the population of Wales from the dangers of tobacco use.

rheoliadau hyn yn darparu mesurau cadarn i helpu i warchod poblogaeth Cymru rhag peryglon defnyddio tybaco.

The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams): The Welsh Liberal Democrats will support the motion before us today. The regulations are an important part of a suite of proposals that will look to address the issue of tobacco advertising at the point of sale, which, as the Minister quite rightly said, has been demonstrated to have an effect on young people taking up smoking and continuing to smoke. We are all too aware from the recent report by the chief medical officer of the continuing damage that smoking does to Welsh public health. It shortens people's lives and therefore the steps being taken to restrict, hopefully, the number of young people who will go on to smoke in Wales are to be welcomed and supported in the Chamber today.

Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams): Bydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cefnogi'r cynnig sydd ger ein bron heddiw. Mae'r rheoliadau yn rhan bwysig o gyfres o gynigion a fydd yn ceisio mynd i'r afael â'r modd y caiff tybaco ei hysbysebu yn y mannau lle y caiff ei werthu, oherwydd dangoswyd, fel y dywedodd y Gweinidog yn gywir ddigon, bod hynny'n effeithio ar nifer y bobl ifanc sy'n dechrau ysmygu ac sy'n parhau i ysmygu. Rydym i gyd yn ymwybodol iawn, yn sgîl adroddiad diweddar y prif swyddog meddygol, o'r niwed parhaus y mae ysmygu'n ei wneud i iechyd y cyhoedd yng Nghymru. Mae'n byrhau bywydau pobl, ac felly dylai'r camau a gymerir i gyfyngu, gobeithio, ar nifer y bobl ifanc a fydd yn dechrau ysmygu yng Nghymru gael eu croesawu a'u cefnogi yn y Siambr heddiw.

Jenny Rathbone: I welcome the regulations, Minister. In the wider package of measures that you are considering, would you consider including the banning of smoking in playgrounds, because this would be a very important measure to ensure that children do not see smoking as something normal that goes on in the rest of their lives?

Jenny Rathbone: Croesawaf y rheoliadau, Weinidog. Yn y pecyn ehangach o fesurau yr ydych yn eu hystyried, a fyddech yn ystyried cynnwys gwahardd ysmygu mewn meysydd chwarae, oherwydd byddai'n fesur pwysig iawn i sicrhau nad yw plant yn gweld ysmygu fel rhywbeth normal sy'n digwydd yng ngweddill eu bywydau?

Julie Morgan: I welcome these regulations. I was fortunate enough to visit Ireland very shortly after the ban on point of sale displays. It was implemented very smoothly. There was very little cost to the retailers, because the tobacco companies bore most of the cost, and it was very effective. Therefore, I certainly support very strongly what the Minister has said about the effect that displays have on young people in particular.

Julie Morgan: Croesawaf y rheoliadau hyn. Roeddwn yn ddigon ffodus i ymweld ag Iwerddon yn fuan iawn ar ôl i ddeunydd arddangos gael ei wahardd yno yn y mannau lle y caiff tybaco ei werthu. Roedd yn gam a weithredwyd yn hwylus iawn. Nid oedd yn costio fawr ddim i'r manwerthwyr, oherwydd roedd y cwmnïau tybaco yn ysgwyddo'r rhan fwyaf o'r gost, ac roedd yn effeithiol iawn. Felly, rwyf yn bendant yn cefnogi'n gryf iawn yr hyn a ddywedodd y Gweinidog am yr effaith a gaiff arddangosfeydd ar bobl ifanc yn benodol.

Following on from what Jenny Rathbone has said, will the Minister comment on whether such a ban could be extended to include school playgrounds, as it seems that teachers sometimes smoke in school playgrounds?

Yn dilyn yr hyn a ddywedodd Jenny Rathbone, a wnaiff y Gweinidog sylw ynghylch a ellid ymestyn gwaharddiad o'r fath i gynnwys meysydd chwarae ysgolion, oherwydd ymddengys fod athrawon weithiau'n ysmygu yno?

The Minister for Health and Social Services (Lesley Griffiths): I thank the three Members for their contributions. The Welsh Government is already taking significant action to reduce the prevalence of smoking in Wales, as has been referred to. The tobacco control action plan for Wales contains specific measures to prevent the uptake of smoking and to encourage smokers to quit. We are committed to taking forward measures to make tobacco less affordable, less attractive and less accessible. Guidance on the removal of the display and promotion of tobacco at point of sale will be issued to local authority enforcement officers and businesses prior to these regulations coming into force.

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Lesley Griffiths): Hoffwn ddiolch i'r tri Aelod am eu cyfraniadau. Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn cymryd camau sylweddol i ostwng lefelau ysmygu yng Nghymru, fel y soniwyd eisoes. Mae cynllun gweithredu Cymru ar reoli tybaco yn cynnwys mesurau penodol i atal pobl rhag dechrau ysmygu ac i annog ysmygwyr i roi'r gorau iddi. Rydym wedi ymrwymo i gyflwyno mesurau i wneud tybaco'n llai fforddiadwy, yn llai deniadol ac yn llai hygyrch. Bydd canllawiau ar atal cynnyrch tybaco rhag cael ei arddangos a'i hyrwyddo yn y mannau lle y caiff ei werthu'n cael eu rhoi i swyddogion gorfodi awdurdodau lleol ac i fusnesau cyn y bydd y rheoliadau hyn yn dod i rym.

In relation to the specific point that Jenny Rathbone and Julie Morgan about smoking in the playground, we are here today just to discuss the draft Tobacco Advertising and Promotion (Display of Prices) (Wales) Regulations 2012, and we will have opportunities next term to discuss other areas of tobacco control policy. These regulations will particularly protect children and young people in particular from the harms caused by smoking, and I urge everyone to vote in favour of bringing the Tobacco Advertising and Promotion (Display of Prices) (Wales) Regulations 2012 into force.

O ran y pwynt penodol a wnaeth Jenny Rathbone a Julie Morgan ynghylch ysmygu mewn meysydd chwarae, rydym yma heddiw i drafod y fersiwn drafft o Reoliadau Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco (Arddangos Prisiau) (Cymru) 2012 yn unig, a bydd gennym gyfleoedd yn ystod y tymor nesaf i drafod agweddau eraill ar bolisi rheoli tybaco. Yn anad dim, bydd y rheoliadau hyn yn gwarchod plant a phobl ifanc yn benodol rhag y niwed a achosir gan ysmygu, ac rwyf yn annog pawb i bleidleisio o blaid dod â Rheoliadau Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco (Arddangos Prisiau) (Cymru) 2012 i rym.

The Presiding Officer: The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There are no objections, therefore the motion is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y Llywydd: Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw wrthwynebiad? Nid oes unrhyw wrthwynebiad, felly derbynnir y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

Derbyniwyd y cynnig.
Motion agreed.

Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair am 3.26 p.m.
The Deputy Presiding Officer took the Chair at 3.26 p.m.

Adroddiad Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar y Rhagolygon ar Gyfer Dyfodol y Cyfryngau yng Nghymru
The Communities, Equality and Local Government Committee's Report by the Task and Finish Group on the Future Outlook for the Media in Wales

Cynnig NDM5041 Ann Jones

Motion NDM5041 Ann Jones

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn:

The National Assembly for Wales:

Nodi adroddiad grŵp gorchwyl a gorffen y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar ragolygon ar gyfer dyfodol y cyfryngau yng Nghymru, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Mai 2012.

Kenneth Skates: I move the motion.

It is an exciting day for the media for some reason today. I am pleased to open this debate on the report on the future outlook for the media in Wales. Some nine months ago, the Communities, Equality and Local Government Committee agreed to establish a task and finish group to conduct an inquiry into the future of media in Wales. This was a significant task, which the group undertook over a short period of time. In doing so, we took evidence from representatives across the media sectors, and I am grateful to all those who contributed to the group's work.

There are 23 recommendations in the report, and they cover a broad range of issues including strategic issues and issues affecting specific sectors in the media, and we also explored issues around the potential of new technologies and business models to drive forward changes in the media landscape.

Given the time available and the scope of the inquiry, it would be misleading to suggest that we covered all of the issues in the depth that we would have liked. However, I hope that the main achievements of this report will be that a framework will be put in place to prepare for the future. I hope that this report is a step in the right direction.

With regard to the strategic direction and accountability, the media in Wales faces a number of challenges over the coming years. Aside from the impact of budget cuts on public service broadcasters and the speed with which technology is evolving, there will be other challenges including the relicensing of the channel 3 licence, a new communications Act and the renewal of the BBC charter. It is in this context that we looked at issues around strategic direction and accountability, which are covered in the

Notes the Report of the Communities, Equality and Local Government media Task and Finish group on the Future outlook for the media in Wales which was laid in the Table Office on 10 May 2012.

Kenneth Skates: Cynigiaf y cynnig.

Mae'n ddiwrnod cyffrous i'r cyfryngau am ryw reswm heddiw. Mae'n bleser gennyf agor y ddadl ynghylch yr adroddiad ar y rhagolygon ar gyfer dyfodol y cyfryngau yng Nghymru. Ryw naw mis yn ôl, cytunodd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen er mwyn cynnal ymchwiliad i ddyfodol y cyfryngau yng Nghymru. Roedd yn dasg sylweddol a gyflawnwyd gan y grŵp dros gyfnod byr. Wrth wneud hynny, cawsom dystiolaeth gan gynrychiolwyr o wahanol sectorau'r cyfryngau, ac rwyf yn ddiolchgar i bawb a gyfrannodd at waith y grŵp.

Mae 23 o argymhellion yn yr adroddiad, ac maent yn ymdrin ag ystod eang o faterion gan gynnwys materion strategol a materion sy'n effeithio ar sectorau penodol yn y cyfryngau. Buom hefyd yn archwilio materion sy'n ymwneud â photensial technolegau a modelau busnes newydd i hybu datblygiadau o safbwynt y cyfryngau.

O ystyried yr amser a oedd ar gael a rhychwant yr ymchwiliad, byddai'n gamarweiniol awgrymu inni ymdrin â phob un o'r materion mor fanwl ag y byddem wedi hoffi. Fodd bynnag, rwyf yn gobeithio mai prif gyflawniadau'r adroddiad hwn fydd sefydlu fframwaith er mwyn paratoi ar gyfer y dyfodol. Gobeithiaf fod yr adroddiad hwn yn gam i'r cyfeiriad iawn.

O ran y cyfeiriad strategol ac atebolrwydd, mae'r cyfryngau yng Nghymru yn wynebu nifer o heriau dros y blynyddoedd nesaf. Ar wahân i effaith toriadau yn y gyllideb ar ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, a chyflymder datblygiadau ym maes technoleg, ceir heriau eraill a fydd yn cynnwys aildrwyddedu sianel 3, Deddf gyfathrebu newydd ac adnewyddu siarter y BBC. Yn y cyd-destun hwn y buom yn ystyried materion sy'n ymwneud â chyfeiriad strategol ac atebolrwydd, a gaiff sylw yn adran gyntaf ein

first section of our report.

hadroddiad.

We heard from some witnesses that there is a general perception that the Welsh Government is not sufficiently involved in media policy, and that there are concerns around capacity and expertise. It was acknowledged that a lot of good has been done by the Welsh Government, for example, in establishing the creative industries sector panel. However, given the challenges ahead, we and those we consulted felt that something significant was needed. This was the reason for our recommendation for an independent forum to advise on policy in relation to the media in Wales. The purpose of the forum will be to take a strategic, holistic view across the media in Wales and to provide policy advice to the Welsh Government and its sector-specific panels.

Clywsom gan rai tystion fod canfyddiad cyffredinol nad yw Llywodraeth Cymru yn ymwneud yn ddigonol â pholisi ym maes y cyfryngau, a bod pryderon ynghylch gallu ac arbenigedd. Cydnabuwyd bod llawer o waith da wedi'i wneud gan Lywodraeth Cymru, er enghraifft, wrth iddi sefydlu panel y sector diwydiannau creadigol. Fodd bynnag, o ystyried yr heriau sydd o'n blaen, roeddem ni a'r rhai y buom yn ymgynghori â hwy'n teimlo bod angen rhywbeth sylweddol. Dyna pam y bu inni argymell bod angen fforwm annibynnol i roi cyngor ar bolisi mewn perthynas â'r cyfryngau yng Nghymru. Diben y fforwm fydd edrych mewn modd strategol a chyfannol ar y cyfryngau yng Nghymru a darparu cyngor ar bolisi i Lywodraeth Cymru a'i phaneli sy'n ymdrin â sectorau penodol.

While the Government has rejected this recommendation, I am not wholly disappointed by its response. The First Minister has requested the establishment of a broadcasting advisory panel, and I accept the Government's statement that this is a first step in addressing the group's concerns. I would be grateful if the Minister could provide us with some further details on the group and its membership in his response to this debate.

Er i'r Llywodraeth wrthod yr argymhelliad hwn, nid wyf wedi fy siomi'n llwyr gan ei hymateb. Mae'r Prif Weinidog wedi gofyn am sefydlu panel cynghori ar ddarlledu, ac rwyf yn derbyn datganiad y Llywodraeth bod hwn yn gam cyntaf tuag at fynd i'r afael â phryderon y grŵp. Byddwn yn ddiolchgar pe bai'r Gweinidog yn gallu rhoi mwy o fanylion inni am y grŵp a'i aelodaeth yn ei ymateb i'r ddadl hon.

In terms of the strategic role of the Welsh Government, I am pleased that the Government has accepted other recommendations relating to engagement in the communications Bill and joint working across Government departments.

O ran rôl strategol Llywodraeth Cymru, rwyf yn falch bod y Llywodraeth wedi derbyn argymhellion eraill sy'n ymwneud ag ymgysylltu â phroses y Bil cyfathrebu a gweithio ar y cyd ar draws adrannau'r Llywodraeth.

Improving accountability was also an issue of central importance to our inquiry, and a number of our recommendations address this.

Roedd gwella atebolrwydd hefyd yn fater a oedd yn hollbwysig i'n hymchwiliad, ac mae nifer o'n hargymhellion yn rhoi sylw i hynny.

3.30 p.m.

While the question of the devolution of broadcasting was raised, we felt that the most pressing issue was a lack of accountability. While media policy, in particular broadcasting, is not devolved, these matters are vital to the prosperity of Wales's culture and economy. It is important, therefore, that Governments in Wales and Westminster work together to achieve the best deal for

Er i'r cwestiwn ynghylch datganoli darlledu gael ei godi, roeddem yn teimlo mai'r mater pwysicaf oedd diffyg atebolrwydd. Er nad yw polisi ym maes y cyfryngau, ac ym maes darlledu yn benodol, wedi'i ddatganoli, mae'r materion hyn yn hanfodol i ffyniant diwylliant ac economi Cymru. Mae'n bwysig, felly, bod Llywodraethau yng Nghymru a San Steffan yn gweithio gyda'i

Wales.

gilydd i sicrhau'r fargen orau i Gymru.

Witnesses told us that they had concerns on this issue, and that there had not been sufficient engagement between Governments on decisions relating to S4C, local television and the approach to the communications Bill. As a consequence, we recommended that a protocol should be developed with the UK Government. I note that the Government's response states that there is a concordat in place, but that it will be considered in the light of advice from the broadcasting advisory panel. I am pleased with this response, and I hope that it can be progressed quickly.

Dywedodd tystion wrthym eu bod yn pryderu ynghylch y mater hwn, ac na fu Llywodraethau yn ymgysylltu ddigon â'i gilydd ynghylch penderfyniadau'n ymwneud ag S4C, teledu lleol a'r dull gweithredu yng nghyswllt y Bil cyfathrebu. O ganlyniad, bu inni argymell y dylid datblygu protocol gyda Llywodraeth y DU. Nodaf fod ymateb y Llywodraeth yn dweud bod concordat ar waith, ond y bydd yn cael ei ystyried yng ngoleuni'r cyngor a geir gan y panel cynghori ar ddarlledu. Cefais fy mhlesio gan yr ymateb hwn, a gobeithiaf y gellir symud y mater yn ei flaen yn gyflym.

Another theme that emerged was a lack of accountability to the Assembly itself. A number of witnesses told us that it is important that there is some mechanism in the Assembly to hold public service broadcasters and the regulator to account. When we put this proposal to the broadcasters and the regulators, it was greeted with some enthusiasm. As a positive first step to increasing accountability, we felt that the media organisations should be invited to appear before the Communities, Equality and Local Government Committee on an annual basis, so that Assembly Members can ask questions of them. I am pleased that the committee has agreed to this approach, and I am sure that this will be an interesting development.

Thema arall a ddaeth i'r amlwg oedd diffyg atebolrwydd i'r Cynulliad ei hun. Dywedodd nifer o dystion wrthym ei bod yn bwysig bod rhyw system ar waith yn y Cynulliad i ddwyn darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a'r rheoleiddiwr i gyfrif. Pan gyflwynwyd y cynnig hwn i'r darlledwyr a'r rheoleiddwyr, cafwyd ymateb eithaf brwdfrydig iddo. Fel cam cyntaf cadarnhaol tuag at gynyddu atebolrwydd, roeddem yn teimlo y dylai sefydliadau'r cyfryngau gael eu gwahodd i ymddangos gerbron y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn flynyddol, fel y gall Aelodau'r Cynulliad ofyn cwestiynau iddynt. Rwyf yn falch bod y pwyllgor wedi cytuno â'r dull hwn o weithredu, ac rwyf yn siŵr y bydd yn ddatblygiad diddorol.

I will now turn to issues around individual sectors. The second part of our report deals with specific media sectors, and we made 10 recommendations in this area. The BBC is dealing with significant cuts to its funding. We believe that there should be a clear commitment to strengthening the BBC's local, Welsh services. As part of this, we feel that the BBC should ensure that its coverage of politics and current affairs is not disproportionately affected by cuts, leading to a democratic deficit. We think that the Assembly, in the form of the Communities, Equality and Local Government Committee, should keep this under review. We also feel that the funding arrangements for S4C should be kept under review, to ensure that they are appropriate. The channel 3 licence was a significant issue for a number of our

Trof yn awr at faterion sy'n ymwneud â sectorau unigol. Mae ail ran ein hadroddiad yn ymdrin â sectorau penodol o'r cyfryngau, a gwnaethom 10 argymhelliad yn y maes hwn. Mae'r BBC yn mynd i'r afael â thoriadau sylweddol i'w chyllid. Credwn y dylid cael ymrwymiad clir i gryfhau gwasanaethau Cymreig, lleol y BBC. Yn rhan o hynny, rydym yn teimlo y dylai'r BBC sicrhau nad yw toriadau'n cael effaith anghymesur ar y sylw y mae'n ei roi i wleidyddiaeth a materion cyfoes, a fyddai'n arwain at ddiffyg democrataidd. Rydym yn credu y dylai'r Cynulliad, trwy'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, adolygu hynny'n barhaus. Rydym hefyd yn teimlo y dylid adolygu'n barhaus y trefniadau ariannu ar gyfer S4C, er mwyn sicrhau eu bod yn briodol. Roedd trwydded

witnesses. We feel that it is not sustainable for the current requirements in the licence to be reduced any further. I can only support the Welsh Government's words in its response—that the channel 3 news service should be viewed not as a regional news service, but as an essential democratic national news service for the people of Wales.

sianel 3 yn fater pwysig i nifer o'n tystion. Nid ydym yn teimlo bod cwtogi ymhellach ar y gofynion cyfredol sy'n rhan o'r drwydded yn gynaliadwy. Ni allaf ond ategu geiriau Llywodraeth Cymru yn ei hymateb—sef na ddylid ystyried gwasanaeth newyddion sianel 3 yn wasanaeth newyddion rhanbarthol, ond y dylid ei ystyried yn wasanaeth newyddion cenedlaethol democrataidd hanfodol i bobl Cymru.

I am pleased that the Welsh Government is committed to maintaining the existing provision in the licence and shares our view that this should be the minimum requirement for licence renewal. Further to this, we have recommended that the Welsh Government should explore, at an appropriate time, opportunities for introducing a Wales-only licence. This position is also supported by Ofcom. I am pleased, again, that the Welsh Government has agreed to take advice from its broadcasting advisory panel on this issue. Witnesses also told us about the impact of budget cuts on the independent television sector. I am pleased that the Welsh Government's Department for Business, Enterprise, Technology and Science has commissioned a strategic review into the impact of public service broadcasters on the creative industries in Wales, and that the review is soon to be completed. I would be grateful if the Minister could provide us with more detail on this in his response, and issue a statement on the conclusions of that review at an appropriate time.

Rwyf yn falch bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnal y ddarpariaeth bresennol yn y drwydded, a'i bod yn cytuno â ni y dylai hynny fod yn ofyniad sylfaenol ar gyfer adnewyddu'r drwydded. At hynny, rydym wedi argymell y dylai Llywodraeth Cymru archwilio cyfleoedd, ar adeg briodol, i gyflwyno trwydded sy'n benodol i Gymru. Caiff y safbwynt hwn ei gefnogi gan Ofcom hefyd. Rwyf yn falch, unwaith eto, bod Llywodraeth Cymru wedi cytuno i gymryd cyngor ar y mater hwn gan ei phanel cynghori ar ddarlledu. Dywedodd tystion wrthym hefyd am effaith toriadau yn y gyllideb ar y sector teledu annibynnol. Rwyf yn falch bod Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth Llywodraeth Cymru wedi comisiynu adolygiad strategol o effaith darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar y diwydiannau creadigol yng Nghymru, a bod yr adolygiad ar fin cael ei gwblhau. Byddwn yn ddiolchgar pe bai'r Gweinidog yn gallu rhoi mwy o fanylion inni ynghylch hynny yn ei ymateb, a phe bai'n cyhoeddi datganiad ar gasgliadau'r adolygiad hwnnw ar yr adeg briodol.

On radio, we welcome the commitment that the Welsh Government has given in the past, in terms of its community radio fund. The Welsh Government is currently reviewing the fund, and I would ask the Minister to make a statement to update the Assembly as soon as that review is concluded. Turning to print media, this is clearly a turbulent time. We recommended, therefore, that there should be some investigation by the Welsh Government of sustainable business models for print media in Wales. I recognise that the Government feels that this is a step too far, and that print media need to put in place those business models. I accept the Government's point that its role is to ensure that there is a framework in place to assist

O ran radio, rydym yn croesawu'r ymrwymiad a gafwyd gan Lywodraeth Cymru yn y gorffennol, o safbwynt ei chronfa radio cymunedol. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n adolygu'r gronfa, a hoffwn ofyn i'r Gweinidog wneud datganiad er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad cyn gynted ag y bydd yr adolygiad hwnnw wedi'i gwblhau. Gan droi at y cyfryngau print, mae hwn yn amlwg yn gyfnod cythryblus. Bu inni argymell, felly, y dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio rywfaint i fodelau busnes cynaliadwy ar gyfer y cyfryngau print yng Nghymru. Rwyf yn cydnabod bod y Llywodraeth yn teimlo bod hwn gam yn rhy bell, a bod angen i'r cyfryngau print roi'r modelau busnes hynny

companies, and that the Government feels that the framework is appropriate. However, we feel that this needs to be kept under review.

ar waith. Rwyf yn derbyn pwynt y Llywodraeth mai ei rôl hi yw sicrhau bod fframwaith ar waith i helpu cwmnïau, a bod y Llywodraeth yn teimlo bod y fframwaith yn briodol. Fodd bynnag, rydym yn teimlo bod angen adolygu hynny'n barhaus.

We did not have time to examine specifically magazines and periodicals, but they face similar challenges to those threatening the rest of the print media. This is particularly true of English-language titles, which cannot draw on the language solidarity that helps sustain publications in Welsh. Magazines such as *Planet*, *New Welsh Review* and *Poetry Wales* have long provided the English-speaking majority in Wales with outlets through which it can explore its cultural identities and define its place in the world. However, it is becoming more and more difficult to carve out a distinct niche in such a crowded and globalised marketplace.

Nid oedd gennym amser i edrych yn benodol ar gylchgronau a chyfnodolion, ond maent yn wynebu heriau tebyg i'r rhai sy'n bygwth gweddill y cyfryngau print. Mae hynny'n arbennig o wir am deitlau Saesneg, na allant fanteisio ar gefnogaeth i'r iaith, sy'n helpu i gynnal cyhoeddiadau Cymraeg. Ers amser mawr, mae cylchgronau megis *Planet*, *New Welsh Review* a *Poetry Wales* wedi darparu cyfleoedd i'r mwyafrif Saesneg ei iaith yng Nghymru archwilio ei hunaniaeth ddiwylliannol a diffinio ei le yn y byd. Fodd bynnag, mae'n dod yn fwyfwy anodd creu lle amlwg mewn marchnad fyd-eang sydd mor llawn.

The final section of our inquiry concentrated more generally on new business models and business support. For the media to prosper, these are the issues that need to be addressed. In the course of our inquiry, we looked at and made recommendations on broadband provision, encouraging innovation, intellectual property rights and skills and training. I am pleased that the Welsh Government has responded positively to these recommendations.

Roedd rhan olaf ein hymchwiliad yn canolbwyntio'n fwy cyffredinol ar fodelau busnes newydd a chymorth busnes. Dyma'r materion y mae angen rhoi sylw iddynt er mwyn i'r cyfryngau ffynnu. Yn ystod ein hymchwiliad, bu inni ystyried a gwneud argymhellion ynghylch darpariaeth band eang, meithrin arloesedd, hawliau eiddo deallusol, a sgiliau a hyfforddiant. Rwyf yn falch bod Llywodraeth Cymru wedi ymateb yn gadarnhaol i'r argymhellion hynny.

As I mentioned earlier, the Government has accepted the majority of the committee's recommendations fully or in principle. I welcome the Minister's positive response to our report and I look forward to his contribution today.

Fel y soniais yn gynharach, mae'r Llywodraeth wedi derbyn y rhan fwyaf o argymhellion y pwyllgor yn llawn neu mewn egwyddor. Rwyf yn croesawu ymateb cadarnhaol y Gweinidog i'n hadroddiad, ac edrychaf ymlaen at ei gyfraniad heddiw.

Finally, I thank those who gave evidence, committee members and officials who helped to produce our report. I hope that this report will be an important first step in putting measures in place to secure a prosperous future for the various media sectors in Wales.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i'r sawl a roddodd dystiolaeth, aelodau'r pwyllgor a'r swyddogion a fu'n helpu i lunio ein hadroddiad. Rwyf yn gobeithio y bydd yr adroddiad hwn yn gam cyntaf pwysig tuag at gyflwyno mesurau i sicrhau dyfodol ffyniannus i amryw sectorau'r cyfryngau yng Nghymru.

Suzy Davies: I begin by thanking the task and finish group for its work on this report. I endorse many of its recommendations. It is ambitiously wide-ranging and there are

Suzy Davies: Hoffwn ddechrau drwy ddiolch i'r grŵp gorchwyl a gorffen am ei waith ar yr adroddiad hwn. Rwyf yn cefnogi llawer o'i argymhellion. Mae'n uchelgeisiol o eang, ac

elements of it that deserve a debate in their own right, but in the time available, I would like to comment on the creative industries and the public broadcast element of the report.

mae elfennau ohono sy'n haeddu eu dadl eu hunain, ond yn yr amser sydd ar gael hoffwn wneud sylw ar y diwydiannau creadigol a'r elfen o'r adroddiad sy'n ymdrin â darlledu cyhoeddus.

More than two years since the publication of the Hargreaves report, complaints about slow progress persist, especially on the part of the creative industries sector panel. This reports that that is more a matter of perception, but refers to evidence that policy delivery still leaves much to be desired. The Minister for Business, Enterprise, Technology and Science, after 13 years in Government, gave evidence on her priorities for our creative industries. Indeed, she said that her department prioritised the creative industries. However, by the beginning of the inquiry in September 2011, the Welsh Government had managed to prioritise the release of one policy statement and the establishment of a board, a team and a panel. The exciting development by January 2012 was the prioritisation of the establishment of a sub-panel.

Dros ddwy flynedd ers cyhoeddi adroddiad Hargreaves, ceir cwynion o hyd am gynnydd araf, yn enwedig o ran panel y sector diwydiannau creadigol. Mae'r adroddiad yn nodi mai mater o ganfyddiad yw hynny'n fwy na dim byd arall, ond mae'n cyfeirio at dystiolaeth sy'n awgrymu bod gwaith cyflawni polisi ymhell o fod yn foddhaol o hyd. Ar ôl 13 blynedd mewn Llywodraeth, cyflwynodd y Gweinidog Menter, Busnes, Technoleg a Gwyddoniaeth dystiolaeth ynghylch ei blaenoriaethau ar gyfer ein diwydiannau creadigol. Yn wir, dywedodd fod ei hadran yn rhoi blaenoriaeth i'r diwydiannau creadigol. Fodd bynnag, erbyn dechrau'r ymchwiliad ym mis Medi 2011, roedd Llywodraeth Cymru wedi llwyddo i roi blaenoriaeth i ryddhau un datganiad polisi a sefydlu bwrdd, tîm a phanel. Y datblygiad cyffrous erbyn mis Ionawr 2012 oedd rhoi blaenoriaeth i sefydlu is-banel.

At the same time, this inquiry reveals frustrated voices from within the creative industries that business support is slow-coming, that opportunities for commercial exploitation of digital creativity are being missed due to a lack of collaboration and that those who are benefiting from education and training—those who could be the new power pack in the media and culture—are heading straight out of Wales.

Ar yr un pryd, mae'r ymchwiliad hwn yn amlygu lleisiau rhwystredig o fewn y diwydiannau creadigol, sy'n dweud bod cymorth busnes yn araf yn dod, bod cyfleoedd i wneud yn fawr o greadigrwydd digidol o safbwynt masnachol yn cael eu colli oherwydd diffyg cydweithredu, a bod y sawl sy'n cael budd o addysg a hyfforddiant—y sawl a allai fod yn rym newydd i yrru'r cyfryngau a diwylliant yn eu blaen—yn gadael Cymru.

I accept that some intellectually coherent structure is necessary to create policy and turn it into results, but we are talking about a mercurial part of the economy. The creative and digital industries are more Puck than pen pusher; they are about putting

Rwyf yn derbyn bod angen rhyw strwythur cydlynol o safbwynt deallusol i greu polisi a'i droi'n ganlyniadau, ond rydym yn sôn am ran o'r economi sy'n arian byw. Mae'r diwydiannau creadigol a digidol yn llawn pobl sy'n debycach i Puck na phobl sy'n pori dros bapur;

'a girdle round about the earth
In forty minutes'

'Fe ro'i wregys am y byd i gyd
Mewn deugain munud'

and not putting it in a filing cabinet and going home at 5 p.m.. To help them fulfil their potential, the Welsh Government needs to be the same. I, therefore, welcome

sydd o ddiddordeb iddynt hwy, nid rhoi papur mewn cwpwrdd ffeilio a mynd adref am 5 p.m.. Er mwyn eu helpu i gyflawni eu potensial, mae angen i Lywodraeth Cymru

recommendations 19 to 23, and I am pleased to see the Government's acceptance of them.

fod yr un fath. Rwyf, felly, yn croesawu argymhellion 19 i 23, ac rwyf yn falch o weld bod y Llywodraeth wedi eu derbyn.

Much of the report lends itself to consideration of the communications Bill. What kind of opportunity does it present to meet the public-service-broadcast needs of Wales, whatever they may be, and how can that Bill ensure that they are met? I, too, welcome the Minister's review and look forward to an early statement from him on that.

Mae llawer o'r adroddiad yn cynnig cyfle i ystyried y Bil cyfathrebu. Pa fath o gyfle y mae'n ei gynnig i ddiwallu anghenion Cymru o safbwynt darlledu gwasanaeth cyhoeddus, beth bynnag y bônt, a sut y gall y Bil hwnnw sicrhau eu bod yn cael eu diwallu? Rwyf innau'n croesawu adolygiad y Gweinidog ac yn edrych ymlaen at gael datganiad buan ganddo yn ei gylch.

Responsibility for media policy lies with the UK Government, subject to scrutiny by Parliament. Devolution of that responsibility is currently more a matter of discussion than appetite. However, as this report makes clear, that leaves Wales vulnerable to democratic deficit by virtue of the erosion of public service broadcasting and commissioning of work that reflects on and informs us about ourselves.

Mae'r cyfrifoldeb am bolisi ym maes y cyfryngau yn perthyn i Lywodraeth y DU, yn amodol ar waith craffu gan y Senedd yn San Steffan. Ar hyn o bryd, mae datganoli'r cyfrifoldeb hwnnw'n fater o drafod yn hytrach nag yn fater o awydd. Fodd bynnag, fel y mae'r adroddiad hwn yn egluro, mae hynny'n golygu bod Cymru yn agored i ddiffyg democrataidd oherwydd erydu ym maes darlledu gwasanaeth cyhoeddus a chomisiynu gwaith sy'n rhoi darlun ohonom ac sy'n rhannu gwybodaeth â ni amdanom ein hunain.

Members were able to consider this, together with the effect of the cuts, in Angela Burns's short debate on the subject earlier this year. The vulnerability of public service broadcasting goes beyond cuts and goes to standards, content, geographical coverage and to editorial and policy choices that may have nothing to do with money and everything to do with what broadcasters can get away with.

Cafodd yr Aelodau gyfle i ystyried hynny, ynghyd ag effaith y toriadau, yn nadl fer Angela Burns ar y pwnc yn gynharach eleni. Mae'r graddau y mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn agored i niwed yn mynd y tu hwnt i doriadau ac yn ymestyn i safonau, cynnwys, rhychwant daearyddol a dewisiadau golygyddol a dewisiadau o ran polisi, nad oes a wnelont ddim ag arian, efallai, ond y mae a wnelont yn bendant â'r hyn y gall darlledwyr ei wneud heb gael eu cosbi.

So while discussions on the communications Bill can bring pressure to bear regarding Welsh- language content, representation of culture and identity, pluralism, licences and digital switchover and so on, it also presents a constitutional opportunity. This group and the Welsh Government seem to take the position that we should not let talk of devolution divert us from the more immediate challenge of scrutiny—scrutiny of non-devolved activities, which materially affect Wales in areas within our legislative competence such as economic development, culture and the Welsh language.

Felly, tra bydd trafodaethau ynghylch y Bil cyfathrebu yn fodd i ddwyn pwysau o safbwynt rhaglenni Cymraeg, y modd y caiff diwylliant a hunaniaeth eu cyfleu, lluosogrwydd, trwyddedau a throsglwyddo i wasanaethau digidol ac yn y blaen, byddant hefyd yn cynnig cyfle cyfansoddiadol. Mae'n ymddangos bod y grŵp hwn a Llywodraeth Cymru o'r farn na ddylem adael i sôn am ddatganoli dynnu ein sylw oddi ar yr her fwy uniongyrchol sy'n ymwneud â chraffu—craffu ar weithgareddau nad ydynt wedi eu datganoli, sy'n effeithio'n sylweddol ar Gymru mewn meysydd sydd o fewn ein

cymhwysedd deddfwriaethol, megis datblygu economaidd, diwylliant a'r iaith Gymraeg.

The intergovernmental protocol suggested by recommendation 6 is fine, but the more interesting proposition would be a protocol for this Assembly to have authority, jointly with the Westminster Parliament, to scrutinise the decisions and actions of public service broadcasters in Wales—a beefed-up recommendation 7. That is what we should aim for with the communications Bill. Then, even if all those issues of language, local identity, digital switchover and so on fail to make it into the Bill, a committee of this Assembly will be entitled to ask PSB broadcasters about them anyway, and will have the authority to require—not ask—them to account for themselves. In my view, the repeated representations of a cross-party committee of the Assembly, or combined committees of the Assembly and Parliament, will always be more difficult to resist than those merely of the Welsh Government. We all saw how the view of Parliament's Welsh Affairs Committee influenced change on the S4C settlement. Assembly and Parliament represent the people, after all. It would be an interesting hybrid solution. It may need considering in more depth by the Silk commission, and if it goes forward, it raises very interesting new possibilities about how we might assume responsibilities over other non-devolved activities, which, nevertheless, fall short of devolution itself.

Mae'r protocol rhynglywodraethol a awgrymwyd gan argymhelliad 6 yn iawn, ond cynnig mwy diddorol fyddai protocol a fyddai'n galluogi'r Cynulliad hwn i gael awdurdod, ar y cyd â Senedd San Steffan, i graffu ar benderfyniadau a gweithredoedd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru—sef fersiwn cryfach o argymhelliad 7. Dyna y dylem fod yn anelu ato gyda'r Bil cyfathrebu. Yna, hyd yn oed os na fydd yr holl faterion hynny sy'n ymwneud ag iaith, hunaniaeth leol, trosglwyddo i wasanaethau digidol ac yn y blaen yn cael eu cynnwys yn y Bil, bydd gan un o bwyllgorau'r Cynulliad hwn yr hawl i holi darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus amdanynt beth bynnag, a bydd gan y pwyllgor yr awdurdod i fynnu bod y darlledwyr hynny'n eu hegluro eu hunain—yn hytrach nag awdurdod i ofyn iddynt yn unig. Yn fy marn i, bydd bob amser yn anos gwrthsefyll sylwadau a gyflwynir dro ar ôl tro gan bwyllgor trawsbleidiol yn y Cynulliad, neu gan bwyllgorau cyfun yn y Cynulliad a'r Senedd, na sylwadau a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru yn unig. Gwelodd pob un ohonom sut y dylanwadodd barn Pwyllgor Materion Cymreig Senedd San Steffan ar newid y setliad i S4C. Mae'r Cynulliad a Senedd San Steffan yn cynrychioli'r bobl, wedi'r cyfan. Byddai'n ateb cymysg diddorol. Efallai y bydd angen i gomisiwn Silk ei ystyried yn fwy manwl, ac os caiff ei ddatblygu, gallai esgor ar bosibiliadau newydd diddorol iawn ynghylch sut y gallem gymryd cyfrifoldeb am weithgareddau eraill nad ydynt wedi eu datganoli, na fyddai, er hynny, yn mynd mor bell â datganoli.

Bethan Jenkins: It is always a concern what kind of impact the findings of investigations of this sort will have on the wider world. For me, that concern has been somewhat allayed after hearing people from BBC Wales saying that this investigation has made BBC network take more notice of what is happening here in Wales. When I first initiated the idea of holding this investigation last spring, and pressed for it in the Communities, Equality and Local Government Committee, it was because a requirement to respond to changes in our

Bethan Jenkins: Mae meddwl pa fath o effaith y bydd canfyddiadau ymchwiliadau fel hyn yn ei chael ar y byd ehangach bob amser yn bryder. I mi, mae'r pryder hwnnw wedi'i leddfu rywfaint ar ôl clywed pobl o BBC Cymru yn dweud bod yr ymchwiliad hwn wedi gwneud i rwydwaith y BBC roi mwy o sylw i'r hyn sy'n digwydd yma yng Nghymru. Pan gynigiais y syniad o gynnal yr ymchwiliad hwn yn wreiddiol y gwanwyn diwethaf, gan bwyso amdano yn y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, gwneuthum hynny oherwydd bod yr

media here in Wales had become overwhelming. So, it is important that the Welsh Government responds to our report point by point, but it is equally important that it understands the reasons behind it, which is why I was disappointed that the Minister chose to reject recommendation 1 on the formation of an independent forum. That is important because we need to create an environment, landscape and structure in which media entrepreneurs in Wales can grow and flourish. This is because the changes still going on, while often painful, also present opportunities. For example, it does not make much economic sense to take only a handful of newspapers over the mountains to some of our more remote settlements, but the internet just goes through those mountains, taking any questions of traditional business costs right out of the picture. In this respect, I believe that recommendation 21 on new business models is the most important recommendation that we made as a group, because it would create the environment and provide the ground for innovators and entrepreneurs. We have to realise that we will get further in this area with support, rather than direction.

angen i ymateb i newidiadau yn ein cyfryngau yma yng Nghymru wedi mynd yn angen dybryd. Felly, mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn ymateb i bob un o'r pwyntiau yn ein hadroddiad, ond mae'r un mor bwysig ei bod yn deall y rhesymau y tu ôl iddo, a dyna pam yr oeddwn yn siomedig bod y Gweinidog wedi dewis gwrthod argymhelliad 1 ynghylch ffurfio fforwm annibynnol. Mae hynny'n bwysig oherwydd bod angen inni greu amgylchedd, tirwedd a strwythur a fydd yn galluogi entrepreneuriaid ym myd y cyfryngau yng Nghymru i dyfu a ffynnu. Y rheswm am hynny yw bod y newidiadau sy'n dal i ddigwydd, er eu bod yn aml yn boenus, yn cynnig cyfleoedd hefyd. Er enghraifft, nid yw'n gwneud llawer o synnwyr economaidd i gludo llond dwrn yn unig o bapurau newydd dros y mynyddoedd i rai o'n haneddiadau mwy anghysbell, tra gall y rhyngrwyd anwybyddu'r mynyddoedd, gan ddiystyru unrhyw gwestiynau am gostau busnes traddodiadol. O ran hynny, credaf mai argymhelliad 21 ar fodelau busnes newydd yw'r argymhelliad pwysicaf a wnaethom fel grŵp, gan y byddai'n creu'r amgylchedd ac yn braenaru'r tir ar gyfer arloeswyr ac entrepreneuriaid. Rhaid inni sylweddoli yr awn ymhellach yn y maes hwn o gael cymorth yn hytrach na chyfarwyddyd.

The example that I would give you here is the Port Talbot MagNet, which has been going for a couple of years as a news website covering part of my region after Media Wales chose to close down the local paper. It has been a measured progression, but the people behind it—all experienced journalists—have now established it as a media resource for the area. The words 'hyper-local' or 'ultra-local' appear to have lost some of their buzz, but a cottage industry is the way to regrow our media in Wales. I would like to see the Welsh Government work around the edges, helping start-ups to survive and grow. In much the same way that Laura Ashley famously started her business at her kitchen table, there is no reason why tomorrow's ethical Murdoch challenger cannot begin life as ultra-local on a laptop in Glyncorrwg or Tondu.

Yr enghraifft yr hoffwn ei rhoi ichi yn y cyswllt hwn yw MagNet ym Mhort Talbot, sydd wedi bod ar waith ers ychydig o flynyddoedd fel gwefan newyddion sy'n rhoi sylw i ran o'm rhanbarth ar ôl i Media Wales ddewis cau'r papur lleol. Gwnaed cynnydd graddol, ond mae'r bobl sy'n gyfrifol amdano—sy'n newyddiadurwyr profiadol i gyd—wedi'i sefydlu bellach yn adnodd o ran y cyfryngau ar gyfer yr ardal. Ymddengys fod y geiriau 'hyperleol' neu 'leol iawn' wedi colli rhywfaint o'r cyffro a oedd yn gysylltiedig â hwy, ond creu diwydiant cartref yw'r ffordd i aildyfu ein cyfryngau yng Nghymru. Hoffwn weld Llywodraeth Cymru yn gweithio ar yr ymylon, gan helpu busnesau newydd i oroesi a thyfu. Mae hanes Laura Ashley yn dechrau ei busnes wrth fwrdd y gegin yn enwog erbyn hyn, ac yn yr un modd nid oes unrhyw reswm pam na all newyddiadurwr moesegol y dyfodol, a allai herio Murdoch, ddechrau ei yrfa yn ymdrin â newyddion lleol iawn ar liniadur yng Nglyncorrwg neu Don-du.

The job of Government is to enable. I see recommendation 23 on training as an opportunity for the Welsh Government to get out of the silo mentality, which it has partly done by allowing this Minister to address issues here that would usually be the purview of the Ministers for business and education. We are not looking for quantity of training; we are looking for the right training. For example, it would be ill-advised for colleges in Wales to step up their output of media students in the current climate. This industry requires more than just reporters; it needs entrepreneurs.

Gwaith Llywodraeth yw galluogi. Rwyf yn gweld argymhelliad 23 ar hyfforddiant fel cyfle i Lywodraeth Cymru roi'r gorau i ymdrin â materion ar wahân, sy'n rhywbeth y mae wedi'i wneud yn rhannol drwy ganiatáu i'r Gweinidog hwn fynd i'r afael â materion yn y fan hon, a fyddai fel rheol yn rhan o faes gwaith y Gweinidogion busnes ac addysg. Nid ydym yn chwilio am lawer iawn o hyfforddiant; rydym yn chwilio am yr hyfforddiant cywir. Er enghraifft, byddai'n annoeth i golegau Cymru gynyddu nifer y myfyrwyr sy'n astudio'r cyfryngau yn yr hinsawdd bresennol. Mae angen mwy na dim ond gohebwyr ar y diwydiant hwn; mae arno angen entrepreneuriaid.

Looking at the responses to recommendation 5 and 6, I am glad that the Welsh Government is moving, albeit at glacial speed, towards the idea of devolving broadcasting. You would expect Plaid to say that, but the devolution of broadcasting makes Plaid's argument well, namely that we sincerely believe that services would be improved by moving the decision-making processes closer to the people of Wales—to those people we are trying to deliver them for. We saw the mess that the Department for Culture, Media and Sport made of the discussions with S4C.

O edrych ar yr ymatebion i argymhelliad 5 a 6, rwyf yn falch bod Llywodraeth Cymru yn symud, er yn hynod araf, tuag at y syniad o ddatganoli darlledu. Byddech yn disgwyl i Blaid Cymru ddweud hynny, ond mae datganoli darlledu yn darlunio dadl Plaid Cymru yn dda, sef ein bod yn credu'n ddiffuant y byddai gwasanaethau'n cael eu gwella drwy symud y prosesau gwneud penderfyniadau'n nes at bobl Cymru—yn nes at y bobl yr ydym yn ceisio darparu'r gwasanaethau ar eu cyfer. Gwelsom y llanastr a wnaeth yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon o'r trafodaethau ag S4C.

Lastly, I see recommendation 19 as vital. We must ensure that we move forward with these findings, and the best way to do this would be to see the Minister regularly in our committees, explaining the work that he has been carrying out. I also hope to see the Minister stick to his word and come back with a positive reply having reviewed recommendation 1 on setting up an independent forum to focus ideas and innovation in this field. Without a focus on these issues at a Wales level, we will see more democratic deficit in our media and less plurality. This is an urgent call for the Minister to take action.

Yn olaf, rwyf o'r farn bod argymhelliad 19 yn hanfodol. Rhaid inni sicrhau ein bod yn symud ymlaen â'r canfyddiadau hyn, a'r ffordd orau o wneud hynny fyddai gweld y Gweinidog yn ein pwyllgorau yn rheolaidd, yn egluro'r gwaith y mae wedi bod yn ei gyflawni. Rwyf hefyd yn gobeithio gweld y Gweinidog yn cadw at ei air ac yn dychwelyd gydag ymateb cadarnhaol ar ôl adolygu argymhelliad 1 ar sefydlu fforwm annibynnol i roi ffocws i syniadau ac arloesedd yn y maes hwn. Heb ffocws ar y materion hyn ar lefel Cymru, byddwn yn gweld mwy o ddiffyg democrataidd yn ein cyfryngau a llai o luosogrwydd. Dyma alwad brys i'r Gweinidog weithredu.

3.45 p.m.

Mike Hedges: I am a Member of the Communities, Equality and Local

Mike Hedges: Rwyf yn Aelod o'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth

Government Committee, but I did not play a part in the task and finish group that dealt with this. First, I want to congratulate Ken Skates and his task and finish group on the work they have done on the future outlook for the media in Wales. They put in a lot of time and effort and interviewed a lot of people, and we owe them a debt for the amount of work they did. I also welcome the detailed and well thought out report that they have produced, but I would like to concentrate on two recommendations.

Leol, ond nid oeddwn yn rhan o'r grŵp gorchwyl a gorffen a fu'n ymdrin â'r mater hwn. Yn gyntaf, hoffwn longyfarch Ken Skates a'i grŵp gorchwyl a gorffen ar y gwaith y maent wedi'i wneud ar y rhagolygon ar gyfer dyfodol y cyfryngau yng Nghymru. Roedd y gwaith yn gofyn am lawer o amser ac ymdrech a buont yn cyfweld llawer o bobl, ac mae ein dyled yn fawr iddynt am y gwaith a wnaethant. Rwyf hefyd yn croesawu'r adroddiad manwl a chraff a luniwyd ganddynt, ond hoffwn ganolbwyntio ar ddau argymhelliad.

The first one is recommendation 18, which is that the Welsh Government should ensure that it is in a position to engage with newspaper companies so that viable measures can be put in place when it becomes apparent that either a significant number of jobs are to be lost or newspapers are to be closed. The importance of local newspapers is sometimes not realised by people until they are lost. I live in the *South Wales Evening Post* readership area. Where I live would be an entirely different place without the *South Wales Evening Post*. The paper has played a tremendous role in Swansea with regard to a whole range of issues, one or two of which I will mention now.

Yr un cyntaf yw argymhelliad 18, sef y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau ei bod mewn sefyllfa i ymgysylltu â chwmnïau papurau newydd fel y gellir rhoi mesurau ymarferol ar waith os daw'n amlwg y bydd nifer sylweddol o swyddi yn cael eu colli, neu y bydd papurau newydd yn cau. Weithiau, nid yw pobl yn sylweddoli pwysigrwydd papurau newydd lleol nes byddant wedi eu colli. Rwyf yn byw yn yr ardal lle y caiff y *South Wales Evening Post* ei ddarllen. Byddai'r ardal yr wyf yn byw ynddi yn hollol wahanol heb y *South Wales Evening Post.* Mae'r papur wedi chwarae rhan hollbwysig yn Abertawe o safbwynt ystod eang o faterion, ac rwyf am sôn am un neu ddau ohonynt yn awr.

Without the *South Wales Evening Post*, Swansea City Football Club would probably not have survived in its current form during the dark days of administration. Swansea City Football Club was saved by the commitment and dedication of many people in Swansea, too many to mention now, but the *South Wales Evening Post* acted as the glue that held it all together. It supported the campaign to save the club and, more importantly, every night, it gave the issue the oxygen of publicity that caused the club to survive and prosper, becoming Wales's only Barclays Premier League football team. This would not have happened without a local evening paper that, day after day, week after week, campaigned for people to put money into it to support the football team and keep it going.

Heb y *South Wales Evening Post*, mae'n annhebygol y byddai Clwb Pêl-droed Dinas Abertawe wedi goroesi yn ei ffurf bresennol, yn ystod y dyddiau du pan oedd yn nwylo'r gweinyddwyr. Cafodd Clwb Pêl-droed Dinas Abertawe ei achub gan ymrwymiad ac ymroddiad llawer o bobl yn Abertawe, sy'n rhy niferus i'w crybwyll yn awr, ond y *South Wales Evening Post* oedd y glud a ddaliodd y cyfan ynghyd. Cefnogodd yr ymgyrch i achub y clwb ac, yn bwysicach na hynny, roedd yn rhoi'r cyhoeddusrwydd angenrheidiol i'r mater bob nos, a barodd i'r clwb oroesi a ffynnu, a bod yr unig dîm pêl-droed o Gymru yn Uwch-gynghrair Barclays. Ni fyddai hynny wedi digwydd heb bapur nosweithiol lleol a fu'n ymgyrchu ddydd ar ôl dydd, wythnos ar ôl wythnos i annog pobl i roi arian i'r achos er mwyn cefnogi'r tîm pêl-droed a'i gadw i fynd.

At election times, it is the only impartial coverage of council elections and candidates in the area. It is the only place where the

Adeg etholiadau, y papur hwn yw'r unig beth yn yr ardal sy'n rhoi sylw diduedd i etholiadau'r cyngor a'r ymgeiswyr. Dyma'r

public can get summaries of the manifestoes and commitments of the parties fighting the elections. Local elections in the area do not gain much publicity outside the local paper and the leaflets that I and many others deliver in large quantities. The only people who take an interest in elections, other than those of us who are busy campaigning, are those on the local paper. While every politician during an election period thinks that their story should be published and that the opposition's should not, reflecting on the council elections in Swansea, I believe that the coverage was fair to all parties and gave information to the voting public that it could not get anywhere else. I am sure that it helped turnout in Swansea that there was some discussion of the elections taking place.

unig fan lle y gall y cyhoedd gael crynodebau o faniffestos ac ymrwymiadau'r pleidiau sy'n sefyll yn yr etholiadau. Nid yw etholiadau lleol yn yr ardal yn cael llawer o gyhoeddusrwydd y tu hwnt i'r papur lleol a'r taflenni yr wyf fi a llawer o rai eraill yn dosbarthu bwndeli mawr ohonynt. Yr unig bobl sy'n cymryd diddordeb mewn etholiadau, ar wahân i'r rheini ohonom sy'n brysur yn ymgyrchu, yw'r sawl sy'n gweithio i'r papur lleol. Er bod pob gwleidydd yn ystod cyfnod etholiad yn credu y dylid cyhoeddi ei stori ef ac na ddylid cyhoeddi stori'r wrthblaid, wrth fyfyrio ynghylch etholiadau'r cyngor yn Abertawe, credaf fod y sylw a roddwyd yn deg i bob plaid a'i fod yn rhoi gwybodaeth i'r etholwyr na allent ei chael yn unman arall. Rwyf yn siŵr bod y ffaith bod rhywfaint o drafod wedi digwydd ynghylch yr etholiadau wedi cyfrannu at y nifer a bleidleisiodd yn Abertawe.

It supports campaigns that benefit the area. The *South Wales Evening Post* was fully behind the campaign that, this week, proved successful to electrify the Paddington to Swansea railway line all the way to Swansea. With every campaign that would benefit Swansea, the *South Wales Evening Post* has been there supporting us, and that is important.

Mae'n cefnogi ymgyrchoedd sydd o fudd i'r ardal. Roedd y *South Wales Evening Post* yn gwbl gefnogol i'r ymgyrch, a fu'n llwyddiannus yr wythnos hon, i drydaneiddio'r rheilffordd o Paddington i Abertawe, yr holl ffordd i Abertawe. Mae'r *South Wales Evening Post* wedi bod yn ein cefnogi ym mhob ymgyrch a fyddai o fudd i Abertawe, ac mae hynny'n bwysig.

The paper's coverage of proposed developments during the planning stage alerts people in the area to the proposals and allows them to campaign against them if they so wish. Far more people read their local paper than engage in a daily scrutiny of council websites. Perhaps the paper is a bit easier to navigate. Swansea and the surrounding area would be a far worse place without the *South Wales Evening Post*, and that is why I am very pleased that the Government accepts recommendation 18 in principle. These local papers really are important. I would not like to lose the *South Wales Evening Post* from our area, and I am sure that people would not like to lose the *South Wales Argus* or the *South Wales Echo* in their areas and that readers in north Wales would be upset if they lost their daily paper.

Mae'r sylw y mae'r papur yn ei roi i ddatblygiadau arfaethedig yn ystod y cam cynllunio yn tynnu sylw pobl yn yr ardal at y cynigion ac yn eu galluogi i ymgyrchu yn eu herbyn os ydynt yn dymuno. Mae nifer y bobl sy'n darllen eu papur lleol yn fwy o lawer na'r nifer sy'n mynd ati bob dydd i graffu ar wefannau cynghorau. Efallai fod y papur ychydig yn haws i'w ddefnyddio. Byddai Abertawe a'r cyffiniau yn lle llawer gwaeth heb y *South Wales Evening Post*, a dyna pam yr wyf yn falch iawn bod y Llywodraeth yn derbyn argymhelliad 18 mewn egwyddor. Mae'r papurau lleol hyn yn wirioneddol bwysig. Ni fyddwn yn hoffi colli'r *South Wales Evening Post* o'n hardal, ac rwyf yn siŵr na fyddai pobl yn hoffi colli'r *South Wales Argus* neu'r *South Wales Echo* yn eu hardaloedd hwy, ac y byddai darllenwyr yn y gogledd yn gofidio pe baent yn colli eu papur dyddiol.

The second recommendation I want to refer

Yr ail argymhelliad yr hoffwn gyfeirio ato

to is recommendation 9, which is that the Assembly should keep under review arrangements for funding S4C to ensure that the funding settlement is appropriate, and keep under review any future proposals to change the nature of the settlement. To survive, S4C has to make programmes of a quality that people will watch, and to do so it needs to be adequately funded. You cannot make quality television on the cheap. As a grandparent and a regular watcher of Cyw, I see the benefits of young people seeing the language spoken on television, and its ability to show children that the Welsh language is alive and well and not just spoken in their own homes. For many, including a substantial number of non-Welsh speakers, it is S4C's sports provision that is most watched. Whether it is soccer or rugby, these are games that would not be shown anywhere else. Where else can you watch the Welsh Premier League?

yw argymhelliad 9, sef y dylai'r Cynulliad adolygu trefniadau ariannu S4C yn barhaus er mwyn sicrhau bod y setliad ariannol yn addas; a pharhau i adolygu unrhyw gynigion i newid natur y setliad yn y dyfodol. Er mwyn goroesi, mae'n rhaid i S4C wneud rhaglenni o safon y bydd pobl yn eu gwylio, ac er mwyn gwneud hynny mae angen i'r sianel gael ei hariannu'n ddigonol. Ni allwch gynhyrchu rhaglenni teledu o safon yn rhad. Fel tad-cu ac un sy'n gwylio Cyw yn rheolaidd, rwyf yn gweld manteision sicrhau bod pobl ifanc yn gweld yr iaith yn cael ei siarad ar y teledu, a'r modd y mae hynny'n gallu dangos i blant bod y Gymraeg yn fyw ac yn iach a'i bod yn cael ei siarad y tu hwnt i'w cartrefi eu hunain. I lawer o bobl, gan gynnwys nifer sylweddol o bobl nad ydynt yn siarad Cymraeg, darpariaeth chwaraeon S4C sy'n cael ei gwylio fwyaf. Boed yn bêl-droed neu'n rygbi, mae'r rhain yn gemau na fyddent yn cael eu dangos yn unman arall. Ble arall y gallwch weld gemau Uwch-gynghrair Cymru?

For many of the elderly who were brought up speaking Welsh as a first language, *Pobol y Cwm* provides the same pleasure as *Eastenders* and *Coronation Street* provide for English speakers. The creative industries have also thrived off S4C, and many of us remember *Sam Tân* well before it changed its name to *Fireman Sam.* It is important for the future of the Welsh language that S4C is adequately funded and that it continues to provide good-quality television for the Welsh-speaking communities of Wales. Finally, I believe that this report highlights many of the issues in the Welsh media and, again, I commend the sub-committee for producing it.

I lawer o bobl hŷn a gafodd eu magu â'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt, mae *Pobol y Cwm* yn rhoi'r un pleser ag y mae *Eastenders* a *Coronation Street* yn ei roi i siaradwyr Saesneg. Mae'r diwydiannau creadigol wedi ffynnu hefyd yn sgîl S4C, ac mae llawer ohonom yn cofio *Sam Tân* ymhell cyn iddo newid ei enw i *Fireman Sam.* Mae'n bwysig i ddyfodol y Gymraeg bod S4C yn cael ei hariannu'n ddigonol a'i bod yn parhau i ddarparu rhaglenni teledu o safon i gymunedau Cymraeg eu hiaith yng Nghymru. Yn olaf, credaf fod yr adroddiad hwn yn tynnu sylw at lawer o'r materion sy'n berthnasol i'r cyfryngau yng Nghymru ac, unwaith eto, rwyf yn cymeradwyo'r is-bwyllgor am ei lunio.

Peter Black: I endorse Mike Hedges's praise not just for the *South Wales Evening Post,* but for all local papers, because, when they get it right, the level of scrutiny that they can apply to politicians, to Government and to local government is exceptional. The light that they can shine on the democratic process makes that democratic process work. Without them, we would find ourselves with a much poorer democracy and much poorer transparency and accountability, because, often, the contribution that we as politicians

Peter Black: Hoffwn ategu canmoliaeth Mike Hedges, nid yn unig i'r *South Wales Evening Post* ond i bob papur newydd lleol, oherwydd, pan fyddant yn gwneud pethau'n iawn, mae lefel y gwaith craffu y gallant ei gyflawni yng nghyswllt gwleidyddion, Llywodraeth a llywodraeth leol yn eithriadol. Mae'r sylw y gallant ei roi i'r broses ddemocrataidd yn gwneud i'r broses ddemocrataidd honno weithio. Hebddynt, byddai gennym ddemocratiaeth dlotach o lawer a byddai gennym dryloywder ac

can make in scrutinising Ministers and the executive at any level cannot match the intensity that a newspaper, television or radio outlet can bring, nor can we deliver the same level of consistency over a period of time, which effectively brings people to account. For that reason, any diminution of the local media is to be regretted.

atebolrwydd tlotach o lawer, oherwydd, yn aml, ni all y cyfraniad y gallwn ni fel gwleidyddion ei wneud o ran craffu ar Weinidogion a'r weithrediaeth ar unrhyw lefel gyfateb i'r dwyster y gall papur newydd, teledu neu radio ei gynnig, ac ni allwn chwaith ddarparu'r un lefel o gysondeb dros gyfnod, sy'n dwyn pobl i gyfrif yn effeithiol. Am y rheswm hwnnw, mae unrhyw leihad yn y cyfryngau lleol yn destun gofid.

Like Bethan Jenkins, I think that this review is vital because, like her, I get the feeling that, as with the previous reviews that we have held into the media, it is only when we start to focus on these issues that the media sit up and take notice of Wales and what we are doing here and start to engage with us. When we are not talking about them, they get on with their business and, often, we find that there are failings in the way that they deliver the services that we rely on.

Fel Bethan Jenkins, rwyf innau o'r farn bod yr adolygiad hwn yn hanfodol oherwydd, fel Bethan, rwyf yn rhyw deimlo, fel yn achos yr adolygiadau blaenorol yr ydym wedi'u cynnal o'r cyfryngau, mai dim ond pan fyddwn yn dechrau canolbwyntio ar y materion hyn y bydd y cyfryngau'n deffro ac yn dechrau sylwi ar Gymru a'r hyn yr ydym yn ei wneud yma, ac yn dechrau ymgysylltu â ni. Pan na fyddwn yn sôn amdanynt maent yn bwrw ymlaen â'u busnes, ac yn aml gwelwn fod diffygion yn y modd y maent yn darparu'r gwasanaethau yr ydym yn dibynnu arnynt.

In fact, there has been a growing feeling, over a number of years, that both the Assembly and the UK Parliament have left the Welsh media off the hook. The lack of scrutiny here and the indifference in DCMS towards the Welsh media have led directly to the crisis that S4C had a few years ago and the problems that arose from that and, in a sense, allowed the UK Government Minister to put forward proposals that we had to fight tooth and nail to modify to get a more acceptable settlement for the channel. It seems to me that if we, having produced this report, step back and say, 'We've done our job; over to you, Minister—go and do what we recommend', and again take our foot off the pedal, that indifference and lack of scrutiny will lead to further complacency in the media and lead us to a situation in which issues will arise again.

Yn wir cafwyd teimlad cynyddol, dros nifer o flynyddoedd, bod y Cynulliad a Senedd y DU wedi gadael i gyfryngau Cymru wneud fel y mynnont. Mae'r diffyg craffu yn y fan hon a'r difaterwch tuag at gyfryngau Cymru yn yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi arwain yn uniongyrchol at yr argyfwng a brofodd S4C ychydig flynyddoedd yn ôl, a'r problemau a ddeilliodd o hynny ac a ganiataodd i Weinidog Llywodraeth y DU, mewn ffordd, gyflwyno cynigion y bu'n rhaid inni frwydro'n galed i'w haddasu er mwyn cael setliad mwy derbyniol i'r sianel. Pe baem, ar ôl llunio'r adroddiad hwn, yn camu'n ôl ac yn dweud, 'Rydym wedi gwneud ein gwaith ni; eich tro chi yw hi'n awr, Weinidog—ewch a gwnewch yr hyn yr ydym yn ei argymell', a phe baem yn tynnu ein troed oddi ar y sbardun eto, ymddengys i mi y byddai'r difaterwch hwnnw a'r diffyg craffu yn arwain at fwy o hunanfodlonrwydd yn y cyfryngau, ac yn ein harwain at sefyllfa lle y bydd problemau yn codi eto.

That is why recommendation 1 in this report for an independent forum to advise on policy in relation to the media in Wales is so important. We need to have Ministers

Dyna pam y mae argymhelliad 1 yr adroddiad hwn, ynghylch fforwm annibynnol i gynghori ar bolisi mewn perthynas â'r cyfryngau yng Nghymru, mor bwysig. Mae

engaging, at a constant level, with the media in Wales. It is not just at the ministerial or the Executive level that that needs to happen; we also need the committees of the Assembly to engage on a regular basis. We need the committee that I am a member of, which is the parent body of the group that produced this report, to have the broadcasters in on an annual basis, or more frequently if necessary, to talk about their annual reports, so that they can see that we have an interest in what they are doing. We would be able to ask questions about concerns that we have about the way that they are developing their programming or their offering. We could also do the same thing with the print media, if that were at all possible, although that is a bit more difficult. Therefore, I think that the Minister needs to think again about this independent forum. I do not think that it is a huge ask, to be honest, to set up an independent forum to make sure that he is getting the best possible advice from experts across the media sector, in addition to the broadcasting advisory panel. I also do not think that it is a huge ask that the committee takes on, in the future, a more serious approach to the media and how we scrutinise it.

arnom angen sefyllfa lle y mae Gweinidogion yn ymgysylltu â'r cyfryngau yng Nghymru yn gyson. Nid dim ond ar lefel Gweinidogion neu ar lefel Gweithrediaeth y mae angen i hynny ddigwydd; mae arnom angen hefyd i bwyllgorau'r Cynulliad ymgysylltu yn rheolaidd. Mae arnom angen i'r pwyllgor yr wyf fi'n aelod ohono, sef rhiant-gorff y grŵp a luniodd yr adroddiad hwn, wahodd darlledwyr i gyfarfod ag ef bob blwyddyn, neu'n amlach na hynny os oes angen, i drafod eu hadroddiadau blynyddol, fel y gallant weld bod gennym ddiddordeb yn yr hyn y maent yn ei wneud. Byddem yn gallu gofyn cwestiynau am bryderon sydd gennym ynghylch y modd y maent yn datblygu eu rhaglenni neu'r hyn y maent yn ei gynnig. Gallem wneud yr un peth hefyd gyda'r cyfryngau print, pe bai hynny'n bosibl o gwbl, er y byddai ychydig yn anos. Felly, credaf fod angen i'r Gweinidog feddwl eto am y fforwm annibynnol hwn. A dweud y gwir, nid wyf yn credu ein bod yn gofyn gormod iddo sefydlu fforwm annibynnol i sicrhau ei fod yn cael y cyngor gorau posibl gan arbenigwyr ar draws sector y cyfryngau, yn ogystal â'r panel cynghori ar ddarlledu. At hynny, nid wyf yn meddwl ein bod yn gofyn gormod i'r pwyllgor fabwysiadu agwedd fwy difrifol yn y dyfodol at y cyfryngau a'r modd yr ydym yn craffu arnynt.

Recommendation 11 about a Wales-specific channel 3 licence is absolutely essential in terms of making sure that we have scrutiny and accountability. On community radio, which has been a major boon in terms of the media offering around Wales in the last few years, I hope that the Welsh Government is able to continue its community radio fund in some form or another past 2012-13.

Mae argymhelliad 11 ynghylch trwydded sianel 3 sy'n benodol i Gymru yn gwbl hanfodol o ran sicrhau bod gwaith craffu'n digwydd a bod gennym atebolrwydd. O ran radio cymunedol, sydd wedi bod yn hwb mawr i'r hyn sydd gan y cyfryngau i'w gynnig ledled Cymru yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, rwyf yn gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn gallu parhau â'i chronfa radio cymunedol ar ryw ffurf neu'i gilydd y tu hwnt i 2012-13.

Finally, on recommendation 17, yes, the independent forum should, as part of its role, investigate sustainable business models for the print media; however, we have to acknowledge that what the print media delivers for us is part of the free market. We cannot interfere in that, as a Government or as an Assembly, but we need to keep a watching brief. If we take our eyes off the ball again, we will find that situations like that at S4C will happen again, and that needs

Yn olaf, o ran argymhelliad 17, mae'n wir y dylai'r fforwm annibynnol, yn rhan o'i rôl, ymchwilio i fodelau busnes cynaliadwy ar gyfer y cyfryngau print; fodd bynnag, rhaid inni gydnabod bod yr hyn y mae'r cyfryngau print yn ei gynnig inni yn rhan o'r farchnad rydd. Ni allwn ymyrryd â hynny, fel Llywodraeth nac fel Cynulliad, ond mae angen inni gadw golwg arno. Os byddwn yn colli golwg arno eto, byddwn yn gweld bod sefyllfaoedd megis yr un a gafwyd yn S4C yn

to be avoided at all costs.

digwydd eto, ac mae angen osgoi hynny ar bob cyfrif.

Janet Finch-Saunders: This report represents the culmination of much evidence taking, as is evidenced by the size of the report—for which I would like to thank the committee staff, my cross-party colleagues and our Chairman, Councillor Kenneth Skates—and the resulting 23 recommendations contained therein. The key issues that I would like to address focus mainly on the crisis facing the Welsh print media and the importance of securing and enhancing local media service provision, while recognising the number of challenges facing our Welsh media in terms of regulation and legislative influence.

Janet Finch-Saunders: Mae'r adroddiad hwn yn benllanw llawer o waith cymryd tystiolaeth, fel y gwelir yn ôl maint yr adroddiad—yr hoffwn ddiolch i staff y pwyllgor, fy nghydweithwyr o bob plaid a'n Cadeirydd, y Cynghorydd Kenneth Skates, amdano—a'r 23 o argymhellion sydd ynddo o ganlyniad i'r gwaith. Mae'r materion allweddol yr hoffwn fynd i'r afael â hwy yn canolbwyntio'n bennaf ar yr argyfwng sy'n wynebu cyfryngau print Cymru a phwysigrwydd diogelu a gwella'r gwasanaethau a ddarperir gan gyfryngau lleol, gan gydnabod ar yr un pryd yr heriau niferus sy'n wynebu cyfryngau Cymru o ran gwaith rheoleiddio a dylanwad deddfwriaethol.

The Ian Hargreaves report was critical of the structures of the Welsh Government with regard to the digital economy and creative industries. The former Broadcasting Committee highlighted a lack of collaboration across Government departments. Unfortunately, as the Institute of Welsh Affairs stated in evidence, this has not been addressed. Indeed, the Minister himself stated quite clearly that he does not consider that the line of responsibility leads to him directly and that he is not accountable in this area. Accountability is essential, now more than ever, as it is clear that the media landscape in Wales is undergoing a period of massive upheaval. Habits are changing across the UK, with three fifths of all 15 to 24-year-olds engaging with the media through computers, mobile phones and hand-held devices, while one in five people access and share news stories every week via e-mail and social networking sites here in Wales. Access to news in this manner is hindered somewhat by our poor broadband infrastructure and 3G mobile coverage. While we wait patiently for these infrastructure issues to be addressed, what is clear is that the rise of online news and social networking sites will have serious implications for more traditional forms of media in Wales. This was a constant concern raised during evidence sessions.

Roedd adroddiad Ian Hargreaves yn feirniadol o strwythurau Llywodraeth Cymru o safbwynt yr economi ddigidol a'r diwydiannau creadigol. Tynnodd yr hen Bwyllgor Darlledu sylw at ddiffyg cydweithredu ar draws adrannau'r Llywodraeth. Yn anffodus, nid yw hynny wedi cael sylw, fel y nododd y Sefydliad Materion Cymreig yn ei dystiolaeth. Yn wir, dywedodd y Gweinidog ei hun yn gwbl glir nad yw'n ystyried mai ef sy'n uniongyrchol gyfrifol am y maes hwn ac nad yw'n atebol amdano. Mae atebolrwydd yn hanfodol, yn awr yn fwy nag erioed, gan ei bod yn amlwg bod tirwedd y cyfryngau yng Nghymru yn mynd drwy gyfnod o newid enfawr. Mae arferion yn newid ar draws y DU, gyda thri o bob pump o bobl 15 i 24 oed yn ymgysylltu â'r cyfryngau trwy gyfrifiaduron, ffonau symudol a dyfeisiau llaw, tra mae un o bob pump o bobl yn darllen ac yn rhannu straeon newyddion bob wythnos drwy e-bost a gwefannau rhwydweithio cymdeithasol yma yng Nghymru. Caiff y broses o gael mynediad i newyddion yn y modd hwn ei llesteirio i ryw raddau gan ein seilwaith band eang gwael a'n gwasanaethau ffôn symudol 3G gwael. Wrth inni aros yn amyneddgar i'r problemau seilwaith hyn gael sylw, yr hyn sy'n amlwg yw y bydd y cynnydd mewn newyddion ar-lein a gwefannau rhwydweithio cymdeithasol yn esgor ar oblygiadau difrifol i gyfryngau mwy traddodiadol yng Nghymru. Roedd hwn yn

bryder parhaus a godwyd yn ystod sesiynau tystiolaeth.

Given that the newspaper sector in Wales at present suffers from a lack of plurality and patchy coverage, the evidence that we received on the outlook for the print media was alarming. The National Union of Journalists, for example, stated that the Welsh newspaper industry is facing a crisis that threatens its survival, while the IWA said that there is little to substantiate the optimistic view of the impact of online services on the profitability of newspaper groups. Compounding the challenge of online media is the role that local authorities play in providing advertising revenue for newspapers, and their role as direct market competitors in publishing their own county newspapers—or, perhaps, their own council propaganda—does not help in this case. Although not directly dealt with in this report, the cost to the public purse of these publications is a cause of great concern to me and others. Perhaps we can debate that issue at a later date in this Chamber.

O ystyried bod y sector papurau newydd yng Nghymru yn dioddef ar hyn o bryd o ddiffyg lluosogrwydd ac o ddarpariaeth sy'n fylchog, roedd y dystiolaeth a gawsom ynghylch y rhagolygon ar gyfer y cyfryngau print yn frawychus. Dywedodd Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr, er enghraifft, fod y diwydiant papurau newydd yng Nghymru yn wynebu argyfwng sy'n bygwth ei barhad, a dywedodd y Sefydliad Materion Cymreig nad oes fawr ddim i gadarnhau'r farn obeithiol am effaith gwasanaethau ar-lein ar allu grwpiau papurau newydd i wneud elw. Yr hyn sy'n dwysáu'r her a achosir gan gyfryngau ar-lein yw'r rôl y mae awdurdodau lleol yn ei chwarae o ran darparu refeniw hysbysebu ar gyfer papurau newydd, a'u rôl fel cyrff sy'n cystadlu'n uniongyrchol yn y farchnad trwy gyhoeddi eu papurau newydd sirol eu hunain—neu, efallai, eu propaganda eu hunain ar gyfer y cyngor—ac nid yw hynny'n helpu yn yr achos hwn. Er nad yw'r adroddiad yn ymdrin yn uniongyrchol â'r mater hwn, mae cost y cyhoeddiadau hyn i bwrs y wlad yn peri pryder mawr i mi ac i eraill. Efallai y gallwn drafod y mater hwnnw rywbryd eto yn y Siambr hon.

Moving on to the importance of local news provision in a Welsh context, I was pleased to hear that the BBC will not—it says—reduce the volume of daily news produced by BBC Wales. However, I am concerned that the recent expansion of BBC Wales's activity with regard to network output may lead the organisation to lose sight of its important Welsh services. Furthermore, the changing constitutional and public policy context of an increasingly devolved United Kingdom needs to be reflected in broadcasters' political coverage. In that regard, I would also like to see greater use of social media by key broadcasters and other actors to spread the message among our young people, who are generally the most avid users of sites such as Facebook and Twitter. Above all, I hope that rigorous monitoring by the Assembly committee, as outlined in recommendation 8, alongside the implementation of recommendation 10, will ensure that broadcasters play their role in communicating the new political landscape to viewers,

Gan symud ymlaen at bwysigrwydd darpariaeth leol o ran newyddion mewn cyd-destun Cymreig, roeddwn yn falch o glywed y BBC yn dweud na fydd yn lleihau'r newyddion dyddiol a gynhyrchir gan BBC Cymru. Fodd bynnag, rwyf yn pryderu y gallai'r camau diweddar i ehangu gweithgarwch BBC Cymru yng nghyswllt rhaglenni i'r rhwydwaith beri i'r sefydliad golli golwg ar ei wasanaethau Cymreig pwysig. At hynny, mae angen i'r sylw y mae darlledwyr yn ei roi i wleidyddiaeth adlewyrchu cyd-destun cyfansoddiadol a chyd-destun polisi cyhoeddus sy'n newid yn y Deyrnas Unedig, sy'n mynd yn fwyfwy datganoledig. O ran hynny, hoffwn hefyd weld darlledwyr allweddol a darparwyr eraill yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn fwy i ledaenu'r neges ymhlith ein pobl ifanc, sef defnyddwyr mwyaf brwd gwefannau megis Facebook a Twitter yn gyffredinol. Yn anad dim, rwyf yn gobeithio y bydd gwaith monitro trylwyr gan bwyllgor y Cynulliad, fel yr amlinellir yn argymhelliad 8, ochr yn

listeners and readers alike. This report addresses a plethora of issues relating to the media in Wales. However, time constraints mean that I cannot cover them all individually.

ochr â'r gwaith o weithredu argymhelliad 10, yn sicrhau bod darlledwyr yn chwarae eu rhan o safbwynt cyfleu gwybodaeth am y dirwedd wleidyddol newydd i wylwyr, gwrandawyr a darllenwyr fel ei gilydd. Mae'r adroddiad hwn yn mynd i'r afael â llu o faterion sy'n ymwneud â'r cyfryngau yng Nghymru. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau amser yn golygu na allaf roi sylw i bob un ohonynt yn unigol.

4.00 p.m.

In summary, though, I would urge that we redouble our efforts to find new ways of supporting the Welsh media and print sector in particular, so that local news coverage in a Welsh context can keep up with the pace of change. I welcome this report and its recommendations, and I hope that we can move forward towards a strong and sustainable creative media sector in Wales.

I grynhoi, fodd bynnag, byddwn yn pwyso am inni ddwysáu ein hymdrechion i ddod o hyd i ffyrdd newydd o gefnogi cyfryngau Cymru a'r sector print yn benodol, fel y gellir sicrhau nad yw darpariaeth leol o ran newyddion mewn cyd-destun Cymreig ar ei hôl hi o ran newid. Croesawaf yr adroddiad hwn a'i argymhellion, a gobeithiaf y gallwn symud ymlaen tuag at sector cyfryngau creadigol cryf a chynaliadwy yng Nghymru.

Mohammad Asghar: I would like to say a few words in support of local television in Wales. The introduction of a local television network is a key element in the Westminster coalition Government's legislative programme. Ofcom research suggests a demand among consumers for local news from their areas. Local television works in France and Germany. It is a fact that none of our major cities has a proper local television station, whereas, in the United States, some have as many as eight local stations to choose from. Television in Wales has made valiant efforts to produce truly local content. I believe that local television can be a powerful tool to promote political and civic engagement and empowerment. This is particularly appropriate for our ethnic minority communities, which too frequently are disengaged because of underrepresentation in the political processes in Wales.

Mohammad Asghar: Hoffwn ddweud ychydig eiriau i gefnogi teledu lleol yng Nghymru. Mae cyflwyno rhwydwaith teledu lleol yn elfen allweddol yn rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth glymblaid San Steffan. Mae ymchwil Ofcom yn awgrymu bod galw ymhlith defnyddwyr am newyddion lleol o'u hardaloedd. Mae teledu lleol yn gweithio yn Ffrainc a'r Almaen. Mae'n ffaith nad oes gan yr un o'n dinasoedd mawr orsaf deledu leol go iawn, tra, yn yr Unol Daleithiau, mae gan rai gynifer ag wyth o orsafoedd lleol y gellir dewis o'u plith. Mae teledu yng Nghymru wedi gwneud ymdrech lew i gynhyrchu cynnwys sy'n wirioneddol leol. Credaf y gall teledu lleol fod yn arf pwerus i hybu gwaith ymgysylltu a grymuso dinesig a gwleidyddol. Mae hynny'n arbennig o briodol ar gyfer ein cymunedau lleiafrifoedd ethnig, sy'n colli diddordeb yn rhy aml am na chânt eu cynrychioli'n ddigonol mewn prosesau gwleidyddol yng Nghymru.

Vaughan Gething: I note what you say about local television and, in principle, I do not think that many Members would disagree that, if viable, local television could be a useful addition. Nevertheless, do you not accept that one of the key differences with regard to the local television proposals here

Vaughan Gething: Nodaf yr hyn a ddywedwch am deledu lleol ac, mewn egwyddor, nid wyf yn meddwl y byddai llawer o'r Aelodau yn anghytuno y gallai teledu lleol, pe bai'n ddichonol, fod yn ychwanegiad defnyddiol. Serch hynny, onid ydych yn derbyn mai un o'r gwahaniaethau

in the UK and what exists in the USA is that some US cities have populations that are the size of the whole of Wales and that the scale of the commercial viability is therefore hugely different? We do not have anything like that scale in what Ofcom is proposing and trialling.

allweddol rhwng y cynigion ynghylch teledu lleol yma yn y DU a'r hyn sy'n bodoli yn yr Unol Daleithiau yw'r ffaith bod gan rai o ddinasoedd yr Unol Daleithiau boblogaeth sydd gymaint â phoblogaeth Cymru gyfan, a bod gwahaniaeth enfawr, felly, yn y graddau y byddai teledu lleol yn hyfyw o safbwynt masnachol? Nid yw'r hyn y mae Ofcom yn ei gynnig ac yn ei dreialu'n ddim byd tebyg i'r raddfa honno.

Mohammed Asghar: Thank you very much, but, if you listen to my speech, I will answer you in a minute anyway. [*Interruption.*] You will see in a minute.

Mohammad Asghar: Diolch yn fawr iawn, ond os gwrandewch ar fy araith, byddaf yn eich ateb yn y man beth bynnag. [*Torri ar draws.*] Fe welwch yn y man.

This view is supported by the former director general of the BBC, Greg Dyke, who said that local television will

Cefnogir y farn hon gan gyn-gyfarwyddwr cyffredinol y BBC, Greg Dyke, a ddywedodd y bydd teledu lleol yn

'provide a real boost to local economies and local democracy across the UK'.

rhoi hwb go iawn i economïau lleol a democratiaeth leol ar draws y DU.

They are not my words; they are Greg Dyke's.

Nid fy ngeiriau i yw'r rhain, ond geiriau Greg Dyke.

The coalition Government has acknowledged that audiences in devolved nations have specific needs for news and content that hold the devolved institutions to account and better reflect their identities. Ofcom originally identified six locations in Wales, on behalf of the Department for Culture, Media and Sport, where local television broadcast services might be technically possible, and, of these, two have been included in the final 20 areas: Swansea, including Llanelli, and Cardiff, which will include Bridgend and Newport, which is in my area of South Wales East.

Mae'r Llywodraeth glymblaid wedi cydnabod bod gan gynulleidfaoedd yn y gwledydd datganoledig anghenion penodol o ran newyddion a rhaglenni sy'n dwyn y sefydliadau datganoledig i gyfrif ac sy'n adlewyrchu eu hunaniaeth yn well. Yn wreiddiol, roedd Ofcom wedi nodi chwech o leoliadau yng Nghymru, ar ran yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, lle y gallai gwasanaethau darlledu teledu lleol fod yn dechnegol bosibl, ac o blith y rheini mae dau wedi eu cynnwys yn yr 20 ardal olaf: sef Abertawe, gan gynnwys Llanelli, a Chaerdydd, a fydd yn cynnwys Pen-y-bont ar Ogwr a Chasnewydd, sydd yn fy ardal i, sef Dwyrain De Cymru.

Local television can hold local institutions and politicians to account. As Peter Williams, the spokesman for the trade organisation United for Local Television, said:

Gall teledu lleol ddwyn sefydliadau a gwleidyddion lleol i gyfrif. Fel y dywedodd Peter Williams, y llefarydd ar ran y sefydliad masnach, United for Local Television:

'We believe citizens have a democratic right to see their local representatives on the TV and hold them to account through news and discussion programming.'

Rydym yn credu bod gan ddinasyddion hawl ddemocrataidd i weld eu cynrychiolwyr lleol ar y teledu ac i'w dwyn i gyfrif drwy raglenni newyddion a rhaglenni trafod.

It can stimulate local initiatives and encourage media partnerships by bringing

Gall ysgogi mentrau lleol ac annog partneriaethau ym maes y cyfryngau, trwy

local newspapers and local radio programmes together. Also, by the use of advertising, it can provide a real boost to the local economy. I know the First Minister's view of local television is lukewarm to say the least. In his reply to a recent question from me, he said:

'I am sceptical that local TV would be successful in six locations across Wales…. However, anything that broadens broadcast output in Wales is to be welcomed.'

I would urge the First Minister, as the report recommends, to keep these proposals under review and not to turn his back on the potential benefits of local television in Wales.

I conclude my speech by again quoting Greg Dyke, one of the best directors general of the BBC. In his words:

'Most of all we want to ensure that models are developed to enable local TV to provide a real boost to local economies and local democracy across the UK. There's still a lot of detail to be worked through but the time is coming…to stop just talking about local TV and start making it happen.'

The Minister for Housing, Regeneration and Heritage (Huw Lewis): I wish to thank Ken Skates, the chair of the task and finish group, along with the other members and officers of the group, for the commendable work that has been achieved. I appreciated the opportunity to appear in front of the group in January. I am also responding on behalf of the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science today—some of the report's recommendations were specifically for her department, particularly those relating to the creative industries. The Government has formally responded to the group's report. I am sure that the group has read that response, therefore I do not intend to repeat its content. I am pleased that, as a Government, we were able to accept the majority of the report's recommendations. Naturally, we welcome the fact that so many of the issues under discussion in the report were ones that we had already raised with the

ddod â phapurau newydd lleol a rhaglenni radio lleol at ei gilydd. Yn ogystal, drwy ddefnyddio hysbysebu, gall roi hwb gwirioneddol i'r economi leol. Gwn mai llugoer, ar y gorau, yw barn y Prif Weinidog am deledu lleol. Yn ei ymateb i gwestiwn a ofynnais yn ddiweddar, dywedodd:

'Rwyf yn amheus y byddai teledu lleol yn llwyddiannus mewn chwe lleoliad ledled Cymru.... Fodd bynnag, mae unrhyw beth sy'n ehangu'r allbwn darlledu yng Nghymru i'w groesawu.'

Fel y mae'r adroddiad yn argymell, byddwn yn annog y Prif Weinidog i adolygu'r cynigion hyn yn barhaus a pheidio â throi ei gefn ar fanteision posibl teledu lleol yng Nghymru.

Hoffwn gloi fy araith drwy ddyfynnu Greg Dyke unwaith eto, sef un o gyfarwyddwyr cyffredinol gorau'r BBC, a ddywedodd:

Yn anad dim, rydym am sicrhau bod modelau'n cael eu datblygu i alluogi teledu lleol i roi hwb go iawn i economïau lleol a democratiaeth leol ar draws y DU. Mae angen gweithio ar lawer o'r manylion o hyd, ond mae'n bryd...rhoi'r gorau i sôn am deledu lleol a dechrau gwneud iddo ddigwydd.

Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth (Huw Lewis): Hoffwn ddiolch i Ken Skates, cadeirydd y grŵp gorchwyl a gorffen, ynghyd ag aelodau eraill a swyddogion y grŵp, am y gwaith clodwiw sydd wedi'i gyflawni. Gwerthfawrogais y cyfle i ymddangos gerbron y grŵp ym mis Ionawr. Rwyf hefyd yn ymateb ar ran y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth heddiw—gan fod rhai o argymhellion yr adroddiad yn benodol ar gyfer ei hadran hi, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â'r diwydiannau creadigol. Mae'r Llywodraeth wedi ymateb yn ffurfiol i adroddiad y grŵp. Rwyf yn siŵr bod y grŵp wedi darllen yr ymateb hwnnw, felly nid wyf yn bwriadu ailadrodd ei gynnwys. Rwyf yn falch ein bod, fel Llywodraeth, wedi gallu derbyn y rhan fwyaf o argymhellion yr adroddiad. Yn naturiol, rydym yn croesawu'r ffaith bod cynifer o'r materion a gafodd eu trafod yn yr adroddiad yn rhai yr oeddem eisoes wedi'u

UK Government, broadcasters, Ofcom and other relevant bodies. The Welsh Government will continue to engage closely with these bodies and will also contribute constructively to ensure that the new communication review meets the needs of Wales.

codi gyda Llywodraeth y DU, darlledwyr, Ofcom a chyrff perthnasol eraill. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu'n agos â'r cyrff hyn, a bydd hefyd yn cyfrannu'n adeiladol er mwyn sicrhau bod yr adolygiad newydd o gyfathrebu yn diwallu anghenion Cymru.

The contributions from Members during the debate today underline the fact that there is cross-party concern about developments in relation to the media industry in Wales. That was also reflected during the meetings of the task and finish group. There is a good degree of cross-party consensus about some of the issues that we need to tackle as we move forward. Suzy Davies is quite right to pose questions for the Silk commission as regards how things might develop. Mike Hedges and Peter Black's comments on local newspapers resonate with us all. One thing is certain: the role of the National Assembly for Wales and its committees, and that of the Welsh Government, should continue to evolve and grow in terms of our relationship with the Welsh media.

Mae'r cyfraniadau gan Aelodau yn ystod y ddadl heddiw yn tanlinellu'r ffaith bod pryder trawsbleidiol am ddatblygiadau mewn perthynas â diwydiant y cyfryngau yng Nghymru. Cafodd hynny ei adlewyrchu hefyd yn ystod cyfarfodydd y grŵp gorchwyl a gorffen. Ceir lefel dda o gonsensws trawsbleidiol ynglŷn â rhai o'r materion y mae angen inni fynd i'r afael â hwy wrth inni symud ymlaen. Mae Suzy Davies yn llygad ei lle wrth godi cwestiynau ar gyfer comisiwn Silk ynghylch sut y gallai pethau ddatblygu. Mae sylwadau Mike Hedges a Peter Black am bapurau newydd lleol yn taro tant gyda phob un ohonom. Mae un peth yn sicr: dylai rôl Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i bwyllgorau, a rôl Llywodraeth Cymru, barhau i esblygu a thyfu o ran ein perthynas â chyfryngau Cymru.

Providing plurality of services is vital to the broadcasting industry in Wales, as well as the newspaper industry in Wales, to ensure, among other things, an open democracy. Wales is in a unique situation because only a small percentage of our population read newspapers of a national nature that report stories about Wales in the day-to-day course of events. Although we have no direct responsibility in relation to the newspaper industry in Wales, we are extremely concerned about job losses in several local newspapers during the last few years and the effect that that has had on the quality of local journalism. As a result of the relatively weak indigenous press in Wales, the public service broadcasters have an even more vital role to play at the heart of our civic life. As a Government, we are concerned about the provision of non-news programmes directed at a Welsh audience, as well as comprehensive news and current affairs coverage.

Mae sicrhau lluosogrwydd gwasanaethau yn hanfodol i'r diwydiant darlledu yng Nghymru, yn ogystal â'r diwydiant papurau newydd yng Nghymru, er mwyn sicrhau democratiaeth agored, ymhlith pethau eraill. Mae Cymru mewn sefyllfa unigryw gan mai canran fach yn unig o'n poblogaeth sy'n darllen papurau newydd cenedlaethol eu natur sy'n cynnwys straeon am Gymru o ddydd i ddydd. Er nad oes gennym gyfrifoldeb uniongyrchol mewn perthynas â'r diwydiant papurau newydd yng Nghymru, rydym yn pryderu'n fawr iawn am y swyddi a gollwyd mewn nifer o bapurau newydd lleol yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, a'r effaith y mae hynny wedi'i chael ar ansawdd newyddiaduraeth leol. O ganlyniad i'r wasg gynhenid gymharol wan sydd yng Nghymru, mae gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus rôl fwy hanfodol fyth i'w chwarae wrth wraidd ein bywyd dinesig. Fel Llywodraeth, rydym yn pryderu am y ddarpariaeth o ran rhaglenni heblaw rhaglenni newyddion, a anelir at gynulleidfa yng Nghymru, yn ogystal â rhaglenni newyddion a materion cyfoes cynhwysfawr.

Taken as a whole, the broadcasting industry in Wales is currently facing an uncertain future. S4C has been through an extremely difficult period but we are encouraged by how the new leadership at S4C, and the relationship that has been established with the BBC, has meant that it has started to respond to the significant challenges facing the channel. The new partnership between S4C and the BBC offers important benefits for the citizens of Wales. The first priority should be for S4C and the BBC to begin to deliver on the back of the partnership and the relative stability that it offers. However, because of the crucial importance of S4C's role, we also believe that the outcome of the partnership should be subject to an independent review at some point—a matter that all parties in the Assembly have agreed upon. The BBC in Wales is also facing difficult challenges, to say the least, as it delivers savings of 16% in Wales by 2016-17. The BBC, like all public sector organisations, is having to take some very difficult decisions to deliver significant savings over the next few years. However, we have emphasised that there should be a clear commitment to safeguarding and strengthening the core services, both in Welsh and in English, that it provides.

O'i ystyried yn ei gyfanrwydd, mae'r diwydiant darlledu yng Nghymru yn wynebu dyfodol ansicr ar hyn o bryd. Mae S4C wedi bod trwy gyfnod eithriadol o anodd, ond rydym wedi ein calonogi gan y modd y mae arweinwyr newydd S4C, a'r berthynas sydd wedi ei sefydlu â'r BBC, wedi golygu ei bod wedi dechrau ymateb i'r heriau sylweddol sy'n wynebu'r sianel. Mae'r bartneriaeth newydd rhwng S4C a'r BBC yn cynnig manteision pwysig i ddinasyddion Cymru. Dechrau cyflawni yn sgîl y bartneriaeth a'r sefydlogrwydd cymharol y mae'n ei gynnig ddylai fod yn flaenoriaeth gyntaf i S4C a'r BBC. Fodd bynnag, oherwydd pwysigrwydd hanfodol rôl S4C, rydym hefyd yn credu y dylai canlyniad y bartneriaeth fod yn destun adolygiad annibynnol rywbryd—sy'n rhywbeth y mae pob plaid yn y Cynulliad wedi cytuno arno. Mae'r BBC yng Nghymru hefyd yn wynebu heriau anodd, a dweud y lleiaf, wrth iddi sicrhau arbedion o 16% yng Nghymru erbyn 2016-17. Fel pob sefydliad yn y sector cyhoeddus, mae'r BBC yn gorfod gwneud rhai penderfyniadau anodd iawn i gyflawni arbedion sylweddol dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Fodd bynnag, rydym wedi pwysleisio y dylai fod ymrwymiad clir i ddiogelu a chryfhau'r gwasanaethau craidd a ddarperir ganddi, yn Gymraeg a Saesneg.

It is encouraging that ITV Wales seems to be in a stronger position now compared to a few years ago. However, we continue to be far from clear about the long-term pattern of ITV services in Wales. Wales needs a strong, independent voice in broadcasting to provide a counterbalance to the provision of BBC Wales. The existing provision by ITV of just under four hours of news a week, plus an hour and a half of other material, including current affairs and political coverage, should be the minimum condition for ITV's licence renewal. We will continue to press for this in the period before the current channel 3 licence expires and in the context of the UK Government's communications review. We note with interest Ofcom's recent report to the UK Government, which proposed a separate, stand-alone licence for channel 3 in Wales.

Mae'n galonogol ei bod yn ymddangos bod ITV Wales mewn sefyllfa gryfach yn awr o'i chymharu ag ychydig flynyddoedd yn ôl. Fodd bynnag, nid yw patrwm hirdymor gwasanaethau ITV yng Nghymru yn glir o bell ffordd o hyd. Mae ar Gymru angen llais cryf, annibynnol ym maes darlledu i wrthbwyso darpariaeth BBC Cymru. Dylai darpariaeth bresennol ITV, sef ychydig dan bedair awr o newyddion yr wythnos, yn ogystal ag awr a hanner o ddeunydd arall sy'n cynnwys rhaglenni materion cyfoes a rhaglenni gwleidyddol, fod yn amod sylfaenol ar gyfer adnewyddu trwydded ITV. Byddwn yn parhau i bwyso am hynny yn ystod y cyfnod cyn i drwydded gyfredol sianel 3 ddod i ben, ac yng nghyd-destun adolygiad Llywodraeth y DU o gyfathrebu. Rydym yn nodi gyda diddordeb adroddiad diweddar Ofcom i Lywodraeth y DU, a oedd yn cynnig trwydded unigol ar wahân ar gyfer sianel 3 yng Nghymru.

Our response to the group's report also

Mae ein hymateb i adroddiad y grŵp hefyd

reflects our commitment to protect the interests of radio broadcasting in Welsh and in English. We also have concerns about radio switchover. There is still some way to go to provide Welsh listeners with the radio services they need and deserve.

yn adlewyrchu ein hymrwymiad i ddiogelu buddiannau darlledu radio yn Gymraeg a Saesneg. Rydym yn pryderu hefyd am drosglwyddo i radio digidol. Mae tipyn o waith i'w wneud o hyd i sicrhau bod gwrandawyr yng Nghymru yn cael y gwasanaethau radio y mae arnynt eu hangen ac y maent yn eu haeddu.

I note that the review cuts across a number of creative industries, particularly tv and radio, but also publishing, film and digital media. Due to the important role that broadcasting plays in all of those sub-sectors, the Government has established an independent broadcasting advisory panel to advise it on all issues relating to broadcasting in Wales. I hope that this goes some way towards satisfying the asks of the task and finish group. Strong economic evidence and advice from the Welsh Government's creative industries sector panel suggest that traditional media production is still an important part of the economic picture in Wales, but that digital media presents the greatest opportunity for economic growth.

Nodaf fod yr adolygiad yn ymdrin â nifer o ddiwydiannau creadigol, yn enwedig teledu a radio, ond ei fod hefyd yn ymdrin â chyhoeddi, ffilm a chyfryngau digidol. O ganlyniad i'r rôl bwysig y mae darlledu yn ei chwarae ym mhob un o'r is-sectorau hynny, mae'r Llywodraeth wedi sefydlu panel cynghori annibynnol ar ddarlledu i'w chynghori ar yr holl faterion sy'n ymwneud â darlledu yng Nghymru. Rwyf yn gobeithio bod hynny'n gwneud tipyn i fodloni gofynion y grŵp gorchwyl a gorffen. Mae tystiolaeth economaidd gref ynghyd â chyngor gan banel Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector diwydiannau creadigol yn awgrymu bod gwaith cynhyrchu gan y cyfryngau traddodiadol yn dal yn rhan bwysig o'r darlun economaidd yng Nghymru, ond mai'r cyfryngau digidol sy'n cynnig y cyfle mwyaf ar gyfer twf economaidd.

The Welsh Government is focused on delivering the mechanisms that will help to create wealth, jobs and growth in all areas of the media, and we are achieving this in a number of ways. We have established a new digital development fund to fund projects that utilise the breadth of digital devices, platforms and channels to be exploited in the global marketplace. Business finance is also available to eligible companies to support international production opportunities, job creation, research, development and innovation. The Welsh Government has committed funding to support creative knowledge transfer partnerships, a graduate employment scheme developed by the technology strategy board. We have also recently entered into a three-year partnership with the National Endowment for Science, Technology and the Arts to deliver the Destination Local initiative, which supports new local media projects. Two media projects in Wales have already been selected for this—one from Welshpool and one based in Caernarfon.

Mae Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar ddarparu'r systemau a fydd yn helpu i greu cyfoeth, swyddi a thwf ym mhob un o feysydd y cyfryngau, ac rydym yn gwneud hynny mewn nifer o ffyrdd. Rydym wedi sefydlu cronfa datblygu digidol newydd i ariannu prosiectau sy'n defnyddio'r ystod eang o ddyfeisiau, llwyfannau a sianeli digidol sydd ar gael i fanteisio arnynt yn y farchnad fyd-eang. Mae cyllid busnes ar gael hefyd i gwmnïau cymwys er mwyn cefnogi cyfleoedd cynhyrchu rhyngwladol, cyfleoedd i greu swyddi, ymchwil, datblygu ac arloesedd. Mae Llywodraeth Cymru wedi clustnodi cyllid i gefnogi partneriaethau trosglwyddo gwybodaeth yn y diwydiannau creadigol, sef cynllun cyflogaeth i raddedigion a ddatblygwyd gan y bwrdd strategaeth technoleg. Yn ddiweddar, rydym hefyd wedi ymrwymo i bartneriaeth tair blynedd gyda'r Gwaddol Cenedlaethol ar gyfer Gwyddoniaeth, Technoleg a'r Celfyddydau er mwyn cyflwyno'r fenter Cyrchfan Leol, sy'n cefnogi prosiectau cyfryngau lleol newydd. Mae dau brosiect

cyfryngau yng Nghymru wedi eu dewis eisoes i fod yn rhan o'r fenter—un o'r Trallwng ac un yng Nghaernarfon.

The Welsh Government's programme for government underlines our commitment to the broadcasting industry in Wales. Wales is a nation with its own language, culture and political institutions, and therefore a strong media is essential to provide a comprehensive service that informs, educates, entertains and inspires the people of Wales. I again thank the group's Chair and Members for the work undertaken. This is a discussion that will continue over the coming months.

Mae rhaglen lywodraethu Llywodraeth Cymru yn tanlinellu ein hymrwymiad i'r diwydiant darlledu yng Nghymru. Mae Cymru yn genedl sydd â'i hiaith, ei diwylliant a'i sefydliadau gwleidyddol ei hun, ac felly mae cael cyfryngau cryf yn hanfodol i ddarparu gwasanaeth cynhwysfawr sy'n hysbysu, sy'n addysgu, sy'n difyrru ac sy'n ysbrydoli pobl Cymru. Hoffwn ddiolch unwaith eto i Gadeirydd ac Aelodau'r grŵp am y gwaith a wnaed. Mae hon yn drafodaeth a fydd yn parhau dros y misoedd nesaf.

Kenneth Skates: I will review what each Member has said in this debate. There have been some very valuable contributions.

Kenneth Skates: Hoffwn adolygu'r hyn y mae pob Aelod wedi'i ddweud yn y ddadl hon. Cafwyd rhai cyfraniadau gwerthfawr iawn.

First, Suzy Davies and Janet Finch-Saunders rightly highlighted the value of the creative industries sector. These industries have the potential to enhance our democracy, but many of them need support in order to flourish. Bethan Jenkins rightly pointed out—I am sure that she is not the only Assembly Member to have been approached by the media—that, as a consequence of this inquiry, there is now recognition of the value of this institution in scrutinising the media. Checks and balances are now mutually applied.

Yn gyntaf, tynnodd Suzy Davies a Janet Finch-Saunders sylw, yn gywir ddigon, at werth y sector diwydiannau creadigol. Mae gan y diwydiannau hyn y potensial i wella ein democratiaeth, ond mae angen cefnogaeth ar lawer ohonynt i ffynnu. Roedd Bethan Jenkins yn iawn i dynnu sylw at y ffaith—ac rwyf yn siŵr bod y cyfryngau wedi cysylltu ag Aelodau eraill o'r Cynulliad hefyd—bod yr ymchwiliad hwn wedi arwain at gydnabyddiaeth yn awr o werth y sefydliad hwn o ran craffu ar y cyfryngau. Yn awr, mae'r naill ochr a'r llall yn defnyddio rhwystrau a gwrthbwysau.

4.15 p.m.

Bethan Jenkins was right to recognise the huge economic potential of new start-ups. Mike Hedges and Peter Black both rightly spoke about the value of local newspapers. They have a value beyond the provision of information: they bind people together, convey our values, expose injustice, champion local causes, and help to give communities unique identities. We all have a role to play in supporting local newspapers, and we should not be thin-skinned when they criticise us.

Roedd Bethan Jenkins yn iawn i gydnabod potensial economaidd enfawr busnesau newydd. Soniodd Mike Hedges a Peter Black ill dau, yn gywir ddigon, am werth papurau newydd lleol. Mae ganddynt werth y tu hwnt i ddarparu gwybodaeth: maent yn tynnu pobl ynghyd, yn cyfleu ein gwerthoedd, yn amlygu anghyfiawnder, yn hyrwyddo achosion lleol, ac yn helpu i roi hunaniaeth unigryw i gymunedau. Mae gennym i gyd rôl i'w chwarae o ran cefnogi papurau newydd lleol, ac ni ddylem fod yn groendenau pan fyddant yn ein beirniadu.

The issue of free council newspapers was

Cyfeiriodd Janet Finch-Saunders at bapurau

raised by Janet Finch-Saunders, and it was of peripheral interest in the media at the time of the inquiry. Since the inquiry took place, there have been major gains for Labour councils across Wales, and if I were truly cynical, I would say that, Peter, you were absolutely right about free council newspapers, and we should continue with them. However, I stand where I did before the local elections, and I believe that this should be looked at, and I welcome the pledge by the Minister for Local Government and Communities to review this matter during the course of the fourth Assembly.

newydd a gaiff eu dosbarthu'n rhad ac am ddim gan gynghorau, ac roedd hynny o ddiddordeb ymylol yn y cyfryngau adeg yr ymchwiliad. Ers i'r ymchwiliad gael ei gynnal, mae cynghorau Llafur wedi sicrhau enillion mawr ledled Cymru, a phe bawn yn wirioneddol sinigaidd, byddwn yn dweud, Peter, eich bod yn llygad eich lle ynghylch papurau newydd rhad ac am ddim cynghorau, a dylem barhau â hwy. Fodd bynnag, rwyf o'r un farn ag yr oeddwn cyn yr etholiadau lleol, a chredaf y dylid edrych ar y mater, ac rwyf yn croesawu'r addewid a gafwyd gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau i adolygu'r mater hwn yn ystod y pedwerydd Cynulliad.

Mohammad Asghar mentioned local tv, and many witnesses raised concerns about the development of local tv. When we talk about markets, let us not forget that the local tv station in Birmingham, Alabama, caters for about 1.5 million people, while some of the local tv stations proposed in Wales would have a maximum market share of about 22,000 people, which is less than what a lot of our local papers can capture at the moment, given that their sales figures are significantly lower than that. There is also the potential for a dilution of the BBC quality brand if there is an agreement to exchange material and, crucially, there will be a diversion of public funding from the BBC to local tv stations. Many Assembly Members, given the choice between additional resources for the BBC Wales political unit upstairs or local television stations carrying dead-donkey stories, would, I think, opt for increased political coverage. There is also the issue of how they would be manned, if you like. If universities bid for local tv stations, there is a great risk of the exploitation of university students, under the guise of providing work experience or training.

Soniodd Mohammad Asghar am deledu lleol, a mynegodd llawer o dystion bryderon am ddatblygu teledu lleol. Pan fyddwn yn sôn am farchnadoedd, rhaid inni beidio ag anghofio bod yr orsaf deledu leol yn Birmingham, Alabama yn darparu ar gyfer tua 1.5 miliwn o bobl, tra byddai gan rai o'r gorsafoedd teledu lleol arfaethedig yng Nghymru gyfran o'r farchnad nad yw'n fwy na rhyw 22,000 o bobl, sy'n llai na'r gynulleidfa y gall llawer o'n papurau newydd lleol ei chyrraedd ar hyn o bryd, o gofio bod eu ffigurau gwerthiant dipyn yn is na hynny. Yn ogystal, gallai brand ansawdd y BBC gael ei lastwreiddio os ceir cytundeb i gyfnewid deunydd ac, yn hollbwysig, bydd arian cyhoeddus yn cael ei ddargyfeirio o'r BBC i orsafoedd teledu lleol. O gael y dewis rhwng adnoddau ychwanegol ar gyfer uned wleidyddol BBC Cymru i fyny'r grisiau neu orsafoedd teledu lleol sy'n sôn am straeon ysgafn, rwyf yn credu y byddai llawer o Aelodau'r Cynulliad yn dewis cael mwy o sylw i wleidyddiaeth. Ceir problem hefyd ynghylch sut y byddent yn cael eu staffio, os mynnwch. Os bydd prifysgolion yn gwneud cais am orsafoedd teledu lleol, ceir perygl mawr y byddant yn manteisio ar fyfyrwyr prifysgol, gan honni eu bod yn darparu profiad gwaith neu hyfforddiant iddynt.

Andrew R.T. Davies: I am grateful to the Member for taking an intervention. He paints a doomsday scenario for local tv. Would it not also create a great opportunity for many journalism students who do not have the opportunity at the moment to practise in their chosen profession?

Andrew R.T. Davies: Rwyf yn ddiolchgar i'r Aelod am dderbyn ymyriad. Mae'n creu darlun tywyll iawn o deledu lleol. Oni fyddai hefyd yn creu cyfle gwych i lawer o fyfyrwyr newyddiaduraeth nad ydynt yn cael cyfle ar hyn o bryd i ymarfer yn y proffesiwn y maent wedi ei ddewis?

Kenneth Skates: Many of them actually already spend time on work experience within the existing newspaper, television and radio industries. The crucial thing is that if local tv stations carry information that challenges local papers and radio stations, which I think are most at risk from local tv, that could inadvertently be putting excellent journalists out of work by having free employment through work experience placements. That is a real danger.

Kenneth Skates: Mae llawer ohonynt eisoes yn treulio amser ar brofiad gwaith yn y diwydiannau papurau newydd, teledu a radio sy'n bodoli'n barod. Y peth hollbwysig yw, os bydd gorsafoedd teledu lleol yn darlledu gwybodaeth sy'n herio papurau newydd a gorsafoedd radio lleol, a chredaf mai'r rheini sy'n wynebu'r perygl mwyaf o du teledu lleol, gallai hynny arwain drwy amryfusedd at wneud newyddiadurwyr rhagorol yn ddi-waith oherwydd bod gwaith yn cael ei wneud yn rhad ac am ddim gan bobl sydd ar brofiad gwaith. Mae perygl go iawn i hynny ddigwydd.

I thank the Minister for his warm welcome of the report and the Government's support for our recommendations. Yes, there has been strong cross-party support and consensus on this matter, which I welcome. We have, possibly understandably, spent a large proportion of the first decade of devolution concerned with the structures of our new institutions, the National Assembly and the Welsh Government, rather than thinking about the fragile, organic communities and nation in which these bodies exist. During the past 10 years, we have spent plenty of time debating the powers, make-up and accountability of our new democracy, but we have perhaps put too little a focus on the elements needed around the shell of political devolution to make it work really effectively.

Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am groesawu'r adroddiad yn wresog ac am gefnogaeth y Llywodraeth i'n hargymhellion. Do, cafwyd cefnogaeth drawsbleidiol gref i'r mater hwn a chonsensws yn ei gylch, a chroesawaf hynny. Rydym wedi treulio rhan helaeth o ddegawd cyntaf datganoli yn ymwneud â strwythurau ein sefydliadau newydd, y Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru, yn hytrach na meddwl am y genedl a'r cymunedau organaidd a bregus y mae'r cyrff hyn yn bodoli ynddynt, a hwyrach bod hynny'n ddealladwy. Yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, rydym wedi treulio digon o amser yn trafod pwerau, cyfansoddiad ac atebolrwydd ein democratiaeth newydd, ond efallai nad ydym wedi canolbwyntio ddigon ar yr elfennau y mae eu hangen o amgylch cragen datganoli gwleidyddol i wneud iddo weithio'n wirioneddol effeithiol.

Our report and the light that we wanted to shine on this important area is our attempt to start a debate. This building, our work here every week, and the policies that we put forward to make the lives of the people of Wales better will come to little if a strong civil society, with the robust fourth estate and vibrant political debate needed to make political devolution work, does not grow to scrutinise its operations. For that to be achieved, we need greater participation in our political process, in which the media plays one of the most significant and strategically important roles.

Ein hadroddiad a'r sylw yr oeddem am ei roi i'r maes pwysig hwn yw ein hymgais i ddechrau trafodaeth. Ni ddaw fawr ddim o'r adeilad hwn, ein gwaith yn y fan hon o'r naill wythnos i'r llall, na'r polisïau yr ydym yn eu cyflwyno i wella bywydau pobl yng Nghymru, os na fydd cymdeithas sifil gref, gyda'r cyfryngau cadarn a'r drafodaeth wleidyddol fywiog y mae eu hangen i wneud i ddatganoli gwleidyddol weithio, yn tyfu i graffu ar ei weithrediadau. Er mwyn cyflawni hynny, mae arnom angen mwy o gyfranogiad yn ein proses wleidyddol, lle y mae'r cyfryngau yn chwarae un o'r rolau mwyaf arwyddocaol a phwysig o safbwynt strategol.

The lack of plurality in our media in Wales

Mae diffyg lluosogrwydd yn ein cyfryngau

and the paucity of vehicles to carry carefully considered alternative views is one of the real structural deficits of devolution, and it is a shortcoming that we must address. The greatest threat to devolution and to democracy itself comes from the risk of insulating ourselves and this place, as some would have us do, from the robust scrutiny, both internal and external, needed to tackle the problems in the Welsh economy, in our public services and in wider Welsh society. The biggest risk in a small nation is the formation of a cosy consensus or a lack of transparency within our politics that somehow leads to an intolerance of opinions that do not reflect the actions of the political establishment. We need to support media providers, including the print media in private ownership. The vacuum that would be left by the demise of the traditional media, particularly newsprint and their online equivalents, would leave political debate and scrutiny isolated to this building and council chambers. Devolution will not work without it. The lack of independence and plurality in our media is a concern for everyone, and that is why I commend this report to the Assembly.

yng Nghymru, a phrinder cyfryngau i gyfleu safbwyntiau amgen a ystyriwyd yn ofalus, yn un o ddiffygion strwythurol go iawn datganoli, ac mae'n ddiffyg y mae'n rhaid inni fynd i'r afael ag ef. Daw'r bygythiad mwyaf i ddatganoli a democratiaeth ei hun o'r perygl y byddwn yn ein hynysu ein hunain a'r lle hwn, fel y byddai rhai yn dymuno inni wneud, rhag y gwaith craffu cadarn, mewnol ac allanol, y mae ei angen i fynd i'r afael â'r problemau yn economi Cymru, yn ein gwasanaethau cyhoeddus ac yn y gymdeithas ehangach yng Nghymru. Y perygl mwyaf mewn gwlad fach yw ffurfio consensws cysurus neu ddiffyg tryloywder yn ein gwleidyddiaeth, sy'n arwain rywsut at fethu â goddef safbwyntiau nad ydynt yn adlewyrchu gweithredoedd y sefydliad gwleidyddol. Mae angen inni gefnogi darparwyr ym maes y cyfryngau, gan gynnwys y cyfryngau print sydd dan berchnogaeth breifat. Byddai'r bwlch a fyddai'n cael ei adael gan ddiflaniad y cyfryngau traddodiadol, yn enwedig papurau newydd a'r hyn sy'n cyfateb iddynt ar-lein, yn golygu mai dim ond yn yr adeilad hwn ac mewn siambrau cynghorau y byddai trafodaeth wleidyddol a gwaith craffu yn digwydd. Ni fydd datganoli yn gweithio hebddynt. Mae diffyg annibyniaeth a lluosogrwydd yn ein cyfryngau yn bryder i bawb, a dyna pam yr wyf yn cymeradwyo'r adroddiad hwn i'r Cynulliad.

Y Dirprwy Lywydd: Y cwestiwn yw a ddylid nodi adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36, felly, datganaf fod yr adroddiad wedi'i nodi.

The Deputy Presiding Officer: The question is that the report of the Communities, Equality and Local Government Committee be noted. Are there any objections? I see that there are none. In accordance with Standing Order No. 12.36, therefore, I declare the report noted.

Derbyniwyd y cynnig.

Motion agreed.

Adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes: Dylanwadu ar y Broses o Foderneiddio Polisi Caffael Ewrop
The Enterprise and Business Committee's Report: Influencing the Modernisation of EU Procurement Policy

Cynnig NDM5042 Nick Ramsay

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi Adroddiad y Pwyllgor Menter a

Motion NDM5042 Nick Ramsay

The National Assembly for Wales:

Notes the Report of the Enterprise and

Busnes: Dylanwadu ar y broses o Foderneiddio Polisi Caffael yr Undeb Ewropeaidd, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mai 2012.

Julie James: I move the motion.

I was pleased to chair this task and finish group of the Enterprise and Business Committee, and I am grateful to all those who contributed to its work. Some people believe that public procurement is a dry topic and consign it to the back office, but in fact it is a vitally important driver for economic growth and employment. As one witness said, it deserves to come out of the back room and into the boardroom. I hope to persuade Assembly Members of that fact today.

The European Commission's proposals to reform public procurement policy are a welcome opportunity to seek to influence reform in this direction. Part 1 of our report highlights issues to be taken into account during the ongoing negotiations in Brussels for the reform of the public procurement directive. We support the Welsh Government's view that simplification measures proposed by the European Commission, such as reductions in documentation requirements, would be helpful to the high proportion of small and medium-sized businesses in Wales that are trying to access the market. However, we expressed concerns that other aspects of the proposals seem to run counter to these simplification measures, such as the removal of the distinction between part A and part B services, which make more services subject to the full force of the directive.

The committee was particularly concerned about the proposal to establish a single national oversight body for procurement in each member state. The Constitutional and Legislative Affairs Committee, ably chaired by the Deputy Presiding Officer, shared our concerns that this could constitute a breach of the subsidiarity principle. The matter was referred to the UK Houses of Parliament, which in turn issued a reasoned opinion to the European Commission to challenge the

Business Committee: Influencing the Modernisation of EU Procurement Policy which was laid in the Table Office on 14 May 2012.

Julie James: Cynigiaf y cynnig.

Roeddwn yn falch o gael cadeirio'r grŵp gorchwyl a gorffen hwn sy'n rhan o'r Pwyllgor Menter a Busnes, ac rwyf yn ddiolchgar i bawb a gyfrannodd at ei waith. Mae rhai pobl o'r farn bod caffael cyhoeddus yn bwnc sych ac yn ei fwrw i'r swyddfa gefn, ond mewn gwirionedd mae'n sbardun hanfodol bwysig ar gyfer twf economaidd a chyflogaeth. Fel y dywedodd un tyst, mae'n haeddu dod allan o'r ystafell gefn ac i mewn i'r ystafell bwrdd. Rwyf yn gobeithio darbwyllo Aelodau'r Cynulliad o'r ffaith honno heddiw.

Mae cynigion y Comisiwn Ewropeaidd i ddiwygio polisi caffael cyhoeddus yn gyfle i'w groesawu, i geisio dylanwadu ar waith diwygio yn y cyswllt hwn. Mae Rhan 1 o'n hadroddiad yn tynnu sylw at faterion i'w hystyried yn ystod y trafodaethau parhaus ym Mrwsel ar ddiwygio'r gyfarwyddeb caffael cyhoeddus. Rydym yn cefnogi barn Llywodraeth Cymru, sef y byddai mesurau symleiddio a gynigiwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd, megis lleihau'r gofynion o ran cyflwyno dogfennau, o gymorth i'r gyfran uchel o fusnesau bach a chanolig eu maint yng Nghymru sy'n ceisio cael mynediad i'r farchnad. Fodd bynnag, rydym wedi mynegi pryderon bod agweddau eraill ar y cynigion fel pe baent yn mynd yn groes i'r mesurau symleiddio hyn, megis cael gwared ar y gwahaniaeth rhwng gwasanaethau rhan A a rhan B, sy'n golygu y bydd rhagor o wasanaethau'n agored i holl rym y gyfarwyddeb.

Roedd y pwyllgor yn pryderu'r arbennig am y cynnig i sefydlu un corff trosolwg cenedlaethol ar gyfer caffael ym mhob aelod-wladwriaeth. Fel ninnau, roedd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, a gaiff ei gadeirio'n fedrus gan y Dirprwy Lywydd, yn pryderu y gallai hyn arwain at dorri egwyddor sybsidiaredd. Cafodd y mater ei gyfeirio at Senedd y Deyrnas Unedig, a aeth ati i gyflwyno barn resymegol i'r Comisiwn Ewropeaidd i herio'r cynnig.

proposal. This is the first time that the Assembly has used the early warning mechanism established under the Lisbon treaty to raise concerns about any EC proposal that breaches subsidiarity. I am pleased to say that, following this, others have also raised this as a subsidiarity concern.

Dyma'r tro cyntaf i'r Cynulliad ddefnyddio'r system rhybudd cynnar a sefydlwyd dan gytuniad Lisbon i fynegi pryderon am unrhyw gynnig gan y Comisiwn Ewropeaidd sy'n torri egwyddor sybsidiaredd. Rwyf yn falch o ddweud, yn dilyn hynny, bod rhai eraill hefyd wedi mynegi pryder ynghylch sybsidiaredd yn y cyswllt hwn.

Another major concern is the weight of anecdotal evidence on the potential for the European remedies directive to impact negatively on the procurement sector as more unsuccessful contractors use it to challenge procurement decisions, increasing risk aversion and acting as a barrier to innovative procurement practice. Efforts by the Welsh Government to gather a body of evidence from Welsh public bodies about the impact of the remedies directive are therefore very much welcomed. The draft directives are subject to the co-decision procedure, and it is worth noting that the rapporteur of the European Parliament's internal market committee has identified areas for further examination, including the strategic use of procurement to support social and environmental sustainability principles, the clarification of measures to help SME access, and reviewing and clarifying aspects of e-procurement. Our committee has made its views known on these issues, which closely match our own concerns, and we continue to take a strong interest in how European negotiations develop in advance of the European Parliament's First Reading of the legislative proposals, expected in December.

Pryder mawr arall yw'r holl dystiolaeth anecdotaidd am y potensial i'r gyfarwyddeb unioni cam Ewropeaidd gael effaith negyddol ar y sector caffael wrth i fwy o gontractwyr aflwyddiannus ei defnyddio i herio penderfyniadau caffael, gan gynyddu'r amharodrwydd i gymryd risg a gweithredu fel rhwystr i arferion caffael arloesol. Mae ymdrechion Llywodraeth Cymru i gasglu corff o dystiolaeth gan gyrff cyhoeddus Cymru am effaith y gyfarwyddeb unioni cam i'w croesawu'n fawr felly. Mae'r weithdrefn gydbenderfynu yn berthnasol i'r cyfarwyddebau drafft, ac mae'n werth nodi bod rapporteur pwyllgor marchnad fewnol Senedd Ewrop wedi nodi meysydd i'w harchwilio ymhellach, gan gynnwys defnyddio caffael mewn modd strategol i gefnogi egwyddorion cynaliadwyedd cymdeithasol ac amgylcheddol, egluro mesurau i helpu busnesau bach a chanolig eu maint gael mynediad i'r farchnad, ac adolygu ac egluro agweddau ar e-gaffael. Mae ein pwyllgor wedi mynegi ei farn ar y materion hyn, sy'n cyfateb yn agos i'n pryderon ni, ac rydym yn parhau i gymryd diddordeb mawr yn y modd y mae trafodaethau Ewropeaidd yn datblygu cyn Darlleniad Cyntaf Senedd Ewrop o'r cynigion deddfwriaethol, a ddisgwylir ym mis Rhagfyr.

Part 2 of the committee's report details wider issues for the Welsh procurement sector, making 11 recommendations about addressing the barriers to progressive and innovative procurement policy and practice in Wales. The committee wanted to identify ways in which Welsh companies could maximise their ability to meet the challenges of the EU procurement rules, both here and in Europe. From the evidence given to us, it became clear that, although the modernisation and simplification of the rules is certainly to be welcomed, there are also fundamental issues with the way in which the current rules are applied.

Mae rhan 2 o adroddiad y pwyllgor yn manylu ar y materion ehangach ar gyfer sector caffael Cymru, gan wneud 11 o argymhellion ynghylch mynd i'r afael â'r rhwystrau i bolisi ac arferion caffael blaengar ac arloesol yng Nghymru. Roedd y pwyllgor am nodi ffyrdd y gallai cwmnïau o Gymru wneud y gorau o'u gallu i ateb heriau rheolau caffael yr UE, yma ac yn Ewrop. O'r dystiolaeth a roddwyd inni, daeth yn amlwg, er bod gwaith moderneiddio a symleiddio'r rheolau yn sicr i'w groesawu, bod yna hefyd broblemau sylfaenol â'r modd y caiff y rheolau presennol eu gweithredu.

Three key things were identified as being necessary for effective and progressive public procurement. Those are creativity, competency, and capacity. Weaknesses in those three areas are preventing Wales from fully realising the potential of a fit-for-purpose modern procurement strategy for its economy. Procurement can seem a complex area and the tendency towards risk aversion is understandable. However, there seems to be an increased level of risk aversion in the UK and in Wales, and that must be addressed. Therefore, we call on the Government to provide strong guidance on achieving the important balance between risk management and creativity in public procurement.

Nodwyd bod tri pheth allweddol yn angenrheidiol ar gyfer prosesau caffael cyhoeddus effeithiol a blaengar, sef creadigrwydd, cymhwysedd, a chapasiti. Mae gwendidau yn y tri maes hynny'n rhwystro Cymru rhag gwireddu'n llawn potensial strategaeth gaffael fodern ac addas i'w diben ar gyfer ei heconomi. Gall caffael ymddangos yn faes cymhleth ac mae'r duedd i fod yn amharod i gymryd risg yn ddealladwy. Fodd bynnag, ymddengys fod mwy fyth o amharodrwydd i gymryd risg yn y DU ac yng Nghymru, a rhaid mynd i'r afael â hynny. Felly, rydym yn galw ar y Llywodraeth i ddarparu arweiniad cryf ar sicrhau'r cydbwysedd pwysig rhwng rheoli risg a chreadigrwydd ym maes caffael cyhoeddus.

Creativity must be allowed to flourish and not be stifled by a fear of breaching the rules. For this to happen, there must be sufficient competence in the procurement professions to understand and work with the rules in a creative, sustainable way, and there must be sufficient capacity in the sector to apply and share good practice.

Rhaid caniatáu i greadigrwydd ffynnu ac ni ddylai gael ei fygu gan ofn torri'r rheolau. Er mwyn i hyn ddigwydd, rhaid bod digon o gymhwysedd yn y proffesiynau caffael i ddeall y rheolau a gweithio gyda hwy mewn modd creadigol a chynaliadwy, a rhaid bod digon o gapasiti yn y sector i ddefnyddio a rhannu arfer da.

During the course of our inquiry, the Minister announced a review of ways to maximise the impact of Welsh Government procurement policy, led by John McClelland. The committee asked for a number of its recommendations to be taken into account in that review, and I note that the Minister's response accepts all the committee's recommendations and recognises a certain amount of synergy with John McClelland's findings. I was very pleased to be given a copy of the executive summary of that report this morning, which very closely mirrors the concerns of the committee. In fact, there is an amazing amount of synergy, and I hope that the Government will take notice of that.

Yn ystod ein hymchwiliad, cyhoeddodd y Gweinidog adolygiad dan arweiniad John McClelland a fyddai'n ystyried ffyrdd o sicrhau bod polisi caffael Llywodraeth Cymru yn cael yr effaith fwyaf posibl. Gofynnodd y pwyllgor am i nifer o'i argymhellion gael eu hystyried yn yr adolygiad hwnnw, a nodaf fod ymateb y Gweinidog yn derbyn pob un o argymhellion y pwyllgor ac yn cydnabod bod rhywfaint o synergedd â chanfyddiadau John McClelland. Roeddwn yn falch iawn o gael copi o grynodeb gweithredol yr adroddiad hwnnw y bore yma, sy'n adlewyrchu pryderon y pwyllgor yn agos iawn. Yn wir, ceir lefel anhygoel o synergedd, a gobeithiaf y bydd y Llywodraeth yn cymryd sylw o hynny.

The committee called, for example, for strategic leadership from both Governments to raise the status of procurement as a profession, given what it can achieve. We received strong evidence from other parts of the UK that, where leaders have a shared vision and commitment to creative public procurement, it can reap real economic and social benefits. I very much welcome the

Galwodd y pwyllgor, er enghraifft, am arweiniad strategol gan y ddwy Lywodraeth i godi statws caffael fel proffesiwn, o ystyried yr hyn y gall ei gyflawni. Cawsom dystiolaeth gref o rannau eraill o'r DU a oedd yn dangos, os oes gan arweinwyr weledigaeth ac ymrwymiad a rennir yng nghyswllt caffael cyhoeddus creadigol, gall esgor ar fanteision economaidd a chymdeithasol go iawn. Rwyf

Minister's undertaking to work with the Minister for Local Government and Communities to ensure that advances in public procurement practice are driven through the local government compact for change.

yn croesawu'n fawr iawn ymrwymiad y Gweinidog i weithio gyda'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau i sicrhau bod datblygiadau mewn arferion caffael cyhoeddus yn cael eu symud yn eu blaen drwy'r compact llywodraeth leol ar gyfer newid.

There is excellent practice in Wales, as was swiftly recognised by many in the procurement sector. However, sadly, it is by no means universal. With that in mind, we ask that the model for planning policy in Wales be considered as an example that could be adapted to the procurement sector. The Minister's commitment to publishing a procurement policy statement to give clear direction to public sector contracting authorities is an important and welcome step in this direction.

Ceir arfer rhagorol yng Nghymru, a chafodd hynny ei gydnabod yn barod iawn gan lawer yn y sector caffael. Fodd bynnag, yn anffodus, nid yw'n gyson ym mhobman o bell ffordd. Gyda hynny mewn cof, rydym yn gofyn am i'r model ar gyfer polisi cynllunio yng Nghymru gael ei ystyried yn enghraifft y gellid ei haddasu ar gyfer y sector caffael. Mae ymrwymiad y Gweinidog i gyhoeddi datganiad polisi caffael i roi cyfarwyddyd clir i awdurdodau contractio'r sector cyhoeddus yn gam pwysig i'r cyfeiriad hwn ac yn gam sydd i'w groesawu.

That leads neatly on to the big question of whether Value Wales has the necessary teeth to enforce the sea change in Welsh procurement policy and practice that we really want to see. We were told repeatedly that good practice is a bad traveller in Wales. We are concerned that, if public sector contracting authorities continue to fail to heed the advice and clear direction given to them by the Welsh Government, there are currently no real tools available to enforce good practice. I welcome the Minister's undertaking to take the necessary enforcement steps and remain optimistic about further developments in this area arising from the McClelland review, which makes similar points.

Mae hynny'n arwain yn daclus at y cwestiwn mawr, sef a oes gan Gwerth Cymru y grym angenrheidiol i orfodi'r newid mawr ym mholisi ac arferion caffael Cymru yr ydym wir am ei weld. Dywedwyd wrthym dro ar ôl tro nad yw arfer da yn ymledu'n hawdd yng Nghymru. Os yw awdurdodau contractio'r sector cyhoeddus yn parhau i fethu ag ystyried y cyngor a'r cyfarwyddyd clir a roddir iddynt gan Lywodraeth Cymru, rydym yn pryderu nad oes gennym, ar hyn o bryd, adnoddau go iawn i orfodi arfer da. Rwyf yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i gymryd y camau gorfodi priodol ac yn parhau'n obeithiol am ddatblygiadau pellach yn y maes hwn yn deillio o adolygiad McClelland, sy'n gwneud pwyntiau tebyg.

We also wish to address apparent procurement skills gaps across the public sector. I hope that the procurement fitness health checks recommended by John McClelland will indeed provide a clearer picture of the level and capability of the procurement resource available across Wales, and help to target investment and effort appropriately within the two years for which the Home Grown Talent funding is available. The Minister says that this funding provides a good foundation, and I hope that it will be possible to build on that foundation beyond the two-year funding window.

Rydym hefyd yn dymuno mynd i'r afael â bylchau amlwg mewn sgiliau caffael ar draws y sector cyhoeddus. Rwyf yn gobeithio y bydd y gwiriadau ffitrwydd caffael a argymhellir gan John McClelland yn wir yn rhoi darlun cliriach o lefel a gallu'r adnodd caffael sydd ar gael ledled Cymru, ac yn helpu i dargedu buddsoddiad ac ymdrech yn briodol yn ystod y ddwy flynedd y mae cyllid Doniau Cymru ar gael. Mae'r Gweinidog yn dweud bod y cyllid hwn yn darparu sylfaen dda, a gobeithiaf y bydd yn bosibl adeiladu ar y sylfaen honno y tu hwnt i'r ffenestr gyllido o ddwy flynedd.

Public procurement spend can have a dramatic effect on local economies, and we have concerns about the availability of accurate data on the true scale of the local benefits arising from procurement contracts won by businesses registered at a Welsh address. I note the Minister's response that there are financial implications to the collation and analysis of these data, but I welcome her commitment to continue to explore options for collecting them.

Gall gwariant caffael cyhoeddus gael effaith ddramatig ar economïau lleol, ac rydym yn pryderu nad oes digon o ddata cywir ar gael ynghylch gwir faint y manteision lleol sy'n deillio o gontractau caffael a gaiff eu hennill gan fusnesau sydd wedi'u cofrestru yng Nghymru. Nodaf ymateb y Gweinidog, sef bod goblygiadau ariannol ynghlwm wrth gasglu a dadansoddi'r data hwn, ond rwyf yn croesawu ei hymrwymiad i barhau i archwilio opsiynau ar gyfer ei gasglu.

We also found that more needs to be done to improve dialogue and understanding between businesses and public sector contracting authorities, including through pre-procurement dialogue. This is vital to ensure that contracting authorities know their market and can act as intelligent clients who do not inadvertently exclude smaller businesses from bidding. In their laudable efforts to achieve efficiencies and manage limited resources, it remains essential that contracting authorities work in ways that do not exclude small and medium-sized enterprises from bidding, for example through the ineffective use of framework contracts or the over-aggregation of supplies. In setting up procurement, contracting authorities must take a greater interest in local supply chains. The Minister's outlines measures aimed at addressing that, including the Open for Business events, which I was very pleased to attend, and the one-stop supplier advice service, which we warmly welcome.

Gwelsom hefyd fod angen gwneud mwy i wella trafodaeth a dealltwriaeth rhwng busnesau ac awdurdodau contractio'r sector cyhoeddus, gan gynnwys trafodaeth cyn caffael. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod awdurdodau contractio yn adnabod eu marchnad ac yn gallu gweithredu fel cleientiaid deallus nad ydynt yn anfwriadol yn eithrio busnesau llai rhag cynnig am waith. Yn eu hymdrechion canmoladwy i sicrhau arbedion effeithlonrwydd a rheoli adnoddau cyfyngedig, mae'n dal i fod yn hanfodol bod awdurdodau contractio yn gweithio mewn ffyrdd nad ydynt yn eithrio busnesau bach a chanolig eu maint rhag cynnig am waith, er enghraifft drwy ddefnydd aneffeithiol o gontractau fframwaith neu drwy gyfuno cyflenwadau ormod. Wrth sefydlu prosesau caffael, rhaid i awdurdodau contractio gymryd mwy o ddiddordeb mewn cadwyni cyflenwi lleol. Mae'r Gweinidog wedi amlinellu mesurau sy'n ceisio mynd i'r afael â hynny, gan gynnwys digwyddiadau Ar Agor am Fusnes, yr oeddwn yn falch iawn o fod yn bresennol ynddynt, a'r gwasanaeth cyngor cynhwysfawr i gyflenwyr, yr ydym yn ei groesawu'n gynnes.

There can be real benefits to collaboration if it is done in the right way, and the outcome of the Government's consultation on introducing a national procurement service for common and repetitive spend in Wales will be of great interest to the committee. Other recommendations seek to prioritise the standardisation of procurement rules across the public sector and reflect concern about the full and timely implementation of e-procurement measures in Wales. The Minister's response states that this work is under way. The consistent use of e-procurement practices is very important, and

Gall cydweithio esgor ar fanteision go iawn os caiff ei wneud yn y ffordd iawn, a bydd canlyniad ymgynghoriad y Llywodraeth ar gyflwyno gwasanaeth caffael cenedlaethol ar gyfer gwariant cyffredin ac ailadroddus yng Nghymru o ddiddordeb mawr i'r pwyllgor. Mae argymhellion eraill yn ceisio rhoi blaenoriaeth i safoni rheolau caffael ar draws y sector cyhoeddus ac yn adlewyrchu pryder am weithredu mesurau e-gaffael yng Nghymru mewn modd cyflawn ac amserol. Mae ymateb y Gweinidog yn nodi bod y gwaith hwn yn mynd rhagddo. Mae'r defnydd cyson o arferion e-gaffael yn bwysig

so the sooner this work is completed, the better.

iawn, ac felly gorau po gyntaf y caiff y gwaith hwn ei gwblhau.

4.30 p.m.

Finally, the committee asks that the Government prioritise measures to increase awareness of its excellent community benefits policy. That is an important policy tool to embed social and environmental clauses into public sector contracts. Research by Professor Kevin Morgan of Cardiff University looking at food procurement in Italy and the UK shows that creative use of social clauses has the potential to deliver wide economic, environmental and social benefits, while not increasing spend from the public purse by one iota. There are significant examples of social clauses being applied in Wales through the Government's community benefits policy, but its scope and benefits need to be properly understood by all public sector contracting authorities, and applied across Wales. I therefore welcome the setting up of the community benefits task group to prioritise this work in Welsh local authorities, but it needs to go wider than that. The strong message from the construction sector was that community benefits must be a tangible and lasting legacy of skills, training, apprenticeships and jobs. In future infrastructure spending—and I am absolutely delighted to point out that this now includes rail electrification all the way to Swansea—the opportunity to secure this legacy should not be lost.

Yn olaf, mae'r pwyllgor yn gofyn i'r Llywodraeth roi blaenoriaeth i fesurau i godi ymwybyddiaeth o'i pholisi manteision cymunedol ardderchog. Mae hwnnw'n adnodd polisi pwysig ar gyfer gwneud cymalau cymdeithasol ac amgylcheddol yn rhan annatod o gontractau'r sector cyhoeddus. Mae ymchwil gan yr Athro Kevin Morgan o Brifysgol Caerdydd i gaffael bwyd yn yr Eidal a'r Deyrnas Unedig yn dangos bod defnyddio cymalau cymdeithasol mewn modd creadigol yn gallu sicrhau manteision economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol eang, heb gynyddu gwariant o bwrs y wlad yr un mymryn. Ceir enghreifftiau pwysig o ddefnyddio cymalau cymdeithasol yng Nghymru trwy bolisi manteision cymunedol y Llywodraeth, ond mae angen i rychwant a manteision y polisi hwnnw gael eu deall yn iawn gan holl awdurdodau contractio'r sector cyhoeddus, a'u defnyddio ledled Cymru. Felly, rwyf yn croesawu sefydlu'r grŵp gorchwyl manteision cymunedol i flaenoriaethu'r gwaith hwn ymysg awdurdodau lleol Cymru, ond mae angen iddo fynd yn ehangach na hynny. Y neges gref gan y sector adeiladu oedd bod yn rhaid i fanteision cymunedol adael gwaddol sylweddol a pharhaus o sgiliau, hyfforddiant, prentisiaethau a swyddi. Wrth wario ar seilwaith yn y dyfodol—ac rwyf yn falch iawn o nodi bod hyn bellach yn cynnwys trydaneiddio'r rheilffordd yr holl ffordd i Abertawe—ni ddylid colli'r cyfle i sicrhau'r gwaddol hwn.

Byron Davies: I also welcome this report; it was an interesting experience for me, and I am not afraid to admit that I learnt a great deal. I pay tribute to all that attended the meetings and contributed to the report. I also pay tribute to Julie James for driving this report through. As a member of the committee, I happily admit that the prospect of looking into the detail of influencing the modernisation of EU procurement policy left me with a sense of foreboding, but Julie James brought the subject to life as Chair of the sub-committee. Without her enthusiasm for procurement, we would not have 13

Byron Davies: Rwyf innau'n croesawu'r adroddiad hwn; roedd yn brofiad diddorol imi, ac nid oes arnaf ofn cyfaddef fy mod wedi dysgu llawer. Hoffwn roi teyrnged i bawb a fynychodd y cyfarfodydd ac a gyfrannodd at yr adroddiad. Rwyf hefyd yn rhoi teyrnged i Julie James am yrru'r adroddiad hwn yn ei flaen. Fel aelod o'r pwyllgor, rwyf yn barod iawn i gyfaddef bod y syniad o edrych ar fanylion dylanwadu ar y broses o foderneiddio polisi caffael yr UE wedi codi arswyd arnaf, ond daeth Julie James â'r pwnc yn fyw fel Cadeirydd yr is-bwyllgor. Heb ei brwdfrydedd dros gaffael,

recommendations before us, all of which have been accepted by the Welsh Government.

ni fyddai gennym 13 o argymhellion ger ein bron, y mae pob un ohonynt wedi cael eu derbyn gan Lywodraeth Cymru.

As a member of the committee, it became extremely clear to me—and I hope that all Members around the Chamber will realise this—that while this may be a dry issue, it has huge implications for service delivery in Wales. I am delighted that the Welsh Government shares the committee's determination to ensure that the maximum benefit is achieved for the economy of Wales through effective use of the £4.3 billion procurement expenditure. I hope and expect that our report and recommendations will enable the Minister to take the necessary enforcement steps to ensure that this happens.

Fel aelod o'r pwyllgor, daeth yn amlwg iawn imi—ac rwyf yn gobeithio y bydd pob Aelod o gwmpas y Siambr yn sylweddoli hyn—er bod hwn fod yn fater sych efallai, mae iddo oblygiadau mawr ar gyfer darparu gwasanaethau yng Nghymru. Rwyf wrth fy modd bod Llywodraeth Cymru, fel y pwyllgor, yn benderfynol o sicrhau bod y fantais fwyaf posibl yn cael ei sicrhau ar gyfer economi Cymru trwy wneud defnydd effeithiol o'r gwariant caffael, sy'n werth £43 miliwn. Rwyf yn gobeithio ac yn disgwyl y bydd ein hadroddiad a'r argymhellion yn galluogi'r Gweinidog i gymryd y camau gorfodi angenrheidiol i sicrhau bod hyn yn digwydd.

It is also worth noting the work that John McLelland has undertaken, and I hope that our report can help to focus some light on the key issues.

Mae'n werth nodi hefyd y gwaith y mae John McClelland wedi'i wneud, ac rwyf yn gobeithio y gall ein hadroddiad helpu i ganolbwyntio rhywfaint o sylw ar y materion allweddol.

I want to highlight the concerns of the third sector, an important sector that receives funding from a wide range of sources including public and corporate giving, grant-making trusts, trading and a large proportion—around 45% of its total income—from public bodies, a key partner in this exercise. Many of the key issues are eloquently expressed by the Welsh Council for Voluntary Action, and I encourage all Members to read the briefing note provided by it.

Rwyf am dynnu sylw at bryderon y trydydd sector, sy'n sector pwysig sy'n cael cyllid o ystod eang o ffynonellau gan gynnwys cyfraniadau gan y cyhoedd ac o ffynonellau corfforaethol, ymddiriedolaethau sy'n rhoi grantiau, gweithgareddau masnachu a chyfran fawr—tua 45% o gyfanswm ei incwm—o gyrff cyhoeddus, sy'n bartner allweddol yn yr ymarfer hwn. Mae llawer o'r materion allweddol yn cael eu mynegi'n huawdl gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, ac rwyf yn annog pob un o'r Aelodau i ddarllen y nodyn briffio a ddarparwyd ganddo.

I will finish with the key point for me, and one where we are only scraping the surface, which is that we need to ensure that the procurement process does not prevent voluntary sector organisations from participating. Procurement is time-consuming, costly and particularly bogged down in bureaucracy. I welcome the Welsh Government's approach to the report by accepting all 13 recommendations. I believe that we now need to focus on this theme and resolve any barriers over the coming months. So, I thank you again and I pay tribute to all

Rwyf am orffen gyda phwynt sy'n allweddol i mi, ac un lle'r ydym ond yn crafu'r wyneb, sef yr angen inni sicrhau nad yw'r broses gaffael yn atal mudiadau yn y sector gwirfoddol rhag cymryd rhan. Mae caffael yn cymryd amser, mae'n gostus ac mae'n cael ei lethu'n arbennig gan fiwrocratiaeth. Rwyf yn croesawu'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb i'r adroddiad drwy dderbyn pob un o'r 13 o argymhellion. Credaf fod angen inni ganolbwyntio ar y thema hon yn awr a goresgyn unrhyw rwystrau dros y misoedd nesaf. Felly, hoffwn ddiolch ichi eto a hoffwn

involved, particularly the Chair for leading on this subject.

roi teyrnged i bawb a fu'n rhan o'r gwaith, yn enwedig y Cadeirydd am arwain ar y pwnc hwn.

Mick Antoniw: I, too, welcome the report, because it is most timely. If it comes to fruition, it has the opportunity to direct us in the area of job creation and the securing of Welsh employment. For too long, the issue of procurement has been something that we have feared rather than embraced and we have not seen the opportunities that potentially arise from it. As those of us who are familiar with this area will know, this has led to excessive risk aversion.

Mick Antoniw: Rwyf innau'n croesawu'r adroddiad, gan ei fod yn amserol iawn. Os bydd yn dwyn ffrwyth, mae'n cynnig cyfle i'n harwain ym maes creu swyddi a sicrhau cyflogaeth yng Nghymru. Am gyfnod rhy hir, mae caffael wedi bod yn rhywbeth yr ydym wedi'i ofni yn hytrach na'i groesawu ac nid ydym wedi gweld y cyfleoedd sy'n gallu deillio ohono. Fel y bydd y rheini ohonom sy'n gyfarwydd â'r maes hwn yn gwybod, mae hyn wedi arwain at ormod o amharodrwydd i gymryd risg.

I would like to comment on some of the opportunities that we have missed in the past, but which exist now. Remploy is perhaps a good example. It has been excluded, because of its support for workers with disability, from some of the requirements of the procurement regulations. Nevertheless, procurement per se is something that could still give considerable support to Remploy workers such as those in Porth. For example, it was noticeable that few local authorities take advantage of the data cleansing work that is done in Porth; in fact, the only local authority that has a contract with Remploy is Rhondda Cynon Taf County Borough Council. The Welsh Government has a contract with it, but there are many public sector bodies that do not currently direct their work towards, for example, supporting disabled workers in Remploy in Porth. This is something we need to look at, because I think that there is a considerable amount of procurement work that would allow the Porth factory not only to survive successfully, but expand, increasing opportunities in line with the whole ethos of Remploy.

Hoffwn ddweud ychydig am rai o'r cyfleoedd yr ydym wedi eu colli yn y gorffennol, ond sy'n bodoli yn awr. Mae Remploy, o bosibl, yn enghraifft dda. Mae ei gefnogaeth i weithwyr ag anabledd yn golygu ei fod wedi'i eithrio o rai o ofynion y rheoliadau caffael. Serch hynny, mae caffael ynddo'i hun yn rhywbeth a allai roi cefnogaeth sylweddol i weithwyr Remploy o hyd fel y rhai yn y Porth. Er enghraifft, roedd yn amlwg mai ychydig o awdurdodau lleol sy'n manteisio ar y gwaith glanhau data sy'n cael ei wneud yn y Porth; yn wir, yr unig awdurdod lleol sydd â chontract â Remploy yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Mae gan Lywodraeth Cymru gontract ag ef, ond ceir llawer o gyrff yn y sector cyhoeddus nad ydynt ar hyn o bryd yn cyfeirio eu gwaith tuag at gefnogi gweithwyr anabl yn Remploy yn y Porth, er enghraifft. Mae hyn yn rhywbeth y mae angen inni edrych arno, gan fy mod yn credu bod cryn dipyn o waith caffael a fyddai'n caniatáu i'r ffatri yn y Porth nid yn unig oroesi yn llwyddiannus, ond ehangu, gan gynyddu cyfleoedd yn unol ag holl ethos Remploy.

It is also interesting to look at some of the work going on in other parts of the country with regard to procurement, particularly, for example, with the Greater London Authority, which has a very positive approach. It has developed a very high skills base in respect of procurement. The report says:

Mae hefyd yn ddiddorol edrych ar rywfaint o'r gwaith sy'n digwydd mewn rhannau eraill o'r wlad o ran caffael, yn enwedig, er enghraifft, gydag Awdurdod Llundain Fwyaf, sydd â dull gweithredu cadarnhaol iawn. Mae wedi datblygu sylfaen sgiliau uchel iawn o ran caffael. Mae'r adroddiad yn dweud:

'The GLA Group spends in the order of £3 billion a year on procurement. The scale of this expenditure means that there is the

Mae Grŵp GLA yn gwario tua £3 biliwn y flwyddyn ar gaffael. Mae graddfa'r gwariant hwn yn golygu bod potensial iddo gael

potential for it to have a noticeable positive direct socio-economic and environmental impact, and for the GLA Group to influence wider procurement practice. The size of group procurement expenditure also creates economic opportunities'.

effaith economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol uniongyrchol, cadarnhaol ac amlwg, ac i Grŵp GLA ddylanwadu ar arferion caffael ehangach. Mae maint gwariant caffael y grŵp hefyd yn creu cyfleoedd economaidd.

It is also interesting to look at how it identifies the social benefits that arise from procurement. It refers to an improvement in working conditions, labour standards and health and safety, and states that it assists disadvantaged groups in society, improves wage rates for those on low pay—and, of course, it is quite active on the issue of the living wage policy, as is Cardiff Council, which, I have no doubt, is looking at procurement in the same way—and upskills the workforce.

Mae hefyd yn ddiddorol edrych ar sut y mae'n nodi'r manteision cymdeithasol sy'n deillio o gaffael. Mae'n cyfeirio at wella amodau gwaith, safonau llafur ac iechyd a diogelwch, ac yn nodi ei fod yn cynorthwyo grwpiau difreintiedig yn y gymdeithas, yn gwella cyfraddau cyflogau ar gyfer y rhai sydd ar incwm isel—ac, wrth gwrs, mae'n eithaf gweithgar ar fater polisi cyflog byw, yn yr un modd â Chyngor Caerdydd, sydd, mae'n siŵr gennyf, yn edrych ar gaffael yn yr un ffordd—ac yn uwchsgilio'r gweithlu.

There are three things that jump out at me from the report. The first is that the Welsh Government has to take very clear, strategic leadership on procurement. The second point is something that Julie James has already mentioned, and that is the importance of building up a real skills base in respect of procurement, understanding the way in which these contracts work and the way in which the regulations work. The third important point coming out of the report is that we should consider whether Value Wales should be given much stronger powers in order to review and have oversight of contracts to ensure that we are maximising the benefits from procurement.

Mae tri pheth sy'n tynnu fy sylw yn yr adroddiad. Y cyntaf yw bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru roi arweiniad clir a strategol iawn ar gaffael. Mae'r ail bwynt yn rhywbeth y mae Julie James wedi'i grybwyll eisoes, sef pwysigrwydd adeiladu sylfaen sgiliau go iawn o ran caffael, deall y ffordd y mae'r contractau hyn yn gweithio a'r ffordd y mae'r rheoliadau'n gweithio. Y trydydd pwynt pwysig sy'n dod o'r adroddiad yw y dylem ystyried a ddylid rhoi pwerau llawer cryfach i Gwerth Cymru er mwyn adolygu a goruchwylio contractau i sicrhau ein bod cael y manteision mwyaf posibl o gaffael.

A number of big opportunities face us in the coming years, one of which is going to be the railway electrification and the potential work from that. We have to ensure that, in developing a strong procurement policy, we obtain the benefits in terms of jobs as well as the social and equality benefits and that Wales does not lose out by not having as rigid and comprehensive a procurement policy as possible. I welcome the report very much.

Mae nifer o gyfleoedd mawr yn ein hwynebu yn y blynyddoedd nesaf, ac un ohonynt fydd trydaneiddio'r rheilffordd a'r gwaith posibl a ddaw o hynny. Rhaid inni sicrhau, wrth ddatblygu polisi caffael cryf, ein bod yn cael y manteision o ran swyddi yn ogystal â'r manteision cymdeithasol a'r manteision o ran cydraddoldeb ac nad yw Cymru ar ei cholled am nad oes ganddi bolisi caffael mor gadarn a chynhwysfawr ag sy'n bosibl. Rwyf yn croesawu'r adroddiad yn fawr iawn.

Alun Ffred Jones: Rwyf innau hefyd yn croesawu'r adroddiad, sydd yn annog rhai newidiadau y maes pwrcasu er budd y cyrff hynny sy'n gosod tendrau a chwmnïau sy'n cyflenwi gwasanaethau neu nwyddau o wahanol fathau. Un argymhelliad sydd angen

Alun Ffred Jones: I, too, welcome the report, which encourages certain changes in the field of procurement so that those tendering and the companies providing various goods and services can benefit. One recommendation that certainly needs to be

ei wireddu yn sicr yw argymhelliad 10, sy'n pwysleisio'r angen am wybodaeth a data sylfaenol er mwyn inni gael darlun cywir o bwy sy'n ennill cytundebau a gwerth y cytundebau hynny. Mae hynny'n hanfodol os ydym i gael darlun cywir o'r hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd.

implemented is recommendation 10, which emphasises the need for information and the fundamental data so that we can have an accurate picture of who gains contracts and of the value of those contracts. That is crucial if we are to have a full picture of what is currently happening.

O ran yr argymhellion pwysicaf yn fy marn i, mae argymhelliad 8 yn sôn am safoni rheolau caffael. Mae'n nonsens bod awdurdodau lleol yn defnyddio 22 o ffurflenni gwahanol ar gyfer proses yr holiadur cyn-gymhwyso, a hynny ar gyfer yr un fath o dendrau. Felly, mae cwmni sy'n ceisio gwaith gan wahanol awdurdodau lleol yn gorfod llenwi'r ffurflenni hyn a dechrau o'r dechrau bob tro. Mae hynny nid yn unig yn nonsens, ond yn ychwanegu at y llwyth gwaith ac, mae'n debyg, yn atal rhai cwmnïau rhag mynd am rai tendrau. Ar ôl cynifer o flynyddoedd, buasai rhywun yn disgwyl cael cysondeb a rheolau caffael safonol rhwng cyrff cyhoeddus. Mae argymhelliad 7 yn cyfeirio at wendid sylfaenol, sef diffyg adnoddau yn Value Wales. Awgrymodd Mick Antoniw fod efallai diffyg pwerau i ddylanwadu ar y maes ar draws Cymru, ac mae hynny yn sicr wedi cael ei gydnabod gan arbenigwyr dro ar ôl tro. Yn gysylltiedig â hyn, mae diffyg arbenigedd mewn unedau caffael cyrff cyhoeddus.

Turning to what I consider to be the most important recommendations, recommendation 8 refers to standardising procurement rules. It is a nonsense that local authorities use 22 different forms for the pre-qualification questionnaire process, particularly when they are for the same sorts of tenders. Therefore, a company seeking work from various local authorities must fill in these forms and start anew every time. Not only is that a nonsense, it adds to the burden by increasing workload and precludes companies from even attempting to secure certain tenders. After all these years, one would expect to have consistency and standardisation of procurement rules between public bodies. Recommendation 7 refers to a fundamental weakness, namely the lack of resources within Value Wales. Mick Antoniw suggested that there is a lack of power to influence this across Wales, and that has certainly been recognised by experts time and again. Linked to that, there is a lack of expertise in procurement units in public bodies.

Rwyf am fanteisio ar y cyfle hwn i gyfeirio at gwrs penodol ym Mhrifysgol Bangor sy'n canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau caffael. Fodd bynnag, rwy'n deall bod y galw am y cwrs hwnnw yn isel, felly mae'n ymddangos bod cyrff cyhoeddus Cymru yn meddwl eu bod yn gwneud y gwaith yn iawn er bod pob tystiolaeth bod llawer o le i wella.

I want to take this opportunity to refer to a specific course at Bangor University that concentrates on the development of procurement skills. However, I understand that demand for this course is low, therefore it would appear that public bodies in Wales think that they are doing the job perfectly well at the moment, despite the plentiful evidence of room for improvement.

Ni allwn sicrhau bod pob cwmni lleol yn ennill pob tendr. Ni fydd hynny'n digwydd ac, yn wir, buasai dileu cystadleuaeth yn y pen draw yn gostwng safonau ac yn rhoi gwerth gwael am arian i'r cyhoedd. Fodd bynnag, buaswn yn mynd ymhellach na'r adroddiad ac yn galw am i bob cytundeb yn y maes cyhoeddus sydd dros £25,000 gael ei hysbysebu ar gyfer tendro. Buasai hyn yn sicrhau'r gwerth gorau, ond buasai'n rhaid i'r broses fod yn agored ac yn weddol syml.

We cannot ensure that every local company secures every tender. That is not going to happen, and, indeed, removing competition would ultimately lead to a decline in standards and provide poor value for money for the public. However, I would go further than the report and call for all public sector contracts over £25,000 to be put out to tender. This would ensure the best value for money, but the process would have to be open and relatively simple. A list of these

Dylai rhestr o'r tendrau hyn gael ei chyhoeddi gan bob corff cyhoeddus mewn da bryd, hynny yw, tua chwe mis i flwyddyn ymlaen llaw, fel bod cwmnïau yn gallu paratoi eu hunain ar gyfer y broses dendro honno. Nid oes cyfeiriad at hyn yn yr adroddiad, ond dylid dileu'r arfer ffôl o gael cytundebau fframwaith sy'n cau cwmnïau allan rhag cystadlu am flynyddoedd ar y tro. Buasai hynny yn rhoi cyfle gwell i gwmnïau lleol.

tenders should be published by all public bodies in good time, which I would say is six months to a year in advance, so that companies can prepare themselves for the tender process. The report does not refer to this, but the silly practice of using framework contracts that precludes companies from competing for years at a time should be stopped. This would give local companies greater opportunity.

Yn olaf, mae angen ystyried mater arall, sef newid y drefn dendro yn achos tendrau llai drwy osod y tendr heb broses yr holiadur cyn-gymhwyso a gorfodi'r rhai llwyddiannus i lenwi'r holiadur wedyn. Buasai hyn yn agor y maes allan i gwmnïau llai gan sicrhau buddiannau'r cyhoedd. Felly, mae nifer o gamau y mae angen eu cymryd yn y tymor byr a'r tymor canolig er mwyn cael y gwerth gorau ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru a sicrhau bod mwy o gwmnïau lleol yn cael chwarae teg yn y broses.

Finally, we need to consider another issue, which is that the tender process for smaller contracts should be changed through requiring only the successful companies to complete the prequalification questionnaire. This would open things up to smaller companies and safeguard the interests of the public. Therefore, there are a number of steps that need to be taken in the short and medium terms in order to secure best value for the public in Wales and to ensure that local companies are fairly treated in this process.

David Rees: As a member of the task and finish group, I, too, congratulate its Chair, the Member for Swansea West, Julie James, and other members for their work on such an important area for Wales. I also thank the clerking team and the team in Brussels for their invaluable help, as we looked at the EU directives on procurement and the impact that they would have in Wales. As a newcomer to this field, I can assure Members that gaining an understanding of procurement rules and directives is a daunting task, but I believe that we managed to put out a strong report as a result of the support that was provided. I am pleased that the Welsh Government has accepted all 13 recommendations in the report. I look forward to the publication of the procurement policy statement for Wales later this year, which builds upon our report and the McClelland report.

David Rees: Fel aelod o'r grŵp gorchwyl a gorffen, rwyf innau'n llongyfarch ei Gadeirydd, yr Aelod dros Orllewin Abertawe, Julie James, a'r aelodau eraill am eu gwaith ar faes sydd mor bwysig i Gymru. Diolch hefyd i'r tîm clercio a'r tîm ym Mrwsel am eu cymorth amhrisiadwy, wrth inni edrych ar gyfarwyddebau'r UE ar gaffael a'r effaith y byddent yn ei chael yng Nghymru. Fel rhywun sy'n newydd i'r maes hwn, gallaf sicrhau'r Aelodau bod meithrin dealltwriaeth o reolau a chyfarwyddebau caffael yn dasg frawychus, ond credaf ein bod wedi llwyddo i gyflwyno adroddiad cryf o ganlyniad i'r gefnogaeth a ddarparwyd. Rwyf yn falch bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn pob un o'r 13 o argymhellion yn yr adroddiad. Edrychaf ymlaen at gyhoeddi'r datganiad polisi caffael ar gyfer Cymru yn ddiweddarach eleni, sy'n adeiladu ar ein hadroddiad ni ac ar adroddiad McClelland.

I will cover a couple of points, some of which have already been mentioned. What is clear from the evidence received and, I hope, from the report is that the contracting authorities must understand the impact of the procurement process on the local supply chains and their local economy. For example, the achievement of small savings in a

Soniaf am un neu ddau o bwyntiau, y mae rhai ohonynt eisoes wedi eu crybwyll. Yr hyn sy'n amlwg o'r dystiolaeth a gafwyd ac o'r adroddiad, gobeithio, yw bod yn rhaid i'r awdurdodau contractio ddeall effaith y broses gaffael ar y cadwyni cyflenwi lleol a'u heconomi leol. Er enghraifft, gall cyflawni arbedion bach mewn ymarfer caffael gael

procurement exercise can have devastating effects on the local economy, particularly if valuable contracts are awarded via framework contracts and the aggregation of spend moves into single contracts. Such a policy can exclude local SMEs, microbusinesses and social enterprises. Put simply, Welsh pounds are lost to the Welsh economy. This has also been further highlighted by meetings that I have had with the construction industry, and it is important that frameworks and their impacts upon the local economies are considered by all public bodies when developing procurement contracts and, in particular, how PPQs can be used more effectively. I would also like the Government to look at how contract requirements can be fed down the supply chain to ensure that local SMEs can benefit when they establish those contracts.

effeithiau andwyol iawn ar yr economi leol, yn enwedig os caiff contractau gwerthfawr eu dyfarnu drwy gontractau fframwaith ac os yw gwaith crynhoi gwariant yn symud i gontractau unigol. Gall polisi o'r fath eithrio busnesau bach a chanolig eu maint, microfusnesau a mentrau cymdeithasol lleol. Yn syml, caiff punnoedd Cymru eu colli o economi Cymru. Mae hyn hefyd wedi ei amlygu ymhellach gan gyfarfodydd yr wyf wedi'u cael â'r diwydiant adeiladu, ac mae'n bwysig bod fframweithiau a'u heffeithiau ar yr economi leol yn cael eu hystyried gan bob corff cyhoeddus wrth ddatblygu contractau caffael ac, yn arbennig, sut y gellir defnyddio holiaduron cyn-gymhwyso yn fwy effeithiol. Hoffwn i'r Llywodraeth edrych hefyd ar sut y gall gofynion contractau gael eu bwydo i lawr y gadwyn gyflenwi er mwyn sicrhau bod busnesau bach a chanolig lleol yn gallu elwa pan fyddant yn sefydlu'r contractau hynny.

This report also highlights the need for strong guidance on minimising risk aversion and maximising innovation. It was clear that we in Wales should be more creative—Julie James has already mentioned Kevin Morgan's comments on how we can do that—but more creative in a positive way, developing the procurement contracts while taking into account the impact that the remedies directive could have upon that. Examples were given, and they showed how this could be achieved. We must do more to look at how Wales can benefit from good practice elsewhere in Europe. In relation to Remploy, that is one aspect that could definitely be looked at in terms of how we could be creative in setting contracts for that type of scenario.

Mae'r adroddiad hwn hefyd yn tynnu sylw at yr angen am arweiniad cryf ar leihau amharodrwydd i gymryd risg a chynyddu arloesedd. Roedd yn amlwg y dylem ni yng Nghymru fod yn fwy creadigol—mae Julie James eisoes wedi crybwyll sylwadau Kevin Morgan ar sut y gallwn wneud hynny—ond yn fwy creadigol mewn modd cadarnhaol, gan ddatblygu'r contractau caffael ac ystyried ar yr un pryd yr effaith y gallai'r gyfarwyddeb unioni cam ei chael ar hynny. Rhoddwyd enghreifftiau, ac roeddent yn dangos sut y gellid cyflawni hyn. Rhaid inni wneud mwy i edrych ar sut y gall Cymru elwa o arfer da mewn mannau eraill yn Ewrop. O ran Remploy, mae hynny'n un agwedd y gellid yn sicr edrych arni o ran sut y gallem fod yn greadigol wrth osod contractau ar gyfer sefyllfa debyg i honno.

It is evident from the recommendations that we need to build upon the existing strategic leadership, spreading good practice throughout Wales, and the emerging narrative in the report, indicated by recommendation 7, suggests that further scrutiny of Value Wales is needed to ensure sufficient resources and to identify whether it has all the powers and the culture that it needs to rise to the procurement challenge.

Mae'n amlwg o'r argymhellion bod angen inni adeiladu ar yr arweiniad strategol presennol, gan ledaenu arfer da ledled Cymru, ac mae'r naratif sy'n dod i'r amlwg yn yr adroddiad, a nodwyd gan argymhelliad 7, yn awgrymu bod angen craffu ymhellach ar Gwerth Cymru i sicrhau bod ganddo adnoddau digonol a nodi a oes ganddo'r holl bwerau a'r diwylliant y mae eu hangen arno i ymateb i her caffael.

As has already been stated, procurement can

Fel y dywedwyd eisoes, gall caffael fod yn

be an important tool in boosting the Welsh economy. We must always apply lessons learned, so that we can gain the most from this. To conclude, I am sure that the report will make a valuable contribution to the ongoing procurement conversation here in Wales.

adnodd pwysig i roi hwb i economi Cymru. Rhaid inni bob amser ddefnyddio'r gwersi a ddysgwyd, er mwyn inni allu cael y mwyaf o hyn. I gloi, rwyf yn siŵr y bydd yr adroddiad yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at y drafodaeth barhaus am gaffael yma yng Nghymru.

4.45 p.m.

Eluned Parrott: I, too, would like to put on record my thanks to Julie James, not only for introducing the debate today but also for her work as Chair and for iterating the issues so clearly in her introduction. For many organisational buyers, EU procurement rules can seem to have been designed with the sole purpose of stopping them from spending their budgets, by heaving boulders and barriers in their way. During our inquiry, we heard a lot of evidence about how procurement rules are applied in practice, and the problems that people face in trying to achieve broader benefits from procurement. I have been a public sector buyer myself in the past, and I have seen some of the practical problems at first hand. Somehow, we need to find a way to break through that and to recognise the potential that effective procurement practices and creativity can bring to the Welsh economy.

Eluned Parrott: Hoffwn innau gofnodi fy niolch i Julie James, nid yn unig am gyflwyno'r ddadl heddiw ond hefyd am ei gwaith fel Cadeirydd ac am gyfleu'r materion mor glir yn ei chyflwyniad. I lawer o sefydliadau sy'n prynu, gall rheolau caffael yr UE ymddangos fel pe baent wedi eu cynllunio â'r unig bwrpas o'u hatal rhag gwario eu cyllidebau, gan roi clogfeini a rhwystrau yn eu ffordd. Yn ystod ein hymchwiliad, clywsom lawer o dystiolaeth am sut y caiff rheolau caffael eu defnyddio yn ymarferol, a'r problemau y mae pobl yn eu hwynebu wrth geisio cael manteision ehangach o gaffael. Rwyf wedi bod yn brynwr yn y sector cyhoeddus fy hun yn y gorffennol, ac rwyf wedi gweld rhai o'r problemau ymarferol drosof fy hun. Rhywsut, mae angen inni ddod o hyd i ffordd o dorri trwy hynny a chydnabod y potensial y gall arferion caffael effeithiol a chreadigrwydd ei gynnig i economi Cymru.

Where creativity exists in public procurement, it brings massive benefits. As we have heard, it keeps the money that we spend in the local supply chain and in the local economy. It offers opportunities to look for broader societal benefits, such as training for construction, and to find ways of improving the sustainability of what we are buying. It also offers opportunities to improve other issues for local communities. There are ways in which we need to support and encourage creativity, but I think that we need to recognise the barriers that exist. There is a culture of risk-aversion that cripples many of our purchasing authorities, not just in Wales but also across the UK, a lack of confidence in using the EU rules and also, sometimes, a lack of knowledge of what the EU rules are on the part of buyers. I do not blame people. When I saw the paperwork arriving for the consultation on the new rules—it was not far short of requiring a fork-

Lle y mae creadigrwydd yn bodoli ym maes caffael cyhoeddus, mae'n cynnig manteision enfawr. Fel y clywsom, mae'n cadw'r arian yr ydym yn ei wario yn y gadwyn gyflenwi leol ac yn yr economi leol. Mae'n cynnig cyfleoedd i chwilio am fanteision cymdeithasol ehangach, megis hyfforddiant ar gyfer adeiladu, ac i ddod o hyd i ffyrdd o wella cynaliadwyedd yr hyn yr ydym yn ei brynu. Mae hefyd yn cynnig cyfleoedd i wella materion eraill i gymunedau lleol. Mae angen inni gefnogi ac annog creadigrwydd mewn rhai ffyrdd, ond credaf fod angen inni gydnabod y rhwystrau sy'n bodoli. Ceir diwylliant o fod yn amharod i gymryd risg sy'n llethu llawer o'n hawdurdodau prynu, nid yn unig yng Nghymru ond hefyd ar draws y DU, ceir diffyg hyder wrth ddilyn rheolau'r UE a hefyd, weithiau, diffyg gwybodaeth am reolau'r UE ar ran y prynwyr. Nid wyf yn gweld bai ar bobl. Pan welais y gwaith papur yn cyrraedd ar gyfer yr ymgynghoriad ar y

lift truck to bring it into my office—I have to confess that my heart sank, so I understand why people feel that this is a complicated area, and an area in which they will never be expert enough. However, the truth is that we need to find a way of breaking through that as well.

rheolau newydd—bron nad oedd angen fforch-godi i ddod ag ef i mewn i'm swyddfa—rhaid imi gyfaddef i'm calon suddo, felly rwyf yn deall pam y mae pobl yn teimlo bod hwn yn faes cymhleth, ac yn faes lle na fyddant byth yn ddigon o arbenigwyr. Fodd bynnag, y gwir yw bod angen inni ddod o hyd i ffordd o dorri drwy hynny hefyd.

Confidence and competence both come from knowledge. Some of the recommendations in this report speak to that, and the ways in which we can act to improve both issues. Recommendation 3, for example, asks the Welsh Government to issue advice and guidance, and to inspire our purchasing authorities, to ensure that, where there are examples of best practice—and they are out there, including in the Welsh procurement authorities—they are there for people to see and understand. We need to think about training for procurement professionals, and about raising the status of the profession within purchasing authorities. Far too often, we find that procurement professionals are low down the management scale. They do not have the level of influence that they need at a senior level, and they are seen as a nuisance or as a barrier to progress in organisations. That cannot be allowed to continue.

Mae gwybodaeth yn esgor ar hyder a chymhwysedd. Mae rhai o'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn tystio i hynny, a'r ffyrdd y gallwn weithredu i wella'r ddau beth. Mae argymhelliad 3, er enghraifft, yn gofyn i Lywodraeth Cymru roi cyngor ac arweiniad, ac ysbrydoli ein hawdurdodau prynu, er mwyn sicrhau, lle y ceir enghreifftiau o arfer gorau—ac maent ar gael, gan gynnwys yn awdurdodau caffael Cymru—eu bod yno i bobl eu gweld a'u deall. Mae angen inni feddwl am hyfforddiant i weithwyr proffesiynol ym maes caffael, ac am godi statws y proffesiwn mewn awdurdodau prynu. Yn rhy aml o lawer, rydym yn gweld bod gweithwyr proffesiynol ym maes caffael yn isel ar y raddfa reoli. Nid oes ganddynt y dylanwad y mae ei angen arnynt ar lefel uwch, ac maent yn cael eu gweld fel niwsans neu fel rhwystr i gynnydd mewn sefydliadau. Ni ellir caniatáu i hynny barhau.

There is also a professional development opportunity to train a bigger procurement profession in Wales. There is a lack of suitably skilled people in this area, and all of these things could help to make a difference. There is a truism that states that changing a culture is like turning a tanker in middle of the ocean. Yes, it is heavy work and it is slow at the beginning, but the truth is that you can turn a tanker in the middle of the ocean, and there is no reason why, with a firm hand on the tiller, you would not be successful at doing so.

Ceir cyfle hefyd o safbwynt datblygiad proffesiynol i hyfforddi proffesiwn caffael mwy yng Nghymru. Mae prinder pobl â sgiliau addas yn y maes hwn, a gallai pob un o'r pethau hyn helpu i wneud gwahaniaeth. Ceir gwireb sy'n dweud bod newid diwylliant yn debyg i droi tancer yng nghanol y môr. Ydy, mae'n waith trwm ac mae'n araf ar y dechrau, ond y gwir yw y gallwch droi tancer yng nghanol y môr, ac o gael llaw gadarn ar y llyw, nid oes unrhyw reswm pam na fyddech yn llwyddiannus wrth wneud hynny.

As Julie has already noted, some of the proposed changes to procurement practices in the EU's consultation papers will present us with new opportunities that we welcome. However, some will present us with new challenges as well. For that reason, recommendation 2 is extremely important. We need to discuss the way in which EU directives are transposed into UK law, to

Fel y mae Julie wedi'i nodi eisoes, bydd rhai o'r newidiadau arfaethedig i arferion caffael ym mhapurau ymgynghori'r UE yn cynnig cyfleoedd newydd inni yr ydym yn eu croesawu. Fodd bynnag, bydd rhai yn cyflwyno heriau newydd inni hefyd. Dyna pam y mae argymhelliad 2 yn hynod o bwysig. Mae angen inni drafod y modd y caiff cyfarwyddebau'r UE eu trosi yn gyfraith

ensure that we have the maximum level of flexibility. I encourage Members on all sides of the Chamber to discuss that issue with colleagues in Westminster, as we did so successfully over the subsidiarity issue, which was mentioned earlier. The needs of the Welsh economy are different to those of the UK as a whole. We need to be able to recognise that.

yn y DU, er mwyn sicrhau bod gennym gymaint o hyblygrwydd ag sy'n bosibl. Rwyf yn annog Aelodau ar bob ochr i'r Siambr i drafod y mater hwnnw â chydweithwyr yn San Steffan, fel y gwnaethom mor llwyddiannus yn achos sybsidiaredd, a grybwyllwyd yn gynharach. Mae anghenion economi Cymru yn wahanol i rai'r DU yn ei chyfanrwydd. Mae angen inni allu cydnabod hynny.

I will finish by saying how grateful I am to the committee clerks, the research team and other staff members for the advice that they gave us. This is an incredibly complex area, but one on which it is well worth focusing our attention in order to bring greater benefits to the Welsh economy in the future.

Rwyf am gloi trwy ddweud mor ddiolchgar yr wyf i glercod y pwyllgor, y tîm ymchwil ac aelodau eraill o staff am y cyngor a gawsom ganddynt. Mae hwn yn faes hynod o gymhleth, ond mae'n un y mae'n werth canolbwyntio ein sylw arno er mwyn dod â mwy o fanteision i economi Cymru yn y dyfodol.

Mark Isherwood: The Minister for Finance's response to this report by the Enterprise and Business Committee stated that the key element of her procurement policy statement in the autumn will be the use of social clauses in relevant contracts through the community benefits approach. As a non-member of the committee, I understand that a community benefit clause is a clause in a tender or contract that aims to achieve a community benefit or social consideration as part of the procurement of the specific goods, works, services or utilities required to deliver a public service. EU procurement rules clarify the possibilities for the contracting authorities to meet the needs of the public concerned, including in the social and environmental areas.

Mark Isherwood: Roedd ymateb y Gweinidog Cyllid i'r adroddiad hwn gan y Pwyllgor Menter a Busnes yn dweud mai elfen allweddol o'i datganiad polisi caffael yn yr hydref fydd defnyddio cymalau cymdeithasol mewn contractau perthnasol drwy'r dull gweithredu manteision cymunedol. Fel rhywun nad yw'n aelod o'r pwyllgor, rwyf yn deall mai ystyr cymal manteision cymunedol yw cymal mewn tendr neu gontract sy'n ceisio sicrhau mantais gymunedol neu ystyriaeth gymdeithasol fel rhan o'r broses o gaffael y nwyddau, gwaith, gwasanaethau neu gyfleustodau penodol sy'n ofynnol i ddarparu gwasanaeth cyhoeddus. Mae rheolau caffael yr UE yn egluro'r posibiliadau i'r awdurdodau contractio ddiwallu anghenion y cyhoedd dan sylw, gan gynnwys yn y meysydd cymdeithasol ac amgylcheddol.

The review into maximising the impact of Welsh Government procurement policy, commissioned by the Minister, states that the current overall position is being achieved despite some significant weaknesses in capability and performance and adds that, given that further progress is heavily dependent on practical implementation, rather than on new policy, implementation of public procurement policies should be regarded as a duty rather than an option—amen to that.

Mae'r adolygiad i sicrhau bod polisi caffael Llywodraeth Cymru yn cael yr effaith fwyaf posibl, a gomisiynwyd gan y Gweinidog, yn dweud bod y sefyllfa gyffredinol ar hyn o bryd yn cael ei chyflawni er gwaethaf rhai gwendidau sylweddol o ran gallu a pherfformiad ac mae'n ychwanegu, o ystyried bod cynnydd pellach yn dibynnu'n fawr ar weithredu ymarferol, yn hytrach nag ar bolisi newydd, dylid ystyried bod gweithredu polisi caffael cyhoeddus yn ddyletswydd yn hytrach nag yn opsiwn—amen i hynny.

Writing to the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science in March, the North Wales construction group, comprising seven of the larger regional construction companies, said that

Wrth ysgrifennu at y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth ym mis Mawrth, dywedodd grŵp adeiladu Gogledd Cymru, sy'n cynnwys saith o'r cwmnïau adeiladu rhanbarthol mwy o faint, mai'r

'the general view is that the total absence of a coherent procurement strategy here in North Wales results in costs amounting to millions of pounds annually to both the construction industry and public sector. Costs to our companies completing pre-qualification exercises have risen on average by 43% over the past four years; this is an economic downturn where we should be operating more efficiently.'

farn gyffredinol yw bod diffyg unrhyw strategaeth gaffael gydlynol yma yn y gogledd yn arwain at gostau sy'n dod i gyfanswm o filiynau o bunnoedd bob blwyddyn i'r diwydiant adeiladu a'r sector cyhoeddus. Mae costau i'n cwmnïau sy'n cwblhau ymarferion cyn-gymhwyso wedi codi 43%ar gyfartaledd dros y pedair blynedd diwethaf; mae hynny mewn cyfnod o ddirywiad economaidd lle y dylem fod yn gweithredu'n fwy effeithlon.

It adds that

Mae'n ychwanegu

'Jane Hutt's procurement statement on 21st February is tainted and manipulated data/evidence and does not truly reflect the actual position of the indigenous Welsh construction industry'.

Mae datganiad caffael Jane Hutt ar 21 Chwefror yn llygredig ac yn camliwio data/tystiolaeth ac nid yw wir yn adlewyrchu sefyllfa wirioneddol diwydiant adeiladu cynhenid Cymru.

It says that, in reality, many so-called Welsh companies only have a small administrative base in Wales, which thereby provides them with a Welsh invoice address. The Welsh Government needs to make sure that it distinguishes between indigenous Welsh companies and UK-based companies.

Dywed mai'r gwir yw nad oes gan lawer o'r cwmnïau hyn sy'n eu galw eu hunain yn gwmnïau o Gymru ddim byd mwy na chanolfan weinyddol fach yng Nghymru, sydd, felly, yn rhoi cyfeiriad anfonebu yng Nghymru iddynt. Mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn gwahaniaethu rhwng cwmnïau cynhenid o Gymru a chwmnïau sy'n seiliedig yn y DU.

The group says that procurement exercises are being run by procurement officers, along with audit teams, with no knowledge or understanding of the complexities of construction and the far-reaching effects that their decisions can have on sustainable employment and growth. It adds that, compared with England and other European Union countries, we in Wales seem to gold-plate procurement directives, making the burden unnecessarily hard and costly.

Mae'r grŵp yn dweud bod ymarferion caffael yn cael eu rhedeg gan swyddogion caffael, ynghyd â thimau archwilio, heb unrhyw wybodaeth na dealltwriaeth o gymhlethdodau gwaith adeiladu a'r effeithiau pellgyrhaeddol y gall eu penderfyniadau eu cael ar gyflogaeth a thwf cynaliadwy. Mae'n ychwanegu, o gymharu â Lloegr a gwledydd eraill yr Undeb Ewropeaidd, ei bod yn ymddangos ein bod ni yng Nghymru yn ychwanegu mwy o ofynion at gyfarwyddebau caffael, gan wneud y baich yn ddiangen o anodd a chostus.

David Rees: Thank you for taking the intervention. Do you agree with the report that the need to create a greater skills base and to get a larger number of people who are qualified to take on procurement is important,

David Rees: Diolch am dderbyn yr ymyriad. A ydych yn cytuno â'r adroddiad bod yr angen i greu sylfaen sgiliau fwy a chael nifer fwy o bobl sy'n gymwys i ymdrin â chaffael yn bwysig, a bod yr adroddiad wedi nodi'r

and that the report has identified the issues that you have identified and that it should be applauded on that point?

materion yr ydych chi wedi'u nodi, ac y dylid ei gymeradwyo am hynny?

Mark Isherwood: Clearly, we must operate on the basis of the recommendations to address the concerns being raised. It is worrying that these concerns are being raised in 2012, so many years after the advent of devolution.

Mark Isherwood: Yn amlwg, rhaid inni weithredu ar sail yr argymhellion i fynd i'r afael â'r pryderon sy'n cael eu codi. Mae'n peri pryder bod y pryderon hyn yn cael eu codi yn 2012, cynifer o flynyddoedd ar ôl i ddatganoli ddigwydd.

In summary, the group says that we need procurement strategy here that is less complicated, and for it to favour the wider social aims of procurers and communities rather creating a barrier between the two.

I grynhoi, mae'r grŵp yn dweud bod angen strategaeth gaffael arnom sy'n llai cymhleth, a bod angen iddi ffafrio amcanion cymdeithasol ehangach y rhai sy'n caffael a chymunedau yn hytrach na chreu rhwystr rhwng y ddau.

We must also take note of the view of the Wales Council for Voluntary Action that grants should be the preferred mechanism for funding the third sector, ensuring that the third sector is able to engage in the design and delivery of public services and in bringing added value to citizens and communities. It says that third sector organisations bring flexibility, innovation and a community-based approach to service delivery and that, in recent years, there has been a significant shift in how third sector organisations are funded by public authorities in Wales, in that funding from contracts is increasingly becoming the default position while grant funding is diminishing rapidly. It says that the shift towards an increase in procurement may be due to a perception that it is a legal requirement for all services above certain financial thresholds to be procured, but this assumption is wrong. Although procurement is necessary when public bodies purchase goods and works, there are some categories of service that public bodies are under no legal obligation to put out to tender.

Rhaid inni hefyd gymryd sylw o farn Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, sef y dylid ffafrio grantiau fel system ar gyfer ariannu'r trydydd sector, gan sicrhau bod y trydydd sector yn gallu cymryd rhan yn y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus a dod â gwerth ychwanegol i ddinasyddion a chymunedau. Mae'n dweud bod sefydliadau'r trydydd sector yn dod â hyblygrwydd, arloesedd a dull gweithredu sy'n seiliedig ar y gymuned i'r gwaith o ddarparu gwasanaethau ac, yn y blynyddoedd diwethaf, y gwelwyd newid sylweddol yn y modd y mae sefydliadau'r trydydd sector yn cael eu hariannu gan awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru, o ran bod cyllid o gontractau yn dod yn fwyfwy arferol tra mae cyllid grant yn lleihau yn gyflym. Mae'n dweud ei bod yn bosibl mai canfyddiad ei bod yn ofyniad cyfreithiol i bob gwasanaeth dros ryw drothwy ariannol penodol gael ei gaffael sydd i gyfrif am y newid hwn a'r cynnydd mewn caffael, ond mae'r rhagdybiaeth hon yn anghywir. Er bod caffael yn angenrheidiol pan fydd cyrff cyhoeddus yn prynu nwyddau a gwaith, ceir rhai categorïau o wasanaethau nad yw cyrff cyhoeddus dan unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol i'w rhoi allan i dendr.

The WCVA says that there are cases where procurement is appropriate and legally necessary when a public body is shopping for goods or services, but that it is greatly overused. Decisions about funding should be made on the basis of appropriateness and proportionality to the service and should

Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn dweud bod yna achosion lle y mae caffael yn briodol ac yn angenrheidiol o safbwynt cyfreithiol pan fydd corff cyhoeddus yn siopa am nwyddau neu wasanaethau, ond y caiff ei orddefnyddio'n fawr. Dylai penderfyniadau am gyllid gael eu gwneud ar y sail eu bod yn

consider the relative merits of the different funding mechanisms available.

briodol ac yn gymesur i'r gwasanaeth a dylent ystyried rhinweddau cymharol y gwahanol ddulliau ariannu sydd ar gael.

It concludes, as will I, by saying that a relationship that is purely contractual would ultimately relegate third sector organisations to delivery agents of the state, inhibit the contribution of the third sector to service design and threaten the distinctive, complementary relationship that exists between the two sectors in Wales.

Mae'n cloi, fel y gwnaf innau, drwy ddweud y byddai perthynas sy'n berthynas gytundebol yn unig yn arwain yn y pen draw at ddiraddio sefydliadau'r trydydd sector i fod yn asiantiaid darparu'r wladwriaeth, yn cyfyngu ar gyfraniad y trydydd sector i gynllunio gwasanaethau ac yn bygwth y berthynas arbennig sy'n bodoli rhwng y ddau sector yng Nghymru lle y mae'r naill yn ategu'r llall.

The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt): First, may I thank the Chair, Julie James, and the members of the task and finish group for a thorough piece of work. We should recognise the importance of these recommendations, which has been reflected in this afternoon's debate. I was pleased to appear before the group at an early stage of its considerations and we now have a valuable report that makes a number of telling recommendations, which I will use to help to shape our evolving procurement policy. As was reflected in my budget for growth and jobs, employment and economic growth remain the Welsh Government's top priorities. As Members have clearly and correctly identified across the Chamber this afternoon, effective procurement is a crucial tool in achieving that outcome. Spending the £4.3 billion annual procurement expenditure wisely helps us to protect jobs in the private sector and front-line public services. In February, I outlined the considerable progress made against our programme for government procurement commitments, but I also said that there was more to do. That is why I am welcoming the report today.

Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt): Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i'r Cadeirydd, Julie James, ac aelodau'r grŵp gorchwyl a gorffen am ddarn trylwyr o waith. Dylem gydnabod pwysigrwydd yr argymhellion hyn, sydd wedi'i adlewyrchu yn y ddadl y prynhawn yma. Roeddwn yn falch o ymddangos gerbron y grŵp yn gynnar yn ystod ei ystyriaethau a bellach mae gennym adroddiad gwerthfawr sy'n gwneud nifer o argymhellion grymus, y byddaf yn eu defnyddio i helpu i lunio ein polisi caffael sy'n datblygu. Fel yr adlewyrchwyd yn fy nghyllideb ar gyfer twf a swyddi, mae cyflogaeth a thwf economaidd yn parhau i fod yn brif flaenoriaethau i Lywodraeth Cymru. Fel y mae'r Aelodau wedi'i nodi'n glir ac yn gywir ar draws y Siambr y prynhawn yma, mae caffael effeithiol yn adnodd hanfodol i sicrhau'r canlyniad hwnnw. Mae gwario'r gwariant caffael blynyddol o £43 biliwn yn ddoeth yn ein helpu i ddiogelu swyddi yn y sector preifat a gwasanaethau cyhoeddus y rheng flaen. Ym mis Chwefror, amlinellais y cynnydd sylweddol a wnaed yn erbyn yr ymrwymiadau caffael yn ein rhaglen lywodraethu, ond dywedais hefyd fod mwy i'w wneud. Dyna pam yr wyf yn croesawu'r adroddiad heddiw.

The inquiry concludes that it is not the European rules that are a barrier to progress, but rather how they are interpreted and applied. Eleven of the 13 recommendations address procurement practice. I have accepted all of the recommendations unequivocally. In many areas, there is already work in hand to develop solutions. Today, I am also welcoming the conclusion of John

Mae'r ymchwiliad yn dod i'r casgliad nad y rheolau Ewropeaidd sy'n rhwystro cynnydd, ond yn hytrach y modd y cânt eu dehongli a'u defnyddio. Mae 11 o'r 13 o argymhellion yn cyfeirio at arferion caffael. Rwyf wedi derbyn pob un o'r argymhellion yn bendant. Mewn sawl maes, mae gwaith eisoes ar y gweill i ddatblygu atebion. Heddiw, rwyf hefyd yn croesawu'r ffaith i John McClelland

McClelland's review into maximising the impact of public procurement policy, which I commissioned in February. Yesterday, I published the executive summary and recommendations, noting that they complement many of the inquiry's recommendations, as was said by Julie James, the chair of the inquiry, this afternoon. I am delighted that John McClelland has joined us today for the debate; I believe that he is in the public gallery.

gwblhau'r adolygiad a gomisiynwyd gennyf ym mis Chwefror i ystyried ffyrdd o sicrhau bod polisi caffael cyhoeddus yn cael yr effaith fwyaf bosibl. Ddoe, cyhoeddais y crynodeb gweithredol a'r argymhellion, gan nodi eu bod yn ategu llawer o argymhellion yr ymchwiliad, fel y dywedodd Julie James, cadeirydd yr ymchwiliad, y prynhawn yma. Rwyf yn falch iawn bod John McClelland wedi ymuno â ni heddiw ar gyfer y ddadl; credaf ei fod yn yr oriel gyhoeddus.

My written response of 11 July replied to each of the inquiry's recommendations. The synergy is clear. We can move together in responding to the inquiry and the review. In looking at the key points on skills and capability, reflected across the Chamber in Members' contributions this afternoon, this is a key issue. The inquiry highlights the need to address the skills gap and share best practice. The McClelland review notes the wide organisational variance in the public sector. In particular, it notes the urgent need to address inadequate staffing in a number of local authorities. Both reports point to the shortage of skilled staff. Our European-funded home-grown talent project is a step in the right direction, with 24 young trainees on placements across Wales. However, this is not the whole answer. I will be examining how we can enhance the skills in each organisation. Alun Ffred Jones mentioned the course at Bangor University. We need to build up the capability models and the scope for a form of procurement fitness check. The whole of the Welsh public sector must invest in people with the right level of skills.

Roedd fy ymateb ysgrifenedig ar 11 Gorffennaf yn ateb pob un o argymhellion yr ymchwiliad. Mae'r synergedd yn amlwg. Gallwn symud gyda'n gilydd wrth ymateb i'r ymchwiliad a'r adolygiad. Wrth edrych ar y pwyntiau allweddol ar sgiliau a gallu, a adlewyrchwyd ar draws y Siambr yng nghyfraniadau'r Aelodau y prynhawn yma, mae hwn yn fater allweddol. Mae'r ymchwiliad yn amlygu'r angen i fynd i'r afael â'r bwlch mewn sgiliau a rhannu arfer gorau. Mae adolygiad McClelland yn nodi'r amrywiadau mawr rhwng sefydliadau yn y sector cyhoeddus. Yn benodol, mae'n nodi'r angen i fynd i'r afael ar fryder â staffio annigonol mewn nifer o awdurdodau lleol. Mae'r ddau adroddiad yn tynnu sylw at brinder staff medrus. Mae ein prosiect doniau Cymru a gaiff ei ariannu gan Ewrop yn gam i'r cyfeiriad iawn, gyda 24 o hyfforddeion ifanc ar leoliadau ledled Cymru. Fodd bynnag, nid yw hyn yn ateb y cyfan. Byddaf yn edrych ar sut y gallwn wella'r sgiliau ym mhob sefydliad. Soniodd Alun Ffred Jones am y cwrs ym Mhrifysgol Bangor. Mae angen inni ddatblygu'r modelau gallu a'r posibiliadau ar gyfer math o wiriad ffitrwydd caffael. Rhaid i bob rhan o sector cyhoeddus Cymru fuddsoddi mewn pobl sydd â'r lefel gywir o sgiliau.

Secondly, we will look at policy guidance. Both the inquiry and the McClelland review recommend consolidated guidance, setting clear expectations and striking a balance between risk management and creativity, as the chair of the inquiry, Julie James, has highlighted, and as has been reflected in Members' contributions. I very much agree with this assessment. In the autumn, I will be issuing a public policy procurement statement. That will unite many of our leading-edge policies, such as the supplier

Yn ail, edrychwn ar arweiniad polisi. Mae'r ymchwiliad ac adolygiad McClelland yn argymell cryfhau'r arweiniad, gan bennu disgwyliadau clir a sicrhau cydbwysedd rhwng rheoli risg a chreadigrwydd, fel y mae cadeirydd yr ymchwiliad, Julie James, wedi tynnu sylw ato, ac fel sydd wedi'i adlewyrchu yng nghyfraniadau'r Aelodau. Rwyf yn cytuno'n gryf iawn â'r asesiad hwn. Yn yr hydref, byddaf yn cyhoeddi datganiad polisi caffael cyhoeddus. Bydd hynny'n uno llawer o'n polisïau blaengar, megis y gronfa

qualification information database and community benefit policies. John McClelland has described this as ‘leading edge’. That will be consolidated into one clear document and I can assure Members across the Chamber, and the inquiry group in particular, that I will expect public sector organisations to follow the document in relation to delivery. Mick Antoniw usefully raised how we can use procurement as a tool to support Remploy employees. In fact, I am engaged closely with the Minister for Education and Skills on this; I visited a Remploy factory, met a delegation of the workforce, looked at their products, and explored ways in which we can promote this across Government policy, portfolio opportunities for Ministers and the public sector.

ddata gwybodaeth am gymwysterau cyflenwyr a pholisïau manteision cymunedol. Mae John McClelland wedi disgrifio hyn fel rhywbeth blaengar. Bydd hynny’n cael ei gyfuno i greu un ddogfen glir a gallaf sicrhau Aelodau ar draws y Siambr, a grŵp yr ymchwiliad yn arbennig, y byddaf yn disgwyl i sefydliadau’r sector cyhoeddus ddilyn y ddogfen o ran darparu gwasanaethau. Gwnaeth Mick Antoniw sylw defnyddiol am sut y gallwn ddefnyddio caffael fel adnodd i gefnogi gweithwyr Remploy. Yn wir, rwyf yn ymwneud yn agos â’r Gweinidog Addysg a Sgiliau ar hyn; bûm yn ymweld â ffatri Remploy, lle y cefais gyfle i gwrdd â rhai o’r gweithlu, edrych ar eu cynnyrch, ac archwilio ffyrdd o hyrwyddo hyn ar draws polisi’r Llywodraeth, cyfleoedd portffolio i Weinidogion a’r sector cyhoeddus.

5.00 p.m.

Moving on to enforcement and profile, the inquiry stresses the need to raise the profile and status of public procurement, and we are doing that this afternoon in this debate. It suggests that the Welsh Government take appropriate enforcement measures, including grant conditions, to deal with situations where contracting authorities are not following good practice. John McClelland notes significant progress in delivering wider benefits across Wales, but he also notes with concern that the adoption and implementation of policies is very mixed. He recommends that policy adoption be seen as a duty, and compelled through the use of grants and, perhaps, appropriate legislation. We are moving forward with lessons learned, and I will be closely monitoring adoption. If public sector organisations do not adopt policies that are evidence based and founded on best practice, I will have no hesitation in taking the necessary enforcement steps to require action.

Gan symud ymlaen at orfodi a phroffil, mae’r ymchwiliad yn pwysleisio’r angen i godi proffil a statws caffael cyhoeddus, ac rydym yn gwneud hynny y prynhawn yma yn y ddadl hon. Mae’n awgrymu bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau gorfodi priodol, gan gynnwys amodau grant, i ymdrin â sefyllfaoedd lle nad yw awdurdodau contractio yn dilyn arfer da. Mae John McClelland yn nodi cynnydd sylweddol o ran sicrhau manteision ehangach ar draws Cymru, ond mae hefyd yn nodi gyda phryder bod y gwaith o fabwysiadu a gweithredu polisïau yn gymysg iawn. Mae’n argymell bod mabwysiadu polisi yn cael ei ystyried yn ddyletswydd, ac yn cael ei orfodi drwy ddefnyddio grantiau ac, efallai, deddfwriaeth briodol. Rydym yn symud ymlaen â gwersi a ddysgwyd, a byddaf yn monitro gwaith mabwysiadu yn ofalus. Os nad yw sefydliadau’r sector cyhoeddus yn mabwysiadu polisïau sy’n seiliedig ar dystiolaeth ac sydd wedi’u seilio ar arfer gorau, ni fyddaf yn oedi cyn cymryd y camau gorfodi angenrheidiol i’w gwneud yn ofynnol iddynt weithredu.

Byron Davies and Mark Isherwood raised the point about the third sector and I would draw your attention to recommendation 16 of John McClelland’s review, where he recognises the issues in terms of interaction with the

Cododd Byron Davies a Mark Isherwood y pwynt am y trydydd sector a hoffwn dynnu eich sylw at argymhelliad 16 yn adolygiad John McClelland, lle y mae’n cydnabod y materion o ran rhyngweithio â’r trydydd

third sector, saying that we should review this to fully understand its concerns about public procurement and the contribution that the third sector can make to wider benefits. We should look for ways to enable practical engagement with the public sector, to design services to support defined outcomes. Again, recognising that is a key issue acknowledged in John McClelland's review.

sector, gan ddweud y dylem adolygu hyn er mwyn deall yn llawn ei bryderon ynghylch caffael cyhoeddus a'r cyfraniad y gall y trydydd sector ei wneud at fanteision ehangach. Dylem chwilio am ffyrdd i hwyluso ymgysylltu ymarferol â'r sector cyhoeddus, i gynllunio gwasanaethau i gefnogi canlyniadau a ddiffiniwyd. Unwaith eto, mae cydnabod hynny'n fater allweddol a gaiff ei dderbyn yn adolygiad John McClelland.

Lastly, I will look at collaborative procurement. The inquiry suggests that a shared-service approach be considered. It recommends continual evaluation in comparison with practice across the UK. The McClelland review commends the 2010 'Buying Smarter in Tougher Times' report, recommending that it be formally adopted and a national procurement service created without delay. The public service leadership group, led by the Minister for Local Government and Communities, is helping to make this a reality. Both reports recommend early use of SQuID in electronic form, investment in better data and stronger business engagement.

Yn olaf, byddaf yn edrych ar gaffael ar y cyd. Mae'r ymchwiliad yn awgrymu y dylid ystyried dull o rannu gwasanaethau. Mae'n argymell gwerthuso parhaus gan gymharu hynny ag arfer ar draws y DU. Mae adolygiad McClelland yn cymeradwyo adroddiad 2010 'Prynu'n Ddoethach ar Adegau Mwy Anodd', gan argymell y dylid ei fabwysiadu yn ffurfiol ac y dylid creu gwasanaeth caffael cenedlaethol yn ddi-oed. Mae grŵp arwain y gwasanaeth cyhoeddus, a gaiff ei arwain gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, yn helpu i wireddu hyn. Mae'r ddau adroddiad yn argymell gwneud defnydd cynnar o'r Gronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr ar ffurf electronig, buddsoddi mewn gwell data ac ymgysylltu mwy â byd busnes.

Julie James mentioned the Open for Business event that I launched in June, and that laid the groundwork for improved dialogue with business. I can assure Members from north Wales that we will have an Open for Business event in north Wales in September, and I have engaged with the north Wales construction sector.

Soniodd Julie James am y digwyddiad Ar Agor am Fusnes a lansiwyd gennyf ym mis Mehefin, a gosododd hwnnw'r sylfaen ar gyfer gwell trafodaeth â byd busnes. Gallaf sicrhau Aelodau o'r gogledd y bydd gennym ddigwyddiad Ar Agor am Fusnes yn y gogledd ym mis Medi, ac rwyf wedi ymgysylltu â sector adeiladu gogledd Cymru.

Finally, I welcome this inquiry report alongside the review by John McClelland. In February, I demonstrated that public procurement in Wales is delivering. The findings of these reports will help to ensure that best practice does not comprise isolated examples, but becomes instead the way that we do things in Wales.

Yn olaf, rwyf yn croesawu adroddiad yr ymchwiliad hwn ochr yn ochr â'r adolygiad gan John McClelland. Ym mis Chwefror, dangosais fod caffael cyhoeddus yng Nghymru yn cyflawni. Bydd canfyddiadau'r adroddiadau hyn yn helpu i sicrhau nad enghreifftiau prin yn unig mo arfer gorau, ond yn hytrach ei fod yn dod yn gyfystyr â'r ffordd yr ydym yn gwneud pethau yng Nghymru.

Julie James: One of the things that I would like to say to all the Members, apart from my great thanks for their very kind words about the review, is that there has been a

Julie James: Un o'r pethau yr hoffwn ei ddweud wrth bob un o'r Aelodau, ar wahân i'm diolch mawr am eu geiriau caredig iawn am yr adolygiad, yw y cafwyd llawer iawn o

remarkable degree of consensus between everybody who reviews procurement practice in Wales. I will not go through everybody's remarks because they are remarkably similar, actually, and the McClelland review has come out with very similar recommendations as well, which is a sign of the growing consensus across the piece for what needs to be achieved.

gonsensws rhwng pawb sy'n adolygu arferion caffael yng Nghymru. Nid wyf am fynd drwy sylwadau pawb am eu bod yn hynod o debyg, mewn gwirionedd, ac mae adolygiad McClelland wedi cynnig argymhellion tebyg iawn hefyd, sy'n arwydd o'r consensws cynyddol cyffredinol am yr hyn y mae angen ei gyflawni.

Daeth y Llywydd (Rosemary Butler) i'r Gadair am 5.03 p.m.

The Presiding Officer (Rosemary Butler) took the Chair at 5.03 p.m.

I am very grateful to the Minister for taking up all our recommendations, and for her kind briefings to me, and her inclusion of me in various things that the Government has done on procurement. That was most helpful to the committee in its inquiry. I am also grateful to the staff of Value Wales, where there are excellent practice and policy procedures, but I would like to emphasise the need to review their capacity and some of the enforcement issues that we highlight.

Rwyf yn ddiolchgar iawn i'r Gweinidog am dderbyn pob un o'n hargymhellion, ac am ei sesiynau briffio caredig, a'r ffaith iddi fy nghynnwys mewn amrywiol bethau y mae'r Llywodraeth wedi'u gwneud ar gaffael. Roedd hynny o gymorth mawr i'r pwyllgor yn ei ymchwiliad. Rwyf hefyd yn ddiolchgar i staff Gwerth Cymru, lle y ceir gweithdrefnau ardderchog o ran arfer a pholisi, ond hoffwn bwysleisio'r angen i adolygu eu gallu a rhai o'r materion gorfodi yr ydym yn tynnu sylw atynt.

I will finish by simply saying this: the message came through strongly to the task and finish group that procurement must be moved from a back-room function to a boardroom function. What I mean by that is that we must not keep on proselytising to procurement professionals; the ones that we have already know their job. The problem is with the ones that we do not have, and the chief executives and other boardroom people who do not back them up. So, we must genuinely move it from the back room to the boardroom, and we must make boardrooms realise the real difference that good, effective public procurement can make, both to their businesses and the local economy. That will produce the sea change in thinking across the Welsh public sector that we want to see.

Rwyf am gloi trwy ddweud yn syml: daeth y neges i'r amlwg yn glir i'r grŵp gorchwyl a gorffen bod yn rhaid i gaffael symud o fod yn swyddogaeth ystafell gefn i fod yn swyddogaeth ystafell fwrdd. Yr hyn yr wyf yn ei olygu wrth hynny yw bod yn rhaid inni beidio â dal i genhadu ymhlith gweithwyr proffesiynol ym maes caffael; mae'r rhai sydd gennym eisoes yn gwybod beth yw eu gwaith. Y broblem yw'r rhai yr ydym yn brin ohonynt, a'r prif weithredwyr a phobl eraill yn yr ystafell fwrdd nad ydynt yn eu cefnogi. Felly, rhaid inni fynd ati o ddifrif i'w symud o'r ystafell gefn i'r ystafell fwrdd, a rhaid inni wneud i'r ystafelloedd bwrdd sylweddoli'r gwahaniaeth go iawn y gall caffael cyhoeddus da ac effeithiol ei wneud, i'w busnesau ac i'r economi leol. Bydd hynny'n creu'r newid mawr yr ydym am ei weld yn y ffordd o feddwl ar draws sector cyhoeddus Cymru.

I want to finish by thanking my fellow committee members again. Eluned's remark about the need for a fork-lift truck to deliver the encyclopaedia made me smile. I took some sadistic pleasure in passing around all the procurement directives to my fellow committee members, while they looked at

Rwyf am orffen drwy ddiolch i'm cyd-aelodau ar y pwyllgor unwaith eto. Roedd sylw Eluned am yr angen am fforch-godi i gludo'r gwyddoniadur yn codi gwên. Cymerais bleser sadistaidd wrth rannu'r holl gyfarwyddebau caffael â'm cyd-aelodau ar y pwyllgor, a'u gweld yn edrych arnynt yn

them in anguish. Therefore, I must say that that was a remarkably fun moment for me in the committee. I am also extremely grateful to the committee staff—here and in Brussels—who have worked hard to support us on this complex review. The committee will continue to monitor developments with a keen interest, both in the EU and here in Wales.

ofidus. Felly, rhaid imi ddweud bod honno'n foment ddifyr iawn imi yn y pwyllgor. Rwyf hefyd yn hynod ddiolchgar i staff y pwyllgor—yma ac ym Mrwsel—sydd wedi gweithio'n galed i'n cefnogi gyda'r adolygiad cymhleth hwn. Bydd y pwyllgor yn parhau i fonitro datblygiadau â diddordeb brwd, yn yr UE ac yma yng Nghymru.

The Presiding Officer: The proposal is to note the Enterprise and Business Committee's report. Does any Member object? I see that there are no objections. Therefore, the motion is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y Llywydd: Y cynnig yw nodi adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes. Mae'r cynnig, felly, wedi'i dderbyn, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

Derbyniwyd y cynnig.
Motion agreed.

Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Welsh Liberal Democrats Debate

Cynnig o Ddiffyg Hyder
Motion of No Confidence

Cynnig NDM5043 Aled Roberts, William Graham a Jocelyn Davies

Nid oes gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru hyder yn y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Motion NDM5043 Aled Roberts, William Graham and Jocelyn Davies

The National Assembly for Wales has no confidence in the Minister for Health and Social Services.

Elin Jones: I move the motion.

Elin Jones: Cynigiaf y cynnig.

This afternoon, we will vote on whether this Assembly has confidence in the Minister for Health and Social Services. The NHS is experiencing unprecedented financial pressures and is about to embark on a period of consultation on the major reconfiguration of services. It is a perfect storm—a clash of the short-term pressures and the long-term changes—and it is happening now, this summer, on this Minister's watch.

Y prynhawn yma, byddwn yn pleidleisio ynghylch a oes gan y Cynulliad hwn hyder yn y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r GIG yn wynebu pwysau ariannol nas gwelwyd o'r blaen, ac mae ar fin dechrau ar gyfnod o ymgynghori ynghylch ad-drefnu gwasanaethau'n sylweddol. Mae'n storm berffaith—pwysau byrdymor a newidiadau hirdymor yn gwrthdaro â'i gilydd—ac mae'n digwydd yn awr, yr haf hwn, yn ystod tymor y Gweinidog dan sylw wrth y llyw.

As we speak, health boards are nervously discussing how they can take measures now to reduce services and to cut staff, wards and even community hospitals in order to remain within their budgets. At the same time, the health boards are also finalising their plans

Wrth inni siarad, mae byrddau iechyd yn trafod yn nerfus sut y gallant gymryd camau'n awr i gwtogi gwasanaethau a chael gwared ar staff, wardiau a hyd yn oed ysbytai cymunedol er mwyn peidio â gorwario. Ar yr un pryd, mae'r byrddau iechyd hefyd yn

for the reconfiguration of services, which will seek to centralise certain services away from some of our district general hospitals. The Minister has said, on many occasions, that difficult decisions will have to be made. Those decisions affect the services available to my constituents and to all Members' constituents.

cwblhau eu cynlluniau i ad-drefnu gwasanaethau, a fydd yn ceisio canoli rhai gwasanaethau i ffwrdd o rai o'n hysbytai cyffredinol dosbarth. Mae'r Gweinidog wedi dweud droeon y bydd yn rhaid gwneud penderfyniadau anodd. Bydd y penderfyniadau hynny'n effeithio ar y gwasanaethau sydd ar gael i'm hetholwyr i ac etholwyr pob un o'r Aelodau.

Transparency and honesty in taking such far-reaching decisions are fundamental. I may disagree with some of the decisions that will be taken, but I agree that the Minister has the democratic right to make those decisions. However, her part of the bargain is that she must be honest and accountable in her decision making. Many of us campaigned for our parliament in Wales, and we did not do so for Welsh Ministers to shy away from responsibility and accountability. Since last week's release of e-mail correspondence, that transparency of accountability has been called into question again. This matter has now moved beyond who said what to whom, or who typed what to whom; it is now fundamentally about the nature of the relationship between the Welsh Government, local health boards and the Welsh NHS Confederation in working with Marcus Longley to prepare 'The Case for Change'.

Mae tryloywder a gonestrwydd wrth wneud penderfyniadau mor bellgyrhaeddol yn hanfodol. Efallai y byddaf yn anghytuno â rhai o'r penderfyniadau a fydd yn cael eu gwneud, ond rwyf yn cytuno bod gan y Gweinidog yr hawl ddemocrataidd i wneud y penderfyniadau hynny. Fodd bynnag, ei rhan hi o'r fargen yw bod yn rhaid iddi fod yn onest ac yn atebol wrth wneud penderfyniadau. Ymgyrchodd llawer ohonom dros ein senedd yma yng Nghymru, ac ni wnaethom hynny er mwyn i Weinidogion Cymru osgoi cyfrifoldeb ac atebolrwydd. Ers i negeseuon e-bost gael eu cyhoeddi'r wythnos diwethaf, mae'r tryloywder hwnnw o ran atebolrwydd wedi cael ei amau unwaith eto. Mae'r mater hwn bellach wedi symud y tu hwnt i bwy a ddywedodd beth wrth bwy, neu bwy a anfonodd beth at bwy; mae a wnelo'n sylfaenol yn awr â natur y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru, byrddau iechyd lleol a Chonffederasiwn GIG Cymru wrth iddynt weithio gyda Marcus Longley i baratoi 'Y Ddadl dros Newid'.

We heard this morning in our committee, for the first time, that local health boards were publicly reporting to their boards that it was the Welsh Government that was working with Marcus Longley to prepare 'The Case for Change'. In complete contradiction, we heard Welsh Government officials state this morning that it was the LHB chief executives alone who were working with Marcus Longley on 'The Case for Change'. Both versions cannot be true. We also heard Marcus Longley this morning fail to recall who finally authorised and triggered the writing of the report. We still have not seen a contract or the terms of reference for the work, although £29,000 was paid for it.

Clywsom y bore yma yn ein pwyllgor, am y tro cyntaf, fod byrddau iechyd lleol yn dweud yn gyhoeddus wrth eu byrddau mai Llywodraeth Cymru oedd yn gweithio gyda Marcus Longley i baratoi 'Y Ddadl dros Newid'. Yn gwbl groes i hynny, clywsom swyddogion Llywodraeth Cymru yn datgan y bore yma mai prif weithredwyr byrddau iechyd lleol yn unig oedd yn gweithio gyda Marcus Longley ar 'Y Ddadl dros Newid'. Ni all y ddwy fersiwn fod yn wir. Yn ogystal, clywsom Marcus Longley y bore yma yn methu â dwyn i gof pwy a roddodd awdurdod terfynol i ysgrifennu'r adroddiad a phwy a ysgogodd y gwaith hwnnw. Nid ydym wedi gweld contract na chylch gorchwyl ar gyfer y gwaith o hyd, er bod £29,000 wedi'i dalu amdano.

In my opinion, all the evidence shows that

Yn fy marn i, mae'r holl dystiolaeth yn

the Welsh Government, local health boards and the Welsh NHS Confederation were all in this together. They were all, in one way or another, involved in working with Marcus Longley in commissioning and commenting on his report. After this morning, I have no doubt that Marcus Longley is wholly content that his conclusions are his own, and his academic credibility has never been a matter for me. He has a long-held thesis, and he sought evidence to back it; however, in some places, that evidence exists, and in others, it does not. This morning, he was honest about that.

dangos bod Llywodraeth Cymru, byrddau iechyd lleol a Chonffederasiwn GIG Cymru yn cydweithio. Roeddent i gyd, mewn rhyw fodd neu'i gilydd, wrthi'n gweithio gyda Marcus Longley wrth gomisiynu ei adroddiad a rhoi sylwadau arno. Ar ôl y bore yma, nid oes gennyf amheuaeth nad yw Marcus Longley yn hollol fodlon mai ei gasgliadau ef ei hun yw casgliadau'r adroddiad, ac nid yw ei hygrededd academaidd erioed wedi bod yn fater i mi. Mae ganddo ddamcaniaeth ers amser maith, a bu'n ceisio tystiolaeth i'w chefnogi; fodd bynnag, mae'r dystiolaeth yn bodoli mewn rhai mannau, ac nid yw'n bodoli mewn mannau eraill. Y bore yma, roedd yn onest ynghylch hynny.

What remains is the fact that the Minister is refusing, in face of all evidence to the contrary, to be up front and to admit that the Welsh Government, local health boards and the Welsh NHS Consideration were in this together in preparing the case for reconfiguration. There would be nothing wrong with that; it would be an entirely honest position to take and the Minister would be accountable to the Assembly for reconfiguration proposals. What is wrong is that the Minister continues to maintain that it is a credible position to present the Welsh Government, the LHB chief executives, the Welsh NHS Confederation and the Longley report as entirely independent of each other.

Erys y ffaith, yn wyneb yr holl dystiolaeth i'r gwrthwyneb, bod y Gweinidog yn gwrthod bod yn agored ac yn gwrthod cyfaddef bod Llywodraeth Cymru, byrddau iechyd lleol a Chonffederasiwn GIG Cymru yn cydweithio â'i gilydd wrth baratoi'r ddadl dros ad-drefnu. Ni fyddai dim o'i le ar hynny; byddai'n safbwynt hollol onest, a byddai'r Gweinidog yn atebol i'r Cynulliad am y cynigion ynghylch ad-drefnu. Yr hyn sydd o'i le yw bod y Gweinidog yn parhau i fynnu ei bod yn gredadwy honni bod Llywodraeth Cymru, prif weithredwyr byrddau iechyd lleol, Conffederasiwn GIG Cymru ac adroddiad Longley yn gwbl annibynnol ar ei gilydd.

Mae'n gwbl amlwg bellach y bu cydweithio rhwng y Llywodraeth, y byrddau iechyd a Marcus Longley ar yr achos dros newid. Pe bai'r Gweinidog ond yn cydnabod hynny, ni fyddai ei hygrededd yn destun dadl y prynhawn yma.

It is completely obvious now that there was collaboration between the Government, the health boards and Marcus Longley on the case for change. If the Minister would only acknowledge that, her credibility would not be the subject of debate this afternoon.

This morning, in the health committee, the Minister insisted on perpetuating the illusion that this is an independent report. Minister, the evidence is conclusive: this report is not independent of Government. Had you chosen to accept the true status of this report, then I would not now be making this speech and moving this motion. Minister, you may win the vote this afternoon, but you lost the argument this morning.

Y bore yma, yn y pwyllgor iechyd, mynnodd y Gweinidog barhau i roi'r argraff bod hwn yn adroddiad annibynnol. Weinidog, mae'r dystiolaeth yn bendant: nid yw'r adroddiad hwn yn annibynnol ar y Llywodraeth. Pe baech wedi dewis derbyn gwir statws yr adroddiad hwn, ni fyddwn yn traddodi'r araith hon yn awr ac yn cynnig y cynnig dan sylw. Weinidog, efallai y byddwch yn ennill y bleidlais y prynhawn yma, ond bu ichi golli'r ddadl y bore yma.

Mark Drakeford: This is a debate that ought not to be happening. It ought not to be

Mark Drakeford: Mae hon yn ddadl na ddylai fod yn digwydd. Ni ddylai fod yn

happening because it badly misrepresents the work carried out by the Minister for health and it threatens to do harm, rather than good, to the difficult business of bringing about the necessary reforms that face all those who work in and use the NHS in Wales every day. It is one thing to take to the airwaves to make fighting speeches, simplifying debates beyond the point where they bear any relationship to reality, but quite another to discharge the day in, day out responsibilities that Ministers shoulder, when the results of their actions last into the long term, not just for the lifetime of the latest press release.

digwydd am ei bod yn camliwio'r gwaith a wnaed gan y Gweinidog iechyd, ac am ei bod yn bygwth gwneud niwed yn hytrach na lles i'r busnes anodd o sicrhau'r diwygiadau angenrheidiol a wynebir gan bawb sy'n gweithio yn y GIG ac sy'n defnyddio'r GIG yng Nghymru bob dydd. Un peth yw mynd ar yr awyr i draddodi areithiau ymosodol a symleiddio dadleuon i bwynt lle nad ydynt yn perthyn mwyach i realiti, ond peth arall yw cyflawni'r cyfrifoldebau pob dydd y mae Gweinidogion yn eu hysgwyddo, pan fydd canlyniadau eu gweithredoedd yn ganlyniadau hirdymor sy'n para'n hwy nag oes y datganiad diweddaraf i'r wasg.

Behind today's debate lies a misunderstanding or a misrepresentation of the way in which research reports are produced and written. At today's health committee, Professor Marcus Longley provided a robust and wholly convincing account of the way in which he and his team went about the business of collating and analysing data before coming to their own independent conclusions.

Y tu ôl i'r ddadl hon heddiw y mae camddealltwriaeth neu gamddehongliad o'r modd y caiff adroddiadau ymchwil eu llunio a'u hysgrifennu. Yn y pwyllgor iechyd heddiw, rhoddodd yr Athro Marcus Longley ddisgrifiad cadarn a hollol argyhoeddiadol o'r modd yr aeth ef a'i dîm ati i gasglu a dadansoddi data cyn dod i'w casgliadau annibynnol eu hunain.

I am grateful to every member of the health committee for their contributions this morning. I hope that we went some way to bringing Professor Longley's ambition of a dispassionate and evidence-based discussion to our own proceedings. If we did, we may have gone some way to assuaging the real sense of despair out there in the NHS at what has happened over the last week, and the massive distraction that it represents to the real challenges that they know that we all face. These are issues that the Minister cannot ignore and which she has regularly rehearsed in front of the Assembly.

Rwyf yn ddiolchgar i bob aelod o'r pwyllgor iechyd am eu cyfraniadau y bore yma. Rwyf yn gobeithio inni wneud rhywfaint i weithredu uchelgais yr Athro Longley, sef cael trafodaeth ddiduedd sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn ein trafodion ein hunain. Os gwnaethom hynny, efallai ein bod wedi gwneud rhywfaint i leddfu'r ymdeimlad gwirioneddol o anobaith yn y GIG ynghylch yr hyn sydd wedi digwydd dros yr wythnos diwethaf ac ynghylch y modd y mae'n tynnu sylw i raddau helaeth oddi ar yr heriau go iawn y maent yn gwybod ein bod i gyd yn eu hwynebu. Mae'r rhain yn faterion na all y Gweinidog eu hanwybyddu ac yn faterion y mae wedi eu hailadrodd yn rheolaidd gerbron y Cynulliad.

In many ways, the most striking thing about the Longley report is that is says so little that is really new. It brings up to date a set of factors that have been gathering force over the last decade: the impact of demography, the changing nature of medical technology and the pressures on recruitment and retention of key clinical staff. Members will have read recently of the sad and early death of Derek Wanless. Those of us who met him

Mewn sawl ffordd, y peth mwyaf trawiadol ynghylch adroddiad Longley yw'r ffaith nad yw'n dweud fawr ddim sy'n wirioneddol newydd. Mae'n diweddaru set o ffactorau sydd wedi bod yn magu momentwm dros y degawd diwethaf: effaith demograffeg, technoleg feddygol sy'n newid, a'r pwysau o ran recriwtio a chadw staff clinigol allweddol. Bydd yr Aelodau wedi darllen yn ddiweddar am farwolaeth drist a chynnar

at the time when he was commissioned to prepare his report in the first Assembly term, and might even have corresponded occasionally by e-mail with his team, will recognise how much of his gathering analysis is there in the Longley report. The policy of the present Minister is shaped by just that recognition, only now it is made sharper by the extra urgency that the clinical data set out in the Longley report brings.

Derek Wanless. Bydd y rhai hynny ohonom a gyfarfu ag ef pan gafodd ei gomisiynu i baratoi ei adroddiad yn ystod tymor cyntaf y Cynulliad, ac a fu, efallai, hyd yn oed yn gohebu â'i dîm o bryd i'w gilydd drwy e-bost, yn cydnabod faint o'i ddadansoddiad terfynol sydd yn adroddiad Longley. Mae polisi'r Gweinidog presennol wedi ei ffurfio gan yr union gydnabyddiaeth honno, ond erbyn hyn mae'n gliriach oherwydd y brys ychwanegol sy'n deillio o'r data clinigol a nodir yn adroddiad Longley.

5.15 p.m.

The choice for the Welsh NHS is simple. It can take the road advocated by those who believe that 'Hands off our health service' is a sufficient slogan for the future, but that way lies only an accelerating decline. Behind the facade, the actual service will be crumbling away in an unplannable and unmanageable fashion. If that is not the future we want, then we have to be prepared to engage constructively with the process of change that the Minister has set in motion. Of course, it does not mean agreeing with everything that that process produces, nor does it mean being uncritical of the process itself, where it needs to be improved. However, it does mean a willingness to set aside a reflex reach for opposition for opposition's sake and to set aside approaches that seek to exploit public anxiety about change rather than to harness the enormous commitment that people have in Wales as an asset in shaping its future.

Mae'r dewis ar gyfer y GIG yng Nghymru yn syml. Gall gymryd y llwybr a ffefrir gan y sawl sy'n credu bod 'Gadewch lonydd i'n gwasanaeth iechyd' yn slogan digonol ar gyfer y dyfodol, ond dim ond dirywiad cynyddol a ddaw o ddilyn y llwybr hwnnw. Y tu ôl i'r ffasâd, bydd y gwasanaeth gwirioneddol yn dadfeilio mewn modd na ellir ei gynllunio na'i reoli. Os nad dyna'r dyfodol yr ydym am ei gael, rhaid inni fod yn barod i ymgysylltu'n adeiladol â'r broses o newid, y mae'r Gweinidog wedi ei dechrau. Wrth gwrs, nid yw hynny'n golygu cytuno â phopeth a gynhyrchir gan y broses honno, ac nid yw chwaith yn golygu peidio â beirniadu'r broses ei hun, os oes angen ei gwella. Fodd bynnag, mae'n golygu parodrwydd i beidio â gwrthwynebu'n reddfol er mwyn gwrthwynebu, a pheidio â mabwysiadu dulliau gweithredu sy'n ceisio manteisio ar bryder y cyhoedd ynghylch newid yn hytrach na manteisio ar ymrwymiad enfawr pobl Cymru a'i ddefnyddio fel caffaeliad wrth lunio dyfodol y GIG.

The Minister has provided an opportunity to do exactly that. She deserved better than the tawdry attack on her today. Patients in Wales deserved a better debate than opposition parties have chosen to bring forward. The NHS deserves, and has, a Minister who is passionate about a public service NHS, who is determined that, here in Wales at least, we will have and will go on creating a national health service that is true to its founding principles—principles that were laid down by a Welsh Labour Minister 70 years ago. On this side of the Chamber, Minister, we know that you stand proud and tall in that great tradition, and we will be proud, in turn, to

Mae'r Gweinidog wedi rhoi cyfle i wneud yr union beth hwnnw. Roedd yn haeddu gwell na'r ymosodiad di-chwaeth arni heddiw. Roedd cleifion yng Nghymru yn haeddu dadl well na'r un y mae'r gwrthbleidiau wedi dewis ei chyflwyno. Mae'r GIG yn haeddu Gweinidog, ac mae ganddo Weinidog, sy'n credu'n gryf mewn GIG sy'n wasanaeth cyhoeddus, ac sy'n benderfynol o sicrhau y bydd gennym ac y byddwn yn parhau i greu, yma yng Nghymru o leiaf, wasanaeth iechyd gwladol sy'n driw i'w egwyddorion sylfaenol—egwyddorion a osodwyd gan un o Weinidogion Llafur Cymru 70 mlynedd yn ôl. Yr ochr hon i'r Siambr, Weinidog, rydym

cast our votes to support you this afternoon.

yn gwybod eich bod yn falch o berthyn i'r traddodiad gwych hwnnw, a byddwn ninnau yn ein tro'n falch o fwrw ein pleidlais i'ch cefnogi y prynhawn yma.

Peter Black: In speaking in favour of this motion, I think that there are two particular points of principle that we need to understand. The first is that, when the Minister comes to the Chamber and says that a report is independent, we expect it to be independent. The second is that, irrespective of what the Minister herself did, she is responsible for the action of her civil servants, and, if her civil servants take actions, whether or not she knew about them, she is responsible to the Chamber for what they did and how they went about doing it. This report clearly had the involvement of civil servants in its drafting and its general direction. As a result, the civil servants had an influence and the Minister is therefore responsible for what they did as part of that.

Peter Black: Wrth siarad o blaid y cynnig hwn, credaf fod dau bwynt penodol o ran egwyddor y mae angen inni eu deall. Y pwynt cyntaf yw, pan fydd y Gweinidog yn dod i'r Siambr ac yn dweud bod adroddiad yn annibynnol, ein bod yn disgwyl iddo fod yn annibynnol. Yr ail bwynt yw, ni waeth beth a wnaeth y Gweinidog ei hun, hi sy'n gyfrifol am weithredoedd ei gweision sifil, ac, os yw ei gweision sifil yn cymryd camau gweithredu, p'un a oedd yn gwybod amdanynt ai peidio, mae'n atebol i'r Siambr am yr hyn a wnaethant a'r modd yr aethant ati. Mae'n amlwg bod gweision sifil wedi bod yn ymwneud â drafftio'r adroddiad hwn a phennu ei gyfeiriad cyffredinol. O ganlyniad, dylanwadodd gweision sifil arno ac mae'r Gweinidog, felly, yn gyfrifol am yr hyn a wnaethant o ran hynny.

However, the issue of substance in this debate—because this is not just a matter of process or of opposition, which the previous speaker talked about—is that this report has been put to us as the basis for the reconfiguration of the national health service in Wales. The previous speaker talked about exploiting public anxiety about reconfiguration. The report was commissioned to assuage public anxiety about reconfiguration and was put forward as independent for that reason. We were told that it was an independent report so that the public could see that the issues within it—I am not trying to criticise the report here—were an independent view on why we needed to deal with the health service in a different way. When you then realise that the hands of civil servants were involved in drafting that report—a report that was not commissioned by the Welsh Government itself—then you can see that the independence of that report is not as it was put forward. I think that the public will also see that the basis on which the reconfiguration is being put forward by the Minister and the report itself is the report of the Minister and not necessarily of the independent academic who was commissioned to undertake it. That is the issue of substance that we have to address as

Fodd bynnag, y mater o bwys yn y ddadl hon—oherwydd nid mater o broses neu o wrthwynebu'n unig mohono, y soniodd y siaradwr blaenorol amdano—yw bod yr adroddiad hwn wedi ei gyflwyno inni fel sylfaen ar gyfer ad-drefnu'r gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru. Soniodd y siaradwr blaenorol am fanteisio ar bryder y cyhoedd ynghylch ad-drefnu. Comisiynwyd yr adroddiad er mwyn lleddfu pryder y cyhoedd ynghylch ad-drefnu, a chafodd ei gyflwyno fel adroddiad annibynnol am y rheswm hwnnw. Dywedwyd wrthym ei fod yn adroddiad annibynnol fel y gallai'r cyhoedd weld bod y materion a oedd ynddo—nid wyf yn ceisio beirniadu'r adroddiad yn y fan hon—yn farn annibynnol ynghylch pam yr oedd angen inni ymdrin â'r gwasanaeth iechyd mewn ffordd wahanol. Yna, wrth sylweddoli wedyn bod gweision sifil wedi bod yn ymwneud â drafftio'r adroddiad hwnnw—adroddiad nas comisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ei hun—gallwch weld nad yw'r adroddiad mor annibynnol ag a honnwyd. Rwyf yn credu y bydd y cyhoedd hefyd yn gweld mai'r Gweinidog sy'n cyflwyno'r sylfaen ar gyfer ad-drefnu, ac mai adroddiad y Gweinidog yw'r adroddiad, ac nad yw o reidrwydd yn adroddiad academydd annibynnol a

part of this debate.

gomisiynwyd i ymgymryd ag ef. Dyna'r mater o bwys y mae'n rhaid inni roi sylw iddo'n rhan o'r ddadl hon.

David Rees: You heard this morning, as I did, that Marcus Longley's position on this is that he claims that it is independent. You should know—although perhaps you do not—that an academic's reputation is important to their position; the reputation that they build up for independent research and the rigour that they apply is a principal factor in that. Therefore, independence is critical. Do you also agree that the recently announced issues relating to Neath Port Talbot Hospital, which you know about, highlight the fact that the report is accurate, because there is a need to look at the dangers that arise as a consequence of shortages?

David Rees: Clywsoch y bore yma, fel y clywais innau, mai safbwynt Marcus Longley ar y mater yw ei fod yn honni ei fod yn annibynnol. Dylech wybod—er efallai nad ydych yn gwybod—bod enw da academydd yn bwysig i'w swydd; mae'r enw da y mae'n ei feithrin o fod yn ymchwilydd annibynnol a thrylwyr yn un o'r prif ffactorau o ran hynny. Felly, mae annibyniaeth yn hollbwysig. A ydych hefyd yn cytuno bod y problemau a gyhoeddwyd yn ddiweddar ynghylch Ysbyty Castell-nedd Port Talbot, y gwyddoch amdanynt, yn tynnu sylw at y ffaith bod yr adroddiad yn gywir, oherwydd mae angen edrych ar y peryglon sy'n codi o ganlyniad i brinder?

Peter Black: This is not about Neath Port Talbot Hospital. The issues there, after all, are to do with a shortage of doctors in a particular part of that health service. I listened to Marcus Longley's evidence this morning, before I went to my own committee, and I was not convinced at all by that evidence, particularly when he talked about the e-mails that he sent to civil servants—[*Interruption.*]

Peter Black: Nid oes a wnelo hyn ag Ysbyty Castell-nedd Port Talbot. Wedi'r cyfan, mae a wnelo'r problemau sydd yno â phrinder meddygon mewn rhan benodol o'r gwasanaeth iechyd hwnnw. Gwrandewais ar dystiolaeth Marcus Longley y bore yma, cyn imi fynd i'm pwyllgor fy hun, ac ni chefais fy argyhoeddi o gwbl gan y dystiolaeth honno, yn enwedig pan soniodd am y negeseuon e-bost a anfonodd at weision sifil—[*Torri ar draws.*]

The Presiding Officer: Order. Can Members settle down, please?

Y Llywydd: Trefn. A all yr Aelodau ymdawelu, os gwelwch yn dda?

Peter Black: If this report is the work of an academic who has been carefully crafting it, why is he throwing off very poorly-phrased e-mails that lead to questions over whether he is acting independently in that report?

Peter Black: Os yw'r adroddiad hwn yn waith academydd sydd wedi bod wrthi'n ofalus yn ei lunio, pam y mae'n llunio negeseuon e-bost wedi eu geirio'n wael sy'n arwain at gwestiynau ynghylch a yw'n gweithredu'n annibynnol yn yr adroddiad hwnnw?

The Minister has had two opportunities to respond to the very serious questions that Assembly Members have had, yet we are still no clearer as to the position regarding this report's independence. This morning, in committee, Dr Chris Jones avoided answering a direct question about his influencing of the report. In an e-mail, he quite clearly says:

Mae'r Gweinidog wedi cael dau gyfle i ymateb i'r cwestiynau difrifol iawn a oedd gan Aelodau'r Cynulliad, ond rydym yn dal yn y niwl o ran y sefyllfa ynghylch annibyniaeth yr adroddiad hwn. Y bore yma, yn y pwyllgor, osgôdd Dr Chris Jones ateb cwestiwn uniongyrchol am ei ddylanwad ef ar yr adroddiad. Mewn e-bost, dywed yn glir iawn:

'There was an excellent presentation on the

Cafwyd cyflwyniad ardderchog ar y

emergency response service covering the west of Scotland and a feeling that we need something similar in Wales. This is a positive new service that needs to go in.'

gwasanaeth ymateb i achosion brys ar gyfer gorllewin yr Alban, a theimlwyd bod angen rhywbeth tebyg yng Nghymru. Mae hwn yn wasanaeth newydd cadarnhaol y mae angen ei gynnwys.

By anyone's definition, saying 'it needs to go in' is influencing the report. We are not arguing about whether or not it should have gone in, but, given the very nature of his comments, this report cannot be classed as being independent of the Welsh Government. Can the Minister explain how that is the case? In her response to Elin Jones last week, the Minister said:

Byddai unrhyw un yn dadlau bod dweud 'mae angen ei gynnwys' yn dylanwadu ar yr adroddiad. Nid ydym yn dadlau ynghylch a ddylai fod wedi ei gynnwys ai peidio, ond, o ystyried union natur ei sylwadau, ni ellir ystyried bod yr adroddiad hwn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru. A all y Gweinidog esbonio sut y mae hynny'n wir? Yn ei hymateb i Elin Jones yr wythnos diwethaf, dywedodd y Gweinidog:

'The only role my officials had was in responding to specific requests from Professor Longley to aid his research. If those requests had not been made, the report would not have been balanced'.

'Yr unig rôl a oedd gan fy swyddogion oedd ymateb i geisiadau penodol gan yr Athro Longley i gynorthwyo ei waith ymchwil. Pe na wnaed y ceisiadau hynny, ni fyddai'r adroddiad wedi bod yn gytbwys'.

How would leaving out the personal views of a Government official about an ambulance service make it not balanced?

Sut y byddai hepgor barn bersonol un o swyddogion y Llywodraeth ynghylch gwasanaeth ambiwlans yn golygu na fyddai'r adroddiad yn gytbwys?

There is very little time to make the full case here, but there were a whole range of questions posed in the Health and Social Care Committee this morning that were not answered adequately by the officials or the Minister about the independence of this report. The content of the report is a different issue, but the question is: was Marcus Longley, in writing it, in writing those e-mails and in receiving the response of civil servants, influenced by those e-mails, was he seeking direction, and was direction given? The view of the opposition is that that is the case and, because that direction was given, the substance of this report is open to question and the substance of the reconfiguration addressed in that report is also open to question.

Ychydig iawn o amser sydd i gyflwyno'r achos llawn yma, ond cafodd ystod eang o gwestiynau eu gofyn am annibyniaeth yr adroddiad hwn yn y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y bore yma, na chawsant eu hateb yn ddigonol gan y swyddogion na'r Gweinidog. Mae cynnwys yr adroddiad yn fater gwahanol, ond y cwestiwn yw hwn: a oedd Marcus Longley, wrth ysgrifennu'r adroddiad, wrth ysgrifennu'r negeseuon e-bost ac wrth gael ymateb gan weision sifil, wedi ei ddylanwadu gan y negeseuon e-bost hynny; a oedd yn ceisio cyfarwyddyd, ac a roddwyd cyfarwyddyd? Barn yr wrthblaid yw mai dyna a ddigwyddodd, ac oherwydd bod y cyfarwyddyd hwnnw wedi ei roi, gellir amau sylwedd yr adroddiad hwn, a gellir amau sylwedd y gwaith ad-drefnu y mae'r adroddiad yn mynd i'r afael ag ef hefyd.

Darren Millar: The Welsh NHS is facing unprecedented challenges. In his report on NHS finances, which was published last week, the independent Auditor General for Wales said that NHS bodies need to manage cost and demand pressures in the order of £870 million to £1 billion between 2010 and

Darren Millar: Mae'r GIG yng Nghymru yn wynebu heriau nas gwelwyd o'r blaen. Yn ei adroddiad ar gyllid y GIG, a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf, dywedodd Archwilydd Cyffredinol Cymru, sy'n annibynnol, fod angen i gyrff y GIG reoli pwysau cost a galw o £870 miliwn i £1 biliwn rhwng 2010 a

2015. He told us that the health service faces a catch-22 situation because NHS services are unsustainable and need to be reconfigured, but that insufficient resources are available to invest in reorganising services.

2015. Dywedodd wrthym fod y gwasanaeth iechyd yn wynebu cyfyng-gyngor oherwydd bod gwasanaethau'r GIG yn anghynaliadwy a bod angen eu had-drefnu, ond nad oes adnoddau digonol ar gael i fuddsoddi mewn ad-drefnu gwasanaethau.

We face a summer of unrest about the future of hospital services across Wales, and it is at times like these that the people of Wales need a Minister at the helm of the health service who is competent, has her finger on the pulse, and is accountable for the decisions that lie ahead. However, the revelations of the past week provide yet further evidence that we have a Minister who does not have a grip on her department. If she does not have a grip on her own department, how can the people of Wales have any confidence that she has a grip on the wheel of the NHS, which needs strong leadership now more than ever?

Rydym yn wynebu haf o aflonyddwch ynghylch dyfodol gwasanaethau ysbytai ar draws Cymru, ac ar adegau fel hyn y mae ar bobl Cymru angen Gweinidog cymwys wrth y llyw yn y gwasanaeth iechyd, sy'n gwybod beth sy'n digwydd ac sy'n atebol am y penderfyniadau sydd i'w gwneud. Fodd bynnag, mae'r hyn a ddatgelwyd yr wythnos diwethaf yn darparu rhagor o dystiolaeth eto bod gennym Weinidog nad oes ganddi afael gadarn ar ei hadran. Os nad oes ganddi afael gadarn ar ei hadran ei hun, sut y gall pobl Cymru fod yn ffyddiog bod ganddi afael gadarn ar lyw y GIG, lle y mae angen arweinyddiaeth gref yn awr yn fwy nag erioed?

Mark Drakeford, in his audition for the post of Minister for health, said this: he said that this debate ought not to be happening. [*Laughter*.] He is absolutely right. If only the Minister had been honest and told the truth about the role of her officials in the development of Professor Longley's report, this debate would not be happening at all.

Yn ei glyweliad ar gyfer swydd y Gweinidog iechyd, dywedodd Mark Drakeford hyn: dywedodd na ddylai'r ddadl hon fod yn digwydd. [*Chwerthin.*] Mae yn llygad ei le. Pe bai'r Gweinidog wedi bod yn onest ac wedi dweud y gwir am rôl ei swyddogion wrth i adroddiad yr Athro Longley ddatblygu, ni fyddai'r ddadl hon yn digwydd o gwbl.

This morning, Professor Longley, Welsh Government officials and the Minister attended a meeting of the Health and Social Care Committee to discuss a report that the British Medical Association, an independent body, has described as discredited and

Y bore yma, mynychodd yr Athro Longley, swyddogion Llywodraeth Cymru a'r Gweinidog gyfarfod o'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i drafod adroddiad y mae Cymdeithas Feddygol Prydain, sy'n gorff annibynnol, wedi ei ddisgrifio fel adroddiad a danseiliwyd sy'n

'a cynical attempt to downgrade quality and access to services by manipulating the opinions of health professionals and the public'.

ymgais sinigaidd i israddio ansawdd gwasanaethau a mynediad i wasanaethau trwy ddylanwadu ar farn gweithwyr iechyd proffesiynol a'r cyhoedd.

I know—[*Interruption.*]

Gwn—[*Torri ar draws.*]

The Presiding Officer: Order.

Y Llywydd: Trefn.

Darren Millar: I know that the Government does not to want to hear these words, but it is important to make these points.

Darren Millar: Gwn nad yw'r Llywodraeth am glywed y geiriau hyn, ond mae'n bwysig gwneud y pwyntiau hyn.

The Presiding Officer: Order. Darren Millar

Y Llywydd: Trefn. Mae Darren Millar yn

is having to shout. He does not usually shout. Can we listen to him in some silence, please?

gorfod gweiddi. Nid yw'n gweiddi fel arfer. A allwn wrando arno mewn rhywfaint o ddistawrwydd, os gwelwch yn dda?

Darren Millar: The performance of Professor Longley and the Minister's officials at the committee this morning was unconvincing to say the least. No copy of the commissioning document was produced by Professor Longley, nor any copies of the draft report so that we could see the flow of information drawn into it as a result of the e-mail exchanges. Their performance failed to provide any credible evidence as to why the author of this so-called independent report was liaising cosily with Welsh Government officials to seek 'killer facts' and other evidence to sharpen up his report to support the case for change.

Darren Millar: Nid oedd perfformiad yr Athro Longley a swyddogion y Gweinidog yn y pwyllgor y bore yma yn argyhoeddi, a dweud y lleiaf. Ni chyflwynodd yr Athro Longley gopi o'r ddogfen gomisiynu nac unrhyw gopïau o'r adroddiad drafft, fel y gallem weld y wybodaeth a ychwanegwyd ato o ganlyniad i'r negeseuon e-bost a gyfnewidiwyd. Methodd eu perfformiad â darparu unrhyw dystiolaeth gredadwy ynghylch pam yr oedd awdur yr adroddiad hwn, yr honnir ei fod yn adroddiad annibynnol, mewn cysylltiad agos â swyddogion Llywodraeth Cymru i ofyn am ffeithiau diamheuol a thystiolaeth arall i roi min ar ei adroddiad er mwyn cefnogi'r ddadl dros newid.

There was no adequate explanation of why five local health boards record very clearly in papers that have been circulated on their websites and to board members that the Welsh Government was working with Professor Longley on the case for change. Nor was there a proper explanation of why the Welsh NHS Confederation was seeking a decision on 22 March from the Welsh Government on whether it could go ahead with a planned briefing for AMs. Why would the Welsh Government need to make a decision on whether a report should be produced for AMs on 28 March? Why should the Welsh Government be involved in that decision if this was an independent report? In interviews last week, the Minister herself acknowledged that the wording in some of the e-mails was 'clumsy'. She said that she was unaware at the time of her interview of whether officials had seen draft copies of Professor Longley's report, even though the e-mail trail clearly shows that that was the case. To be fair, this morning, in the committee, the Minister said that she could not possibly know what all 600 or so of her officials are typing in their e-mails. I accept that, but not to know what is in the e-mails that have been the subject of such public interest when you are just about to be interviewed on their contents is very alarming, and it suggests that she is not on top of her brief and adds to the air of crisis

Ni chafwyd unrhyw esboniad digonol ynghylch pam y mae pum bwrdd iechyd lleol yn cofnodi'n glir iawn, mewn papurau sydd wedi eu dosbarthu ar eu gwefannau ac i aelodau eu byrddau, bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Athro Longley ar y ddadl dros newid. Ni chafwyd esboniad priodol chwaith ynghylch pam yr oedd Conffederasiwn GIG Cymru yn gofyn am benderfyniad ar 22 Mawrth gan Lywodraeth Cymru ynghylch a allai fwrw ymlaen â sesiwn rhannu gwybodaeth ar gyfer Aelodau'r Cynulliad. Pam y byddai angen i Lywodraeth Cymru wneud penderfyniad ynghylch a ddylid llunio adroddiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad ar 28 Mawrth? Pam y dylai Llywodraeth Cymru fod yn rhan o'r penderfyniad hwnnw os oedd yr adroddiad hwn yn un annibynnol? Mewn cyfweliadau yr wythnos diwethaf, cydnabu'r Gweinidog ei hun fod geiriad rhai o'r negeseuon e-bost yn lletchwith. Dywedodd nad oedd yn gwybod adeg ei chyfweliad a oedd swyddogion wedi gweld copïau drafft o adroddiad yr Athro Longley ai peidio, er bod y llwybr negeseuon e-bost yn dangos yn glir bod hynny'n wir. A bod yn deg, y bore yma, yn y pwyllgor, dywedodd y Gweinidog nad oedd yn bosibl iddi wybod beth y mae pob un o'i oddeutu 600 o swyddogion yn ei deipio yn eu negeseuon e-bost. Rwyf yn derbyn hynny, ond mae methu â gwybod beth sydd yn y negeseuon e-bost sydd wedi bod yn

and doubt about her future.

destun cymaint o ddiddordeb ymhlith y cyhoedd, ychydig cyn ichi gael eich cyfweld ynghylch eu cynnwys, yn peri pryder enbyd. Mae'n awgrymu nad oes ganddi afael gadarn ar ei brîff, ac mae'n ychwanegu at yr ymdeimlad o argyfwng ac amheuaeth ynghylch ei dyfodol.

The fact of the matter is that Wales has a Minister for health who, since her appointment last year, has been passing the buck by blaming local health boards for unpopular decisions while seeking to take credit for good news. She has established a national clinical forum to provide her with a human shield against some of the unpopular decisions that may lie ahead. Last year, she told us that there would be no bailouts for the NHS and then provided bailouts to the NHS. Just weeks ago, she issued gagging orders to community health council members, the very bodies charged with being an independent voice for patients. She said that there would be no downgrading of district general hospitals, but Neath Port Talbot Hospital has been downgraded. Based on this record, based on the revelations last week—

Y ffaith amdani yw bod gan Gymru Weinidog iechyd sydd, ers iddi gael ei phenodi y llynedd, wedi bod yn bwrw'r cyfrifoldeb ar eraill gan feio byrddau iechyd lleol am benderfyniadau amhoblogaidd ond gan geisio cymryd y clod am newyddion da. Mae wedi sefydlu fforwm clinigol cenedlaethol fel tarian ddynol i'w hamddiffyn rhag rhai o'r penderfyniadau amhoblogaidd a allai fod o'n blaen. Y llynedd, dywedodd wrthym na fyddai neb yn achub croen y GIG, ac yna achubodd groen y GIG. Rai wythnosau'n unig yn ôl, cafodd aelodau cynghorau iechyd cymuned eu gorchymyn ganddi i fod yn dawel, sef aelodau'r union gyrff sy'n gyfrifol am fod yn llais annibynnol i gleifion. Dywedodd na fyddai ysbytai cyffredinol dosbarth yn cael eu hisraddio o gwbl, ond mae Ysbyty Castell-nedd Port Talbot wedi ei israddio. Ar sail yr hanes hwn, ar sail yr hyn a ddatgelwyd yr wythnos diwethaf—

The Presiding Officer: Order. Time is up.

Y Llywydd: Trefn. Mae eich amser wedi dod i ben.

Darren Millar: —there is no way the Minister for health can be in charge of her department. We need an honest debate, a transparent debate about the future—[*Interruption*.]

Darren Millar: —ni all y Gweinidog iechyd fod â gofal am ei hadran. Mae arnom angen dadl onest, dadl dryloyw ynghylch y dyfodol—[*Torri ar draws.*]

The Presiding Officer: Order.

Y Llywydd: Trefn.

Darren Millar: I urge people to replace this Minister with someone who can get a grip on their department.

Darren Millar: Rwyf yn annog pobl i benodi rhywun yn lle'r Gweinidog dan sylw—rhywun a all gymryd gafael gadarn ar yr adran.

Simon Thomas: Mae'r ddadl heddiw yn mynd i'r afael â'r ffordd y mae'r Llywodraeth hon wedi cefnu ar ei haddewidion iechyd ac mae'n mynd at galon y ffordd y mae'r Llywodraeth hon wedi methu â rhoi arweiniad cytbwys a theg mae modd credu ac ymddiried ynddo ym mhob rhan o Gymru. Mewn sawl ffordd, mae'n flin

Simon Thomas: Today's debate gets to grips with the way in which this Government has turned its back on its pledges on health and gets to the very nub of the way in which this Government has failed to provide balanced and fair leadership that is credible and trustworthy in all parts of Wales. In many ways, I am sorry that it is this Minister who is

gennyf mai'r Gweinidog hwn sydd o dan sylw yn y cynnig hwn. Rwyf yn siŵr ei bod hi yn ddiffuant yn ei dymuniad i weld gwasanaeth iechyd cryf yng Nghymru, ond, yn anffodus, mae hi wedi bod yn gyfrwng methiant y Blaid Lafur i adeiladau achos cryf a chredadwy dros ailstrwythuro'r gwasanaeth iechyd.

the subject of today's motion. I am sure that she is sincere in her desire to see a robust health service in Wales, but, unfortunately, she has been a vehicle for Labour's failure to build a strong and credible case for restructuring the health service.

Nid oes gennyf i na Phlaid Cymru unrhyw beth personol yn ei herbyn, ond rydym wedi colli pob hyder yng ngallu ei phlaid i osod cyfeiriad ac ennill cefnogaeth i'w cynulluniau. Mae'r ffordd y bu'r Llywodraeth yn sbinio a gorwerthu—dyna a ddigwyddodd—adroddiad yr Athro Longley yn enghraifft berffaith o hyn. Dyma adroddiad a ddywedwyd oedd yn niwtral ac yn annibynnol. Rydym yn awr yn gwybod mai dadlau'r achos cenedlaethol dros newid ydoedd. Dyna'r union eiriau yn y papur cyntaf oedd yn gosod cywair yr adroddiad hwn. Dadlau'r achos cenedlaethol dros newid: dyna oedd bwriad yr adroddiad. Ymhellach, gwn ei fod wedi'i gomisiynu gan saith prif weithredwr y byrddau iechyd ac ar sail papur trafod gan yr awdur ei hun. Nid oedd llythyr *remit*—nid oedd cylch gorchwyl i'r gwaith hwn. Dyna rywbeth sydd yn hynod anarferol yn fy mhrofiad i—mewn unrhyw faes, heb sôn am faes academaidd.

Neither I nor Plaid Cymru has anything personal against her, but we have lost all confidence in the ability of her party to set a direction and gain support for her plans. The way in which the Government has been spinning and overselling—that is what happened—the report of Professor Longley is a perfect example of this. This is a report that we were told was neutral and independent. We now know that it was arguing the national case for change. That was the exact wording in the first paper that set the tone for this report. Arguing the national case for change: that was the aim of this report. Further, we know that it was commissioned by the seven chief executives of the health boards and on the basis of a discussion paper by the author himself. There was no remit letter—there were no terms of reference for this work. That is something very unusual in my experience—in any area, let alone the world of academia.

Dyma felly adroddiad y gwasanaeth iechyd yng Nghymru, o'r Llywodraeth i lawr i fyrddau iechyd, i bob pwrpas. Nid oes dim byd yn bod â hynny, ond nid adroddiad annibynnol ydyw.

Therefore, this is a report of the health service in Wales, from the Government down to the health boards, to all intents and purposes. There is nothing wrong with that, but it is not an independent report.

The Welsh Government's handling of this report is the catalyst that has brought us to this motion today. However, it is only a small part of a bigger picture. Looking back to the spring, before the Welsh general election, Labour, from the Member for Llanelli to the First Minister himself, said time and again that Plaid Cymru was lying when we said then that there were plans to downgrade our district general hospitals. We were told that we were lying.

Yr hyn sydd wedi ysgogi'r cynnig hwn heddiw yw'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'r adroddiad dan sylw. Fodd bynnag, rhan fechan yn unig ydyw o ddarlun ehangach. O edrych yn ôl i'r gwanwyn, cyn etholiad cyffredinol Cymru, dywedodd y Blaid Lafur dro ar ôl tro, o'r Aelod dros Lanelli i'r Prif Weinidog ei hun, fod Plaid Cymru yn dweud celwydd pan fu inni ddatgan bryd hynny bod cynlluniau i israddio ein hysbytai cyffredinol dosbarth. Dywedwyd wrthym ein bod yn dweud celwydd.

5.30 p.m.

Since then, we have seen services withdrawn

Ers hynny, rydym wedi gweld

from several hospitals, as has already been mentioned in this debate. We have seen minor injuries units closed without notice or warning. The only mid Wales mental health ward closed two weeks ago without notice or warning. Patients have been discharged at midnight and in the early hours of the morning in Glangwili hospital.

gwasanaethau'n cael eu tynnu'n ôl o nifer o ysbytai, fel y soniwyd eisoes yn y ddadl hon. Rydym wedi gweld unedau mân anafiadau'n cael eu cau'n ddirybudd. Cafodd yr unig ward iechyd meddwl yn y canolbarth ei chau'n ddirybudd bythefnos yn ôl. Mae cleifion wedi bod yn cael eu rhyddhau am hanner nos ac yn ystod oriau mân y bore yn ysbyty Glangwili.

Prince Philip Hospital in Llanelli is perhaps the most striking signal example of the direction of travel. It turns out that the accident and emergency department at that site, signposted 'accident and emergency', is not an accident and emergency department at all but a glorified GP surgery. As one person said to me, 'It's where you go for a doctor to tell you that you need an ambulance'. A surgical ward, ward 5, at Prince Philip is slated for closure, something that the local Member has called a 'dark cloud' hanging over the health service. So deep is the mistrust in Hywel Dda health board's proposals and in the Minister's leadership that local councillors in Llanelli have been demanding a vote of no confidence. Today we have that vote and an opportunity for the local Member to show his colours.

Efallai mai Ysbyty'r Tywysog Philip yn Llanelli yw'r enghraifft unigol fwyaf trawiadol o'r cyfeiriad yr eir iddo. Ymddengys nad yw'r adran damweiniau ac achosion brys ar y safle hwnnw, y mae pob arwydd ar ei chyfer yn nodi ei bod yn adran damweiniau ac achosion brys, yn ddim byd gwell na meddygfa. Fel y dywedodd un unigolyn wrthyf, 'Rydych yn mynd yno i weld meddyg a fydd yn dweud wrthych bod angen ambiwlans arnoch'. Bwriedir cau ward lawfeddygol, sef ward 5, yn Ysbyty'r Tywysog Philip, sy'n rhywbeth y mae'r Aelod lleol wedi ei ddisgrifio fel cwmwl tywyll dros y gwasanaeth iechyd. Mae'r diffyg ymddiriedaeth yng nghynigion bwrdd iechyd Hywel Dda ac yn arweinyddiaeth y Gweinidog mor ddwfn nes bod cynghorwyr lleol yn Llanelli wedi bod yn galw am bleidlais o ddiffyg hyder. Heddiw, mae gennym y bleidlais honno a chyfle i'r Aelod lleol ddangos ei ochr.

This mistrust and lack of confidence is reflected in many parts of Wales, although it is fair to note that some boards consulted in a much fairer way with their local public. However, if we are to achieve any consensus or an agreement of any sort on hospital reconfiguration in Wales, the debate needs to be conducted in complete openness and honesty. Engagement exercises that hide the real agenda do not help. Reports being touted as neutral when the fingerprints of the Welsh Government are all over them do not help. The sudden, unconsulted-upon closures of wards and withdrawal of services do not help. Saying that you do not want to hear about downgrading when the public clearly believes that that is what is happening in local district general hospitals does not help either. That is why we are today saying to the Minister that we do not think that her continued stewardship helps to build that consensus. We cannot force her resignation,

Mae'r diffyg ymddiriedaeth a'r diffyg hyder hwn i'w weld mewn sawl rhan o Gymru, er ei bod yn deg nodi bod rhai byrddau wedi ymgynghori mewn ffordd decach o lawer â'r cyhoedd sy'n byw yn eu hardaloedd lleol. Fodd bynnag, os ydym am sicrhau unrhyw fath o gonsensws neu gytundeb ynghylch ad-drefnu ysbytai yng Nghymru, mae angen i'r ddadl gael ei chynnal yn hollol agored a gonest. Nid yw ymarferion ymgysylltu sy'n cuddio'r agenda go iawn o gymorth. Nid yw adroddiadau a gaiff eu hyrwyddo fel adroddiadau niwtral, pan fo olion bysedd Llywodraeth Cymru drostynt i gyd, o gymorth. Nid yw achosion o gau wardiau a thynnu gwasanaethau'n ôl yn sydyn heb ymgynghori o gymorth. Nid yw dweud nad ydych am glywed sôn am israddio pan fo'r cyhoedd yn amlwg o'r farn mai dyna sy'n digwydd mewn ysbytai cyffredinol dosbarth lleol o gymorth chwaith. Dyna pam yr ydym yn dweud wrth y Gweinidog heddiw nad

but I hope that the Welsh Government and the Minister will use the recess to rethink, re-evaluate and review their leadership on this issue, because a clean slate would help.

ydym yn credu bod parhau â'i stiwardiaeth yn helpu i feithrin y consensws hwnnw. Ni allwn orfodi ei hymddiswyddiad, ond gobeithiaf y bydd Llywodraeth Cymru a'r Gweinidog yn defnyddio'r toriad i ailfeddwl, ailwerthuso ac adolygu eu harweiniad ar y mater hwn, oherwydd byddai cael llechen lân o gymorth.

Lynne Neagle: There is no doubt that this has been a difficult time for everyone involved, and there are lessons that we can learn from this for the future. Despite all the mudslinging conspiracy theories, I have heard nothing over the last week or in the Health and Social Care Committee meeting this morning that suggests any kind of sinister collusion or, more importantly, that undermines the basic message of the Longley report, 'Together for Health' or the general direction of travel in the NHS in Wales that has been forged by the Minister for health in recent months.

Lynne Neagle: Nid oes amheuaeth nad yw hwn wedi bod yn gyfnod anodd i bawb dan sylw, ac mae gwersi y gallwn eu dysgu o hyn ar gyfer y dyfodol. Er gwaethaf yr holl ddamcaniaethau enllibus ynghylch cynllwynio, nid wyf wedi clywed dim yn ystod yr wythnos diwethaf, nac yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y bore yma, sy'n awgrymu unrhyw fath o gydgynllwynio sinistr neu, yn bwysicach na hynny, sy'n tanseilio neges sylfaenol adroddiad Longley, 'Law yn Llaw at Iechyd', neu gyfeiriad cyffredinol y GIG yng Nghymru a bennwyd gan y Gweinidog iechyd yn ystod y misoedd diwethaf.

For me, there is something far more serious at stake here than who said what in an e-mail and to whom. Indeed, I am disappointed and, frankly, ashamed that, 13 years down the track of devolution in Wales, the big debate that we are having on the NHS is not how we respond to the extreme budgetary pressures handed down by the Tories at Westminster, is not the ageing population, the major public health challenges such as obesity and diabetes, or issues such as funding for cancer drugs. Instead, we have spent the best part of two weeks dancing around the head of a pin over a few e-mails between an academic and a Welsh Government bureaucrat, when we should have been getting down to the nitty-gritty of service configuration and the future shape of the NHS, which means so much to the people whom we represent. We can keep going around in circles on this issue in perpetuity, but it is becoming increasingly clear that the case for change is irrefutable, and it would be nothing short of a tragedy if that brutally honest conversation on the health service that we so badly need were stifled because of the events of the past two weeks.

I mi, mae rhywbeth mwy difrifol o lawer yn y fantol yn y fan hon na phwy a ddywedodd beth mewn e-bost ac wrth bwy. Yn wir, rwyf yn siomedig ac, a dweud y gwir, yn cywilyddio nad yw'r drafodaeth fawr yr ydym yn ei chael ynghylch y GIG, 13 blynedd ar ôl datganoli yng Nghymru, yn ymwneud â'r modd yr ydym am ymateb i'r pwysau cyllidebol eithafol a achoswyd gan y Torïaid yn San Steffan, y boblogaeth sy'n heneiddio, yr heriau mawr ym maes iechyd y cyhoedd, megis gordewdra a diabetes, neu faterion megis cyllid ar gyfer cyffuriau canser. Yn hytrach, rydym wedi treulio'r rhan fwyaf o bythefnos yn troi yn yr unfan gan ddadlau ynghylch ambell e-bost rhwng academydd ac un o fiwrocratiaid Llywodraeth Cymru, pan ddylem fod wedi bod yn mynd i'r afael o ddifrif â hanfodion ad-drefnu gwasanaethau a phennu ffurf y GIG yn y dyfodol, sy'n golygu cymaint i'r bobl yr ydym yn eu cynrychioli. Gallwn barhau am byth i droi mewn cylchoedd yng nghyswllt y mater hwn, ond mae'n dod yn fwyfwy amlwg bod y ddadl dros newid yn un na ellir ei gwrthwynebu, a byddai'n drasiedi pe bai'r drafodaeth greulon o onest am y gwasanaeth iechyd, y mae arnom ei hangen yn fawr, yn cael ei rhwystro oherwydd digwyddiadau'r pythefnos diwethaf.

To take one of the most serious and urgent challenges facing the NHS, we know that the Wales Deanery has been clear in stating that maintaining the status quo is not an option and that, without change, we could be looking at the collapse of some local services because of recruitment difficulties in such areas as A&E, paediatrics and mental health. Yet instead of discussing these fundamental issues, here we are yet again focusing on the tittle-tattle of the Cardiff bay bubble, absorbed with semantics and allowing ourselves to be distracted from what should be our core mission: safeguarding the NHS in Wales and putting it on a sustainable footing for the future.

O gymryd un o'r heriau mwyaf difrifol a thaer sy'n wynebu'r GIG, gwyddom fod Deoniaeth Cymru wedi datgan yn glir nad yw cynnal y sefyllfa sydd ohoni'n opsiwn ac y gallem, heb newid, weld rhai gwasanaethau lleol yn dod i ben oherwydd anawsterau recriwtio mewn meysydd megis damweiniau ac achosion brys, pediatreg ac iechyd meddwl. Ond yn hytrach na thrafod y materion sylfaenol hyn, dyma ni unwaith eto'n canolbwyntio ar glecs bae Caerdydd, yn ymgolli mewn semanteg ac yn caniatáu i'n sylw gael ei dynnu oddi ar yr hyn a ddylai fod yn genhadaeth graidd inni, sef diogelu'r GIG yng Nghymru a'i roi ar sail gynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

In May, in an unprecedented gathering, more than 200 clinicians from across Wales came together to discuss 'Together for Health', Professor Longley's report and the south Wales plan, which could represent the most important strategic blueprint our NHS has seen for a generation. The priorities that they discussed should be our priorities too: driving up outcomes for patients, new models of service delivery that ensure that services are safe and sustainable for the future, and boosting pre-hospital care and using telemedicine more effectively.

Ym mis Mai, mewn cyfarfod nas gwelwyd ei debyg o'r blaen, daeth dros 200 o glinigwyr o bob cwr o Gymru at ei gilydd i drafod 'Law yn Llaw at Iechyd', adroddiad yr Athro Longley a chynllun de Cymru, sef y glasbrint strategol pwysicaf y mae ein GIG wedi ei weld efallai ers cenhedlaeth. Dylai'r blaenoriaethau y buont hwy'n eu trafod fod yn flaenoriaethau i ni hefyd, sef gwella canlyniadau i gleifion, cyflwyno modelau newydd ar gyfer darparu gwasanaethau, sy'n sicrhau bod gwasanaethau'n ddiogel ac yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol, a rhoi hwb i ofal cyn-ysbyty a defnyddio telefeddygaeth yn fwy effeithiol.

The fact is that clinicians are engaging with the substance of NHS transformation, yet all that we have had from opposition politicians is ill-judged and overblown outrage, and premature resignation calls that were rubbished by one of the few Welsh Conservatives who is worth listening to at all on health issues, namely Jonathan Morgan. I am not, for one moment, saying that these issues did not deserve an airing, and it was right that members of the Health and Social Care Committee had our opportunity this morning to ask searching questions of those involved. However, at the end of the day, it is now time to move on and prove the maturity of this institution by getting down to business, rolling our sleeves up, and engaging with the real battleground of the NHS in Wales today.

Y ffaith amdani yw bod clinigwyr yn ymgysylltu â'r materion o bwys sy'n ymwneud â thrawsnewid y GIG, ond y cyfan yr ydym wedi'i gael gan wleidyddion y gwrthbleidiau yw ymosodiad byrbwyll a gormodol, a galwadau cynamserol am ymddiswyddiad a gafodd eu dilorni gan un o'r ychydig Geidwadwyr Cymreig y mae'n werth gwrando arno o gwbl ynghylch materion sy'n ymwneud ag iechyd, sef Jonathan Morgan. Nid wyf, am eiliad, yn dweud nad oedd y materion hyn yn haeddu cael eu gwyntyllu, ac roedd yn iawn i aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol gael cyfle y bore yma i ofyn cwestiynau treiddgar i'r sawl dan sylw. Fodd bynnag, yn y pen draw, mae'n bryd symud ymlaen a phrofi aeddfedrwydd y sefydliad hwn trwy ddechrau gweithio o ddifrif, torchi ein llewys ac ymgysylltu â'r GIG yng Nghymru heddiw, sef maes gwirioneddol y

frwydr.

Surely, events over the border have served to crystallise the real choice that we face when it comes to the NHS in Wales. Either we can adopt the English Tory model—tearing the NHS apart, bit by bit, introducing a system of GP-led commissioning that no-one wants, slashing the wages of NHS staff, and allowing struggling trusts to wither on the vine and die—or we can follow the kind of road map that is set out in 'Together for Health'. For the opposition parties, this whole affair has provided a convenient distraction from the substance of the ongoing debate on the Welsh NHS. They have come together, not for the first time, and have tried and failed to paint a picture of a Government and an NHS that are pulling the wool over the eyes of the Welsh public. In truth, they are the ones who are not being honest. Eventually, the Tories, Plaid Cymru and the Welsh Liberal Democrats will have to nail their colours to the mast and set out their alternative vision for the NHS. They cannot duck these difficult issues forever, however hard they are trying at the moment. [*Applause.*]

Siawns nad yw digwyddiadau dros y ffin wedi crisialu'r dewis go iawn yr ydym yn ei wynebu o safbwynt y GIG yng Nghymru. Naill ai gallwn fabwysiadu model Torïaidd Lloegr—tynnu'r GIG yn ddarnau'n raddol gan gyflwyno system gomisiynu dan arweiniad meddygon teulu, nad oes neb am ei chael, torri cyflogau staff y GIG yn sylweddol, a chaniatáu i ymddiriedolaethau sydd mewn trafferthion wywo a marw—neu gallwn ddilyn y math o fap a gyflwynir yn 'Law yn Llaw at Iechyd'. I'r gwrthbleidiau, mae'r holl fater hwn wedi bod yn ddull cyfleus o dynnu sylw oddi ar y materion o bwys sy'n rhan o'r ddadl barhaus am y GIG yng Nghymru. Maent wedi dod at ei gilydd, nid am y tro cyntaf, ac wedi ceisio ac wedi methu â phaentio darlun o Lywodraeth a GIG sy'n taflu llwch i lygaid y cyhoedd yng Nghymru. Nhw sy'n anonest, mewn gwirionedd. Yn y pen draw, bydd y Torïaid, Plaid Cymru a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn gorfod datgan eu barn yn glir a nodi eu gweledigaeth amgen ar gyfer y GIG. Ni allant osgoi'r problemau anodd hyn am byth, ni waeth pa mor galed y maent yn ceisio gwneud hynny ar hyn o bryd. [*Cymeradwyaeth.*]

Paul Davies: Codaf i gymryd rhan yn y ddadl hon oherwydd mae angen arweinyddiaeth gadarn, gref ar y gwasanaeth iechyd, yn enwedig mewn cyfnod anodd iawn. Mae'n glir bod y gwasanaeth iechyd yn wynebu heriau nas gwelwyd o'r blaen. Mae fy etholwyr yn poeni'n fawr am ddyfodol gwasanaethau iechyd yn yr ardal yr wyf yn ei chynrychioli.

Paul Davies: I rise to participate in this debate because what the health service needs is need strong and robust leadership, particularly during such a difficult period. It is quite clear that the health service is facing challenges not seen before. My constituents are gravely concerned about the future of health services in the area that I represent.

Yn ei adroddiad ar gyllid yn y gwasanaeth iechyd a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf, dywedodd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn glir bod angen i'r gwasanaeth iechyd reoli costau hyd at swm o ryw £1 biliwn, er mwyn gallu cwrdd ag anghenion y gwasanaeth yn y dyfodol. Ar adegau fel hyn, mae pobl Cymru eisiau gweld Gweinidog wrth y llyw sy'n hollol gyfrifol am y gwasanaeth iechyd, Gweinidog sy'n gymwys, a Gweinidog sy'n atebol am y penderfyniadau y mae'n eu gwneud. Yn anffodus, gwelsom dystiolaeth yr wythnos diwethaf a awgrymodd fod gennym Weinidog nad oes ganddi afael ar ei

In his report on funding in the health service that was published last week, the Auditor General for Wales stated clearly that the health service needs to manage its costs up to the sum of £1 billion in order to meet the needs of the service for the future. At times like these, the people of Wales want to see a Minister in charge who is entirely responsible for the health service, a Minister who is competent, and a Minister who is accountable for the decisions that she makes. Unfortunately, we saw evidence last week that suggested that we have a Minister who does not have a firm grip on her department.

hadran. Os nad oes ganddi afael ar ei hadran, sut y gall pobl Cymru fod yn hyderus bod ganddi afael ar y gwasanaeth iechyd? Mae angen arweinyddiaeth gadarn, gref yn awr, yn fwy nag erioed o'r blaen.

If she does not have a firm grip on her department, how can the people of Wales have confidence that she has a grip on the health service? We need robust and strong leadership now, more than ever before.

Y bore yma, gwelsom yr Athro Marcus Longley, swyddogion Llywodraeth Cymru a'r Gweinidog yn ymddangos gerbron y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i drafod yr adroddiad y mae nifer, gan gynnwys Cymdeithas Feddygol Prydain, wedi'i feirniadu fel un nad yw bellach yn annibynnol. Y cwestiwn sylfaenol y mae'n rhaid i'r Gweinidog ei ateb yw pam y cafodd Lywodraeth Cymru ddrafft o'r adroddiad hwn cyn iddo gael ei gyhoeddi, yn enwedig gan gofio nad y Llywodraeth a gomisiynodd yr adroddiad yn y lle cyntaf? Wrth gwrs, byddai'n naturiol anfon unrhyw adroddiad drafft i'r sefydliad neu'r mudiad a'i comisiynodd. Fodd bynnag, yn yr achos hwn, nid y Llywodraeth oedd yn gyfrifol am gomisiynu'r adroddiad yn y lle cyntaf. Gobeithiaf y bydd y Gweinidog neu'r Prif Weinidog—pwy bynnag fydd yn ymateb i'r ddadl hon—yn cymryd y cyfle hwnnw i egluro'r mater hwn inni heddiw.

This morning, we saw Professor Marcus Longley, Welsh Government officials and the Minister appearing before the Health and Social Care Committee to discuss the report that so many, including the British Medical Association, have criticised as one that can no longer be hailed as independent. The fundamental question that the Minister has to answer is why the Welsh Government received a draft of this report before its publication, particularly bearing in mind that it was not the Government that commissioned it in the first place? Of course, it would be natural for a draft of any report to be sent to the organisation or institution that had commissioned it. However, in this case, it was not the Government that was responsible for the initial commissioning. I hope that the Minister or the First Minister—whoever responds to this debate—will take this opportunity to explain this discrepancy to us today.

Mae e-byst wedi mynd yn ôl ac ymlaen rhwng yr awdur a'r Llywodraeth sy'n dangos yn glir, yn fy marn i, fod y Llywodraeth wedi chwarae rhan allweddol wrth fframio'r adroddiad. Er enghraifft, nid oes esboniad priodol ynghylch pam y gofynnodd Cydffederasiwn y GIG am benderfyniad gan Lywodraeth Cymru ar 22 Mawrth ynghylch a fyddai modd iddo fwrw ymlaen â briffio Aelodau'r Cynulliad ar yr adroddiad a oedd, mae'n debyg, yn annibynnol ar y Llywodraeth. Nid oes esboniad priodol ychwaith o'r e-byst rhwng Dr Chris Jones ac awdur yr adroddiad, sy'n cynnwys Dr Jones yn awgrymu y dylai'r adroddiad gynnwys cyfeiriad at y modd y mae gwasanaeth argyfwng brys yn gweithio yng ngorllewin yr Alban. Y geiriau a ddefnyddiwyd oedd 'y dylai fynd i mewn'.

E-mails have gone back and forth between the author and the Government, and they clearly show, in my opinion, that the Government played a key role in framing the report. For example, there is no appropriate explanation for why the NHS Confederation was asking the Welsh Government on 22 March for a decision on whether it would be possible for it to proceed with briefing Assembly Members on the report, which was, apparently, independent of Government. There is no explanation either of the e-mails between Dr Chris Jones and the author of the report, which include Dr Jones suggesting that the report should include a reference to the way in which the emergency response service operates in the west of Scotland. The wording used was 'that needs to go in'.

Mae'n glir o'r e-bost hwnnw fod y Llywodraeth yn dylanwadu ar yr adroddiad. Roedd y Gweinidog ei hun mewn cyfweliadau'r wythnos diwethaf yn cydnabod bod geiriad rhai o'r negeseuon e-bost yn drwsgl¸ a dywedodd nad oedd yn ymwybodol

It is clear from that e-mail that the Government was influencing the report. The Minister herself in interviews last week acknowledged that the wording of some of the e-mails was 'clumsy', and she said that she was not aware at the time of her

adeg ei chyfweliad fod swyddogion wedi gweld copïau o adroddiad drafft yr Athro Longley, er bod yr e-bost yn dangos yn hollol glir mai dyna oedd yn wir. A bod yn deg, dywedodd y Gweinidog wrth y pwyllgor y bore yma nad oedd yn bosibl iddi wybod beth y mae ei 600 o swyddogion yn cynnwys yn eu negeseuon e-bost, ac rwy'n derbyn hynny. Fodd bynnag, mae peidio â gwybod beth sydd mewn negeseuon e-bost sydd wedi bod yn destun y fath ddiddordeb cyhoeddus a hithau ar fin cael ei chyfweld ynghylch eu cynnwys yn annerbyniol.

interview that officials had seen copies of Professor Longley's draft report, even though that e-mail demonstrated very clearly that that was the case. To be fair, the Minister told the committee this morning that she could not possibly know what her 600 officials include in their e-mail messages, and I accept that. However, not knowing what is contained in e-mail messages that have been the subject of such great public interest when she was about to be interviewed about their contents is unacceptable.

Yn anffodus, mae'n edrych yn fwyfwy clir fod gan Gymru Lywodraeth a Gweinidog iechyd sydd, ers ei phenodi y llynedd, yn ceisio taflu'r bai ar y byrddau iechyd lleol am benderfyniadau amhoblogaidd wrth geisio mynd â'r clod am y newyddion da. Gwelsom yn ddiweddar, mewn cynhadledd i aelodau cyngor iechyd cymuned, y Gweinidog yn dweud yn glir na allant byth wrthwynebu cynlluniau byrddau iechyd lleol a bod yn aelodau o gynghorau iechyd cymuned ar yr un pryd. Rhaid dweud bod hynny'n anghredadwy oherwydd, ar ddiwedd y dydd, y rhain yw'r cyrff sydd i fod i gynrychioli cleifion a rhoi llais iddynt a phobl leol. Mae angen iddynt gael siarad yn rhydd ac yn annibynnol.

Unfortunately, it appears ever more clearly that Wales has a Government and a Minister for health who, since her appointment last year, have been trying to pass the buck and blame unpopular decisions on the local health boards while trying to claim the credit for any good news. We have recently seen the Minister, in a conference for community health council members, stating clearly that they could never oppose the plans of local health boards while remaining members of community health councils. I have to say that that is incredible, because, at the end of the day, these are the bodies that are supposed to represent patients and give them and local people a voice. They need to be able to speak freely and independently.

Yn anffodus, oherwydd yr hyn a welsom yn yr wythnos ac yn wir y misoedd diwethaf, nid wyf yn credu bod gan fy etholwyr i a phobl Cymru hyder yn y Gweinidog iechyd. Mae consensws bod rhaid i'r gwasanaeth iechyd newid a bod angen ad-drefnu. Mae pob plaid yn cytuno hynny, ond mae angen trafodaeth agored a thryloyw â'r cyhoedd ynghylch dyfodol gwasanaethau iechyd, eu cynnwys yn y penderfyniadau ynghylch newid yn y gwasanaeth, a cheisio symud ymlaen gyda'u caniatâd. Ni allaf fod yn hyderus y gall hyn ddigwydd o dan y Gweinidog presennol, ac rwy'n annog Aelodau i gefnogi'r cynnig.

Unfortunately, because of what we have seen in the past week and indeed past months, I do not think that my constituents or the people of Wales have confidence in the Minister for health. There is consensus that the health service has to change and that reconfiguration is required. Every party agrees on that, but we need an open and transparent discussion with the public about the future of health services. We need to include them in decisions about changing the service, and try to move forward with their consent. I cannot be confident that that can happen under the stewardship of the current Minister, and I urge Members to support the motion.

Joyce Watson: It is not very often that I find myself agreeing with David Cameron—almost never, in fact—but he was right about one thing: too many tweets might make a—. [*Laughter*.] One or two Members in the Chamber today can, I think, attest to that. Modern technology allows us to

Joyce Watson: Nid wyf yn cytuno â David Cameron yn aml iawn—bron byth, a dweud y gwir—ond roedd yn iawn ynghylch un peth: gallai trydar gormod wneud rhywun yn—. [*Chwerthin*.] Rwyf yn credu y gallai un neu ddau o'r Aelodau yn y Siambr heddiw dystio i hynny. Mae technoleg fodern yn caniatáu

communicate more easily and more immediately with more people than ever before, but with easy access comes a certain informality, and this can give rise to these sorts of situations.

inni gyfathrebu'n haws ac yn fwy sydyn â mwy o bobl nag erioed o'r blaen, ond mae mynediad hawdd yn esgor ar anffurfioldeb, a gall hynny arwain at y mathau hyn o sefyllfaoedd.

Professor Longley said today that the term 'killer facts' referred to his request for information on clinical outcomes on how many people die in hospital or do not recover fully after being discharged. Would he have used the same phrase in a formal letter to officials? I do not think that he would have. We have all, I am sure, from time to time, had to check ourselves when dashing off e-mails to constituents and organisations. The real point is that, try as the opposition parties might, there are no killer facts here, just e-mails dashed off. Given that, some of the language that Professor Longley used was, I believe, overly casual.

Dywedodd yr Athro Longley heddiw fod yr ymadrodd 'ffeithiau diamheuol' yn cyfeirio at ei gais am wybodaeth ynghylch canlyniadau clinigol o safbwynt faint o bobl sy'n marw mewn ysbytai neu nad ydynt yn gwella'n llwyr ar ôl cael eu rhyddhau. A fyddai wedi defnyddio'r un ymadrodd mewn llythyr ffurfiol at swyddogion? Nid wyf yn credu y byddai. Rydym i gyd, rwyf yn siŵr, o bryd i'w gilydd, wedi gorfod pwyllo wrth lunio negeseuon e-bost sydyn at etholwyr a sefydliadau. Gall y gwrthbleidiau ymdrechu faint a fynnont, ond y pwynt yw nad oes ffeithiau diamheuol yma, dim ond negeseuon e-bost a anfonwyd yn sydyn. O ystyried hynny, rwyf o'r farn bod rhywfaint o'r iaith a ddefnyddiodd yr Athro Longley yn rhy anffurfiol.

Let us be clear: the opposition parties are scrabbling after scraps. They are being deliberately cynical and shameful just to score political points. The real killer fact is that every health board director in Wales has gone on record as fully supporting the content of Professor Longley's rigorous, balanced and independent report. That is what the Welsh public will really want to know, not this knockabout stuff here in Cardiff bay.

Gadewch inni fod yn glir: mae'r gwrthbleidiau'n crafu gwaelod y gasgen. Maent yn cymryd camau bwriadol i ymddwyn yn sinigaidd ac yn gywilyddus er mwyn sgorio pwyntiau gwleidyddol yn unig. Y ffaith ddiamheuol go iawn yw bod pob cyfarwyddwr bwrdd iechyd yng Nghymru wedi datgan yn swyddogol eu bod yn cefnogi cynnwys adroddiad trylwyr, cytbwys ac annibynnol yr Athro Longley yn llawn. Dyna y bydd y cyhoedd yng Nghymru am ei wybod mewn gwirionedd, nid y pethau hyn sy'n destun ymrafael yma ym mae Caerdydd.

I will finish by quoting a well-known Plaid Cymru member, Lord Dafydd Elis-Thomas:

Hoffwn gloi trwy ddyfynnu aelod adnabyddus o Blaid Cymru, sef yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas:

'This whole debate…puts prejudice before evidence and I don't want to be playing any part in it.'

Mae'r holl ddadl...yn rhoi rhagfarn o flaen tystiolaeth, ac nid wyf am fod yn rhan o drafodaethau o'r fath.

5.45 p.m.

Jenny Rathbone: I have not prepared anything, because I did not expect to get to speak, but I entirely concur with what has been said by the Members on this side. I have read the health financier's report in detail, which lays down the challenges that all

Jenny Rathbone: Nid wyf wedi paratoi dim, oherwydd nid oeddwn yn disgwyl cael siarad, ond rwyf yn cytuno'n llwyr â'r hyn sydd wedi'i ddweud gan yr Aelodau ar yr ochr hon. Rwyf wedi darllen adroddiad yr ariannwr iechyd yn fanwl, sy'n nodi'r heriau

health boards are facing. In particular, I draw your attention to Professor Longley's warning that if we do not support the health boards to make the changes that are required, health services will collapse. I am surprised that Simon Thomas, who represents an area where health boards have had to collapse services because they did not have the staff that they needed to run those services, is in denial about the challenges that are facing the health service at this moment. You have to look at the full reform that needs to take place in the health service to make it fit for purpose to face the challenges ahead. There is no more money—it is about making existing money work more effectively and getting better and safer outcomes.

y mae pob bwrdd iechyd yn eu hwynebu. Yn benodol, hoffwn dynnu eich sylw at rybudd yr Athro Longley, sef os na fyddwn yn cefnogi'r byrddau iechyd i wneud y newidiadau sy'n ofynnol, y bydd gwasanaethau iechyd yn dod i ben. Rwyf yn synnu bod Simon Thomas, sy'n cynrychioli ardal lle y mae byrddau iechyd wedi gorfod dod â gwasanaethau i ben am nad oedd ganddynt y staff yr oedd arnynt eu hangen i gynnal y gwasanaethau hynny, yn gwrthod derbyn yr heriau sy'n wynebu'r gwasanaeth iechyd ar hyn o bryd. Rhaid ichi edrych ar yr holl ddiwygio sy'n angenrheidiol yn y gwasanaeth iechyd i'w wneud yn addas i'w ddiben wrth wynebu'r heriau sydd o'n blaen. Nid oes rhagor o arian—mae a wnelo â gwneud i arian presennol weithio'n fwy effeithiol a sicrhau canlyniadau gwell a mwy diogel.

The First Minister: We have heard evidence—or what is claimed to be evidence—articulated by the opposition parties. The allegation is confused, but it seems to be that Professor Longley, the Minister and sundry others conspired dishonestly to produce a report that was in some way not independent.

Y Prif Weinidog: Rydym wedi clywed tystiolaeth—neu rywbeth yr honnir ei fod yn dystiolaeth—gan y gwrthbleidiau. Mae'r honiad yn ddryslyd, ond ymddengys ei fod yn mynnu bod yr Athro Longley, y Gweinidog a phobl eraill amrywiol wedi cynllwynio'n anonest i lunio adroddiad nad oedd mewn rhyw ffordd neu'i gilydd yn annibynnol.

Let us start with one fact that has not been challenged: the contents of the report. Nobody has suggested that they are flawed or wrong. Nobody has argued either that there is no case for change in the NHS. Indeed, I have heard Members from different parties articulate the case for change in the Chamber over the last few months. The question relates to the process that led to the report being published. Professor Longley is clear. He was not influenced in any way by the Minister or her officials. There is no evidence that the Minister communicated with Professor Longley in any form. No evidence has been offered to prove that. The assertion that has been made by the opposition parties can be dismissed.

Gadewch inni ddechrau ag un ffaith nad yw wedi ei herio, sef cynnwys yr adroddiad. Nid oes neb wedi awgrymu ei fod yn ddiffygiol neu'n anghywir. Nid oes neb wedi dadlau chwaith nad oes dadl dros newid yn y GIG. Yn wir, rwyf wedi clywed Aelodau o wahanol bleidiau'n datgan y ddadl dros newid yn y Siambr yn ystod y misoedd diwethaf. Mae a wnelo'r mater â'r broses a arweiniodd at gyhoeddi'r adroddiad. Mae'r Athro Longley yn glir. Ni ddylanwadodd y Gweinidog na'i swyddogion arno o gwbl. Nid oes unrhyw dystiolaeth bod y Gweinidog wedi cyfathrebu â'r Athro Longley mewn unrhyw fodd. Nid oes unrhyw dystiolaeth wedi ei chynnig i brofi hynny. Gellir diystyru'r honiad a wnaed gan y gwrthbleidiau.

It is suggested that, through an e-mail on 22 February 2012, Professor Longley behaved inappropriately by saying that the evidence did not seem to be as incisive as was hoped. What does 'incisive' mean according to the

Awgrymir bod yr Athro Longley, drwy e-bost ar 22 Chwefror 2012, wedi ymddwyn yn amhriodol wrth ddweud nad oedd y dystiolaeth yn ymddangos mor dreiddgar ag yr oedd wedi gobeithio. Beth y mae treiddgar

dictionary? The definition is: remarkably clear and direct, clean, acute or sharp. Is it a surprise that Professor Longley asked whether there was evidence to sharpen up the document? What exactly is wrong with that?

yn ei olygu? Ystyr treiddgar yw hynod glir ac uniongyrchol, glân, llym neu finiog. A yw'n syndod bod yr Athro Longley wedi gofyn a oedd tystiolaeth ar gael i roi min ar y ddogfen? Beth yn union sydd o'i le ar hynny?

It is further alleged that the use of the word 'we' in the e-mail was significant. Professor Longley gave the explanation for that—it is his communication after all. The opposition parties have assumed that that e-mail means that Professor Longley was working with the Government, assumed that he was working to instructions, assumed that the report was not independent and assumed that the Minister communicated directly with Professor Longley and, in some way, influenced the report. It sounds more like the sort of proceedings that you would expect in Salem than in the Senedd.

Honnir ymhellach bod defnyddio'r gair 'ni' yn yr e-bost yn arwyddocaol. Rhoddodd yr Athro Longley esboniad ynghylch hynny—ei neges ef oedd hi, wedi'r cyfan. Mae'r gwrthbleidiau wedi tybio bod y neges e-bost honno'n golygu bod yr Athro Longley yn gweithio gyda'r Llywodraeth, maent wedi tybio ei fod yn gweithio'n unol â chyfarwyddiadau, maent wedi tybio nad oedd yr adroddiad yn annibynnol ac maent wedi tybio bod y Gweinidog wedi cyfathrebu'n uniongyrchol â'r Athro Longley a'i bod, mewn rhyw ffordd, wedi dylanwadu ar yr adroddiad. Mae'n swnio'n debycach i'r math o drafodion y byddech yn eu disgwyl yn Salem nag yn y Senedd.

Andrew R.T. Davies: You seem to be making this out to be the work of the opposition parties alone, but the British Medical Association has questioned the validity and independence of the report. Are you questioning the integrity of the BMA too?

Andrew R.T. Davies: Ymddengys eich bod yn ceisio rhoi'r argraff mai gwaith y gwrthbleidiau'n unig yw hyn, ond mae Cymdeithas Feddygol Prydain wedi amau dilysrwydd ac annibyniaeth yr adroddiad. A ydych yn amau integriti Cymdeithas Feddygol Prydain hefyd?

The First Minister: The BMA has not questioned the contents of the report. [*Interruption*.] It has raised questions about its presentation. That is completely untrue; check with the BMA and you will find that to be the case. The medical directors of the NHS have fully backed the report. You seem to believe that they, as doctors, are less competent than you as a politician. We have seen assumption followed by assumption, passing as evidence. You are relying on e-mails that were sent this year. They refer to minutes meetings of south Wales's local health boards that were held in January 2012. Has anyone noticed that January 2012 was before Marcus Longley started work on his report? In May 2012, it was suggested in the Betsi Cadwaladr LHB minutes that the Welsh Government had commissioned the report. We have had a communication from Betsi Cadwaladr LHB confirming that the note was wrong and that the note was inaccurate. Let us see what we have here: what the opposition parties are saying is that there has

Y Prif Weinidog: Nid yw Cymdeithas Feddygol Prydain wedi amau cynnwys yr adroddiad. [*Torri ar draws.*] Mae wedi codi cwestiynau ynghylch y modd y mae wedi ei gyflwyno. Nid yw hynny'n wir o gwbl; gofynnwch i Gymdeithas Feddygol Prydain, ac fe welwch mai dyna y mae wedi ei wneud. Mae cyfarwyddwyr meddygol y GIG wedi cefnogi'r adroddiad yn llwyr. Ymddengys eich bod yn credu eu bod nhw, fel meddygon, yn llai cymwys na chi fel gwleidydd. Rydym wedi gweld y naill dybiaeth ar ôl y llall yn cael eu cyflwyno fel tystiolaeth. Rydych yn dibynnu ar negeseuon e-bost a anfonwyd eleni. Maent yn cyfeirio at gofnodion cyfarfodydd byrddau iechyd lleol y de a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2012. A oes unrhyw un wedi sylwi nad oedd Marcus Longley wedi dechrau gweithio ar ei adroddiad ym mis Ionawr 2012? Ym mis Mai 2012, awgrymwyd yng nghofnodion bwrdd iechyd lleol Betsi Cadwaladr bod Llywodraeth Cymru wedi comisiynu'r adroddiad. Rydym wedi cael neges gan fwrdd

been collusion involving Professor Longley, Welsh Government officials, the NHS Confederation, the local health boards and the Minister. [*Interruption.*]

iechyd lleol Betsi Cadwaladr yn cadarnhau bod y nodyn yn wallus a bod y nodyn yn anghywir. Gadewch inni weld beth sydd gennym yn y fan hon: yr hyn y mae'r gwrthbleidiau'n ei ddweud yw bod cydgynllwynio wedi digwydd a oedd yn cynnwys yr Athro Longley, swyddogion Llywodraeth Cymru, Conffederasiwn y GIG, y byrddau iechyd lleol a'r Gweinidog. [*Torri ar draws*.]

I will take your intervention in a moment, Simon.

Derbyniaf eich ymyriad yn y man, Simon.

We are asked to believe that all these people were involved in a conspiracy. Furthermore, what the opposition parties say—and they have not got the backbone to say it, but this is what they mean—is that Professor Longley is a liar; Welsh Government officials are all liars; the NHS Confederation is lying; the local health boards are lying; and the Minister is lying. Welcome to *The X Files*.

Gofynnir inni gredu bod yr holl bobl hyn yn rhan o gynllwyn. At hynny, yr hyn y mae'r gwrthbleidiau yn ei ddweud—ac nid oes ganddynt ddigon o asgwrn cefn i'w ddweud, ond dyna y maent yn ei olygu—yw bod yr Athro Longley yn dweud celwydd; bod pob un o swyddogion Llywodraeth Cymru yn dweud celwydd; bod Conffederasiwn y GIG yn dweud celwydd; bod y byrddau iechyd lleol yn dweud celwydd; a bod y Gweinidog yn dweud celwydd. Croeso i *The X Files.*

Simon Thomas: I am grateful to the First Minister for giving way. I am sure that, having listed people he thinks are lying, he would not want to mislead this Chamber. He just said that Marcus Longley did not start his report until after January 2012. Will he explain why his scoping paper, in the name of Marcus Longley, was produced on 20 December 2011?

Simon Thomas: Rwyf yn ddiolchgar i'r Prif Weinidog am ildio. Ar ôl rhestru'r bobl y mae'n credu eu bod yn dweud celwydd, rwyf yn siŵr na fyddai am gamarwain y Siambr hon. Mae newydd ddweud na ddechreuodd Marcus Longley ar ei adroddiad tan ar ôl mis Ionawr 2012. A yw'n fodlon egluro pam y cafodd ei bapur cwmpasu, yn enw Marcus Longley, ei lunio ar 20 Rhagfyr 2011?

The First Minister: That is the scoping study, not the report. The report had not been started at that stage. You can check the record if you want. [ASSEMBLY MEMBER: 'Give up, now.']

Y Prif Weinidog: Yr astudiaeth gwmpasu oedd honno, nid yr adroddiad. Nid oedd yr adroddiad wedi ei ddechrau bryd hynny. Gallwch edrych ar y cofnod os ydych yn dymuno. [AELOD CYNULLIAD: 'Cystal ichi roi'r gorau iddi, yn awr.']

The Presiding Officer: Order. I wish you would give up now. First Minister, please continue.

Y Llywydd: Trefn. Hoffwn pe baech chi'n rhoi'r gorau iddi'n awr. Brif Weinidog, ewch yn eich blaen.

The First Minister: In this Chamber, three parties have made serious allegations about Professor Longley. Do not try to shy away from it—you have. You have called him, in your view, a liar. Do it outside this Chamber—that is my challenge to you, if you have the nerve. You call all the officials, the NHS Confederation, all the LHBs and the

Y Prif Weinidog: Yn y Siambr hon, mae tair plaid wedi gwneud honiadau difrifol am yr Athro Longley. Peidiwch â cheisio osgoi hynny—mae'n wir. Rydych wedi dweud, yn eich barn chi, ei fod yn gelwyddog. Gwnewch hynny y tu allan i'r Siambr hon—dyna fy her i chi, os ydych yn ddigon eofn. Galwch bob un o'r swyddogion,

Minister liars. You say they are involved in a conspiracy to cover up the truth. Yet in reality, if you look at the minutes of the ministerial meeting on 2 May 2012, you will see the words,

Conffederasiwn y GIG, pob un o'r byrddau iechyd lleol a'r Gweinidog yn gelwyddog. Rydych yn dweud eu bod yn rhan o gynllwyn i gelu'r gwir. Ond mewn gwirionedd, o edrych ar gofnodion y cyfarfod gweinidogol ar 2 Mai 2012, fe welwch y geiriau,

'It was acknowledged that the report might contain some unpalatable messages about the current state of the Welsh NHS, but this is necessary if we are to be open and honest with the public'.

Cydnabuwyd y gallai'r adroddiad gynnwys rhai negeseuon annymunol am gyflwr presennol y GIG yng Nghymru, ond mae hynny'n angenrheidiol os ydym am fod yn agored ac yn onest â'r cyhoedd.

That is exactly what this report was designed to do, but the opposition parties have missed that.

Dyna union fwriad yr adroddiad hwn, ond nid yw'r gwrthbleidiau wedi deall hynny.

Let me turn to Darren Millar. I have to say that I was surprised by the interview he gave on Radio Wales. He was trapped by the wiles of the BBC. They knew where they wanted him to go, and he obliged. Like a lemming he was led off the edge of the cliff by the interviewer, to a position where he thought that attacking the credibility of an independent academic without response was a brave and clever thing to do. I have to say that I was impressed with Darren when he first came here. He was articulate and he was sociable. I could not understand why he did not stand for the leadership of his party. I understand now; it is because he has a complete lack of judgment, sense and objectivity. I can see now why they did not want him.

Gadewch imi droi at Darren Millar. Rhaid imi ddweud fy mod wedi fy synnu gan y cyfweliad a roddodd ar Radio Wales. Cafodd ei ddal gan gastiau'r BBC. Roeddent yn gwybod i ba gyfeiriad yr oeddent am iddo fynd, a bodlonodd wneud hynny. Fel leming, cafodd ei arwain dros ymyl y dibyn gan yr holwr i sefyllfa lle'r oedd yn credu bod ymosod ar hygrededd academydd annibynnol na allai ymateb yn beth dewr a chlyfar i'w wneud. Rhaid imi ddweud bod Darren wedi gwneud argraff dda arnaf pan ddaeth yma gyntaf. Roedd yn ei fynegi ei hun yn glir ac roedd yn gymdeithasol. Ni allwn ddeall pam nad ymgeisiodd am arweinyddiaeth ei blaid. Rwyf yn deall yn awr; y rheswm pam na wnaeth hynny yw ei ddiffyg crebwyll, ei ddiffyg synnwyr cyffredin a'i ddiffyg gwrthrychedd. Gallaf weld yn awr pam nad oedd arnynt ei eisiau.

If the allegation is that Ministers are damned by the e-mails of their officials, no matter how innocuous they are, what on earth is Jeremy Hunt still doing in his job, after what his special adviser did? Has hypocrisy reached a new low in the standards of the Tory party?

Os honnir y caiff Gweinidogion eu damnio gan negeseuon e-bost eu swyddogion, ni waeth pa mor ddiniwed yr ydynt, sut ar wyneb y ddaear y mae Jeremy Hunt yn parhau yn ei swydd, ar ôl yr hyn a wnaeth ei gynghorydd arbennig ef? A yw rhagrith wedi cyrraedd iselfannau newydd yn safonau'r blaid Dorïaidd?

What about the Lib Dems? Their party is now a wholly owned subsidiary of the Tories. I had great hopes for Kirsty Williams and her assertions of autonomy from her London party and from the Tories, but where is she now? I watched her performance in committee this morning; I have never seen a witness treated so rudely by an Assembly

Beth am y Democratiaid Rhyddfrydol? Mae eu plaid hwy bellach yn is-blaid sy'n eiddo'n gyfan gwbl i'r Torïaid. Roeddwn yn obeithiol iawn ynghylch Kirsty Williams a'i honiadau ynghylch ymreolaeth oddi wrth ei phlaid yn Llundain ac oddi wrth y Torïaid, ond ble mae hi'n awr? Gwyliais ei pherfformiad yn y pwyllgor y bore yma; nid wyf erioed wedi

Member. Every answer from Professor Longley was greeted with a smirk, a snarl or a rolling of the eyes. Regardless of what they think of the evidence, I do not think that Members should respond in that way.

gweld tyst yn cael ei drin mor anghwrtais gan Aelod o'r Cynulliad. Croesawodd bob ateb a roddodd yr Athro Longley drwy wenu'n gam, ochneidio'n chwyrn neu rowlio ei llygaid. Ni waeth beth fo'u barn am y dystiolaeth, nid wyf yn credu y dylai'r Aelodau ymateb felly.

I listened carefully to Peter Black, and he did not offer any evidence at all to back up what he was saying.

Gwrandewais yn ofalus ar Peter Black, ac ni chynigiodd unrhyw dystiolaeth o gwbl i gefnogi'r hyn yr oedd yn ei ddweud.

What, then, of Plaid? I listened carefully to the Plaid leader when she called for a united Welsh front in politics. I had not realised that that meant working with the Tories. Yet that is what we see; that is what she meant. What her party has failed to realise is that working with the Tories is the road to electoral disaster. Did its members not learn that last year? At least one of their members knows that. They also seem to have forgotten what they did in Government. Are their members seriously suggesting that Ministers should know about every communication that is sent by their officials? Are they saying that officials should not be involved in helping to produce reports? What about the Hargreaves report? One of the special advisers was acknowledged in the report for being helpful. Are they saying that, when they were in Government, similar e-mails to those mentioned today were never sent? They should think carefully before coming to an answer.

Beth, felly, am Blaid Cymru? Gwrandewais yn ofalus ar arweinydd Plaid Cymru pan alwodd am ffrynt unedig Cymreig mewn gwleidyddiaeth. Nid oeddwn wedi sylweddoli bod hynny'n golygu gweithio gyda'r Torïaid. Ond dyna a welwn; dyna'r oedd yn ei olygu. Yr hyn y mae ei phlaid wedi methu â'i sylweddoli yw mai gweithio gyda'r Torïaid yw'r llwybr at drychineb etholiadol. Oni ddysgodd aelodau Plaid Cymru hynny y llynedd? Mae o leiaf un o'i haelodau yn gwybod hynny. Ymddengys hefyd eu bod wedi anghofio'r hyn a wnaethant mewn Llywodraeth. A yw aelodau Plaid Cymru yn awgrymu o ddifrif y dylai Gweinidogion wybod am bob neges a anfonir gan eu swyddogion? A ydynt yn dweud na ddylai swyddogion ymwneud â helpu i lunio adroddiadau? Beth am adroddiad Hargreaves? Cafodd un o'r cynghorwyr arbennig gydnabyddiaeth yn yr adroddiad hwnnw am fod yn barod i helpu. A yw aelodau Plaid Cymru yn dweud, pan oeddent hwy mewn grym, na chafodd negeseuon e-bost tebyg i'r rhai a grybwyllir heddiw erioed eu hanfon? Dylent feddwl yn ofalus cyn ateb.

I am coming to a conclusion, Llywydd. The reality is that the opposition parties have no support from the British Medical Association, the Royal College of Nursing, health workers or the public. It is not our Minister for Health and Social Services who does not have the confidence of the BMA, but Andrew Lansley. I conclude on this point:

Rwyf yn dod at y terfyn, Lywydd. Y gwir amdani yw nad oes gan y gwrthbleidiau gefnogaeth Cymdeithas Feddygol Prydain, Coleg Brenhinol y Nyrsys, gweithwyr iechyd na'r cyhoedd. Nid ein Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ni sydd wedi methu ag ennill hyder Cymdeithas Feddygol Prydain, ond Andrew Lansley. Hoffwn derfynu â'r pwynt hwn:

'This whole debate that's taking place this afternoon is a debate which puts prejudice before evidence and I don't want to be part of such discussions'.

Mae'r holl ddadl sy'n digwydd y prynhawn yma'n ddadl sy'n rhoi rhagfarn o flaen tystiolaeth, ac nid wyf am fod yn rhan o drafodaethau o'r fath.

Those are not my words, but those of the Plaid Cymru Member for Dwyfor

Nid fi sy'n dweud hynny, ond Aelod Plaid Cymru dros Ddwyfor Meirionnydd. Dyna yw

Meirionnydd. That is what he thinks of his party. Within a week, we have gone from no confidence in a Minister to Plaid Cymru in crisis; only Plaid could have managed that. The reality is this: the NHS is our creation and it is safe with this Government and it is safe with Lesley Griffiths. [*Applause.*]

ei farn am ei blaid. O fewn wythnos, rydym wedi mynd o ddiffyg hyder mewn Gweinidog i Blaid Cymru mewn argyfwng; dim ond Plaid Cymru a allai fod wedi gwneud hynny. Y gwir amdani yw hyn: ni a greodd y GIG, ac mae'n ddiogel yng ngofal y Llywodraeth hon ac mae'n ddiogel yng ngofal Lesley Griffiths. [*Cymeradwyaeth.*]

The Presiding Officer: Order. I hope that you have not broken any of your machines by banging your desks.

Y Llywydd: Trefn. Gobeithio nad ydych wedi torri unrhyw un o'ch peiriannau wrth guro eich desgiau.

Kirsty Williams: Service change is never easy, and perhaps achieving change in the health service is the hardest of all. The public is rightly fiercely protective of local hospitals and the services delivered within them. For many, it is simply counterintuitive to say that moving services away from them will make them safer or better, particularly when many have had such positive experiences of those services in their local hospital.

Kirsty Williams: Nid yw newid gwasanaeth byth yn hawdd, ac efallai mai cyflwyno newid yn y gwasanaeth iechyd yw'r peth anoddaf i gyd. Mae'r cyhoedd, yn gywir ddigon, yn awyddus iawn i warchod ysbytai lleol a'r gwasanaethau a ddarperir ynddynt. I lawer, yn syml iawn, mae dweud y bydd symud gwasanaethau i ffwrdd yn eu gwneud yn well neu'n fwy diogel yn mynd yn groes i'r graen, yn enwedig gan fod llawer ohonynt wedi cael profiadau mor gadarnhaol o'r gwasanaethau hynny yn eu hysbyty lleol.

To make change happen, you need strong leadership, political courage, clinical consensus, but, most of all, perhaps, you need the trust of the communities that are affected by those changes. With all of those things, it is possible to make big changes to how services are delivered in our NHS, and I offer Builth Wells Hospital in my constituency as an example of how real change can be achieved with all of those elements. Mark, you are right to say that the real damage done today is the damage done to the trust that could have been a useful addition to the debate by the publication of Marcus Longley's report. The First Minister has stated today that no-one has disagreed with the findings of the report and that the BMA supports it. I quote what the BMA stated:

Er mwyn gwneud i newid ddigwydd, mae arnoch angen arweiniad cryf, dewrder gwleidyddol a chonsensws clinigol, ond, yn bennaf oll, efallai, mae arnoch angen ymddiriedaeth y cymunedau y mae'r newidiadau hynny'n effeithio arnynt. Gyda'r holl bethau hynny, mae'n bosibl gwneud newidiadau mawr i'r modd y caiff gwasanaethau eu darparu yn ein GIG, a hoffwn gynnig Ysbyty Llanfair-ym-Muallt yn fy etholaeth i fel enghraifft o sut y gellir cyflawni newid gwirioneddol gyda'r holl elfennau hynny. Mark, rydych yn iawn wrth ddweud mai'r niwed gwirioneddol a wnaed heddiw yw'r niwed a wnaed i'r ymddiriedaeth a allai fod wedi bod yn ychwanegiad defnyddiol at y ddadl yn sgîl cyhoeddi adroddiad Marcus Longley. Mae'r Prif Weinidog wedi datgan heddiw nad oes neb wedi anghytuno â chanfyddiadau'r adroddiad a bod Cymdeithas Feddygol Prydain yn ei gefnogi. Hoffwn ddyfynnu'r hyn a ddywedodd Cymdeithas Feddygol Prydain:

'We thought at the time that the report was published, that the evidence set out in the technical documents was insufficient to support the bold statements contained in the

Roeddem yn meddwl, pan gafodd yr adroddiad ei gyhoeddi, bod y dystiolaeth a oedd wedi'i nodi yn y dogfennau technegol yn annigonol i gefnogi'r datganiadau

summary document.'

beiddgar sydd yn y ddogfen gryno.

However, that in itself does not make it a bad document. It makes the document an addition to the debate that we all acknowledge we need to have about the future of our NHS, because the challenges, which both Lynne Neagle and Mark Drakeford outlined, are very real.

Fodd bynnag, nid yw hynny ynddo'i hun yn golygu bod y ddogfen yn un wael. Mae'n golygu bod y ddogfen yn ychwanegiad at y ddadl yr ydym i gyd yn cydnabod bod angen inni ei chael am ddyfodol ein GIG, oherwydd mae'r heriau, a amlinellwyd gan Lynne Neagle a Mark Drakeford, yn real iawn.

Much has been made over the past couple of days about the rights and wrongs of people's behaviour. I state clearly that I agree that, as far as we can tell, the local health boards that commissioned the report to articulate the case for change were perfectly right in doing that. It was a perfectly acceptable thing for them to do, although it is unusual that no-one can lay their hands on the exact terms of reference for the commission. The fact that the report proceeded to back the LHB chief executives' call for change is not unusual or unexpected. That the report's authors should need to ask the Welsh Government for data and statistics is, again, not unexpected or unusual in any way. However, the fact that there were e-mails containing the request not just for facts, but for the 'killer facts', and e-mails requesting more information and evidence that could more effectively make the case for change and sharpen up a report is difficult to understand.

Mae llawer o sôn wedi bod yn ystod y dyddiau diwethaf am yr agweddau da a drwg ar ymddygiad pobl. Hoffwn ddatgan yn glir fy mod yn cytuno bod y byrddau iechyd lleol a gomisiynodd yr adroddiad i ddatgan y ddadl dros newid, hyd y gwyddom, yn gweithredu'n hollol gywir wrth wneud hynny. Roedd yn beth cwbl dderbyniol iddynt ei wneud, er ei bod yn anarferol nad oes neb yn gallu cael gafael ar union gylch gorchwyl y comisiwn. Nid yw'r ffaith bod yr adroddiad wedi mynd yn ei flaen i gefnogi galwad prif weithredwyr byrddau iechyd lleol am newid yn anarferol nac yn annisgwyl. Yn ogystal, nid yw'r ffaith bod angen i awduron yr adroddiad ofyn i Lywodraeth Cymru am ddata ac ystadegau'n annisgwyl nac yn anarferol mewn unrhyw ffordd. Fodd bynnag, mae'n anodd deall y ffaith y cafwyd negeseuon e-bost a oedd yn cynnwys cais nid yn unig am ffeithiau, ond am ffeithiau diamheuol, a negeseuon e-bost a oedd yn gofyn am ragor o wybodaeth a thystiolaeth a allai gyflwyno'r ddadl dros newid yn fwy effeithiol a rhoi min ar yr adroddiad.

It is appropriate and right that responses were given from the Government to the drafts that were sent to it; that is not unusual or wrong. However, at least on one occasion, a suggestion that was put forward by a civil servant was subsequently contained within the final report, and, at every stage, Government officials were being sent drafts and were thanking the author for his hard work and agreeing with its contents, saying how good it was looking. Of course, one way to settle some of the debate about the nature of the involvement would have been a full disclosure of all correspondence and all drafts. I was sorry to learn in the Health and Social Care Committee that that is not going to happen and that those drafts are no longer available.

Mae'n briodol ac yn gywir bod ymatebion wedi eu rhoi gan y Llywodraeth i'r copïau drafft a anfonwyd iddi; nid yw hynny'n anarferol nac yn anghywir. Fodd bynnag, o leiaf unwaith, cafodd awgrym a gyflwynwyd gan was sifil ei gynnwys wedyn yn yr adroddiad terfynol, ac, yn ystod pob cam, roedd swyddogion y Llywodraeth yn cael copïau drafft ac yn diolch i'r awdur am ei waith caled ac yn cytuno â'i gynnwys, gan ddweud ei fod yn edrych yn dda. Wrth gwrs, un ffordd o ddatrys rhywfaint o'r ddadl ynghylch natur yr ymwneud fyddai datgelu pob gohebiaeth a phob drafft yn llawn. Roedd yn ddrwg gennyf glywed yn y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol na fydd hynny'n digwydd ac nad yw'r copïau drafft ar gael bellach.

6.00 p.m.

Repeatedly, throughout this process—both in the Minister's initial statement to the Chamber and again today—we have been told that this was a matter solely for the local health boards. However, the local health boards believed—as is recorded in the board minutes of five out of the seven local health boards—that the Welsh Government was working with Professor Marcus Longley to produce this report.

Dro ar ôl tro, trwy gydol y broses hon—yn natganiad cychwynnol y Gweinidog i'r Siambr, ac unwaith eto heddiw—dywedwyd wrthym mai mater i'r byrddau iechyd lleol yn unig oedd hwn. Fodd bynnag, roedd y byrddau iechyd lleol yn credu—fel y cofnodwyd yng nghofnodion pump o'r saith bwrdd iechyd lleol—bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Athro Marcus Longley i lunio'r adroddiad hwn.

The First Minister has said that Betsi Cadwaladr's minutes are wrong—maybe they are; if so, that is a very serious matter for the director of corporate governance, who is legally responsible for those minutes. I put on record, to straighten an issue that was raised this morning, that I have checked Vaughan Gething's claims about the same secretariat writing minutes for the four health boards in south Wales. It is simply not true. Each board is responsible for its own minutes and, as I said, they are the responsibility of the director of corporate governance—a senior position—and minutes are written and agreed at a very high level.

Mae'r Prif Weinidog wedi dweud bod cofnodion Betsi Cadwaladr yn anghywir—efallai eu bod; os felly, mae hynny'n fater difrifol iawn i'r cyfarwyddwr llywodraethu corfforaethol sy'n gyfrifol yn gyfreithiol am y cofnodion hynny. Hoffwn gofnodi, er mwyn datrys mater a godwyd y bore yma, fy mod wedi gwirio honiadau Vaughan Gething ynghylch y ffaith bod yr un ysgrifenyddiaeth yn ysgrifennu'r cofnodion ar gyfer pedwar bwrdd iechyd y de. Nid yw hynny'n wir. Mae pob bwrdd yn gyfrifol am ei gofnodion ei hun ac, fel y dywedais, mae'r cofnodion yn gyfrifoldeb i'r cyfarwyddwr llywodraethu corfforaethol—sy'n swydd uchel—a chânt eu hysgrifennu a'u cytuno ar lefel uchel iawn.

Even that would not be a problem if the Minister had not come to the Chamber with a statement that said that the report was independent. It is clear to me that, throughout this process, there was involvement from the Welsh Government. There was a close relationship. That, in itself, is not a problem and is not wrong, but what was wrong was to sell the document as an independent piece of work—

Ni fyddai hynny hyd yn oed yn broblem pe na bai'r Gweinidog wedi dod i'r Siambr gyda datganiad a oedd yn nodi bod yr adroddiad yn annibynnol. Mae'n amlwg i mi bod Llywodraeth Cymru, drwy gydol y broses hon, wedi bod yn rhan ohoni. Roedd perthynas agos yn bodoli. Nid yw hynny, ynddo'i hun, yn broblem ac nid yw'n anghywir, ond yr hyn a oedd yn anghywir oedd gwerthu'r ddogfen fel darn annibynnol o waith—

Mick Antoniw: In the Health and Social Care Committee meeting this morning, Marcus Longley totally and unequivocally said that the conclusions were his and that it was an independent report. Are you saying that he was lying?

Mick Antoniw: Yng nghyfarfod y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y bore yma, dywedodd Marcus Longley yn bendant ac yn ddiamwys mai ei gasgliadau ef ei hun oedd y casgliadau, a bod yr adroddiad yn un annibynnol. A ydych yn dweud ei fod yn gelwyddog?

Kirsty Williams: I—[*Interruption.*]

Kirsty Williams: Rwyf—[*Torri ar draws.*]

The Presiding Officer: Order. Let Kirsty Williams answer.

Y Llywydd: Trefn. Gadewch i Kirsty Williams ateb.

Kirsty Williams: I accept that Professor Longley came to the conclusions that he did in good faith and that he believes wholeheartedly, as he has done for many years, that services need to change. I am not calling him a liar; I never have, despite what the First Minister says. What I am saying is that the problem is that the Minister for health came to the Chamber and said that it was a document that had nothing to do with her Government. However, it is clear that the Government had involvement at every step of the way. Mark Drakeford, in his contribution this afternoon, set out the reasons why there will have to be change in the Welsh NHS. However, the way in which this report has been handled will make that change so much more difficult to achieve, Mark—and you know it.

Kirsty Williams: Rwyf yn derbyn bod yr Athro Longley wedi dod i'r casgliadau y daeth iddynt yn ddidwyll a'i fod yn credu'n bendant, fel y mae wedi credu ers blynyddoedd lawer, bod angen i wasanaethau newid. Nid wyf yn ei alw'n gelwyddog; nid wyf erioed wedi gwneud hynny, er gwaethaf yr hyn y mae'r Prif Weinidog yn ei ddweud. Yr hyn yr wyf yn ei ddweud yw bod y broblem yn deillio o'r ffaith bod y Gweinidog iechyd wedi dod i'r Siambr ac wedi dweud nad oedd y ddogfen yn gysylltiedig o gwbl â'r Llywodraeth. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod y Llywodraeth wedi ymwneud â hi ar hyd pob cam o'r ffordd. Yn ei gyfraniad y prynhawn yma, eglurodd Mark Drakeford y rhesymau pam y bydd yn rhaid i'r GIG yng Nghymru newid. Fodd bynnag, bydd y modd yr ymdriniwyd â'r adroddiad hwn yn golygu y bydd yn anos o lawer sicrhau'r newid hwnnw, Mark—ac rydych yn gwybod hynny.

It may be that trust, transparency and accountability, for the Labour Party in this Chamber, could fit on the head of a pin. For me, that is fundamental to the work that we do here. At this most critical time for the Welsh NHS, we need trust, transparency and accountability. I was willing to debate those issues in that way with the Minister for health, and she knows that. However, the way in which this has been handled has destroyed my faith that we can have that debate with trust, transparency and accountability.

Efallai mai troi yn yr unfan y byddem wrth geisio chwilio am ymddiriedaeth, tryloywder ac atebolrwydd yng nghyswllt y Blaid Lafur yn y Siambr hon. I mi, mae'r pethau hynny'n sylfaenol i'r gwaith yr ydym yn ei wneud yma. Ar adeg mor dyngedfennol i'r GIG yng Nghymru, mae arnom angen ymddiriedaeth, tryloywder ac atebolrwydd. Roeddwn yn barod i drafod y materion hynny yn y modd hwnnw gyda'r Gweinidog iechyd, ac mae'n gwybod hynny. Fodd bynnag, mae'r modd yr ymdriniwyd â'r mater wedi chwalu fy ffydd y gallwn gael y drafodaeth honno gyda thryloywder, ymddiriedaeth ac atebolrwydd.

The Presiding Officer: The proposal is that the motion be agreed. Are there any objections? I see that there are. Therefore, voting on this item will be deferred until voting time. The Business Committee has agreed that voting time will take place immediately before the short debate. Do three Members wish for the bell to be rung? I see that no-one does, so we will move straight to voting time.

Y Llywydd: Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly, caiff y bleidlais ar yr eitem hon ei gohirio tan y cyfnod pleidleisio. Mae'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno y bydd y cyfnod pleidleisio'n digwydd yn union cyn y ddadl fer. A oes tri Aelod yn dymuno i'r gloch gael ei chanu? Gwelaf nad oes neb, felly symudwn yn syth i'r cyfnod pleidleisio.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.
Voting deferred until voting time.

Cyfnod Pleidleisio
Voting Time

Cynnig NDM5038: O blaid 44, Ymatal 0, Yn erbyn 13.
Motion NDM5038: For 44, Abstain 0, Against 13.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Black, Peter
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Millar, Darren
Ramsay, Nick
Sandbach, Antoinette

Derbyniwyd y cynnig.
Motion agreed.

Cynnig NDM5043: O blaid 28, Ymatal 0, Yn erbyn 29.
Motion NDM5043: For 28, Abstain 0, Against 29.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Gruffydd, Llyr Huws
Isherwood, Mark
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Millar, Darren
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce

Gwrthodwyd y cynnig.
Motion not agreed.

Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 6.07 p.m.
The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 6.07 p.m.

Dadl Fer
Short Debate

Dyslecsia ac Ysgolion: Cydweithio i Wneud Gwahaniaeth
Dyslexia and Schools: Working Together to Make a Difference

Aled Roberts: First, I thank those Members who have stayed behind on what must be the nightmare shift at the end of the year.

Earlier this year, I introduced a debate on acoustics in school classrooms. It was pleasing, for those who have experienced the difficulties of poor acoustics in the classroom, that so many Assembly Members were present and that the Minister responded so positively to the debate. I would like to take this opportunity to initiate another debate that I hope will be as well received, the topic of which is dyslexia. I would like to thank Rebecca Evans, Angela Burns and Rhodri Glyn Thomas, who have asked to participate in this debate.

Aled Roberts: Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i'r Aelodau hynny sydd wedi aros ar gyfer y sifft y mae'n rhaid ei disgrifio fel sifft hunllefus ar ddiwedd y flwyddyn.

Yn gynharach eleni, cyflwynais ddadl ar acwsteg yn yr ystafell ddosbarth. I'r sawl sydd wedi profi'r anawsterau sy'n gysylltiedig ag acwsteg wael yn yr ystafell ddosbarth, roedd yn braf gweld bod cynifer o Aelodau'r Cynulliad yn bresennol a bod y Gweinidog wedi ymateb mor gadarnhaol i'r ddadl. Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddechrau dadl arall yr wyf yn gobeithio y bydd yn cael ymateb cystal, a'r pwnc dan sylw yw dyslecsia. Hoffwn ddiolch i Rebecca Evans, Angela Burns a Rhodri Glyn Thomas, sydd wedi gofyn am gael cymryd rhan yn y

ddadl hon.

I have decided to use the time allocated in the short debate to seek to establish the current position with regard to the development of dyslexia policy in Wales. In its follow-up report in October 2009, the Enterprise and Learning Committee reported its concern that the expert group created by the then Minister had been suspended. That expert group was created as a result of concerns expressed in the 2008 report by the committee. I discovered that the group had been suspended until an academic expert group was able to define the meaning of ‘dyslexia’.

Rwyf wedi penderfynu defnyddio’r amser a glustnodwyd yn y ddadl fer i geisio cadarnhau’r sefyllfa bresennol o ran datblygu polisi dyslecsia yng Nghymru. Yn ei adroddiad dilynol ym mis Hydref 2009, mynegodd y Pwyllgor Menter a Dysgu ei bryder bod y grŵp arbenigol a grëwyd gan y Gweinidog ar y pryd wedi cael ei atal. Cafodd y grŵp arbenigol hwnnw ei greu o ganlyniad i bryderon a fynegwyd yn adroddiad y pwyllgor yn 2008. Darganfûm fod y grŵp wedi ei atal nes byddai grŵp o arbenigwyr academaidd yn gallu diffinio ystyr ‘dyslecsia’.

It is quite clear that the current situation in Wales is haphazard and it would appear that, within local authorities, there is no standardised procedure in place other than through the special educational needs guidelines. In contacting local authorities during the past week or so to establish their current position, it has become clear that some do not even accept that there is such a condition as dyslexia. In fact, I was told by more than one authority that I could refer only to dyslexic tendencies. Whether that is an effort to try to cover up the paucity of their own services is a matter that they will have to deal with in due course.

Mae’n hollol amlwg bod y sefyllfa bresennol yng Nghymru yn ddi-drefn, ac ymddengys nad oes gweithdrefn safonol ar waith mewn awdurdodau lleol, ar wahân i’r hyn a geir drwy’r canllawiau anghenion addysgol arbennig. Wrth gysylltu ag awdurdodau lleol yn ystod yr wythnos neu ddwy ddiwethaf i gadarnhau eu sefyllfa bresennol, daeth i’r amlwg nad yw rhai hyd yn oed yn cydnabod bod y fath gyflwr â dyslecsia yn bodoli. Yn wir, dywedodd mwy nag un awdurdod wrthyf mai’r cyfan y gallwn ei wneud oedd cyfeirio at dueddiadau dyslecsig. Bydd ystyried ai ymdrech yw hynny i geisio cuddio’r ffaith bod eu gwasanaethau yn annigonol yn fater y bydd yn rhaid iddynt ymdrin ag ef maes o law.

On many recent occasions in the Chamber, we have discussed educational standards and the need for both literacy and numeracy to improve. It is challenging that 20% of the new intake into secondary schools has a reading age of just nine and a half years—86% of their chronological age. Many believe, as does the British Dyslexia Association, that the Welsh Government needs to consider pushing more resources into helping primary school children with dyslexia to give these pupils a good foothold, ready for secondary education.

Sawl tro yn ddiweddar, rydym wedi trafod safonau addysgol yn y Siambr a’r angen i wella llythrennedd a rhifedd. Mae’r ffaith bod gan 20% o’r disgyblion newydd sy’n cael eu derbyn i ysgolion uwchradd oedran darllen sydd mor isel â naw a hanner oed—sef 86% o’u hoedran cronolegol—yn her. Mae llawer yn credu, ac mae Cymdeithas Dyslecsia Prydain yn eu plith, bod angen i Lywodraeth Cymru ystyried rhoi mwy o adnoddau i helpu plant ysgol gynradd sydd â dyslecsia, er mwyn rhoi sylfaen dda i’r disgyblion hynny fel eu bod yn barod ar gyfer addysg uwchradd.

It is also clear that there is a lack of learning provision centres in Wales, and it appears that most local authorities only have part-time centres, which begs the question as to whether they can properly support additional

Mae hefyd yn amlwg bod diffyg canolfannau darpariaeth ddysgu yng Nghymru, ac ymddengys mai dim ond canolfannau rhan-amser sydd gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, sy’n codi amheuaeth ynghylch eu gallu

learning needs.

i roi cefnogaeth briodol i anghenion dysgu ychwanegol.

In its response to the earlier 2008 report, the Government also set up a Welsh-medium group for dyslexia, because the committee had established at that time that Welsh-medium learners were at least two years behind those receiving English-medium support, as stated in the committee report. The committee heard at that time that young children in Welsh-medium education at the ages of eight or nine were being given books printed for four and five-year-olds, because of the lack of available resources. The committee heard that this caused them to feel emotionally conscious of their learning needs. The British Dyslexia Association indicated in its evidence to the committee that there was a lack of provision to train dyslexia-specific teachers in Welsh.

Wrth ymateb i'r adroddiad cynharach a gyhoeddwyd yn 2008, aeth y Llywodraeth ati hefyd i sefydlu grŵp cyfrwng Cymraeg ar gyfer dyslecsia, oherwydd bod y pwyllgor wedi gweld ar y pryd bod dysgwyr cyfrwng Cymraeg ddwy flynedd o leiaf y tu ôl i'r rheini a oedd yn cael cymorth cyfrwng Saesneg, fel y nodwyd yn adroddiad y pwyllgor. Clywodd y pwyllgor ar y pryd fod plant ifanc wyth neu naw oed mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn cael llyfrau a argraffwyd ar gyfer plant pedair a phump oed, oherwydd bod diffyg adnoddau. Clywodd y pwyllgor fod hynny'n gwneud iddynt deimlo'n ymwybodol, o safbwynt emosiynol, o'u hanghenion dysgu. Nododd Cymdeithas Dyslecsia Prydain yn ei thystiolaeth i'r pwyllgor fod diffyg darpariaeth i hyfforddi athrawon penodol ar gyfer dyslecsia i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg.

Therefore, it is surprising that the Welsh-medium task group set up in 2008 was abolished by the time of the further report in 2009, with responsibility transferred to the Government's Welsh language unit.

Felly, mae'n syndod bod y grŵp gorchwyl cyfrwng Cymraeg a sefydlwyd yn 2008 wedi cael ei ddiddymu erbyn adeg cyhoeddi'r adroddiad dilynol yn 2009, gyda'r cyfrifoldeb yn cael ei drosglwyddo i uned y Gymraeg yn y Llywodraeth.

The Minister for Education and Skills, in response to a question on 10 May 2012 regarding the professional development of teachers of dyslexic learners, said that all trainee teachers are required to demonstrate that they understand their responsibilities under the special educational needs code of practice for Wales. However, it is clear that the current initial teacher training qualification only briefly looks at additional learning needs, and does not address the issue of dyslexia per se.

Mewn ymateb i gwestiwn ar 10 Mai 2012 ynghylch datblygiad proffesiynol athrawon sy'n addysgu plant dyslecsig, dywedodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau ei bod yn ofynnol i bob athro dan hyfforddiant ddangos ei fod yn deall ei gyfrifoldebau dan god ymarfer anghenion addysgol arbennig Cymru. Fodd bynnag, mae'n amlwg mai dim ond edrych yn fras ar anghenion dysgu ychwanegol a wna'r cymhwyster hyfforddiant cychwynnol athrawon ar hyn o bryd, ac nad yw'n mynd i'r afael â dyslecsia fel y cyfryw.

At the time of the preparation of the earlier committee report, the then Minister informed the committee that the Welsh Government was going to consider the findings of the Rose review in order to see what improvements could be made to support those with dyslexia in Wales. I hope that the Minister will indicate what the Welsh Government has decided to do in response to

Adeg paratoi adroddiad cynharach y pwyllgor, dywedodd y Gweinidog ar y pryd wrth y pwyllgor fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu ystyried canfyddiadau adolygiad Rose er mwyn gweld pa welliannau y gellid eu gwneud i gefnogi'r sawl sydd â dyslecsia yng Nghymru. Rwyf yn gobeithio y bydd y Gweinidog yn nodi'r hyn y mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu ei wneud mewn

the Rose review.

ymateb i adolygiad Rose.

At the same time, the Enterprise and Learning Committee recommended that the Welsh Government should establish courses to train teachers to develop expertise in dyslexia, and not just additional learning needs. There was also a call by the committee for the Government to consider a more specialist level of teacher training, which would mean that teachers would be able to diagnose dyslexia through British Dyslexia Association accreditation. In England and Northern Ireland, Governments have gone about establishing both levels of teaching awareness for specialist teachers to assess dyslexia in this way.

Ar yr un pryd, argymhellodd y Pwyllgor Menter a Dysgu y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu cyrsiau i hyfforddi athrawon i ddatblygu arbenigedd mewn dyslecsia, ac nid mewn anghenion dysgu ychwanegol yn unig. Galwodd y pwyllgor hefyd ar y Llywodraeth i ystyried lefel fwy arbenigol o hyfforddiant athrawon, a fyddai'n golygu y byddai athrawon yn gallu diagnosio dyslecsia drwy achrediad gan Gymdeithas Dyslecsia Prydain. Yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, mae Llywodraethau wedi mynd ati i sefydlu'r ddwy lefel o ymwybyddiaeth addysgu ar gyfer athrawon arbenigol er mwyn asesu dyslecsia fel hyn.

The Welsh Government at the time also commissioned a report by Amanda Kirby of the Dyscovery Centre in Cardiff to look at benchmarking within every local authority in Wales. I have been unable to establish whether the Minister has received the report, whether the Government has had the opportunity to consider its contents and whether the report can be made public, so that there can be proper discussion about the situation regarding dyslexia in Wales.

Ar y pryd, comisiynodd Llywodraeth Cymru adroddiad hefyd gan Amanda Kirby o Ganolfan Dyscovery yng Nghaerdydd i edrych ar feincnodi ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru. Nid wyf wedi gallu cadarnhau a yw'r Gweinidog wedi cael yr adroddiad, a yw'r Llywodraeth wedi cael cyfle i ystyried ei gynnwys ac a oes modd i'r adroddiad gael ei gyhoeddi, fel y gellir cael trafodaeth briodol am y sefyllfa o ran dyslecsia yng Nghymru.

The British Dyslexia Association said at the time of the committee report that it would like to see every local authority in Wales become dyslexia-friendly by 2012, hence the main reason for this debate today. I look forward to hearing whether the Government feels that it has been able to make progress on this aspiration. Can the Government also tell us how far it is along the road of 50% of schools achieving the dyslexia-friendly quality mark by its target date of 2013, and the 100% mark target by 2016, as outlined by the Minister in his response to the Enterprise and Learning Committee report on the support for people with dyslexia in Wales.

Adeg cyhoeddi adroddiad y pwyllgor, dywedodd Cymdeithas Dyslecsia Prydain y byddai'n hoffi gweld pob awdurdod lleol yng Nghymru yn dod yn awdurdod dyslecsia-gyfeillgar erbyn 2012, a dyna'r prif reswm dros y ddadl hon heddiw. Edrychaf ymlaen at glywed a yw'r Llywodraeth yn teimlo ei bod wedi gallu gwneud cynnydd o ran y dyhead hwnnw. A all y Llywodraeth ddweud wrthym hefyd faint o gynnydd y mae wedi ei wneud o ran sicrhau bod 50% o ysgolion yn cyflawni'r marc safon ar gyfer bod yn ddyslecsia-gyfeillgar erbyn ei dyddiad targed, sef 2013, a sicrhau bod 100% o ysgolion yn cyflawni'r marc safon erbyn 2016, fel yr amlinellwyd gan y Gweinidog yn ei ymateb i adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu ar gymorth i bobl â dyslecsia yng Nghymru.

6.15 p.m.

Most of us are concerned about the position with respect to educational attainment. The Minister has outlined that there will be new literacy tests to raise standards of attainment

Mae'r rhan fwyaf ohonom yn pryderu am y sefyllfa o ran cyrhaeddiad addysgol. Mae'r Gweinidog wedi amlinellu y bydd profion llythrennedd newydd i godi safonau

in our schools. However, while these issues remain unaddressed for a period of three years or so, there are real concerns on the part of some of the people involved in provision for those with special educational needs that we are not actually identifying and diagnosing the condition, never mind ensuring that support services are in place.

cyrhaeddiad yn ein hysgolion. Fodd bynnag, gyda chyfnod o oddeutu tair blynedd wedi mynd heibio heb i'r materion hyn gael sylw, ceir pryderon go iawn ymysg rhai o'r bobl sy'n ymwneud â'r ddarpariaeth ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig nad ydym mewn gwirionedd yn adnabod ac yn diagnosio'r cyflwr, heb sôn am sicrhau bod gwasanaethau cymorth ar waith.

Today's debate is timely in that the Government has just embarked on a special educational needs consultation. I hope that, during the course of this debate, we will be updated on the progress the Government has made since its response to the committee report in 2008.

Mae'r ddadl heddiw yn amserol gan fod y Llywodraeth newydd ddechrau ar ymgynghoriad ynghylch anghenion addysgol arbennig. Gobeithio, yn ystod y ddadl hon, y byddwn yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed gan y Llywodraeth ers ei hymateb i adroddiad y pwyllgor yn 2008.

Rebecca Evans: I am grateful to Aled Roberts for bringing forward this important debate today. The Member has made some really important points about support for children and young people with dyslexia. However, I would like to focus my contribution on adults with the condition. One in 10 adults has dyslexia to some degree, but many are not diagnosed, and people often do not realise that the problems they are experiencing in the workplace or wider life are down to dyslexia. People with dyslexia may produce erratic work, appear forgetful and sometimes seem disorganised, and they can develop low self-esteem and anxiety because of their difficulties. However, the good news is that dyslexia is by no means a barrier to success. Being assessed for dyslexia is relatively simple, and a diagnosis can open the door to services and support, for example, support from learning support officers in further education. It can lead to extra support and adjustments in the workplace, too. It can offer an explanation for why someone is struggling, which, in itself, can be a real relief.

Rebecca Evans: Rwyf yn ddiolchgar i Aled Roberts am gyflwyno'r ddadl bwysig hon heddiw. Mae'r Aelod wedi gwneud rhai pwyntiau gwirioneddol bwysig am y cymorth i blant a phobl ifanc sydd â dyslecsia. Fodd bynnag, yn fy nghyfraniad i, hoffwn ganolbwyntio ar oedolion sydd â'r cyflwr. Mae gan un o bob 10 o oedolion ryw lefel o ddyslecsia, ond nid yw llawer ohonynt wedi cael diagnosis, ac yn aml nid yw pobl yn sylweddoli mai dyslecsia sydd i gyfrif am y problemau y maent yn dod ar eu traws yn y gweithle neu mewn bywyd yn fwy cyffredinol. Gall pobl sydd â dyslecsia gynhyrchu gwaith anghyson, gallant ymddangos yn anghofus ac yn anhrefnus weithiau, a gall eu hanawsterau beri iddynt golli hunan-barch a theimlo'n bryderus. Fodd bynnag, y newyddion da yw nad yw dyslecsia yn rhwystr i lwyddiant o gwbl. Mae cael asesiad ar gyfer dyslecsia yn gymharol syml, a gall diagnosis agor y drws i wasanaethau a chymorth, er enghraifft, cymorth gan swyddogion cymorth dysgu mewn addysg bellach. Gall arwain at gymorth ychwanegol ac addasiadau yn y gweithle hefyd. Gall egluro pam y mae rhywun yn cael trafferth, sy'n gallu bod yn rhyddhad mawr ynddo'i hun.

I would like to take this brief opportunity to urge all Assembly Members and the Welsh Government to continue to do what they can to raise awareness of dyslexia among adults with a view to increasing the number of people who are screened and diagnosed and

Hoffwn gymryd y cyfle byr hwn i annog holl Aelodau'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru i barhau i wneud yr hyn a allant i godi ymwybyddiaeth o ddyslecsia ymhlith oedolion, gyda'r bwriad o gynyddu nifer y bobl sy'n cael eu sgrinio a'u diagnosio a

increasing the support available for them.

Angela Burns: I thank Aled Roberts for bringing this debate forward today. I would like to build on something that Rebecca Evans said because one of the biggest problems is that, although many profoundly dyslexic children are picked up, put into the system and helped, the borderline children are so hard to identify. Deputy Minister, I am mindful of the pressure we put our young people under and of the fact that we do not have unlimited budgets. However, is there a way of looking at some kind of screening process when children are perhaps nine or 10 years old, whereby those who are perhaps not performing in an age-appropriate way may be gently taken out of the classroom and given some tests to see whether they are potentially dyslexic? As Rebecca Evans said, the real tragedy is that those people will go on to find it very difficult to fulfil their potential. We talk about the number of children who go from primary to secondary school who are not able to read in an age-appropriate way. For many of them, the cause could be mild dyslexia. They are the forgotten majority of those who are not identified with this condition. Could you give some thought to how we might be able to identify and test those children in order to help them if we can?

Rhodri Glyn Thomas: Rwyf innau am ddiolch i Aled Roberts am ddwyn y mater hwn i'n sylw ni. Mae'n fater eithriadol o bwysig ac rwy'n ategu'r cyfan a ddywedwyd ganddo, a Rebecca Evans ac Angela Burns, ynglŷn â'r materion hyn. Mae angen rhoi llawer iawn mwy o sylw i anghenion plant a phobl ifanc sydd â dyslecsia. Hoffwn wneud un cais i'r Dirprwy Weinidog, iddo hefyd edrych ar y ddarpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. Fe wnaeth Aled gyfeirio at hyn yn gynharach. Mae'r ddarpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn annigonol. Mae mudiad gwirfoddol wedi bod yn weithredol yn y maes hwn ac wedi gwneud gwaith arbennig o dda, ond mae angen cefnogaeth ariannol ar Dyslecsia Cymru er mwyn datblygu'r gwaith yn y maes hwn trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n bwysig bod y plant hynny sy'n derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn cael chynyddu'r cymorth sydd ar gael iddynt.

Angela Burns: Diolch i Aled Roberts am gyflwyno'r ddadl hon heddiw. Hoffwn adeiladu ar rywbeth a ddywedodd Rebecca Evans, oherwydd er bod llawer o blant sydd â dyslecsia difrifol iawn yn cael eu hadnabod, eu rhoi yn y system a'u helpu, un o'r problemau mwyaf yw ei bod mor anodd adnabod y plant sydd ar y ffin. Ddirprwy Weinidog, rwyf yn ymwybodol o'r pwysau yr ydym yn ei roi ar ein pobl ifanc a'r ffaith nad oes gennym gyllidebau diderfyn. Fodd bynnag, a oes ffordd o edrych ar ryw fath o broses sgrinio pan fydd plant yn naw neu'n 10 oed efallai, lle y gallai'r sawl nad ydynt efallai'n perfformio mewn ffordd sy'n briodol i'w hoedran gael eu tynnu allan o'r ystafell ddosbarth yn dawel bach a chael profion i weld a ydynt, o bosibl, yn ddyslecsig? Fel y dywedodd Rebecca Evans, y drasiedi go iawn yw y bydd y bobl hynny'n ei chael yn anodd iawn cyflawni eu potensial yn y dyfodol. Rydym yn sôn am nifer y plant sy'n mynd o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, nad ydynt yn gallu darllen mewn ffordd sy'n briodol i'w hoedran. I lawer ohonynt, mae'n bosibl mai ffurf ysgafn ar ddyslecsia fydd yn gyfrifol am hynny. Y rhain yw'r mwyafrif a gaiff ei anghofio, sef y sawl na chânt eu diagnosio â'r cyflwr hwn. A allech ystyried sut y gallem adnabod y plant hynny a rhoi profion iddynt, er mwyn eu helpu os gallwn?

Rhodri Glyn Thomas: I wish to thank Aled Roberts for bringing this issue to our attention. It is an extremely important issue and I endorse everything that has been said by him, Rebecca Evans and Angela Burns in relation to these matters. We need to pay much greater attention to the needs of children and young people with dyslexia. I would like to make one request of the Deputy Minister, that he also looks at the provision through the medium of Welsh. Aled mentioned this earlier. The provision through the medium of Welsh is insufficient. There is a voluntary organisation that has been active in this area and done very good work. However, Dyslexia Wales needs financial support in order to develop this area through the medium of Welsh. It is important that those children who receive their education through the medium of Welsh have the same

yr un lefel o wasanaeth â'r rhai sy'n cael eu haddysg trwy gyfrwng y Saesneg. Nid yw'n ddigon da i ddweud wrth blant o deuluoedd Cymraeg, neu blant sy'n dymuno cael eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg, bod yn rhaid iddynt dderbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Saesneg er mwyn cael y lefel uchaf o ddarpariaeth a gwasanaeth o ran y mater hwn.

level of service as those who receive their education through the medium of English. It is not good enough to tell children from Welsh-speaking families, or children who wish to receive their education through the medium of Welsh, that they have to receive their education through the medium of English in order to have the highest level of provision and service on this issue.

The Deputy Minister for Skills (Jeff Cuthbert): I welcome very much this short debate and I am grateful to Aled Roberts for bringing it forward. Dyslexia and other specific learning disabilities are of particular interest to me, because I am dyslexic. It is a condition that you do not shake off and you do not grow out of. You learn coping skills as you go through life, but when I was a young lad in school, which is more than 10 years ago now—I said 'more than'—it was a serious problem. It was not understood at my school in Cardiff. I failed the 11-plus twice, because I was at that awkward age, on my written English language work. Even now, words will suddenly jumble up, or apparently jumble up, in front of my eyes. I can spell some words today, but I will not be able to spell them tomorrow. That is not about misspelling, because we can all misspell, but about not even being able to see in your mind how the word is constructed, and that can be a simple word; it is not necessarily a complicated word. That is something that I am extremely familiar with at the most personal level possible and so this is an issue that I take great interest in and, indeed, I was a member of the Enterprise and Learning Committee that drew up the report that was referred to by Aled Roberts earlier.

Y Dirprwy Weinidog Sgiliau (Jeff Cuthbert): Rwyf yn croesawu'r ddadl fer hon yn fawr iawn, ac rwyf yn ddiolchgar i Aled Roberts am ei chyflwyno. Mae dyslecsia ac anableddau dysgu penodol eraill o ddiddordeb arbennig imi, gan fy mod innau'n ddyslecsig. Mae'n gyflwr na allwch gael gwared arno ac nad ydych yn ei golli wrth dyfu'n hŷn. Byddwch yn dysgu sgiliau ymdopi wrth ichi fynd trwy fywyd, ond pan oeddwn yn fachgen ifanc yn yr ysgol, dros 10 mlynedd yn ôl erbyn hyn—dywedais 'dros'—roedd yn broblem ddifrifol. Nid oedd fy ysgol yng Nghaerdydd yn ei ddeall. Methais yr arholiad 11-plus ddwywaith, am fy mod yn yr oedran lletchwith hwnnw, ar sail fy ngwaith ysgrifenedig Saesneg. Hyd yn oed yn awr, bydd geiriau yn cymysgu'n sydyn, neu'n ymddangos fel pe baent yn cymysgu'n sydyn, o flaen fy llygaid. Gallaf sillafu rhai geiriau heddiw, ond ni fyddaf yn gallu eu sillafu yfory. Nid oes a wnelo hynny â chamsillafu, oherwydd gall pob un ohonom gamsillafu, ond mae a wnelo â methu hyd yn oed â gweld yn eich meddwl sut y caiff y gair ei greu, a gall hwnnw fod yn air syml; nid yw'n air cymhleth o reidrwydd. Mae hynny'n rhywbeth yr wyf yn gyfarwydd iawn ag ef ar y lefel fwyaf personol posibl, ac felly mae hwn yn fater y mae gennyf ddiddordeb mawr ynddo. Yn wir, roeddwn yn aelod o'r Pwyllgor Menter a Dysgu a fu'n gyfrifol am lunio'r adroddiad y cyfeiriodd Aled Roberts ato'n gynharach.

The title of this debate, 'Dyslexia and Schools: Working Together to Make a Difference', is an interesting one and I have noted some of the issues that Aled Roberts has raised and will consider them further. However, let me set the context of responsibilities in relation to schools and Welsh Government policies. Local authorities have the responsibility to identify, assess and make provision for children and

Mae teitl y ddadl hon, 'Dyslecsia ac Ysgolion: Cydweithio i Wneud Gwahaniaeth', yn un diddorol. Rwyf wedi nodi rhai o'r materion y mae Aled Roberts wedi eu codi, a byddaf yn eu hystyried ymhellach. Fodd bynnag, gadewch imi osod y cyd-destun o safbwynt cyfrifoldebau ysgolion a pholisïau Llywodraeth Cymru. Mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb i adnabod ac asesu plant a phobl ifanc â

young people with dyslexia, as part of the statutory framework for special educational needs. The Welsh Government provides local authorities with funding via the revenue support grant to support their SEN provision. Once the revenue support grant has been distributed to local authorities, it is their responsibility to set delegated budgets for their schools and other educational establishments.

dyslecsia a darparu ar eu cyfer, yn rhan o'r fframwaith statudol ar gyfer anghenion addysgol arbennig. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i awdurdodau lleol drwy'r grant cynnal refeniw i gefnogi eu darpariaeth addysg anghenion arbennig. Wedi i'r grant cynnal refeniw gael ei ddosbarthu i awdurdodau lleol, eu cyfrifoldeb nhw yw pennu cyllidebau dirprwyedig ar gyfer eu hysgolion a sefydliadau addysgol eraill.

I would like to bring into the equation four issues of key importance and then make a statement on the proposed way forward for learners with specific learning difficulties. The key issues are the pre-legislative consultation launched by Leighton Andrews AM, the Minister for Education and Skills, on 26 June, the Welsh Government's policy on literacy, the Welsh Government's policy on teacher training, and regional consortia.

Hoffwn gyflwyno i'r hafaliad bedwar mater sydd o bwys allweddol, ac yna gwneud datganiad am y ffordd arfaethedig ymlaen ar gyfer dysgwyr sydd ag anawsterau dysgu penodol. Y materion allweddol yw'r ymgynghoriad cyn y broses ddeddfu, a lansiwyd gan Leighton Andrews AC, y Gweinidog Addysg a Sgiliau, ar 26 Mehefin, polisi Llywodraeth Cymru ar lythrennedd, polisi Llywodraeth Cymru ar hyfforddiant athrawon, a chonsortia rhanbarthol.

You may recall that Leighton Andrews made an oral statement on 26 June launching the pre-legislative consultation process and the consultation document that outlines how the Welsh Government intends to reform the law that currently applies to learners with special educational needs, including disabilities. The title of the document, 'Forward in partnership for children and young people with additional needs', was chosen to reflect the cross-cutting approach that this Government believes is required to support children, young people and their families, who frequently rely on help from more than one agency. For those with the most severe and/or complex needs, this may include education, social services, health and the third sector.

Efallai y cofiwch i Leighton Andrews wneud datganiad llafar ar 26 Mehefin i lansio'r broses ymgynghori cyn y broses ddeddfu, a'r ddogfen ymgynghori sy'n amlinellu sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu diwygio'r gyfraith sy'n berthnasol ar hyn o bryd i ddysgwyr ag anghenion addysgol arbennig, gan gynnwys anableddau. Cafodd teitl y ddogfen, 'Ymlaen mewn partneriaeth dros blant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol', ei ddewis i adlewyrchu'r dull trawsbynciol o weithredu y mae ei angen ym marn y Llywodraeth hon i gefnogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd, sy'n aml yn dibynnu ar gymorth gan fwy nag un asiantaeth. I'r rheini sydd â'r anghenion mwyaf difrifol a/neu gymhleth, gall hynny gynnwys addysg, gwasanaethau cymdeithasol, iechyd a'r trydydd sector.

Both the Minister for Education and Skills and the Minister for Health and Social Services put their names to the document and stated that, while the current system has undoubted strengths, it has been criticised as being too complex, bureaucratic and costly, and insufficiently child-centred or user friendly. We can utilise this unique opportunity to build on the best of the existing arrangements in order to develop a truly person-centred system, with the child, young person and their parents or carers as

Llofnododd y Gweinidog Addysg a Sgiliau a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ill dau y ddogfen gan ddweud, er bod gan y system bresennol gryfderau diamheuol, ei bod wedi'i beirniadu am fod yn rhy gymhleth, yn rhy fiwrocrataidd ac yn rhy gostus, ac am fod yn system nad yw'n canolbwyntio ddigon ar y plentyn a'i bod yn anodd ei defnyddio. Gallwn ddefnyddio'r cyfle unigryw hwn i adeiladu ar yr agweddau gorau ar y trefniadau presennol er mwyn datblygu system sy'n canolbwyntio'n

partners in the process.

wirioneddol ar yr unigolyn, gyda'r plentyn, y person ifanc a'i rieni neu ei ofalwyr yn bartneriaid yn y broses.

It is also important to strengthen existing partnerships between education, health and social services. Where this works well now, children and young people are able to receive person-centred support close to home, instead of being placed outside their home authority. It is also proposed that, wherever possible, there should be an integrated approach to assessment for children and young people, and one plan, known as the individual development plan, will replace or integrate the range of plans that a child might otherwise receive.

Mae hefyd yn bwysig cryfhau partneriaethau sy'n bodoli eisoes rhwng addysg, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Yn yr achosion lle y mae hynny'n gweithio yn dda erbyn hyn, gall plant a phobl ifanc gael cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn agos i'w cartref, yn lle cael eu lleoli y tu allan i'w hawdurdod cartref. Ble bynnag y bo modd, bwriedir hefyd cael dull integredig o asesu plant a phobl ifanc, a bydd un cynllun, a elwir yn gynllun datblygu unigol, yn cymryd lle neu'n integreiddio'r ystod o gynlluniau y gallai plentyn eu cael fel arall.

Previous policies have set the direction of travel, but we are now at a milestone in taking forward the reform of the legislative framework for additional needs. We believe that these developments represent a made-in-Wales approach to developing our framework for supporting those with additional needs and that they are another example of our placing the citizen at the centre of our programme of government. The consultation exercise will run until October.

Mae polisïau blaenorol wedi pennu'r cyfeiriad y bwriedir mynd iddo, ond yn awr rydym wedi cyrraedd carreg filltir o safbwynt bwrw ymlaen â diwygio'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer anghenion ychwanegol. Credwn fod y datblygiadau hyn yn cynrychioli dull a luniwyd yng Nghymru o ddatblygu ein fframwaith ar gyfer cefnogi'r sawl sydd ag anghenion ychwanegol, a chredwn eu bod yn enghraifft arall o'r modd yr ydym yn sicrhau bod y dinesydd yn ganolog i'n rhaglen lywodraethu. Bydd yr ymarfer ymgynghori yn para tan fis Hydref.

As you know, the national literacy programme is an important strand of this Government's policy to make a step change in the standards of literacy over the next five years. This programme will be reviewed on a regular basis in order to allow for new actions to be added, if they are needed, and for our plans to align with the best advice available. I will return to this point a little later.

Fel y gwyddoch, mae'r rhaglen lythrennedd genedlaethol yn elfen bwysig o bolisi'r Llywodraeth hon i sicrhau newid sylweddol mewn safonau llythrennedd dros y pum mlynedd nesaf. Bydd y rhaglen hon yn cael ei hadolygu'n rheolaidd er mwyn gallu ychwanegu camau gweithredu newydd, os oes eu hangen, ac er mwyn i'n cynlluniau gyd-fynd â'r cyngor gorau sydd ar gael. Byddaf yn dychwelyd at y pwynt hwn yn y man.

An important part of this debate is about teachers and their ability to teach and support all learners. From September 2012, newly qualified teachers will have the opportunity to follow a Master's programme alongside their induction and early professional development. I believe that the inclusion of a specific module on additional learning needs will strengthen future teaching skills and will provide a strong message that learners who have additional learning needs should have

Mae rhan bwysig o'r ddadl hon yn ymwneud ag athrawon a'u gallu i addysgu a chefnogi pob dysgwr. O fis Medi 2012 ymlaen, bydd athrawon newydd gymhwyso yn cael cyfle i ddilyn rhaglen Feistr ochr yn ochr â'u cyfnod sefydlu a'u datblygiad proffesiynol cynnar. Credaf y bydd cynnwys modiwl penodol ar anghenion dysgu ychwanegol yn cryfhau sgiliau addysgu yn y dyfodol ac yn cyfleu neges gref y dylai dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol gael addysg gynhwysol.

an inclusive education. We have already taken steps to ensure that there is a national, consistent approach to induction and early professional development, and a new, more rigorous structure for induction and EPD, which will include revised induction regulations that will be introduced in September 2012.

Rydym eisoes wedi cymryd camau i sicrhau dull gweithredu cyson a chenedlaethol ar gyfer trefniadau sefydlu a datblygiad proffesiynol cynnar, a strwythur newydd, mwy trylwyr ar gyfer trefniadau sefydlu a datblygiad proffesiynol cynnar, a fydd yn cynnwys rheoliadau diwygiedig ar gyfer trefniadau sefydlu, a gaiff eu cyflwyno ym mis Medi 2012.

My fourth key point is in relation to regional consortia. We recognise that working through a consortia approach adds value to what local authorities can achieve on their own, allowing them to share good practice, knowledge and skills, and to magnify strengths and build capacity. Funding has been made available via the school effectiveness grant budget for 2012-13. The guidance provided with this grant makes it quite clear that local authorities and consortia should focus on literacy, numeracy and reducing the impact of poverty on attainment. The Welsh Government has made available some £24 million, and the additional match funding from local authorities brings the total available to some £32 million. Additionally, through the pupil deprivation grant amounting to £32.4 million during this year, the Welsh Government is taking practical action to deliver better educational outcomes for our most disadvantaged children. This provides a real opportunity for consortia, local authorities and schools to target these resources where they will make the biggest impact for the most important person in the equation: the pupil.

Mae fy mhedwerydd pwynt allweddol yn ymwneud â chonsortia rhanbarthol. Rydym yn cydnabod bod gweithio drwy gonsortia yn ychwanegu gwerth at yr hyn y gall awdurdodau lleol ei gyflawni ar eu pen eu hunain, gan ganiatáu iddynt rannu arfer da, gwybodaeth a sgiliau, gwneud yn fawr o gryfderau a meithrin gallu. Mae cyllid wedi'i ddarparu eisoes drwy gyllideb y grant effeithiolrwydd ysgolion ar gyfer 2012-13. Mae'r canllawiau a ddarparwyd gyda'r grant hwn yn datgan yn gwbl glir y dylai awdurdodau lleol a chonsortia ganolbwyntio ar lythrennedd a rhifedd ac ar leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu tua £24 miliwn, ac mae'r arian cyfatebol ychwanegol gan awdurdodau lleol yn dod â'r cyfanswm sydd ar gael i ryw £32 miliwn. At hynny, drwy'r grant amddifadedd disgyblion, sy'n cyfateb i gyfanswm o £32.4 miliwn yn ystod eleni, mae Llywodraeth Cymru yn cymryd camau ymarferol i sicrhau gwell canlyniadau addysgol ar gyfer ein plant mwyaf difreintiedig. Mae hynny'n rhoi cyfle go iawn i gonsortia, awdurdodau lleol ac ysgolion dargedu'r adnoddau hyn at y mannau lle y byddant yn cael yr effaith fwyaf ar yr unigolyn pwysicaf yn yr hafaliad: y disgybl.

It may seem that I am restating policies that you are already aware of, but I am trying to set the scene and set out the foundations for the next development—it is one that I am particularly pleased to be announcing today. It has been agreed that a programme of action will now be taken in relation to specific learning difficulties, including dyslexia. More importantly, the programme of action is not going to be confined to school-age learners, as it is recognised that specific learning difficulties are a lifelong condition that can require interventions at different times during an individual's life, as highlighted by Rebecca Evans.

Hwyrach ei bod yn ymddangos fy mod yn ailddatgan polisïau yr ydych eisoes yn ymwybodol ohonynt, ond rwyf yn ceisio paratoi'r llwyfan a gosod y sylfeini ar gyfer y datblygiad nesaf—ac mae'n ddatblygiad yr wyf yn arbennig o falch o allu ei gyhoeddi heddiw. Cytunwyd y bydd rhaglen weithredu yn cael ei chyflwyno'n awr mewn perthynas ag anawsterau dysgu penodol, gan gynnwys dyslecsia. Yn bwysicach na hynny, ni fydd y rhaglen weithredu'n cael ei chyfyngu i ddysgwyr o oedran ysgol, gan ein bod yn cydnabod bod anawsterau dysgu penodol yn gyflwr gydol oes y gall fod angen ymyriadau ar ei gyfer ar wahanol adegau yn ystod

bywyd unigolyn, fel y nodwyd gan Rebecca Evans.

We have a number of firm recommendations, some of which will be developed as we go along in the light of experience. The key recommendation I wish to report today is that the Welsh Government will develop a framework for specific learning difficulties, which will provide guidance for all ages and stages of life. This framework could include guidance, tools and interventions for the individual, parents and carers, education establishments, employers, public employees and the general public. The first aspect to be addressed by the framework could be early intervention at primary level.

Mae gennym nifer o argymhellion pendant, y bydd rhai ohonynt yn cael eu datblygu yng ngoleuni profiad wrth inni fynd yn ein blaen. Yr argymhelliad allweddol yr wyf am adrodd yn ei gylch heddiw yw y bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu fframwaith ar gyfer anawsterau dysgu penodol, a fydd yn darparu canllawiau ar gyfer pob oedran a phob cyfnod mewn bywyd. Gallai'r fframwaith hwn gynnwys canllawiau, adnoddau ac ymyriadau ar gyfer yr unigolyn, rhieni a gofalwyr, sefydliadau addysg, cyflogwyr, gweithwyr yn y sector cyhoeddus a'r cyhoedd yn gyffredinol. Mae'n bosibl mai ymyrraeth gynnar ar lefel gynradd fydd yr agwedd gyntaf a fydd yn cael sylw gan y fframwaith.

6.30 p.m.

To drive this work forward will require a good mixture of professional knowledge, data and resources, and we know we do not have to reinvent wheels. There is a lot of rich material out there: lots of research—some of which has been referred to—lots of best practice, guidance and data. However, it is important that we focus on information that is relevant to Wales. We will be using the findings from a review that was undertaken following a recommendation of the former Education and Lifelong Learning Committee, which required that a review be undertaken of what provision for specific learning difficulties was available in each local authority. That benchmarking exercise and literature review has been considered in developing various strands of policy.

Er mwyn symud y gwaith hwn yn ei flaen, bydd angen cyfuniad da o wybodaeth broffesiynol, data ac adnoddau, ac rydym yn gwybod nad oes angen inni ailddyfeisio'r olwyn. Mae llawer o ddeunydd cyfoethog ar gael: llawer o ymchwil—y cyfeiriwyd at rywfaint ohono—llawer o arfer gorau, canllawiau a data. Fodd bynnag, mae'n bwysig inni ganolbwyntio ar wybodaeth sy'n berthnasol i Gymru. Byddwn yn defnyddio canfyddiadau adolygiad a gynhaliwyd yn dilyn argymhelliad gan yr hen Bwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes, a oedd yn gofyn am i adolygiad gael ei gynnal o'r ddarpariaeth a oedd yn bodoli ar gyfer anawsterau dysgu penodol ym mhob awdurdod lleol. Mae'r ymarfer meincnodi hwnnw a'r arolwg llenyddiaeth hwnnw wedi'u hystyried wrth ddatblygu amryw linynnau polisi.

This information provides a baseline for consideration and highlights that there are tools that have been developed for individual specific learning needs, including dyslexia, but it has been noted that there are some concerns regarding different entry and exit points to provision, and only a few tools have been developed to assess Welsh speakers. Therefore we intend to set up a task group to assess existing and/or develop new resources for dyslexia in English and Welsh as

Mae'r wybodaeth hon yn rhoi llinell sylfaen i'w hystyried ac yn dangos bod adnoddau wedi eu datblygu ar gyfer anghenion dysgu penodol unigol, gan gynnwys dyslecsia, ond nodwyd bod rhai pryderon ynghylch gwahanol bwyntiau ar gyfer cael mynediad i ddarpariaeth ac ymadael â hi, ac mai dim ond ychydig o adnoddau sydd wedi'u datblygu i asesu siaradwyr Cymraeg. Felly, rydym yn bwriadu sefydlu grŵp gorchwyl i asesu adnoddau presennol a/neu ddatblygu

required.

adnoddau newydd ar gyfer dyslecsia yn Gymraeg a Saesneg yn ôl y gofyn.

The task group, which will be led by the support for learners division, will consist of key external stakeholders and officials from the Department for Education and Skills. The work of this group will ensure links are made with policy across the departments and focus specifically on identifying appropriate actions within the national literacy programme, employability policies and support, and refining data collection for specific learning difficulties to enable better comparative data for all ages and stages. We have made an excellent start and have recently published our first data set in the pupil-level annual school census, but we need to do more.

Bydd y grŵp gorchwyl, a fydd yn cael ei arwain gan yr is-adran cymorth i ddysgwyr, yn cynnwys rhanddeiliaid allanol allweddol a swyddogion o'r Adran Addysg a Sgiliau. Bydd gwaith y grŵp hwn yn sicrhau bod cysylltiadau'n cael eu llunio â pholisi ar draws yr adrannau, a bydd yn canolbwyntio'n benodol ar nodi camau gweithredu priodol o fewn y rhaglen lythrennedd genedlaethol, polisïau cyflogadwyedd a chymorth, ac ar fireinio gwaith casglu data ar gyfer anawsterau dysgu penodol er mwyn cael gwell data cymharol ar gyfer pob oedran a chyfnod. Rydym wedi gwneud dechrau rhagorol arni, ac yn ddiweddar bu inni gyhoeddi ein set ddata gyntaf yn y cyfrifiad ysgolion blynyddol ar lefel disgyblion, ond mae angen inni wneud mwy.

I trust you will welcome this announcement. There is much to do and the framework for all ages and stages now provides a unique opportunity to join up the journey for people with specific learning difficulties, and to pursue the evidence for an overlap between developmental disorders and learning difficulties. While that has been well documented in recent years, it is still not always considered when planning services in school or into employment. Angela Burns mentioned the importance of establishing early identification of dyslexia and, no doubt, other conditions. An example of how we do not learn using isolated skills can be seen in a child who has difficulties writing notes down from the board in class. That requires visual skills, short-term memory, fine motor skills, literacy skills, language skills, attention, balance and motivation. If assessments only consider one or two of these skill areas and not the others, it may mean that the other elements are not considered, not measured, and if measured, not used as part of the planning process for supporting that individual in education or into the workplace.

Hyderaf y byddwch yn croesawu'r cyhoeddiad hwn. Mae llawer o waith i'w wneud, ac mae'r fframwaith ar gyfer pob oedran a chyfnod bellach yn darparu cyfle unigryw i gydgysylltu'r daith ar gyfer pobl sydd ag anawsterau dysgu penodol, a chwilio am dystiolaeth o orgyffwrdd rhwng anhwylderau'n gysylltiedig â datblygiad ac anawsterau dysgu. Er i lawer gael ei ysgrifennu am hynny yn ystod y blynyddoedd diwethaf, nid yw bob amser yn cael ei ystyried wrth gynllunio gwasanaethau yn yr ysgol neu wrth symud i gyflogaeth. Crybwyllodd Angela Burns bwysigrwydd adnabod dyslecsia, a chyflyrau eraill, mae'n siŵr, yn gynnar. Mae meddwl am blentyn sy'n cael trafferth copïo nodiadau o'r bwrdd yn yr ystafell ddosbarth yn dangos nad ydym yn defnyddio sgiliau unigol wrth ddysgu. Mae gwneud hynny'n gofyn am sgiliau gweld, cof tymor byr, sgiliau echddygol manwl, sgiliau llythrennedd, sgiliau iaith, sylw, cydbwysedd a chymhelliant. Os yw asesiadau'n ystyried un neu ddau o'r meysydd sgiliau hynny ond nid y gweddill, gall olygu nad yw'r elfennau eraill yn cael eu hystyried na'u mesur, ac os na chânt eu mesur, ni chânt eu defnyddio yn rhan o'r broses gynllunio ar gyfer cefnogi'r unigolyn mewn addysg neu wrth symud i'r gweithle.

This is an important factor that needs to be taken into account and will be taken into

Mae hwn yn ffactor pwysig y mae angen ei ystyried, a bydd y grŵp gorchwyl yn ei

account by the task group. Therefore, a programme of action for all ages and all stages of life will be the focus of work in relation to specific learning difficulties. We intend to go further than schools working together: the framework will engage with all education establishments and ensure that we all work together to support learners who have specific learning difficulties.

ystyried. Felly, bydd rhaglen weithredu ar gyfer pob oedran a phob cyfnod mewn bywyd yn ffocws ar gyfer gwaith mewn perthynas ag anawsterau dysgu penodol. Rydym yn bwriadu mynd ymhellach na sicrhau cydweithio rhwng ysgolion: bydd y fframwaith yn ymwneud â phob sefydliad addysg ac yn sicrhau ein bod i gyd yn gweithio gyda'n gilydd i gefnogi dysgwyr sydd ag anawsterau dysgu penodol.

I trust you will welcome this programme of action and recognise the opportunity it brings for those who have learning difficulties, their family and friends, and the fact that it will provide an opportunity for educators, employers and the public to understand and support learners also. Having a learning difficulty should not be life-limiting. Sometimes a simple adaption to how information or instructions are provided can make a real difference. The interventions are not necessarily expensive, but they require investment—investment by people to support people.

Hyderaf y byddwch yn croesawu'r rhaglen weithredu hon ac yn cydnabod y cyfle y mae'n ei gynnig i'r sawl sydd ag anawsterau dysgu, eu teuluoedd a'u ffrindiau, a'r ffaith y bydd yn rhoi cyfle i addysgwyr, cyflogwyr a'r cyhoedd ddeall a chefnogi dysgwyr hefyd. Ni ddylai anhawster dysgu gyfyngu ar fywyd unigolyn. Weithiau, gall cymryd cam syml i addasu'r modd y caiff gwybodaeth neu gyfarwyddiadau eu darparu wneud gwahaniaeth go iawn. Nid yw'r ymyriadau o reidrwydd yn ddrud, ond maent yn gofyn am fuddsoddiad—buddsoddiad gan bobl i gefnogi pobl.

The Deputy Presiding Officer: That brings today's proceedings to a close.

Y Dirprwy Lywydd: Daw hynny â thrafodion heddiw i ben.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.34 p.m.
The meeting ended at 6.34 p.m.

Aelodau a'u Pleidiau
Members and their Parties

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
Antoniw, Mick (Llafur – Labour)
Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
Chapman, Christine (Llafur – Labour)
Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
Davies, Alun (Llafur – Labour)
Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Byron (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Davies, Keith (Llafur – Labour)
Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Suzy (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Drakeford, Mark (Llafur – Labour)
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Evans, Rebecca (Llafur – Labour)
Finch-Saunders, Janet (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
George, Russell (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gething, Vaughan (Llafur – Labour)
Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gregory, Janice (Llafur – Labour)
Griffiths, John (Llafur – Labour)
Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)

Gruffydd, Llyr Huws (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Hart, Edwina (Llafur – Labour)
Hedges, Mike (Llafur – Labour)
Hutt, Jane (Llafur – Labour)
Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
James, Julie (Llafur – Labour)
Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ann (Llafur – Labour)
Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Lewis, Huw (Llafur – Labour)
Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Morgan, Julie (Llafur – Labour)
Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
Parrott, Eluned (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Powell, William (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Price, Gwyn R. (Llafur – Labour)
Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Rathbone, Jenny (Llafur – Labour)
Rees, David (Llafur – Labour)
Roberts, Aled (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Sandbach, Antoinette (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
Skates, Kenneth (Llafur – Labour)
Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Thomas, Simon (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Watson, Joyce (Llafur – Labour)
Whittle, Lindsay (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)